# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 14/07/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Cyhoeddi Adroddiad Flynn
3. Statement: Publication of the Flynn Report

4. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)
4. Statement: Introduction of the Tax Collection and Management (Wales) Bill

5. Dadl ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-2016
5. Debate on the First Supplementary Budget 2015-2016

6. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015
6. The Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 2015

7. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
7. Debate on the General Principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

8. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
8. Debate on the Financial Resolution of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

9. Cyfnod Pleidleisio
9. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is from John Griffiths

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan John Griffiths.

### Strategaeth Wastraff Llywodraeth Cymru

### The Welsh Government's Waste Strategy

13:30

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2413(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's waste strategy? OAQ(4)2413(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The waste strategy is set out in 'Towards Zero Waste', published in June 2010, and it sets out our ambition to achieve a high-recycling, low-carbon economy and progress towards zero waste by 2050.

Gwnaf. Mae'r strategaeth wastraff wedi ei chyflwyno yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, ac mae'n nodi ein huchelgais i sicrhau economi ailgylchu uchel, carbon isel a chynnydd tuag at ddim gwastraff erbyn 2050.

Senedd.tv Fideo Video

13:30 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Welsh Government's collections blueprint is being reviewed following a recommendation from the Environment and Sustainability Committee. If that review confirms that kerbside sort is the best method to achieve high-quality recyclate, high-quality materials from the recycling collections, will you seek to ensure that that is the method that's used across Wales?

Brif Weinidog, mae glasbrint casgliadau Llywodraeth Cymru yn cael ei adolygu yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Os bydd yr adolygiad hwnnw'n cadarnhau mai didoli wrth ymyl y ffordd yw'r ffordd orau o sicrhau deunyddiau eildro o ansawdd uchel o'r casgliadau ailgylchu, a wnewch chi geisio sicrhau mai dyna'r dull a ddefnyddir ledled Cymru?

Senedd.tv
Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We'd like to see increased consistency of service across Wales. Currently, of course, the decision on which collection system to adopt is down to individual local authorities, and any change to this position would need careful consideration in the light of the blueprint review. Of course, I don't want to pre-empt the findings of that review at this point.

Hoffem weld mwy o gysondeb o ran gwasanaethau ledled Cymru. Ar hyn o bryd, wrth gwrs, awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar ba system gasglu i'w mabwysiadu, a byddai angen ystyried unrhyw newid i'r sefyllfa hon yn ofalus yng ngoleuni'r adolygiad glasbrint. Wrth gwrs, nid wyf eisiau rhagweld canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ar hyn o bryd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:31 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, cyhoeddodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd adroddiad ar ailgylchu yng Nghymru ym mis Rhagfyr y llynedd, ac fe wnaeth y pwyllgor saith o argymhellion pwysig iawn. O ystyried bod yr argymhellion yma i gyd wedi'u derbyn neu wedi'u derbyn mewn egwyddor gan eich Llywodraeth chi, a allwch chi enwi un argymhelliad o'r adroddiad hwn sydd bellach wedi ei weithredu?

First Minister, the Environment and Sustainability Committee published a report on recycling in Wales in December of last year, and the committee made seven very important recommendations. Given that all of these recommendations were accepted or accepted in principle by your Government, can you name one recommendation from that report which has now been implemented?

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n fater, wrth gwrs, i awdurdodau lleol. Beth sy'n bwysig yw nad ydynt yn cymysgu popeth gyda'i gilydd. Rŷm ni'n gwybod os ydyn nhw'n gwneud hynny nad oes llawer o werth i'r cynnyrch sydd yna. Nawr, beth sy'n bwysig yw bod awdurdodau lleol yn gallu gwneud y penderfyniadau sydd yn iawn i'w hardaloedd nhw, wrth gofio'r ffaith bod yna sawl gwahaniaeth ffordd o ddelio â'r gwastraff ar draws Cymru. Beth sy'n bwysig yw ein bod ni'n parhau i ailgylchu mwy, ac mae hynny'n ymddangos yn y ffigurau rŷm ni wedi eu gweld dros ddegawd, nawr.

It is a matter, of course, for the local authorities. What's important is that they shouldn't mix everything together. We know that, if they do that, there isn't very much value to the recycling product. Now, what is important is that local authorities are able to make decisions that are right for their areas, bearing in mind the fact that there are many alternative ways of dealing with waste across Wales. What is important is that we continue to recycle more, and that has been reflected in the figures that we've seen over the past decade.

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Rwy'n siŵr y byddem ni i gyd yn gefnogol o'r egwyddor o Gymru sero gwastraff, ond onid yw hynny yn amlygu ffolineb polisi eich Llywodraeth chi o fuddsoddi degau o filiynau o bunnau mewn llosgi gwastraff ar gyfer ynni, oherwydd petai'r polisi ar wastraff yn llwyddo, yna byddai dim byd ar ôl i'w losgi?

I'm sure we would all be supportive of the principle of having a zero-waste Wales, but doesn't that highlights the foolishness of your Government's policy in investing tens of millions of pounds in incinerating waste for energy? If the policy on waste were successful, there would be nothing left to incinerate?

Senedd.tv
Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hwnnw'n naïf iawn, achos byddai hynny'n meddwl y byddai rhyw fath o reolaeth lwyr gyda chi ynglŷn ag ym mha ffordd y mae nwyddau yn cael eu 'package-o', ac nid felly y mae pethau ar hyn o bryd. Dyna beth yw'r broblem. Rŷm ni'n gorfod delio gyda beth sy'n codi yng Nghymru—y gwastraff sy'n codi yng Nghymru. Rŷm ni'n ffaelu â delio â beth sy'n cael ei werthu yng Nghymru. So, felly, mae mynd at gael sero gwastraff yn rhywbeth sy'n gorfod cael ei wneud ar o leiaf lefel Ewropeaidd, os nad lefel byd-eang.

That is very naïve, because that would mean that you would have some kind of control over how goods are packaged, and that is not the way things stand at the moment. That's the problem. We have to deal with what arises in Wales—the waste that we have in Wales. We can't deal with what is being sold in Wales. So, therefore, approaching zero waste is something that has to be done at a European level at least, if not a world-wide level.

Senedd.tv
Fideo Video

13:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last month, the Welsh Government waived a £0.5 million fine for the City of Cardiff Council for their failure to meet its recycling targets on the basis that they had a credible plan to improve and meet the requirements under your waste strategy. Can you tell me was privatising the waste and recycling services of the city of Cardiff part of the plan you approved?

Brif Weinidog, y mis diwethaf, hepgorodd Llywodraeth Cymru ddirwy o £0.5 miliwn i Gyngor Dinas Caerdydd am ei fethiant i gyrraedd ei dargedau ailgylchu ar y sail bod ganddo gynllun credadwy i wella a bodloni'r gofynion o dan eich strategaeth wastraff. A allwch chi ddweud wrthyf pa un a oedd preifateiddio gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu dinas Caerdydd yn rhan o'r cynllun a gymeradwywyd gennych?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It's a matter for Cardiff how it organises its waste and recycling services. What is important is that it meets its targets in the future, and we'll be monitoring that situation very closely.

Mater i Gaerdydd yw sut y mae'n trefnu ei gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Yr hyn sy'n bwysig yw ei bod yn cyrraedd ei thargedau yn y dyfodol, a byddwn yn monitro'r sefyllfa honno'n agos iawn.

## Trydaneiddio'r Prif Linell rhwng Llundain ac Abertawe

## Electrification of the Main Line between London and Swansea

13:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch trydaneiddio'r brif linell rhwng Llundain ac Abertawe? OAQ(4)2403(FM)*

*2. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the electrification of the main line between London and Swansea? OAQ(4)2403(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government has restated its commitment to the project. We have reiterated to the UK Government that the main line must be delivered in line with the original announcements, given the importance of the project for Wales, and that does mean electrification to Cardiff by 2017 and Swansea by 2018.

Mae Llywodraeth y DU wedi ailddatgan ei hymrwymiad i'r prosiect. Rydym ni wedi ail-bwysleisio i Lywodraeth y DU bod yn rhaid i'r brif reilffordd gael ei chyflwyno'n unol â'r cyhoeddiadau gwreiddiol, o gofio pwysigrwydd y prosiect i Gymru, ac mae hynny'n golygu trydaneiddio i Gaerdydd erbyn 2017 ac Abertawe erbyn 2018.

13:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. In replies to Baroness Randerson in the House of Lords, Lord Ahmad of Wimbledon stated that the chair of Network Rail is putting forward proposals for re-planning the enhancement programme and reporting to the Secretary of State in the autumn. Can I ask whether the Welsh Government has been part of the discussions that will lead to that report?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mewn ymatebion i'r Farwnes Randerson yn Nhŷ'r Arglwyddi, dywedodd yr Arglwydd Ahmad o Wimbledon bod cadeirydd Network Rail yn cyflwyno cynigion ar gyfer ail-gynllunio'r rhaglen wella ac yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr hydref. A gaf i ofyn a yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a fydd yn arwain at yr adroddiad hwnnw?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We expect the UK Government to deliver on its promises. The Prime Minister was absolutely clear that he would deliver on this, and he mentioned the timescale. The Chancellor of the Exchequer mentioned it in his budget speech. We expect that timescale to be kept to. It's not a matter for discussion or for debate. The promise was made of 2017 to Cardiff and 2018 to Swansea. We expect that promise to be kept.

Rydym ni'n disgwyl i Lywodraeth y DU gyflawni ei haddewidion. Roedd Prif Weinidog y DU yn gwbl eglur y byddai'n cyflawni hyn, a soniodd am yr amserlen. Soniodd Canghellor y Trysorlys amdani yn ei araith ar y gyllideb. Rydym yn disgwyl iddynt gadw at yr amserlen honno. Nid yw'n fater i'w drafod na'i ddadlau. Gwnaed yr addewid o 2017 i Gaerdydd a 2018 i Abertawe. Rydym ni'n disgwyl i'r addewid hwnnw gael ei gadw.

13:35

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Does the First Minister think that the overspend on Network Rail's five-year programme—which, it seems, was known before the general election, but not revealed—will impact on the Welsh access route into Heathrow, which is very important, along with electrification?

A yw'r Prif Weinidog yn credu bod y gorwario ar raglen pum mlynedd Network Rail—a oedd, mae'n ymddangos, yn hysbys cyn yr etholiad cyffredinol, ond na ddatgelwyd—yn effeithio ar lwybr mynediad Cymru i Heathrow, sy'n bwysig iawn, ynghyd â thrydaneiddio?

13:35

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the Member's right to point out there's a question as to whether this was known to the UK Government, and they chose not to make the situation public before the general election, for reasons best known to themselves. But it is not clear at the moment what this means for projects in Wales or that affect Wales, particularly of course the spur from Heathrow. We know how important that is to traffic from south Wales, particularly, and the ability to use Heathrow airport.

Wel, mae'r Aelod yn iawn i nodi bod cwestiwn ynghylch pa un a oedd hyn yn hysbys i Lywodraeth y DU, a'u bod wedi dewis peidio â gwneud y sefyllfa'n gyhoeddus cyn yr etholiad cyffredinol, am resymau y maen nhw'n eu gwybod orau. Ond nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth mae hyn yn ei olygu i brosiectau yng Nghymru, neu sy'n effeithio ar Gymru, yn enwedig, wrth gwrs, y gainc o Heathrow. Rydym ni'n gwybod pa mor bwysig yw hynny i draffig o dde Cymru, yn enwedig, a'r gallu i ddefnyddio maes awyr Heathrow.

13:35

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, your Minister for Economy, Science and Transport stated last week that she hoped the new rail franchise would bring rail improvements to Swansea and further west. We have a once-in-a-generation chance to improve the transport infrastructure on the back of electrification. South-east Wales is getting the metro. What improvements can people in my region expect?

Brif Weinidog, dywedodd eich Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yr wythnos diwethaf ei bod yn gobeithio y byddai'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd yn dod â gwelliannau rheilffyrdd i Abertawe ac ymhellach i'r gorllewin. Mae gennym gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i wella'r seilwaith trafnidiaeth ar gefn trydaneiddio. Mae'r de-ddwyrain yn cael y metro. Pa welliannau all pobl yn fy rhanbarth i eu disgwyl?

13:36

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, we know, for example, that, since the single franchise across Wales was created, there's been much better integration of services, both east-west and north-south. Of course, for the first time, when franchising is next agreed, the Welsh Government will have a far stronger role, in terms of how the franchise is agreed and how rail services are then provided. We expect, of course, then, to be able to continue with the good work that's being done in integrating services further west with the rest of the network.

Wel, rydym ni'n gwybod, er enghraifft, ers creu'r fasnachfraint sengl ledled Cymru, y bu integreiddiad llawer gwell o wasanaethau, o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gogledd i'r de. Wrth gwrs, am y tro cyntaf, pan gaiff masnachfreintio ei gytuno nesaf, bydd gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth lawer cryfach, o ran sut y cytunir ar y fasnachfraint a sut mae gwasanaethau rheilffordd yn cael eu darparu wedyn. Rydym ni'n disgwyl wedyn, wrth gwrs, gallu parhau â'r gwaith da sy'n cael ei wneud o ran integreiddio gwasanaethau ymhellach i'r gorllewin gyda gweddill y rhwydwaith.

13:36

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, Network Rail has details on its website about the modernisation plan with electrification, consultation with local people with regard to bridges, and any changes that will take place. I notice there's been consultation in Newport and Monmouthshire, with regard to bridge changes there, but, in Llanharan, it seems that the bridge will be totally removed, and that's causing some concern to local people. Is there anything that you've had by means of an update on this particular issue?

Brif Weinidog, mae gan Network Rail fanylion ar ei wefan am y cynllun moderneiddio gyda thrydaneiddio, ymgynghori â phobl leol o ran pontydd, ac unrhyw newidiadau a fydd yn cael eu gwneud. Sylwaf y bu ymgynghori yng Nghasnewydd a Sir Fynwy, o ran newidiadau i bontydd yno, ond, yn Llanharan, mae'n ymddangos y byddant yn cael gwared ar y bont yn gyfan gwbl, ac mae hynny'n peri rhywfaint o bryder i bobl leol. A oes unrhyw beth yr ydych chi wedi ei gael o ran gwybodaeth ddiweddaraf am y mater penodol hwn?

13:37

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No, but we would expect Network Rail to conduct the work they need to conduct on the bridges as quickly as possible, and with the least disruption possible. It's inevitable, with electrification, there will be some disruption, with some of the bridges, but, certainly, we expect that work to be carried out in a peremptory fashion.

Nac oes, ond byddem yn disgwyl i Network Rail wneud y gwaith y mae angen iddyn nhw ei wneud ar y pontydd cyn gynted â phosibl, a chyda cyn lleied o darfu â phosibl. Mae'n anochel, gyda thrydaneiddio, y bydd rhywfaint o darfu, ar rai o'r pontydd, ond, yn sicr, rydym ni'n disgwyl i'r gwaith hwnnw gael ei wneud mewn ffordd derfynol.

Senedd.tv Fideo Video

13:37

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

The importance of electrification is not only the shortening of the journey times, but the message it sends to potential investors. Will the First Minister continue to press the economic case for the electrification of the main line to Swansea?

Pwysigrwydd trydaneiddio yw nid yn unig byrhau'r amseroedd teithio, ond y neges y mae'n ei anfon i ddarpar fuddsoddwyr. A wnaiff y Prif Weinidog barhau i bwyso'r achos economaidd dros drydaneiddio'r brif reilffordd i Abertawe?

Senedd.tv Fideo Video

13:37

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. The Member and I are in exactly the same place on this. He will recall that, when the UK Government decided that it would not electrify to Swansea, we were in the vanguard of making the call that it should. When the UK Government took the view that it would not electrify between Cardiff and Bridgend—for reasons best known to itself—but further west, from Bridgend to Swansea, we were in the vanguard of holding the Prime Minister to his promise that electrification would take place as far as Swansea.

Yn bendant. Mae'r Aelod a minnau o'r un safbwynt yn union ar hyn. Bydd yn cofio, pan benderfynodd Llywodraeth y DU na fyddai'n trydaneiddio i Abertawe, ein bod ar flaen y gad o wneud yr alwad y dylai wneud hynny. Pan roedd Llywodraeth y DU o'r farn na fyddai'n trydaneiddio rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr—am resymau y maen nhw eu hunain yn eu gwybod orau—ond ymhellach i'r gorllewin, o Ben-y-bont ar Ogwr i Abertawe, roeddem ni ar flaen y gad o ran cadw'r Prif Weinidog i'w addewid y byddai trydaneiddio'n digwydd cyn belled ag Abertawe.

Senedd.tv Fideo Video

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

13:38

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, the disposal of land by the Welsh Government to help regeneration was a critical part of providing a fund that could regenerate large parts of Wales. I appreciate the report is embargoed and not due to come forward until tomorrow, but, in your opinion, do you believe that the disposal attracted good value for money for the Welsh taxpayer?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, roedd Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar dir i helpu adfywio yn rhan hanfodol o ddarparu cronfa a allai adfywio rhannau helaeth o Gymru. Rwy'n sylweddoli bod yr adroddiad dan embargo ac na ddisgwylir iddo gael ei gyhoeddi tan yfory, ond, yn eich barn chi, a ydych chi'n credu bod cael gwared ar y tir wedi sicrhau gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As the leader of the opposition says, the report is due to come before Members tomorrow, and Members will, of course, have the opportunity to consider it.

Fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn dweud, disgwylir i'r adroddiad ddod gerbron yr Aelodau yfory, a bydd cyfle, wrth gwrs, i'r Aelodau ei ystyried.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question was quite simple. Because you've obviously, as a Government, disposed of this land, I was merely seeking your view. This is the last time we will meet at First Minister's questions for eight weeks, it is. You obviously have taken a view as a Government, because you disposed of this land. I'm not asking you to prejudge the report, because it's not coming forward till tomorrow morning. So, what I'm merely trying to elicit from you is: did you believe that it provided good value for money? I'm assuming you did; otherwise, as a Government, you wouldn't have sanctioned the disposal of that land. So, I put the question again: do you believe it provided good value for money to the Welsh taxpayer, the disposal of these very valuable pieces of potentially developable land?

Roedd y cwestiwn yn eithaf syml. Oherwydd rydych chi'n amlwg, fel Llywodraeth, wedi cael gwared ar y tir hwn, y cwbl roeddwn i'n ei wneud oedd gofyn am eich barn. Dyma'r tro diwethaf y byddwn ni'n cyfarfod yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog am wyth wythnos, rwy'n credu. Mae'n amlwg eich bod wedi mabwysiadu safbwynt fel Llywodraeth, gan eich bod wedi cael gwared ar y tir hwn. Nid wyf yn gofyn i chi ragfarnu'r adroddiad, gan nad yw'n cael ei gyhoeddi tan bore fory. Felly, y cwbl rwy'n ceisio ei ddarganfod gennych chi yw: a oeddech chi'n credu ei fod wedi sicrhau gwerth da am arian? Rwy'n tybio eich bod chi; fel arall, fel Llywodraeth, ni fyddech wedi caniatáu'r broses o gael gwared ar y tir hwnnw. Felly, gofynnaf y cwestiwn eto: a ydych chi'n credu ei fod wedi sicrhau gwerth da am arian i drethdalwyr Cymru, cael gwared ar y darnau gwerthfawr iawn hyn o dir, y gellid eu datblygu o bosibl?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it's a question, of course, that the leader of the opposition is perfectly entitled to ask, but I don't think it's fair to other Members, until such time as they've seen the entire report and will wish to ask their own questions, to try to identify certain issues in the report and deal with them today. It's right to say that Members should have the opportunity tomorrow to deal with the issue.

Wel, mae'n gwestiwn, wrth gwrs, y mae gan arweinydd yr wrthblaid berffaith hawl i'w ofyn, ond nid wyf yn credu ei bod yn deg i'r Aelodau eraill, tan y byddant wedi gweld yr adroddiad cyfan ac yn dymuno gofyn eu cwestiynau eu hunain, i geisio nodi materion penodol yn yr adroddiad ac ymdrin â nhw heddiw. Mae'n iawn i ddweud y dylai'r Aelodau gael cyfle yfory i ymdrin â'r mater.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I find that a very perplexing answer. You've obviously disposed of this land, so someone, somewhere decided it did have value for money for the Welsh taxpayer, because, otherwise, was there no ministerial oversight? Okay, let's take it to the next stage. If the report does identify a lack of ministerial oversight, because ultimately, it would've had to be sanctioned—and I've used the word 'if', so I'm not trying to prejudge anything, and we're not meeting for eight weeks at First Minister's questions—will you take action against those Ministers, if they are currently sitting in the Government, who have proved not to return value to the Welsh taxpayer by disposing of valuable Welsh Government assets?

Rwy'n meddwl bod hwnna'n ateb dryslyd iawn. Rydych chi'n amlwg wedi cael gwared ar y tir hwn, felly penderfynodd rhywun yn rhywle ei fod yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Cymru, oherwydd, fel arall, a fu trosolwg gweinidogol o gwbl? Iawn, gadewch i ni fynd ag ef i'r cam nesaf. Os bydd yr adroddiad yn nodi diffyg trosolwg gweinidogol, oherwydd yn y pen draw, byddai wedi bod rhaid ei ganiatáu—ac rwyf wedi defnyddio'r gair 'os', felly nid wyf yn ceisio rhagfarnu unrhyw beth, ac nid ydym ni'n cyfarfod am wyth wythnos ar gyfer cwestiynai i'r Prif Weinidog—a wnewch chi gymryd camau yn erbyn y Gweinidogion hynny, os ydyn nhw'n rhan o'r Llywodraeth ar hyn o bryd, y profwyd nad ydynt wedi sicrhau gwerth i drethdalwyr Cymru trwy gael gwared ar asedau gwerthfawr Llywodraeth Cymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have to say I believe that Members of this Assembly as a whole should have the opportunity to ask questions on this tomorrow, and rightly so. The report has to be taken as a whole. As a Government, we will, of course, respond to that report and any recommendations it might make.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n credu y dylai Aelodau'r Cynulliad hwn yn ei gyfanrwydd gael cyfle i ofyn cwestiynau am hyn yfory, ac mae hynny'n briodol. Mae'n rhaid ystyried yr adroddiad yn ei gyfanrwydd. Fel Llywodraeth, byddwn, wrth gwrs, yn ymateb i'r adroddiad hwnnw ac unrhyw argymhellion y gallai eu gwneud.

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, medical professionals are increasingly saying that the link between children's health and sugary drinks has created an obesity time bomb. It's estimated that unhealthy diets cause 70,000 premature deaths every year. This affects people who live in poverty more, of course. Now, as you know, Plaid Cymru proposes a levy on sugary drinks, and we welcome the support for that from a growing number of individuals and organisations, including the British Medical Association. Rather than ridicule our proposals, isn't it now time for you to perform a u-turn and back Plaid Cymru on this?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae gweithwyr meddygol proffesiynol yn dweud yn gynyddol bod y cyswllt rhwng iechyd plant a diodydd llawn siwgr wedi creu bom amser o ran gordewdra. Amcangyfrifir bod deietau afiach yn achosi 70,000 o farwolaethau cynamserol bob blwyddyn. Mae hyn yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn tlodi, wrth gwrs. Nawr, fel y gwyddoch, mae Plaid Cymru yn cynnig treth ar ddiodydd llawn siwgr, ac rydym ni'n croesawu'r gefnogaeth i hynny gan nifer gynyddol o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys Cymdeithas Feddygol Prydain. Yn hytrach na gwawdio ein cynigion, onid yw hi'n amser erbyn hyn i chi wneud tro pedol a chefnogi Plaid Cymru ar hyn?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, there are three issues here. Firstly, is the issue of whether there should be more tax on sugary drinks, and I think that has merit, I must say. But, there are two other issues: first of all, we don't have the powers to do it, which is one of the issues, of course, that Plaid Cymru have not really fully dealt with; and secondly, it's this issue, which I have raised in this Chamber, that, if you raise a tax with the intention of reducing a particular form of behaviour, you will inevitably reduce the amount of money that is taken in that tax. If you hypothecate it for a particular purpose, it's inevitable that the amount of money available for that particular purpose will drop. So, the disagreement that I have with her is that if she says she's going to hypothecate a tax and it's going to pay for, as she put it, 1,000 extra doctors a year, it's going to come from an ever-decreasing pot of money. That's the problem of hypothecation. If you have sin taxes—and smoking is one area that's taxed heavily—she will notice that it's not hypothecated, for the obvious reason that it provides an ever-decreasing amount of money to pay for a particular policy.

Wel, ceir tri mater yma. Y cyntaf yw'r mater o ba un a ddylai fod mwy o dreth ar ddiodydd llawn siwgr, ac rwy'n meddwl bod rhinwedd i hynny, mae'n rhaid imi ddweud. Ond, ceir dau fater arall: yn gyntaf oll, nid yw'r pwerau gennym ni i wneud hynny, sef un o'r problemau, wrth gwrs, nad yw Plaid Cymru wedi ymdrin â nhw'n llawn; ac yn ail, y mater hwn, yr wyf wedi ei godi yn y Siambr hon, os byddwch chi'n codi treth gyda'r bwriad o leihau math penodol o ymddygiad, mae'n anochel y byddwch yn lleihau faint o arian sy'n cael ei dderbyn drwy'r dreth honno. Os ydych chi'n ei glustnodi at ddiben penodol, mae'n anochel y bydd y swm o arian sydd ar gael at y diben penodol hwnnw'n gostwng. Felly, yr anghytundeb sydd gennyf â hi yw os yw hi'n dweud ei bod hi'n mynd i glustnodi treth a'i bod yn mynd i dalu, fel y dywedodd, am 1,000 o feddygon ychwanegol y flwyddyn, mae'n mynd i ddod o bot o arian sy'n lleihau'n barhaus. Dyna broblem clustnodi. Os oes gennych chi drethi pechod—ac mae ysmygu'n un maes sy'n cael ei drethu'n drwm—bydd yn sylwi nad yw wedi'i glustnodi, am y rheswm amlwg ei fod yn darparu symiau arian sy'n lleihau'n barhaus i dalu am bolisi penodol.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

But that's not the question I asked you, and the arguments that you are putting are arguments against taxing cigarettes, alcohol, and carrier-bag usage. It's well established that you tax to disincentivise behaviour, and the link between ill health and poverty among children has been highlighted further in the media today. First Minister, a staggering 70 per cent difference exists between death rates among children living in the most deprived areas compared to the most wealthy. If you're not prepared to take a policy change as the one that I have proposed this afternoon, what other policy changes are you prepared to make in the light of today's unacceptable revelations?

Ond nid dyna'r cwestiwn a ofynnais i chi, ac mae'r dadleuon yr ydych chi'n eu gwneud yn ddadleuon yn erbyn trethu sigaréts, alcohol, a defnydd o fagiau siopa. Mae wedi ei hen sefydlu eich bod yn trethu i anghymell ymddygiad, ac amlygwyd y cysylltiad rhwng iechyd gwael a thlodi ymhlith plant ymhellach yn y cyfryngau heddiw. Brif Weinidog, ceir gwahaniaeth anhygoel o 70 y cant rhwng cyfraddau marwolaethau ymhlith plant sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'u cymharu â'r mwyaf cyfoethog. Os nad ydych chi'n barod i dderbyn newid polisi fel yr un yr wyf wedi ei gynnig y prynhawn yma, pa newidiadau polisi eraill ydych chi'n barod i'w gwneud yng ngoleuni datgeliadau annerbyniol heddiw?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think if we had the power to introduce such a tax, it might be something that we could look at. I'm not in disagreement with her on that, particularly. What I do think she has wrong is this idea that you can take an ever-decreasing pot of money to pay for the same policy year after year. It doesn't work out. She's right to say, of course, there are sin taxes, but the point is this: taxes on cigarettes and alcohol are not hypothecated for a particular purpose—with good reason. Because you're trying to dissuade behaviour, the tax take drops over the years. If your tax take drops, the amount of money you have to pay for a particular policy is bound to drop as well. So, it's the hypothecation that her party has wrong.

Rwy'n credu pe byddai'r pŵer gennym ni i gyflwyno treth o'r fath, y gallai fod yn rhywbeth y gallem ni ei ystyried. Nid wyf yn anghytuno â hi am hynny, yn arbennig. Yr hyn rwy'n credu y mae'n anghywir yn ei gylch yw'r syniad yma y gallwch chi gymryd pot o arian sy'n lleihau'n barhaus i dalu am yr un polisi flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nid yw'n gweithio. Mae hi'n iawn i ddweud, wrth gwrs, bod trethi pechod, ond y pwynt yw hyn: nid yw trethi ar sigaréts ac alcohol wedi'u clustnodi ar gyfer diben arbennig—am reswm da. Gan eich bod chi'n ceisio anghymell ymddygiad, mae faint o dreth a dderbynnir yn gostwng dros y blynyddoedd. Os yw faint o dreth yr ydych chi'n ei derbyn yn gostwng, mae'r swm o arian sydd gennych chi i dalu am bolisi penodol yn siŵr o ostwng hefyd. Felly, y clustnodi sy'n anghywir gan ei phlaid.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

First Minister, we've never talked about hypothecation. I welcome your u-turn on this, and I'm glad now that you've had a change of heart. First Minister, overcoming poverty is the greatest challenge facing our country, and its impact on health outcomes is well known. We must give support to, and defend, those people who are living with poverty. Now, we know that you were at war with your party leader on limiting financial support to families with children, so what is your Government planning to do to defend those people who will suffer from regressive Tory policies, backed by the support of your old boss?

Brif Weinidog, nid ydym erioed wedi siarad am glustnodi. Rwy'n croesawu eich tro pedol ar hyn, ac rwy'n falch nawr eich bod wedi newid eich meddwl. Brif Weinidog, trechu tlodi yw'r her fwyaf sy'n wynebu ein gwlad, ac mae ei effaith ar ganlyniadau iechyd yn hysbys. Mae'n rhaid i ni roi cefnogaeth i'r bobl hynny sy'n byw gyda thlodi a'u hamddiffyn. Nawr, rydym ni'n gwybod eich bod chi mewn brwydr gydag arweinydd eich plaid ar gyfyngu cymorth ariannol i deuluoedd â phlant, felly beth mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i amddiffyn y bobl hynny a fydd yn dioddef o bolisïau Torïaidd atchweliadol, gyda chefnogaeth eich hen feistr?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I mean, there are a number of questions. First of all, I've just heard the most stunning public u-turn that I've ever heard from any party leader in this Chamber. It will come as news to all of us—even those on her own benches, from the expression on their faces—that, somehow, the 'pop tax', as it's been called, was not meant to be hypothecated. The whole point was—and she's said it time after time after time in this Chamber—it was going to pay for a certain number of doctors. All of a sudden, there's been a complete u-turn and that's no longer the case. I welcome it, because it shows that it was a fallacy to begin with and it shows the shallow ground on which that policy was actually based. She makes the point about benefits. She and I are in much the same position on that; that much I agree with her. I wonder if she's in the same position as her parliamentary leader when it comes to fox hunting, given what Jonathan Edwards has said on that. [Interruption.] I know their blushes have been spared by the fact that the Conservatives have run away from having a debate on that. But she makes a serious point—[Interruption.]

Wel, hynny yw, mae nifer o gwestiynau. Yn gyntaf oll, rwyf i newydd glywed y tro pedol cyhoeddus mwyaf trawiadol yr wyf erioed wedi ei glywed gan arweinydd unrhyw blaid yn y Siambr hon. Bydd yn newyddion i bob un ohonom ni—hyd yn oed y rhai ar ei meinciau ei hun, o'r olwg ar eu hwynebau—nad oedd, y 'dreth pop', fel y'i galwyd, i fod i gael ei chlustnodi. Yr holl bwynt—ac mae hi wedi dweud hynny dro ar ôl tro ar ôl tro yn y Siambr hon—oedd ei bod yn mynd i dalu am nifer benodol o feddygon. Yn sydyn, bu tro pedol llwyr ac nid yw hynny'n wir mwyach. Rwy'n croesawu hynny, gan ei fod yn dangos ei fod yn gamgymeriad i gychwyn ac mae'n dangos ar dir ba mor sigledig yr oedd y polisi hwnnw wedi ei seilio mewn gwirionedd. Mae hi'n gwneud y pwynt am fudd-daliadau. Rwyf i a hithau o'r un safbwynt o ran hynny; rwy'n cytuno gyda hi ar gymaint â hynny. Tybed a yw hi o'r un safbwynt â'i harweinydd seneddol pan ddaw i hela llwynogod, o ystyried yr hyn y mae Jonathan Edwards wedi ei ddweud am hynny. [Torri ar draws.] Gwn eu bod wedi osgoi cywilydd oherwydd y ffaith fod y Ceidwadwyr wedi rhedeg i ffwrdd oddi wrth cael dadl ar hynny. Ond mae hi'n gwneud pwynt difrifol— [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order.

Trefn, trefn.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and that is this: how do we ensure that those people who have been targeted by this UK Government are helped? We saw from the budget last week—it was a budget that had young people in its sights—a so-called living wage that was not a living wage, and not introduced to those under 25, who, for some reason, are not affected by the living wage, and attacks on housing benefits, attacks on student grants and attacks on student maintenance. It was a blatant attack on young people within the UK. We as a Government are, as we always have been, ready to do what we can to defend our people against what are unfair and unjust cuts. We saw £50 million removed from the Welsh budget. Imagine how many consultants, how many hospital beds, how many nurses could have been employed if the Tories hadn't pinched that money from the people of Wales.

[Yn parhau.]—sef hwn: sut ydym ni'n sicrhau bod y bobl hynny sydd wedi cael eu targedu gan Lywodraeth hon y DU yn cael eu helpu? Gwelsom o'r gyllideb yr wythnos diwethaf—roedd yn gyllideb â phobl ifanc yn ei golygon—rhywbeth a elwir yn gyflog byw nad oedd yn gyflog byw, ac nid yn cael ei gyflwyno i'r rhai iau na 25 oed, nad ydynt, am ryw reswm, yn cael eu heffeithio gan y cyflog byw, ac ymosodiadau ar fudd-daliadau tai, ymosodiadau ar grantiau ac ymosodiadau ar gynhaliaeth myfyrwyr. Roedd yn ymosodiad amlwg ar bobl ifanc yn y DU. Rydym ni fel Llywodraeth, fel yr ydym ni wedi bod erioed, yn barod i wneud yr hyn a allwn i amddiffyn ein pobl rhag yr hyn sy'n doriadau annheg ac anghyfiawn. Gwelsom £50 miliwn yn cael ei thynnu o gyllideb Cymru. Dychmygwch faint o feddygon ymgynghorol, faint o welyau ysbyty, faint o nyrsys y gellid bod wedi eu cyflogi pe na bai'r Torïaid wedi bachu'r arian hwnnw oddi wrth bobl Cymru.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know it's the last session before the recess, but I don't want you shouting enough for the whole of the eight weeks that you're not going to be here.

Rwy'n gwybod mai hon yw'r sesiwn olaf cyn y toriad, ond nid wyf eisiau i chi gweiddi digon ar gyfer yr holl wyth wythnos na fyddwch chi yma.

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, figures collected by the Welsh Liberal Democrats this week have revealed that, since 2012, 10,395 official staff complaints have been made to health board bosses in Wales about a lack of qualified staff available. In Cardiff, the number of complaints in 2014 alone was the equivalent of 12 per cent of the total number of staff working at that health board. Do you consider this level of complaints to be acceptable?

Brif Weinidog, mae ffigurau a gasglwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yr wythnos hon wedi datgelu, ers 2012, bod 10,395 o gwynion staff swyddogol wedi eu gwneud i benaethiaid byrddau iechyd yng Nghymru am y diffyg staff cymwysedig sydd ar gael. Yng Nghaerdydd, roedd nifer y cwynion dim ond yn 2014 yn cyfateb i 12 y cant o gyfanswm nifer y staff sy'n gweithio yn y bwrdd iechyd hwnnw. A ydych chi'n credu bod y lefel hon o gwynion yn dderbyniol?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's worth noting that the reported level of incidents represents a small percentage of total reported incidents. The overwhelming majority of reported incidents are incidents that lead to no harm. It's worth pointing out as well that there are more doctors, more nurses, more midwives, more paramedics and more dental staff working in the Welsh NHS today than there were 10 years ago, and that, since 1999, the total number of staff working in the Welsh NHS has increased by a third. I know she has an interest in the issue, given the Bill that she's promoted to the Assembly, and I know that the Minister has written to her with a view to offering another meeting as to how that Bill might be taken forward on a basis that's satisfactory to all.

Wel, mae'n werth nodi bod y lefel y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn cynrychioli canran fechan o gyfanswm y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt. Mae'r mwyafrif llethol o ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ddigwyddiadau nad ydynt yn arwain at niwed. Mae'n werth nodi hefyd bod mwy o feddygon, mwy o nyrsys, mwy o fydwragedd, mwy o barafeddygon a mwy o staff deintyddol yn gweithio yn y GIG yng Nghymru heddiw nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl, ac, ers 1999, bod cyfanswm nifer y staff sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru wedi cynyddu o draean. Gwn fod ganddi ddiddordeb yn y mater, o gofio'r Bil y mae wedi ei hyrwyddo i'r Cynulliad, a gwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu ati gyda'r bwriad o gynnig cyfarfod arall ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â'r Bil hwnnw ar sail sy'n foddhaol i bawb.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am aware that there have been increases in staff, but, as you remind me on a weekly basis as a reason why you can’t meet your own health targets, demand is also rising. Surely it cannot be acceptable to you that your staff working in the Welsh NHS are repeatedly telling—repeatedly telling—their managers that they don’t have enough colleagues around them to cope. That’s significant, because we do know that there is a link between staffing levels and patient outcomes. A recent report for the English NHS revealed a significant relationship between the number of nurses on duty in hospitals and 40 indicators of patient care outcomes. Therefore, given that evidence in England, do you regret, as I do, the decision by the English NHS to stop the National Institute for Health and Care Excellence’s work in this area that demonstrates the evidence for safe staffing levels, a decision that has been criticised by Robert Francis, nursing unions and workforce experts?

Brif Weinidog, rwy’n ymwybodol y bu cynnydd i nifer y staff, ond, fel rydych chi’n fy atgoffa i bob wythnos fel rheswm pam na allwch chi gyrraedd eich targedau iechyd eich hun, mae'r galw hefyd yn cynyddu. Siawns nad yw’n dderbyniol i chi bod eich staff sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru yn dweud wrth eu rheolwyr dro ar ôl tro—yn dweud dro ar ôl tro—nad oes ganddyn nhw ddigon o gydweithwyr o'u cwmpas i ymdopi. Mae hynny'n bwysig, gan ein bod yn gwybod bod cysylltiad rhwng lefelau staffio a chanlyniadau cleifion. Datgelodd adroddiad diweddar ar gyfer y GIG yn Lloegr berthynas arwyddocaol rhwng nifer y nyrsys ar ddyletswydd mewn ysbytai a 40 o ddangosyddion o ganlyniadau gofal cleifion. Felly, o ystyried y dystiolaeth honno yn Lloegr, a ydych chi’n difaru, fel yr wyf i, y penderfyniad gan y GIG yn Lloegr i roi terfyn ar waith y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn y maes hwn sy'n dangos y dystiolaeth ar gyfer lefelau staffio diogel, penderfyniad sydd wedi ei feirniadu gan Robert Francis, undebau nyrsio ac arbenigwyr gweithlu?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. There are many questions, of course, for the UK Government to answer about the English NHS. We want, of course, to make sure that the NHS is staffed at a safe and sustainable level, as does she. As I said, we are aware of the Bill that she has promoted in the Assembly and, as I say, I know the Minister is keen to discuss that matter further with her.

Ydw, mi ydwyf. Ceir llawer o gwestiynau, wrth gwrs, i Lywodraeth y DU eu hateb am y GIG yn Lloegr. Rydym ni eisiau, wrth gwrs, gwneud yn siŵr bod y GIG yn cael ei staffio ar lefel ddiogel a chynaliadwy, fel hithau. Fel y dywedais, rydym ni’n ymwybodol o'r Bil y mae hi wedi ei hyrwyddo yn y Cynulliad ac, fel y dywedais, gwn fod y Gweinidog yn awyddus i drafod y mater hwnnw ymhellach gyda hi.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Talking about NHS England’s decision on staffing guidance, NICE’s clinical director, Professor Baker, said:

Wrth sôn am benderfyniad GIG Lloegr ar ganllawiau staffio, dywedodd cyfarwyddwr clinigol NICE, yr Athro Baker:

‘I think the reason they don’t want it is, if you don’t like the answer to the question, you don’t ask the question’.

Rwy'n meddwl mai’r rheswm nad ydyn nhw ei eisiau yw, os nad ydych chi’n hoffi'r ateb i'r cwestiwn, nid ydych chi’n gofyn y cwestiwn.

In Wales, First Minister, would you agree with me that we must not be afraid to ask that question? In looking to promote safe staffing levels, firstly in the nursing profession, will you work with me and the health Minister to ensure that Wales is the first part of the UK to take this agenda seriously, as parts of Australia announced this week, and to ensure that we have safe nurse staffing levels on our wards, with a view to introducing that, potentially, to other sectors of the NHS workforce?

Yng Nghymru, Brif Weinidog, a fyddech chi’n cytuno â mi bod yn rhaid i ni beidio ag ofni gofyn y cwestiwn hwnnw? Wrth geisio hybu lefelau staffio diogel, yn y proffesiwn nyrsio yn gyntaf, a wnewch chi weithio gyda mi a'r Gweinidog iechyd i sicrhau mai Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU i roi ystyriaeth ddifrifol i’r agenda hon, fel y cyhoeddodd rhannau o Awstralia yr wythnos hon, ac i sicrhau bod gennym lefelau staffio nyrsys diogel ar ein wardiau, gyda golwg ar gyflwyno hynny, o bosibl, i sectorau eraill o weithlu'r GIG?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The leader of the Liberal Democrats is right to say that we should not be afraid of asking that question. She will know that the committee looking at her Bill did raise a number of issues that need to be resolved and, as I say, the Minister and she will be able to meet in the near future to see how and whether such a resolution can be achieved.

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn iawn i ddweud na ddylem ni ofni gofyn y cwestiwn hwnnw. Bydd hi’n gwybod bod y pwyllgor sy’n edrych ar ei Bil wedi codi nifer o broblemau y mae angen eu datrys ac, fel y dywedais, bydd y Gweinidog a hithau’n gallu cyfarfod yn y dyfodol agos i weld sut ac a oes modd cyflawni datrysiad o’r fath.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Russell George.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Russell George.

### Buddsoddiad yn GIG Cymru

### Investment in the Welsh NHS

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad yn GIG Cymru? OAQ(4)2411(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on investment in the Welsh NHS? OAQ(4)2411(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, investing in our health service is a priority for the Welsh Government, as reflected in our budget for 2015-16.

Wel, mae buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, fel yr adlewyrchir yn ein cyllideb ar gyfer 2015-16.

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. In last week's budget, the Chancellor confirmed an additional £8 billion for the NHS, underpinning the importance of the NHS to the UK Government. Given the Welsh Government's record-breaking cuts to the Welsh NHS, will you confirm that the health service in Wales will benefit fully from the Barnett consequential in full?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Yn y gyllideb yr wythnos diwethaf, cadarnhaodd y Canghellor £8 biliwn ychwanegol ar gyfer y GIG, gan bwysleisio pwysigrwydd y GIG i Lywodraeth y DU. O ystyried y toriadau mwyaf erioed i'r GIG yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a wnewch chi gadarnhau y bydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn elwa'n llawn ar swm canlyniadol Barnett yn llawn?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, let's see it, because there is no sign of the money, I can promise you that now. It's lofty rhetoric, but no delivery yet from the UK Government. I would take him and his party more seriously if they had stood up for Wales and resisted the £50 million-worth of cuts that their own party imposed on Wales—£50 million that could have been spent on doctors or nurses or hospital wards; £50 million that could have been spent on the NHS in Wales, which has now been pocketed by the Conservative Party and the Chancellor.

Wel, gadewch i ni ei weld, gan nad oes unrhyw arwydd o'r arian, gallaf addo hynny i chi nawr. Rhethreg aruchel yw hyn, ond dim darpariaeth eto gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn ei gymryd ef a'i blaid fwy o ddifrif pe baen nhw wedi sefyll yn gadarn dros Gymru a gwrthwynebu gwerth £50 miliwn o doriadau a orfodwyd ar Gymru gan eu plaid eu hunain—£50 miliwn y gellid bod wedi ei wario ar feddygon neu nyrsys neu wardiau ysbyty; £50 miliwn y gellid bod wedi ei wario ar y GIG yng Nghymru, sydd bellach wedi cael ei bocedu gan y Blaid Geidwadol a'r Canghellor.

13:51 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government, on the other hand, has ring-fenced more than £20 million to support 1,600-plus people who receive the independent living fund in Wales, whilst the UK Government closed the nationwide scheme last month. First Minister, do you agree with me that, as well as record investment in the NHS, spending on social care will save us money in the long run as people are supported to live independently?

Mae Llywodraeth Cymru, ar y llaw arall, wedi clustnodi mwy nag £20 miliwn i gefnogi 1,600 a mwy o bobl sy'n derbyn y gronfa byw'n annibynnol yng Nghymru, tra bod Llywodraeth y DU wedi cau'r cynllun cenedlaethol y mis diwethaf. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi, yn ogystal â'r buddsoddiad mwyaf erioed yn y GIG, y bydd gwariant ar ofal cymdeithasol yn arbed arian i ni yn y tymor hir wrth i bobl gael eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. Health and social care run together. We know you cannot separate them both. We know social care has been absolutely wrecked in England—[Interruption.]—absolutely wrecked in England by the Conservatives—

Yn sicr. Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn mynd law yn llaw. Rydym ni'n gwybod na allwch chi wahanu'r ddau. Rydym ni'n gwybod bod gofal cymdeithasol wedi cael ei ddifetha'n llwyr yn Lloegr—[Torri ar draws.]—wedi'i ddifetha'n llwyr yn Lloegr gan y Ceidwadwyr—

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Can we have a little less noise so we can hear what the First Minister is saying? Apologies, First Minister. Carry on.

A allwn ni gael ychydig yn llai o sŵn fel y gallwn ni glywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud? Ymddiheuriadau, Brif Weinidog. Ewch ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know these answers are inconvenient to them, Presiding Officer, but the reality is that we know that health and social care spending in Wales is 5 per cent higher per head than in England, and so his party can hang their heads in shame.

Rwy'n gwybod bod yr atebion hyn yn anghyfleus iddyn nhw, Lywydd, ond y gwir amdani yw ein bod yn gwybod bod gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru 5 y cant yn uwch y pen nag yn Lloegr, ac felly gall ei blaid fod yn llawn cywilydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

First Minister, Plaid Cymru does believe that a pop tax could provide a useful revenue stream into the NHS. Andy Burnham, in the recent general election, promised to hypothecate a levy on cigarette makers to fund more staff in the NHS. Is that a hypothecation that you supported?

Brif Weinidog, mae Plaid Cymru yn credu y gallai treth bop gynnig ffrwd refeniw ddefnyddiol i'r GIG. Addawodd Andy Burnham, yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, i glustnodi treth ar wneuthurwyr sigaréts i ariannu mwy o staff yn y GIG. A yw hwnnw'n achos o glustnodi a gefnogwyd gennych?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. I don’t think hypothecation works in those circumstances either. She seemed to be suggesting that she was in a different place there from her own leader when it came to the pop tax—

Nac ydy. Nid wyf yn credu bod clustnodi’n gweithio dan yr amgylchiadau hynny chwaith. Roedd yn ymddangos ei bod yn awgrymu bod ganddi wahanol safbwynt i’w harweinydd ei hun o ran y dreth bop—

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

No, you seem to be suggesting that you’re in a different place to your leader—

Na, mae'n ymddangos eich bod chi’n awgrymu bod gennych chi wahanol safbwynt i’ch arweinydd—

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—but is it hypothecated or not? I was asked a specific question: did I agree with hypothecation in terms of a levy on cigarette manufacturers. The answer is ‘no’. That doesn’t mean I don’t agree with a levy, but I think it’s dangerous to have hypothecation for what is an ever-decreasing tax pot. That doesn’t make sense.

[Yn parhau.]—ond a yw wedi’i glustnodi ai peidio? Gofynnwyd cwestiwn penodol i mi: a ydw i’n cytuno â’r clustnodi o ran treth ar weithgynhyrchwyr sigaréts. Yr ateb yw 'nac ydw'. Nid yw hynny'n golygu nad wyf yn cytuno â threth, ond rwy’n meddwl ei bod yn beryglus clustnodi o ran yr hyn sy’n bot treth sy’n lleihau’n barhaus. Nid yw hynny'n gwneud synnwyr.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

So, Andy Burnham’s policy is dangerous.

Felly, mae polisi Andy Burnham yn beryglus.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I don’t agree with what he said.

Wel, nid wyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

First Minister, you don’t have to respond to questions when people are seated. If they’re not standing up, they’re not asking a question, so they don’t deserve an answer. William Powell.

Brif Weinidog, nid oes yn rhaid i chi ymateb i gwestiynau pan fydd pobl yn eistedd. Os nad ydynt yn sefyll ar eu traed, dydyn nhw ddim yn gofyn cwestiwn, felly nid ydynt yn haeddu ateb. William Powell.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. First Minister, Powys Health and Wellbeing Action Group very much appreciates your Government's support in their ongoing work to develop a wellbeing park in the grounds of Bronllys Hospital. Indeed, this Friday sees the official opening of the veterans garden, which has already been widely enjoyed by ex-service personnel. The action group is making real headway towards setting up a community benefit organisation. However, it would be much easier and progress would be greatly accelerated if the Welsh Government could consider seconding an appropriate officer to support their multifaceted work. First Minister, in this context, will you commit to discussing this matter with your Cabinet colleague the Minister for Health and Social Services so as to explore fully the potential that Bronllys park has to be a showcase for innovative care of UK and international status?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae Grŵp Gweithredu Iechyd a Lles Powys yn gwerthfawrogi cefnogaeth eich Llywodraeth yn fawr iawn yn ei waith parhaus i ddatblygu parc lles ar dir Ysbyty Bronllys. Yn wir, agorir gardd y cyn-filwyr yn swyddogol y dydd Gwener hwn, sydd eisoes wedi ei mwynhau'n helaeth gan gyn-filwyr. Mae'r grŵp gweithredu yn gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at sefydlu mudiad budd cymunedol. Fodd bynnag, byddai'n llawer haws a byddai cynnydd yn cael ei gyflymu'n fawr pe gallai Llywodraeth Cymru ystyried dirprwyo swyddog priodol i gefnogi ei waith amlochrog. Brif Weinidog, yn y cyd-destun hwn, a wnewch chi ymrwymo i drafod y mater hwn gyda'ch cydweithiwr yn y Cabinet, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn archwilio'n llawn y potensial sydd gan barc Bronllys i fod yn llwyfan ar gyfer gofal arloesol o statws y DU a rhyngwladol?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I will do that, and I'll ask the Minister to write to the Member with an update.

Gwnaf, mi wnaf i hynny, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at yr Aelod gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

### Dyfodol Ynni Gwynt ar y Tir

### The Future of Onshore Wind Energy

13:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol ynni gwynt ar y tir yng Nghymru? OAQ(4)2407(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the future of onshore wind energy in Wales? OAQ(4)2407(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 18 Mehefin ei bod yn rhoi terfyn cynnar ar y cymorth rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy i ynni gwynt ar y tir, mae'r rhagolygon ar gyfer prosiectau yng Nghymru yn ymddangos yn ansicr.

Well, following the UK Government announcement on 18 June to close the renewables obligation support for onshore wind early, the outlook for projects in Wales looks uncertain.

13:55 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rŷch chi'n berffaith iawn, Brif Weinidog—maen nhw yn edrych yn ansicr. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad, mi wnaeth Weinidog yr Alban mynnu cyfarfod â Gweinidog y Deyrnas Unedig. Mi gafwyd y cyfarfod, wedyn roedd cyfarfod pellach wedi'i drefnu gyda'r cymunedau, buddsoddwyr a busnesau a fydd yn dioddef yn sgil y penderfyniad, a hefyd, wrth gwrs, mae yna uwch-gynhadledd frys yn cael ei chynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn hon. Mi ysgrifennais i atoch chi ryw bythefnos yn ôl yn gofyn beth oedd ymateb Llywodraeth Cymru, mewn cymhariaeth. Rwy'n aros am yr ateb hwnnw, felly efallai y gallech chi ymhelaethu'r prynhawn yma er mwyn esbonio sut y byddech chi'n ymateb i'r penderfyniad yna ac yn sefyll cornel Cymru.

You are quite right, First Minister—they certainly do look uncertain. In response to the announcement, the Minister in Scotland insisted on a meeting with the UK Minister. That meeting was held, and a further meeting has been arranged with the communities, the investors and the businesses that will suffer as a result of this decision. Also, of course, an emergency summit is to be held later this year. I wrote to you about a fortnight ago, asking what the Welsh Government's response was in comparison. I'm still awaiting that response, so perhaps you could expand on that this afternoon in order to explain how you will respond to that decision and how you will stand up for Wales?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae yna lythyr wedi mynd at Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae yna gyfarfod heddiw i wrando ar gonsýrn busnesau yn enwedig, ac, wrth gwrs, rŷm ni'n rhannu'r pryder y gallai hyn feddwl na fydd digon o drydan yn y pen draw—dyna beth yw'r broblem fan hyn. Gyda'r penderfyniad hwn a'r penderfyniad ynglŷn â chelloedd ffotofoltäig, ar hyn o bryd nid yw'n amlwg iawn o le bydd trydan yn dod yn y degawd nesaf.

A letter has been sent to the United Kingdom Government, and a meeting is to be held today to listen to the concerns of businesses in particular, and, of course, we share the concern that this could meant that there won't be sufficient electricity at the end of the day. That's the problem in this regard. So, as to this decision and the decision concerning photovoltaic cells, it's not very evident currently as to where we will get electricity from in the next decade.

13:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, this announcement by the UK Government to curtail the subsidies for onshore wind has had an early and direct result in terms of the job losses at Mabey Bridge. Would you agree with me that, just a few months into this UK Tory Government, we see the green rhetoric already fading into history and that they simply do not understand the importance of a green economy? And, that will cost all of the UK dear, including Wales, in terms of job losses and lack of progress.

Brif Weinidog, mae'r cyhoeddiad hwn gan Lywodraeth y DU i gwtogi'r cymorthdaliadau ar gyfer gwynt ar y tir wedi cael canlyniad cynnar ac uniongyrchol o ran colli swyddi yn Mabey Bridge. A fyddech chi'n cytuno â mi, dim ond ychydig fisoedd i mewn i Lywodraeth Doriaidd y DU hon, ein bod yn gweld y rhethreg werdd eisoes yn pylu i'r gorffennol ac nad ydynt yn deall pwysigrwydd economi werdd? A, bydd hynny'n costio'n ddrud i'r DU, gan gynnwys Cymru, o ran colli swyddi a diffyg cynnydd.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

A hundred jobs lost in a Conservative-held constituency; yes, that's right. I think it reminds us all that there are, in fact, livelihoods at stake here as a result of knee-jerk decisions that are taken by the UK Government. The Member's quite right to point that out.

Colli cant o swyddi mewn etholaeth Geidwadol; ie, mae hynny'n gywir. Rwy'n credu ei fod yn ein hatgoffa i gyd, mewn gwirionedd, bod bywoliaeth pobl yn y fantol yn y fan yma o ganlyniad i benderfyniadau difeddwl sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Mae'r Aelod yn gwbl gywir i dynnu sylw at hynny.

There are other examples, as well, that are unclear at the moment, in terms of what it means for our carbon emissions. One of the vaguest references I saw in the budget was over vehicle excise duty and what that meant. I suspect it'll mean that the vast majority of cars that are now paying far less than £140 will find themselves paying that amount. So, the greenest cars will pay more while the most polluting cars will pay less. Surprisingly, we haven't seen more detail on that yet from the current UK Government.

Ceir enghreifftiau eraill, hefyd, sy'n aneglur ar hyn o bryd, o ran yr hyn y mae'n ei olygu i'n hallyriadau carbon. Roedd un o'r cyfeiriadau mwyaf amwys a welais yn y gyllideb yn ymwneud â threth car a beth yr oedd hynny'n ei olygu. Rwy'n amau y bydd yn golygu y bydd y mwyafrif llethol o geir sy'n talu llawer llai na £140 ar hyn o bryd yn canfod eu hunain yn talu'r swm hwnnw. Felly, bydd y ceir mwyaf gwyrdd yn talu mwy tra bydd y ceir sy'n llygru fwyaf yn talu llai. Yn rhyfedd iawn, nid ydym wedi gweld mwy o fanylion am hynny gan Lywodraeth bresennol y DU eto.

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, over recent years, we have seen within our own communities massive opposition to large-scale wind turbine projects, be it onshore or offshore. These do have the potential to damage our countryside and, indeed, our coastlines. Now, there's wide recognition across the industry that a broad range of technologies is needed to take our climate change programme forward. What plans does your Government have to review technical advice note 8 in order allow different and new technologies to come forward as a viable option?

Brif Weinidog, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym ni wedi gweld yn ein cymunedau ein hunain gwrthwynebiad enfawr i brosiectau tyrbinau gwynt ar raddfa fawr, boed ar y tir neu ar y môr. Mae'n bosibl y gallai'r rhain ddifrodi ein cefn gwlad ac, yn wir, ein harfordiroedd. Nawr, ceir cydnabyddiaeth eang ar draws y diwydiant bod angen amrywiaeth eang o dechnolegau i fwrw ymlaen â'n rhaglen newid yn yr hinsawdd. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i adolygu nodyn cyngor technegol 8 er mwyn caniatáu technolegau gwahanol a newydd i ddod ymlaen fel dewis ymarferol?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

TAN 8 is a land-based TAN, anyway; it doesn't affect the sea. If we're not going to have onshore and apparently, now, offshore wind as well, what do we have left? With the tidal lagoon, we know that the tidal lagoon has had permission to move ahead, but there's no strike-price yet—no strike-price at all—and it's absolutely crucial that the UK Government now tells the developers of the tidal lagoon what money is going to be on the table, because they haven't done that yet. We won't have marine energy, we won't have wind energy in any form, so what else are we going to have, then? At the moment, there's complete silence on this. A knee-jerk reaction and no plans. Just talk to investors, talk to businesses and they will say to you they have no idea what the current policy of the UK Government is, and that is a dreadful position for the UK to be in.

TAN ar y tir yw TAN 8 beth bynnag; nid yw'n effeithio ar y môr. Os nad ydym ni'n mynd i gael gwynt ar y tir nac yn ôl pob golwg, bellach, gwynt ar y môr chwaith, beth sydd gennym ni ar ôl? Gyda'r morlyn llanw, rydym ni'n gwybod bod y morlyn llanw wedi cael caniatâd i symud ymlaen, ond nid oes pris taro eto—dim pris taro o gwbl—ac mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth y DU yn dweud wrth ddatblygwyr y morlyn llanw nawr pa arian sy'n mynd i fod ar y bwrdd, gan nad ydyn nhw wedi gwneud hynny eto. Ni fydd gennym ni ynni morol, ni fydd gennym ni ynni gwynt ar unrhyw ffurf, felly beth arall ydym ni'n mynd i'w gael, felly? Ar hyn o bryd, mae tawelwch llwyr ar hyn. Ymateb difeddwl a dim cynlluniau. Siaradwch chi â buddsoddwyr, siaradwch â busnesau a byddant yn dweud wrthych nad oes ganddyn nhw unrhyw syniad beth yw polisi presennol Llywodraeth y DU, ac mae honno'n sefyllfa druenus i'r DU fod ynddi.

Senedd.tv Fideo Video

## Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig

## Tackling Domestic Abuse

13:58 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru? OAQ(4)2416(FM)*

*5. What steps will the Welsh Government take in 2015 to tackle domestic abuse in Wales? OAQ(4)2416(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister made a statement on 30 June, which informed the Assembly of the action the Government is taking to tackle domestic abuse following the Royal Assent that was given to the Act in April.

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar 30 Mehefin, a hysbysodd y Cynulliad am y camau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol a roddwyd i'r Ddeddf ym mis Ebrill.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. The Independent Police Complaints Commission recently called for all police forces in Wales to change the way they train officers and civilian staff who deal with domestic abuse cases in Wales. In particular, they are concerned that police forces are too reliant on staff learning online instead of interactive learning through case studies. Will the First Minister agree to raise these concerns with the police to ensure that training to deal with domestic abuse cases is appropriate and effective?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Galwodd Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn ddiweddar ar holl heddluoedd Cymru i newid y ffordd maen nhw'n hyfforddi swyddogion a staff sifil sy'n ymdrin ag achosion cam-drin yn y cartref yng Nghymru. Yn benodol, maen nhw'n pryderu bod heddluoedd yn rhy ddibynnol ar staff yn dysgu ar-lein yn hytrach na dysgu rhyngweithiol trwy astudiaethau achos. A wnaiff y Prif Weinidog gytuno i godi'r pryderon hyn gyda'r heddlu i sicrhau bod hyfforddiant i ymdrin ag achosion cam-drin yn y cartref yn briodol ac yn effeithiol?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member makes a fair point, and I expect the police to follow the advice given by the independent commissioner to make sure that their response to domestic abuse cases is as effective as possible. It would be much easier, of course, if the matter was devolved. It isn't, and his party resists that.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt teg, ac rwy'n disgwyl i'r heddlu ddilyn y cyngor a roddwyd gan y comisiynydd annibynnol i wneud yn siŵr bod eu hymateb i achosion o gam-drin yn y cartref mor effeithiol â phosibl. Byddai'n llawer haws, wrth gwrs, pe byddai'r mater hwnnw wedi'i ddatganoli. Nid dyna'r achos, ac mae ei blaid ef yn gwrthwynebu hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in relation to violence within the family, do you think that changing the law to give equal protection to children as adults from assault is unenforceable nonsense, or do you agree with me that it's high time we did it?

Brif Weinidog, o ran trais yn y teulu, a ydych chi'n meddwl bod newid y gyfraith i roi amddiffyniad cyfartal i blant ac oedolion rhag ymosodiad yn lol na ellir ei orfodi, neu a ydych chi'n cytuno â mi ei bod yn hen bryd i ni wneud hynny?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that these are issues that all parties will examine before the election. My party is on record as saying this is something that we would want to move towards, but there are a number of issues that would need to be resolved on that journey, if I can put it that way. It's right to say that this is an issue that all parties are examining at the moment, although I do regret the fact that we could have had the opportunity to deal with this on an all-party basis, but that offer was not taken up by her party or by the others. [Interruption.]

Rwy'n meddwl bod y rhain yn faterion y bydd pob plaid yn eu harchwilio cyn yr etholiad. Mae fy mhlaid i wedi dweud ar goedd bod hyn yn rhywbeth y byddem ni'n dymuno symud tuag ato, ond mae nifer o broblemau y byddai angen eu datrys ar y daith honno, os caf ei roi felly. Mae'n gywir dweud bod hwn yn fater y mae pob plaid yn ei archwilio ar hyn o bryd, er fy mod i'n gresynu at y ffaith y gallem ni fod wedi cael cyfle i ymdrin â hyn ar sail hollbleidiol, ond ni dderbyniwyd y cynnig hwnnw gan ei phlaid hi na chan y lleill. [Torri ar draws.]

## Gwasanaethau Obstetreg dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol

## Consultant-led Obstetric Services

14:00 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnal gwasanaethau obstetreg dan arweiniad meddygon ymgynghorol ar safle'r tri ysbyty cyffredinol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2408(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on maintaining consultant-led obstetric services on the three general hospital sites in north Wales? OAQ(4)2408(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd ymgynghori â'i staff ac â'r cymunedau lleol, a gwneud yn siŵr bod yr holl wasanaethau clinigol i fenywod yn yr ardal yn cyrraedd sefyllfa sy'n ddiogel a chynaliadwy.

I expect the health board to consult with its staff and local communities, and to ensure that all women's clinical services in the region are placed on a safe and sustainable footing.

14:01 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae strategaeth—os oes yna fasiwn beth â strategaeth gofal babanod yn y gogledd—mewn anhrefn llwyr yn dilyn y penderfyniadau diweddar yma. Y cwestiwn sydd yn pryderu llawer o bobl yn fy ardal i ydy: beth fydd effaith sefydlu'r ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig ar y gwasanaethau yn Ysbyty Gwynedd? Mae gwasanaeth mamolaeth Ysbyty Gwynedd ag enw da iddi ers blynyddoedd. A allwch sicrhau y bydd y gwasanaeth mamolaeth presennol, sydd o dan arweiniad ymgynghorwyr yn Ysbyty Gwynedd, yn parhau i'r dyfodol ar ôl sefydlu'r uned newydd yn Ysbyty Glan Clwyd?

Well, the strategy—if there is such a thing as an obstetrics strategy in north Wales—is in chaos following recent decisions. The question causing anxiety to many people in my area is: what will be the impact of establishing the sub-regional neonatal intensive care centre on services Ysbyty Gwynedd? The maternity services in Ysbyty Gwynedd have had a very good reputation over a number of years. Can you give assurances that the current maternity service, which is consultant-led in Ysbyty Gwynedd, will continue into the future once the new unit is established at Ysbyty Glan Clwyd?

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Wel, bydd yna rai newidiadau pan fydd y SuRNICC yn cael ei sefydlu. Roedd y SuRNICC yn rhywbeth oedd e blaid ef wedi'i gefnogi. So, nid yw'n bosib i ddweud, 'Wel, nid ydym ni'n moyn nawr gweld y SuRNICC a gweld unrhyw fath o effaith o gwbl ar bethau eraill'. Nid yw hynny'n meddwl byddai'r gwasanaeth yn waeth—wrth gwrs nag yw. Ond pan fo gennych un ganolfan sy'n gallu deilio â'r achosion sydd mwyaf difrifol felly, efallai bydd yna ryw fath o effaith ar yr unedau eraill, ond mae hynny, wrth gwrs, yn rhan o'r asesiad bydd yn gorfod cael ei wneud. Ond roedd e blaid ef yn gefnogol iawn o'r SuRNICC ei hunan, ac, wrth gwrs, rydym ni'n mynd i sicrhau bod y SuRNICC yn cael ei sefydlu ar safle Glan Clwyd.

Well, there will be some changes when the SuRNICC is established. The SuRNICC was something that was supported by his party. So, you can't say, 'Well, we now don't wish to see the SuRNICC and see any impact on other hospitals'. That doesn't mean that the service will deteriorate—of course not. But when you have one centre that can deal with the more serious cases, perhaps there might be some impact on other units, but that, of course, will be part of the assessment that will have to be made. But his party was very much in favour of the SuRNICC itself, and, of course, we will ensure that the SuRNICC will be established on the Glan Clwyd site.

14:02 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Obviously, there's a great deal of concern still in my constituency about the future of the maternity services at Glan Clwyd Hospital as a result of the uncertainty that was created by the health board earlier this year. The recent decision to not challenge the need to consult on the future of those services has indeed been very welcomed in north Wales. I understand that a consultation will now take place. What expectations do you have, as a Welsh Government, regarding that consultation and the involvement of the public and other key stakeholders? I was disappointed to learn about the consultation, not from the health board, but simply from a media inquiry yesterday, and it's clear that the consultation is obviously not getting out on the right foot if local stakeholders such as Assembly Members are not involved from the start of the process.

Yn amlwg, ceir llawer iawn o bryder o hyd yn fy etholaeth i am ddyfodol y gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd o ganlyniad i'r ansicrwydd a grëwyd gan y bwrdd iechyd yn gynharach eleni. Mae'r penderfyniad diweddar i beidio â herio'r angen i ymgynghori ar ddyfodol y gwasanaethau hynny wedi cael croeso mawr yn y gogledd. Rwy'n deall y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal nawr. Pa ddisgwyliadau sydd gennych chi, fel Llywodraeth Cymru, o ran yr ymgynghoriad hwnnw a chyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill? Roeddwn i'n siomedig i gael gwybod am yr ymgynghoriad, nid gan y bwrdd iechyd, ond o ymchwiliad gan y cyfryngau ddoe, ac mae'n amlwg nad yw'r ymgynghoriad yn cychwyn yn y ffordd orau os nad yw rhanddeiliaid lleol fel Aelodau Cynulliad yn cael eu cynnwys o ddechrau'r broses.

14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I expect the consultation to be full and open and transparent. The problems that still exist in that unit are still there. There's no point pretending that all is well and that things can stay exactly as they are. We do understand the concerns of people in the area around Glan Clwyd, and I know that the health board is taking steps to look at ensuring that the service can continue for the time being. But there will need to be steps to make sure that the service is safe and sustainable in the long term. That means dealing with the issues that are identified by the royal college and others, which are not going to go away: the fact that no trainees can go there, they won't go there, the fact it's very difficult to attract middle-grade doctors there on a permanent contract. There's much that needs to be done to improve the reputation of the department for the good of local people. But I do believe that the health board, with its new acting chief executive, has taken the appropriate steps. It's absolutely crucial, as we have said, in terms of regaining the confidence of local people, that there's a full consultation.

Wel, rwy'n disgwyl i'r ymgynghoriad fod yn llawn ac yn agored ac yn dryloyw. Mae'r problemau sy'n dal i fodoli yn yr uned honno yn dal i fod yno. Nid oes pwynt cymryd arnom fod popeth yn iawn ac y gall pethau aros yn union fel y maen nhw. Rydym ni yn deall pryderon pobl yn yr ardal o amgylch Glan Clwyd, a gwn fod y bwrdd iechyd yn cymryd camau i geisio sicrhau y gall y gwasanaeth barhau am y tro. Ond bydd angen cymryd camau i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae hynny'n golygu ymdrin â'r materion a nodir gan y coleg brenhinol ac eraill, nad ydynt yn mynd i ddiflannu: y ffaith na all unrhyw hyfforddeion fynd yno, ni wnânt fynd yno, y ffaith ei bod yn anodd iawn denu meddygon canolradd yno ar gontract parhaol. Mae llawer y mae angen ei wneud i wella enw da'r adran er lles pobl leol. Ond rwy'n credu bod y bwrdd iechyd, gyda'i brif weithredwr dros dro newydd, wedi cymryd y camau priodol. Mae'n gwbl hanfodol, fel yr ydym wedi dweud, o ran adennill hyder pobl leol, bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal.

14:04 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydych yn meddwl, Brif Weinidog, bod cyfnod o wyth wythnos o ymgynghoriad dros gyfnod yr haf yn ddigonol? A gaf i hefyd ofyn i chi, ym mis Mawrth, fe ddywedoch chi fod y cynllun busnes ar gyfer y SuRNICC i fod i gynnwys holl wasanaethau'r gogledd ac fe fuasai hynny yn cael ei baratoi erbyn mis Tachwedd? Wrth ystyried bod yna wyth wythnos o fis Gorffennaf i fis Medi, a fyddai'r amserlen wreiddiol yna, o'r cynllun busnes i fod mewn erbyn mis Tachwedd, yn dal i fodoli?

Do you think, First Minister, that a period of eight weeks of consultation over the summer months is sufficient? May I also ask you, in March, you said that the business plan for the SuRNICC was to include all services for north Wales and that that would be prepared by November? Given that there are eight weeks between July and September, will that original timetable, for the business plan to be in by November, be adhered to?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn erfyn hynny. Mae yna ddau beth gwahanol fan hyn. Yn gyntaf, mae deufis, rwy'n credu, yn ddigon ynglŷn ag ymgynghoriad, ond beth sy'n bwysig yw, wrth gwrs, bod ansawdd yr ymgynghoriad yn uchel, a sicrhau bod pobl yn gwybod am yr ymgynghoriad ac yn gwybod pa fath o farn maen nhw'n gallu dodi i mewn i'r ymgynghoriad hynny.

I don't expect that. There are two distinct things here. First of all, two months, I think, is adequate as regards a consultation, but what is important is that the quality of the consultation is high, and ensuring that people are aware of the consultation and do know what kind of views they can input into that consultation.

Mae'r SuRNICC yn wahanol, achos nad yw'r SuRNICC yn mynd i gael jest ei dodi ar ben uned mamolaeth Glan Clwyd. Nid felly oedd y nod o gwbl, ond cael uned a oedd yn wahanol ac yn cael ei staffio mewn ffordd wahanol, a rhywbeth hollol newydd. So, felly, nid wyf yn gweld pam nad ydym yn gallu symud ymlaen gyda'r SuRNICC ei hunan a pharatoi am y SuRNICC, a hefyd ystyried y sefyllfa bresennol yng Nglan Clwyd.

The SuRNICC is different, because the SuRNICC is not just going to be imposed of the Glan Clwyd maternity unit. That's not the objective at all, but having a different unit, staffed in a different way, and something totally new. So, I cannot see why we can't proceed with the SuRNICC itself and prepare for that, and also consider the current situation at Glan Clwyd.

## Hyrwyddo Twristiaeth yng Nghymru

## Promoting Tourism in Wales

14:05 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)2404(FM)*

*7. Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to promote tourism in Wales? OAQ(4)2404(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, our tourism strategy sets out our priorities to support the tourism industry. Tourism in Wales is in a strong position—2014 was a record-breaking year, as the number of overnight visits to our country by GB residents alone hit an impressive 10 million.

Gwnaf, mae ein strategaeth dwristiaeth yn nodi ein blaenoriaethau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth. Mae twristiaeth yng Nghymru mewn sefyllfa gref—2014 oedd y flwyddyn orau erioed, wrth i nifer yr ymweliadau dros nos i'n gwlad gan drigolion Prydain Fawr yn unig gyrraedd 10 miliwn trawiadol.

14:06 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. I'm glad that you're welcoming the improvement in the figures for tourism and recognising the importance of it. But survey after survey confirms that one of the major attractions for visitors coming to Wales is our stunning and unspoilt landscape. In light of the new Conservative Government in Westminster agreeing to scrap subsidies to onshore wind developments, which I warmly welcome, having seen the imposition of one of the largest windfarms in one of the most iconic bays in the UK in Llandudno, what is your Government doing to protect our beautiful landscape from those wishing to industrialise it by erecting unsightly pylons and turbines? Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r gwelliant i'r ffigurau ar gyfer twristiaeth ac yn cydnabod pwysigrwydd hynny. Ond mae arolwg ar ôl arolwg yn cadarnhau mai un o'r prif atyniadau i ymwelwyr sy'n dod i Gymru yw ein tirlun syfrdanol a heb ei ddifetha. Ar ôl i'r Llywodraeth Geidwadol newydd yn San Steffan gytuno i ddiddymu cymorthdaliadau i ddatblygiadau gwynt ar y tir, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr, ar ôl gweld gosod un o'r ffermydd gwynt mwyaf yn un o'r baeau mwyaf eiconig yn y DU yn Llandudno, beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i amddiffyn ein tirlun godidog rhag y rhai sy'n dymuno ei ddiwydianeiddio trwy godi peilonau a thyrbinau hyll? Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

A moratorium on fracking—there's a start—which her party was against. If her party had had their way we'd be fracking everywhere, no problem at all. They talk to us about industrialising the landscape, and then there's that the obvious problem that they have in terms of—[Interruption.] You can shout about it all you want, but there's that obvious problem in terms of fracking. So, windmills destroy the landscape—I understand there are people who believe that—and fracking doesn't. And there they are talking about industrialising the landscape. If they had their way, that's exactly what they would do.

Moratoriwm ar ffracio—dyna ddechrau—yr oedd ei phlaid hi'n ei wrthwynebu. Pe byddai ei phlaid hi'n cael ei ffordd, byddem ni'n ffracio ym mhobman, dim problem o gwbl. Maen nhw'n siarad â ni am ddiwydianeiddio'r tirlun, ac yna ceir y ffaith mai'r broblem amlwg sydd ganddynt o ran—[Torri ar draws.] Gallwch weiddi cymaint ag yr ydych chi eisiau am y peth, ond ceir y broblem amlwg honno o ran ffracio. Felly, mae melinau gwynt yn dinistrio'r tirlun—rwy'n deall bod pobl sy'n credu hynny—ac nid yw ffracio. A dyna nhw'n siarad am ddiwydianeiddio'r tirlun. Pe bydden nhw'n cael eu ffordd, dyna'n union y bydden nhw'n ei wneud.

14:07 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gwybod y gwnaiff y Prif Weinidog gytuno â mi fod chwaraeon yn arf pwysig iawn o ran denu twristiaeth i Gymru, ac, o ran hynny o beth, tybed a wnaiff y Prif Weinidog gytuno â mi y byddai rhoi cefnogaeth gynnar gan Lywodraeth Cymru i'r cais i ddenu'r Gemau'r Ynysoedd i Ynys Môn yn 2025 yn arf twristaidd pwysig iawn i'r ynys. A sut allwn i, wrth gwrs, a finnau ar fy nhraed, beidio â rhoi gwahoddiad i'r Prif Weinidog i estyn llongyfarchiadau gwresog i'r tîm Ynys Môn a ddaeth yn ôl o Jersey ychydig dros wythnos yn ôl efo 10 medal?

I know that the First Minister will agree with me that sport is an exceptionally important tool in attracting tourists to Wales, and, in that regard, I wonder if the First Minister would agree with me that providing early Welsh Government support for a bid to bring the Island Games to Ynys Môn in 2025 would be an important tourism boost for the island. And how could I not, of course, take the opportunity to invite the First Minister to extend the warmest congratulations to the Anglesey team that returned from Jersey just over a week ago with 10 medals?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ymuno â'r Aelod ynglŷn â rhoi llongyfarchiadau i dîm Ynys Môn? Ac, wrth gwrs, fe fyddwn i'n fodlon i ystyried unrhyw gais ynglŷn â chael y gemau ar yr ynys yn y pen draw.

May I join the Member in congratulating the Ynys Môn team? And, of course, I'd be willing to consider any bid as regards attracting the games to the island ultimately.

### Datblygiadau Ffermydd Gwynt ar y Tir

### Onshore Windfarm Developments

14:08 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir? OAQ(4)2402(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's policy for onshore windfarm developments? OAQ(4)2402(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think I refer the Member to the answer I gave some moments ago.

Wel, rwy'n meddwl fy mod i am gyfeirio'r Aelod at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl.

14:08 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think that's a very sensible use of time, First Minister. But you will be aware that, after over 20 years of campaigning by constituents in my region and beyond, two public inquiries, a Court of Appeal hearing, and a judicial review, that the application for a windfarm at Mynydd y Gwair has failed, and I would like to thank the Deputy Minister for her recent decision, although developers seem unwilling to accept it at the moment. For a considerable part of that period, technical advice note 8 has been in force. Putting aside all the other arguments that have been put to you by Welsh Conservatives over the years about the balance of onshore wind energy production, TAN 8 could not prevent this lengthy and expensive saga. Isn't that reason enough to review it?

Rwy'n meddwl bod hynny'n ddefnydd synhwyrol iawn o amser, Brif Weinidog. Ond byddwch yn ymwybodol, ar ôl dros 20 mlynedd o ymgyrchu gan etholwyr yn fy rhanbarth i a thu hwnt, dau ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawiad Llys Apêl, ac adolygiad barnwrol, bod y cais am fferm wynt ym Mynydd y Gwair wedi methu, a hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei phenderfyniad diweddar, er ei bod yn ymddangos bod y datblygwyr yn amharod i'w dderbyn ar hyn o bryd. Mae nodyn cyngor technegol 8 wedi bod mewn grym am gyfran sylweddol o'r cyfnod hwnnw. Gan roi o'r neilltu yr holl ddadleuon eraill a gyflwynwyd i chi gan Geidwadwyr Cymru dros y blynyddoedd ynghylch cydbwysedd cynhyrchu ynni gwynt ar y tir, ni allai TAN 8 atal y saga hirfaith a drud hon. Onid yw hynny'n ddigon o reswm i'w adolygu?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The party opposite come from the basis that they don't want any wind energy at all. At all: onshore or offshore. We've heard several denunciations of offshore wind in this Chamber, as well as onshore. So, they don't want any kind of wind energy, and, of course, there has to be balance, I understand that, and we can't have the entire landscape covered in wind turbines. That I understand. But they don't want any at all, and they don't want to give communities even the opportunity to have wind turbines should they wish. It's quite clear to me now that what they want to see is an energy policy based on more mining, basically—more coal, more carbon fuel, they want to see fracking in place, they want to see as much use of fossil fuel as possible, and they haven't made that clear to the people of Britain. So, it's about time the Conservatives were absolutely clear about what their energy policy actually is, before we go after Russia and buy hamsters on wheels to keep the lights going. [Laughter.]

Mae'r blaid gyferbyn yn dod o'r sail nad ydynt eisiau unrhyw ynni gwynt o gwbl. O gwbl: ar y tir nac ar y môr. Rydym ni wedi clywed sawl condemniad o wynt ar y môr yn y Siambr hon, yn ogystal ag ar y tir. Felly, nid ydyn nhw eisiau unrhyw fath o ynni gwynt, ac, wrth gwrs, mae'n rhaid cael cydbwysedd, rwy'n deall hynny, ac ni allwn ni gael tyrbinau gwynt yn gorchuddio'r holl dirlun. Rwy'n deall hynny. Ond nid ydyn nhw eisiau unrhyw rai o gwbl, ac nid ydyn nhw eisiau rhoi'r cyfle hyd yn oed i gymunedau gael tyrbinau gwynt pe bydden nhw'n dymuno. Mae'n eithaf amlwg i mi erbyn hyn mai'r hyn y maen nhw eisiau ei weld yw polisi ynni wedi'i seilio mwy ar fwyngloddio, yn y bôn—mwy o lo, mwy o danwydd carbon, maen nhw eisiau gweld ffracio'n cael ei gyflwyno, maen nhw eisiau gweld cymaint o ddefnydd o danwydd ffosil â phosibl, ac nid ydyn nhw wedi gwneud hynny'n eglur i bobl Prydain. Felly, mae'n hen bryd i'r Ceidwadwyr fod yn gwbl eglur o ran beth yw eu polisi ynni mewn gwirionedd, cyn i ni fynd ar ôl Rwsia a phrynu bochdewion ar olwynion i gadw'r goleuadau i fynd. [Chwerthin.]

14:10 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Brif Weinidog, a ydych chi'n rhagweld y bydd polisi gofodol eich Llywodraeth chi o safbwynt ynni gwynt, er enghraifft, drwy nodyn cyngor technegol 8, yn parhau ar ôl datblygu'r fframwaith datblygu cenedlaethol arfaethedig sydd i fod dod ymlaen yn sgil y Bil Cynllunio (Cymru)?

First Minister, do you anticipate that the Government's spatial policy in relation to wind energy, for example, through technical advice note 8, will continue after the development of the proposed national development framework, which is due to come forward following the planning (Wales) Bill?

14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n credu y bydd hi'n amser wedyn i ystyried y sefyllfa ynglŷn â chynllunio pan fydd pwerau newydd yn dod i ni. Bryd hynny, wrth gwrs, bydd yr amser i ystyried unwaith eto pa fath o ganllawiau a ddylai fod mewn grym.

I believe that it will be the time to consider the situation as regards planning when we get the new powers. That, of course, will be the point at which to consider again what kind of guidelines should be in place.

### Effaith y Gyllideb ar Deuluoedd (Dyffryn Clwyd)

### The Effects of the Budget on Families (The Vale of Clwyd)

14:10 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

*9. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith cyllideb Llywodraeth y DU ar deuluoedd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)2410(FM)*

*9. What assessment has the First Minister made of the effects of the UK Government budget on families in the Vale of Clwyd? OAQ(4)2410(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bad for families across Wales, and particularly bad for young people. Of course, we know that the budget will take some £37 billion out of public spending, and we know there are many hard-working families across the UK who will be hit especially hard by the loss of tax credits.

Drwg i deuluoedd ledled Cymru, ac yn arbennig o ddrwg i bobl ifanc. Wrth gwrs, rydym ni'n gwybod y bydd y gyllideb yn cymryd tua £ £37 biliwn allan o wariant cyhoeddus, ac rydym ni'n gwybod bod llawer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed ledled y DU a fydd yn cael eu taro'n arbennig o galed gan golli credydau treth.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for that answer. Having spoken to some of the families, particularly some of the younger people who have got families themselves, I think there's a double whammy there for them. Despite the cheers from the Tory group last week when the Chancellor was on his feet in the House of Commons, I think they should reflect that young people are our future. So, I'm proud that your Government has protected the education maintenance allowance and also tuition fees to allow our Welsh young students to go and reach that aspiration. Will your Welsh Government continue to stand up for the young people and those hard-working families within the Vale of Clwyd and across Wales, unlike the Tories?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna. Ar ôl siarad â rhai o'r teuluoedd, yn enwedig rhai o'r bobl iau sydd â theuluoedd eu hunain, rwy'n meddwl bod ergyd ddwbl yno iddyn nhw. Er gwaethaf y bloeddiau gan y grŵp Torïaidd yr wythnos diwethaf pan roedd y Canghellor ar ei draed yn Nhŷ'r Cyffredin, rwy'n meddwl y dylen nhw fyfyrio ar y ffaith mai pobl ifanc yw ein dyfodol. Felly, rwy'n falch bod eich Llywodraeth wedi diogelu'r lwfans cynhaliaeth addysg yn ogystal â ffioedd dysgu i alluogi ein myfyrwyr ifanc o Gymru i fynd i gyflawni'r dyhead hwnnw. A fydd eich Llywodraeth Cymru yn parhau i sefyll dros y bobl ifanc a'r teuluoedd hynny sy'n gweithio'n galed yn Nyffryn Clwyd a ledled Cymru, yn wahanol i'r Torïaid?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We know that 238,000 families in Wales were in receipt of either working tax credits or child tax credits in 2013-14, and we know that they are vulnerable, because we know that for a lot of families the earners are under 25, so the living wage, for some mysterious reason, doesn't apply to them, because 25, apparently, is some magical age that the Chancellor has picked out of thin air. We know the living wage will not compensate for the loss of tax credits—by some estimates, £12 an hour is the minimum that's needed to make that level of compensation—and we know that the most cynical part of this budget is that a political calculation was made to hit young people, because young people don't vote—that's what was done. That's what was done. So, what they think is that this is a pain-free way to save money, because young people won't be bothered to go out and vote. If there was ever a reason for young people to go out and vote, the Tories provided that reason last week.

Bydd. Rydym ni'n gwybod bod 238,000 o deuluoedd yng Nghymru yn derbyn naill ai credydau treth gwaith neu gredydau treth plant yn 2013-14, a gwyddom eu bod yn agored i niwed, oherwydd ein bod yn gwybod bod y rhai sy'n ennill yn iau na 25 oed mewn llawer o deuluoedd, felly, am ryw reswm dirgel, nid yw'r cyflog byw yn berthnasol iddyn nhw, gan fod 25, mae'n debyg, yn rhyw oedran hudol y mae'r Canghellor wedi ei ddewis o'r awyr. Rydym ni'n gwybod na fydd y cyflog byw yn gwneud iawn am golli credydau treth—yn ôl rhai amcangyfrifon, £12 yr awr yw'r isafswm sydd ei angen i wneud iawn ar y lefel honno—a gwyddom mai'r rhan fwyaf sinigaidd o'r gyllideb hon yw y gwnaed cyfrifiad gwleidyddol i daro pobl ifanc, gan nad yw pobl ifanc yn pleidleisio—dyna'r hyn a wnaed. Dyna'r hyn a wnaed. Felly, eu barn nhw yw bod hon yn ffordd ddi-boen o arbed arian, gan na fydd pobl ifanc yn trafferthu i fynd allan a phleidleisio. Os bu rheswm erioed i bobl ifanc fynd allan a phleidleisio, rhoddwyd y rheswm hwnnw gan y Torïaid yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Well, what assessment have you made of the effects on families in the Vale of Clwyd, across north Wales, and in Wales as a whole, of the introduction of a national living wage to reach £9 an hour by 2020, giving 2.5 million people across the UK a direct pay rise, and raising the personal tax allowance, which will benefit 1.4 million people in Wales and lift a further 29,000 out of tax altogether?

Wel, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o'r effeithiau ar deuluoedd yn Nyffryn Clwyd, ar draws y gogledd, ac yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, o gyflwyno cyflog byw cenedlaethol i gyrraedd £9 yr awr erbyn 2020, gan roi codiad cyflog uniongyrchol i 2.5 miliwn o bobl ledled y DU, a chodi'r lwfans treth personol, a fydd o fudd i 1.4 miliwn o bobl yng Nghymru ac yn codi 29,000 arall allan o dreth yn gyfan gwbl?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There's nothing more distasteful than hearing somebody well paid saying that £9 an hour is a magnificent wage, something that is a living wage. It is not a living wage at all; it is, in fact, the bare minimum for those over 25. What about those under 25? What have people under 25 done to the party opposite? Why are people under 25 being penalised? Why are they losing housing benefits? Why are they being penalised for being in work? Why is it the case that those who are losing tax credits are going to lose out? [Interruption.] They can scream and shout as much as they want; it hides the shame that they show for what they're doing to working families across Wales and the rest of Britain.

Nid oes unrhyw beth yn fwy annymunol na chlywed rhywun sy'n cael ei dalu'n dda yn dweud bod £9 yr awr yn gyflog ardderchog, rhywbeth sy'n gyflog byw. Nid yw'n gyflog byw o gwbl; dyna'r isafswm, mewn gwirionedd, i'r rhai dros 25 oed. Beth am y rhai iau na 25 oed? Beth mae pobl iau na 25 oed wedi ei wneud i'r blaid gyferbyn? Pam mae pobl iau na 25 oed yn cael eu cosbi? Pam maen nhw'n colli budd-dal tai? Pam maen nhw'n cael eu cosbi am fod mewn gwaith? Pam mae hi'n wir bod y rhai sy'n colli credydau treth yn mynd i fod ar eu colled? [Torri ar draws.] Cânt sgrechian a gweiddi gymaint ag y maen nhw'n dymuno; mae'n cuddio'r cywilydd y maen nhw'n ei ddangos am yr hyn maen nhw'n ei wneud i deuluoedd sy'n gweithio ledled Cymru a gweddill Prydain.

14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sorry, First Minister, they can't scream and shout as much as they like in here, although they appear to be doing that. Can we have a little quiet while we hear the replies, please?

Mae'n ddrwg gen i, Brif Weinidog, ni chânt sgrechian a gweiddi gymaint ag y maen nhw'n dymuno yma, er ei bod yn ymddangos eu bod yn gwneud hynny. A allwn ni gael ychydig o ddistawrwydd wrth i ni glywed yr atebion, os gwelwch yn dda?

14:13 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, low-paid workers in the Vale of Clwyd, of course, have the same interests as low-paid workers throughout the rest of Wales. Many councils throughout Wales have started introducing a living wage, as has the Welsh NHS. Does the First Minister recognise that the policy that's been introduced by the Tory Government is actually undermining the living wage? Many who thought they were getting a living wage, due to the removal of tax credits, will now find they're back in low-wage poverty again.

Brif Weinidog, mae gan weithwyr ar gyflogau isel yn Nyffryn Clwyd, wrth gwrs, yr un diddordebau â gweithwyr ar gyflog isel ledled gweddill Cymru. Mae nifer o gynghorau ledled Cymru wedi dechrau cyflwyno cyflog byw, ac felly hefyd y GIG yng Nghymru. A yw'r Prif Weinidog yn cydnabod bod y polisi a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Doriaidd yn tanseilio'r cyflog byw mewn gwirionedd? Bydd llawer a oedd yn credu eu bod yn cael cyflog byw yn canfod erbyn hyn, oherwydd dileu'r credydau treth, eu bod yn ôl mewn tlodi cyflog isel eto.

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, because they thought that, if you take away tax credits, you could, in some way, increase the wage to a level that's a living wage. It's not a living wage; we know from the independent studies—many of them—that it's £12 an hour, at least. We know that people will lose out because of tax credits, we know that younger people under the age of 25 are not being protected, for some reason, we know that children will lose out, and we know that the Tories don't care.

Yn hollol, oherwydd eu bod yn meddwl, os byddwch chi'n cymryd credydau treth i ffwrdd, y gallech chi, mewn rhyw ffordd, gynyddu'r cyflog i lefel sy'n gyflog byw. Nid yw'n gyflog byw; rydym ni'n gwybod o'r astudiaethau annibynnol—llawer ohonynt—mai £12 yr awr ydyw, o leiaf. Rydym ni'n gwybod y bydd pobl ar eu colled oherwydd credydau treth, rydym ni'n gwybod nad yw pobl ifanc dan 25 oed yn cael eu gwarchod, am ryw reswm, rydym ni'n gwybod y bydd plant ar eu colled, ac rydym ni'n gwybod nad oes ots gan y Torïaid.

14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:14

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:15 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there's one change to report to the business statement for this week's business: the First Minister will be making a statement on the publication of the Flynn report. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, mae un newid i'w adrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon: bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar gyhoeddiad adroddiad Flynn. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Leader of the house, is it possible to have a statement—and I've asked for this before—on the Government's proposals for upgrading the Five Mile Lane in the Vale of Glamorgan? To date, no statement has been forthcoming, although the Minister for Economy, Science and Transport has written to me on several occasions, outlining the Government's position on this. We are now going into the long summer recess, and I think it would be beneficial to understand exactly what is going on with this flagship programme that the Government have brought forward, with considerable Government money allocated to it—£25 million, as I understand it. So, I'd be grateful to know what the obstacles are and whether those obstacles can be overcome before the Assembly election in 2016.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad—ac rwyf wedi gofyn am hyn o'r blaen—ar gynigion y Llywodraeth ar gyfer uwchraddio Five Mile Lane ym Mro Morgannwg? Hyd yn hyn, nid oes datganiad wedi dod i'r amlwg, er bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu ataf ar sawl achlysur, yn amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar hyn. Rydym ni ar ddechrau toriad hir yr haf erbyn hyn, ac rwy'n meddwl y byddai'n fuddiol deall yn union beth sy'n digwydd gyda'r rhaglen flaenllaw hon y mae'r Llywodraeth wedi ei chyflwyno, gydag arian Llywodraeth sylweddol wedi'i ddyrannu iddi—£25 miliwn, yn ôl yr hyn a ddeallaf. Felly, byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod beth yw'r rhwystrau ac a oes modd goresgyn y rhwystrau hynny cyn etholiad y Cynulliad yn 2016.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, of course, this is a matter for the Vale of Glamorgan Council, working with the Welsh Government. Of course, updates will be provided in due course.

Wel, wrth gwrs, mater i Gyngor Bro Morgannwg yw hwn, yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Wrth gwrs, bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu maes o law.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Would it be possible to have a debate on the implications for Wales and for this Assembly of the English votes for English laws proposals from the Conservative Westminster Government, which I believe are going to be debated in Westminster later this year?

A fyddai'n bosibl cael dadl ar yr oblygiadau i Gymru ac i'r Cynulliad hwn o'r cynigion pleidleisiau Lloegr ar gyfer cyfreithiau Lloegr gan Lywodraeth Geidwadol San Steffan, yr wyf yn credu sy'n mynd i gael eu trafod yn San Steffan yn ddiweddarach eleni?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, of course, this is a matter for Parliament and for the UK Government. It's interesting to see the impact of the influence that has been brought to bear. We're very clear, although this is not devolved in terms of the ban on hunting, what our position is as far as this is concerned. But, of course, we await the outcome of this in terms of parliamentary process.

Wel, wrth gwrs, mater i'r Senedd ac i Lywodraeth y DU yw hwn. Mae'n ddiddorol gweld effaith y dylanwad a gafwyd. Rydym ni'n eglur iawn, er nad yw hyn wedi'i ddatganoli o ran y gwaharddiad ar hela, beth yw ein safbwynt ni cyn belled ag y mae hyn yn y cwestiwn. Ond, wrth gwrs, rydym yn aros am ganlyniad hyn o ran proses seneddol.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

I was wondering if the Minister for Health and Social Services could give us an update on where he is at with the review of the eating disorders framework. We had a constructive cross-party group meeting today, and in his letter, the Minister said to us that a review of the framework would be completed by the end of the summer, but many of the users, the carers, families and professionals in that room didn't know much about the consultation process with regard to the framework, and obviously, they really want to be part of it. So, constructively, I would just ask if we can find out more about the timelines of that so that we can all feed in to the process in a positive way.

Tybed a allai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei sefyllfa o ran yr adolygiad o'r fframwaith anhwylderau bwyta. Cawsom gyfarfod grŵp trawsbleidiol adeiladol heddiw, ac yn ei lythyr, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai adolygiad o'r fframwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf, ond nid oedd llawer o'r defnyddwyr, gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn yr ystafell honno'n gwybod llawer am y broses ymgynghori o ran y fframwaith, ac yn amlwg, maen nhw wir eisiau bod yn rhan ohono. Felly, yn adeiladol, rwyf yn gofyn a allwn ni gael gwybod mwy am amserlenni hynny fel y gall pob un ohonom ni gyfrannu at y broses mewn ffordd gadarnhaol.

Senedd.tv Fideo Video

My second question would be: can we have a debate in Government time, when we are back from recess, on the standards the Welsh Government expects and demands of organisations that lease land from it, and what the responsibilities are if any such organisations are found to be in breach of those standards? For example, I'm working with a group of leaseholders in Swansea's SA1 development—Welsh Government land—and they've been refused permission to extend their leases by Coastal Housing on the grounds that their apartments are exempt. It would be interesting to know if there is a code of conduct, perhaps encompassing human rights and sustainability standards, that is affected when your land is leased to such organisations.

Fy ail gwestiwn fyddai: a allem ni gael dadl yn amser y Llywodraeth, pan fyddwn ni yn ôl ar ôl y toriad, ar y safonau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl ac yn ei gwneud yn ofynnol gan sefydliadau sy'n prydlesu tir oddi arni, a beth yw'r cyfrifoldebau os canfyddir bod unrhyw sefydliadau o'r fath yn torri'r safonau hynny? Er enghraifft, rwyf fi'n gweithio gyda grŵp o lesddeiliaid yn natblygiad SA1 Abertawe—tir Llywodraeth Cymru—a gwrthodwyd caniatâd iddynt ymestyn eu prydlesi gan Coastal Housing ar y sail bod eu fflatiau wedi'u heithrio. Byddai'n ddiddorol cael gwybod a oes cod ymddygiad, sydd efallai'n cynnwys safonau hawliau dynol a chynaliadwyedd, a roddir ar waith pan fydd eich tir yn cael ei brydlesu i sefydliadau o'r fath.

14:18

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very glad to hear that you had a useful cross-party group this morning. I think the framework, of course, and the information about how that will be handled in terms of all those affected by it will, of course, be made very clear for consultation opportunities, and thank you for that positive comment for the health and social services Minister.

Rwy'n falch iawn o glywed eich bod wedi cael grŵp trawsbleidiol defnyddiol y bore yma. Rwy'n meddwl y bydd y fframwaith, wrth gwrs, a'r wybodaeth ynghylch sut y bydd hynny'n cael ei drin o ran pawb sy'n cael eu heffeithio ganddo, wrth gwrs, yn cael eu gwneud yn eglur iawn ar gyfer cyfleoedd ymgynghori, a diolch i chi am y sylw cadarnhaol hwnnw i'r Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Of course, your second point is clearly the responsibility of the local authority, taking into account, of course, guidance by the Welsh Government.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw eich ail bwynt, yn amlwg, gan gymryd, wrth gwrs, canllawiau gan Lywodraeth Cymru i ystyriaeth.

14:18

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, sometimes in the digital age, people forget the importance of a face-to-face tourism information service. No amount of apps or internet information can replace a warm welcome, a friendly smile, and advice from people who know and love the area in which they're working. We've already seen the closure of the tourist information centre in the centre of our capital city, but I'm concerned about the sustainability of tourism information centres in my own constituency, especially those that are run by volunteers. In the Crickhowell Resource and Information Centre, somewhere I know that you know well, the volunteers there in the tourist information centre have been responsible for the establishment of the Crickhowell walking festival and a number of other community tourism events and strategies. Unfortunately, due to cuts by Powys County Council, that service could well end next year. What can the Welsh Government do, and will the Welsh Government's Minister for tourism make a statement on the provision of tourist information facilities for people visiting Wales?

Weinidog, weithiau yn yr oes ddigidol, mae pobl yn anghofio pwysigrwydd gwasanaeth gwybodaeth wyneb yn wyneb i dwristiaid. Ni all unrhyw nifer o apiau neu wybodaeth ar y rhyngrwyd ddisodli croeso cynnes, gwên gyfeillgar, a chyngor gan bobl sy'n adnabod ac yn caru'r ardal lle maen nhw'n gweithio. Rydym ni eisoes wedi gweld y ganolfan groeso yng nghanol ein prifddinas yn cau, ond rwy'n poeni am gynaliadwyedd canolfannau gwybodaeth i dwristiaid yn fy etholaeth fy hun, yn enwedig y rhai sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crucywel, rhywle yr wyf yn gwybod eich bod yn ei adnabod yn dda, mae'r gwirfoddolwyr yno yn y ganolfan groeso wedi bod yn gyfrifol am sefydlu gŵyl gerdded Crucywel a nifer o ddigwyddiadau a strategaethau twristiaeth cymunedol eraill. Yn anffodus, oherwydd toriadau gan Gyngor Sir Powys, mae'n bosibl iawn y gallai'r gwasanaeth hwnnw ddod i ben y flwyddyn nesaf. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud, ac a wnaiff Gweinidog twristiaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad ar y ddarpariaeth o gyfleusterau gwybodaeth i dwristiaid ar gyfer pobl sy'n ymweld â Chymru?

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, many of those local tourist information centres are, and have been, the responsibility of the local authority—including Powys County Council—to promote, and, indeed, for town and community councils as well. The role of volunteers is key, as you say, and I have been visiting some very successful community asset transfers over the past few weeks, and, of course, the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism has also introduced guidance, as I have, on those community asset transfers, which might help in terms of the tourism information services.

Wel, wrth gwrs, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol—gan gynnwys Cyngor Sir Powys—oedd hyrwyddo llawer o'r canolfannau croeso lleol hynny, ac mae hynny'n parhau i fod yn wir, ac mewn gwirionedd, mae hynny'n cynnwys cynghorau tref a chymuned hefyd. Mae swyddogaeth gwirfoddolwyr yn allweddol, fel y dywedwch, ac rwyf wedi bod yn ymweld â rhai trosglwyddiadau asedau cymunedol llwyddiannus iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac, wrth gwrs, mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth hefyd wedi cyflwyno canllawiau, fel yr wyf innau, ar y trosglwyddiadau asedau cymunedol hynny, a allai helpu o ran y gwasanaethau gwybodaeth i dwristiaid.

14:20 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm someone who closely followed the outcome of schools challenge London, and I believe that Schools Challenge Cymru should be equally successful. Could I ask that the education Minister makes a statement on the planning being made for the second year of Schools Challenge Cymru?

Rwyf fi'n rhywun a ddilynodd ganlyniad her ysgolion Llundain yn agos, ac rwy'n credu y dylai Her Ysgolion Cymru fod yr un mor llwyddiannus. A gaf i ofyn bod y Gweinidog addysg yn gwneud datganiad ar y cynllunio sy'n cael ei wneud ar gyfer ail flwyddyn Her Ysgolion Cymru?

14:20 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members, of course, are aware, as Mike Hedges is, that the Minister for Education and Skills is committed to providing regular updates on Schools Challenge Cymru and also the progress of Pathways to Success schools. He'll continue to do so, and I've no doubt that he'll provide a similar update to Members at an appropriate time in the coming months.

Mae'r Aelodau, wrth gwrs, yn ymwybodol, fel y mae Mike Hedges, bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar Her Ysgolion Cymru a hefyd ar gynnydd ysgolion Llwybrau Llwyddiant. Bydd yn parhau i wneud hynny, ac nid oes gennym unrhyw amheuaeth y bydd yn cynnig diweddariad tebyg i'r Aelodau ar adeg briodol yn ystod y misoedd nesaf.

14:21 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can we have an urgent statement from the Welsh Government on the viability of the construction of a new M4 south of Newport? Press reports last week suggested that flaws within the decision-making process now leaves the project wide open to judicial review, and that as a result, Welsh Government is privately planning to drop the scheme. Is it the case that the new M4 is about to be scrapped? If so, what contingency arrangements are in place to improve traffic flows at peak times? And isn't it a shame that the Welsh Government didn't listen to voices on these benches and elsewhere over many months to reopen the consultation with all options, including the more viable blue route, firmly on the table?

Weinidog, a allwn ni gael datganiad brys gan Lywodraeth Cymru ar ymarferoldeb y gwaith o adeiladu M4 newydd i'r de o Gasnewydd? Awgrymodd adroddiadau yn y wasg yr wythnos diwethaf bod gwendidau yn y broses o wneud penderfyniad yn gadael y prosiect yn gwbl agored i adolygiad barnwrol erbyn hyn, ac o ganlyniad, bwriad preifat Llywodraeth Cymru yw rhoi terfyn ar y cynllun. A yw'n wir bod yr M4 newydd ar fin cael ei dileu? Os felly, pa drefniadau wrth gefn sydd ar waith i wella llif traffig yn ystod oriau brig? Ac onid yw'n drueni na wrandawodd Llywodraeth Cymru ar leisiau ar y meinciau hyn ac mewn mannau eraill dros fisoedd lawer i ailagor yr ymgynghoriad gyda'r holl ddewisiadau, gan gynnwys y llwybr glas mwy ymarferol, ar y bwrdd yn bendant?

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very surprised, Nick Ramsay, that you raised this, considering it was one of the positive comments made by the Chancellor last Wednesday, when he said—and you will agree that it was very good—that the Conservative UK Government was committed to the funding floor, and also in terms of the infrastructure to the M4. So, where is your party? Where are the Welsh Conservatives in terms of the M4?

Rwy'n synnu'n fawr, Nick Ramsay, eich bod yn codi hyn, o ystyried ei fod yn un o'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan y Canghellor ddydd Mercher diwethaf, pan ddywedodd—a byddwch yn cytuno ei fod yn dda iawn—bod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi ymrwymo i'r llawr ariannu, a hefyd o ran y seilwaith i'r M4. Felly, ble mae eich plaid chi? Ble mae Ceidwadwyr Cymru o ran yr M4?

14:22 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'd like to reiterate those comments about the M4. We saw reports in the press last week that threw serious doubt on the project, and it's only right that this Chamber should have an update as to the present situation. The public needs to know whether or not this plan is credible and whether or not the flaws that have been identified are likely to cause further delay and further cost to the public purse, should this project go ahead.

Weinidog, hoffwn ailadrodd y sylwadau hynny am yr M4. Gwelsom adroddiadau yn y wasg yr wythnos diwethaf a oedd yn codi amheuon difrifol am y prosiect, ac nid yw ond yn deg y dylai'r Siambr hon gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol. Mae angen i'r cyhoedd wybod a yw'r cynllun hwn yn gredadwy ai peidio a pha un a yw'r gwendidau a nodwyd yn debygol o achosi mwy o oedi a mwy o gost i'r pwrs cyhoeddus, pe byddai'r prosiect hwn yn mynd yn ei flaen.

I would also like to request, if I may, a statement from the Minister for health on the career path for middle-ranking doctors in the Welsh NHS, given reports that I've had of doctors who are reaching the end of their house training period having to go overseas to make the next stage of their journey to becoming consultants, because there are no places at that point in their career progress. I wonder if I could have, as I said, a statement on career paths and where it is that we're losing doctors from our NHS—whether it's immediately post-training or further on in the system.

Hoffwn wneud cais hefyd, os caf, am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar y llwybr gyrfaol i feddygon canolradd yn y GIG yng Nghymru, o ystyried adroddiadau yr wyf i wedi eu cael am feddygon sy'n cyrraedd diwedd eu cyfnod hyfforddiant mewnol yn gorfod mynd dramor i gyflawni'r cam nesaf yn eu taith i fod yn feddygon ymgynghorol, gan nad oes lleoedd ar y pwynt hwnnw yn eu cynnydd gyrfaol. Tybed a allwn i gael, fel y dywedais, datganiad ar lwybrau gyrfaol a ble rydym ni'n colli meddygon o'n GIG—boed yn syth ar ôl-hyfforddiant neu ymhellach ymlaen yn y system.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott, I can assure you that nothing has changed as far as the M4 is concerned. Indeed, a judicial review on our decision-making process found in our favour, and there are no plans to drop the M4 relief road.

Eluned Parrott, gallaf eich sicrhau nad oes dim wedi newid cyn belled ag y mae'r M4 yn y cwestiwn. Yn wir, gwnaeth adolygiad barnwrol ar ein proses ddyfarniad o'n plaid, ac nid oes unrhyw gynlluniau i roi terfyn ar ffordd liniaru'r M4.

Your second point is a matter for the Minister for Health and Social Services in terms of his workforce planning for ensuring that our middle-grade doctors, particularly those we want to attract, are supported on that journey.

Mater i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw eich ail bwynt o ran ei waith cynllunio'r gweithlu i sicrhau bod ein meddygon canolradd, yn enwedig y rhai yr ydym ni eisiau eu denu, yn cael eu cefnogi ar y daith honno.

14:24 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for a statement from the Welsh Government on the current state of discussions between the UK Government and the Welsh Government on the devolution of fracking licensing, and if we could also have an update on the status of current applications for fracking within Wales within the context of the Welsh Government's moratorium on fracking?

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar sefyllfa bresennol trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddatganoli trwyddedau ffracio, ac a allem ni hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf am statws y ceisiadau cyfredol ar gyfer ffracio yng Nghymru yng nghyd-destun moratoriwm Llywodraeth Cymru ar ffracio?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Mick Antoniw, we have got a moratorium on fracking, which was announced by the Minister for Natural Resources earlier on this year. Clearly, the issues in terms of the licensing powers are ones that we are discussing in terms of the practicalities with the UK Government and the implications for Wales of devolving these powers, including issues relating to existing licences.

Wrth gwrs, Mick Antoniw, mae gennym ni foratoriwm ar ffracio, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gynharach eleni. Yn amlwg, mae'r materion o ran y pwerau trwyddedu yn rhai yr ydym ni'n eu trafod o ran yr agweddau ymarferol gyda Llywodraeth y DU a goblygiadau datganoli'r pwerau hyn i Gymru, gan gynnwys materion yn ymwneud â thrwyddedau presennol.

14:24 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I ask, Minister, for a statement on what the Welsh Government is doing to preserve old and historic buildings in our city centres and around? In Newport, the Clarence Place area, when you travel there, Minister, you see the good old buildings, maybe over 100 years old, and right on the top, there are big blocks of stone rather than bricks, and we should learn lessons from the Severn bridge, when a big slab of ice fell, and caused some fatalities on the Severn bridge. So, a similar type of incident could easily happen in our city centres if there's no health check on these buildings by the local government regularly, so that they are fit for purpose—otherwise the health hazard and the safety of the public is in danger in these areas. Also, what is the Welsh Government doing, in conjunction with the local authorities, to ensure such buildings are kept in a good state of repair in the interest of public safety, and how often are these buildings—whether in the hands of public or private sector—checked by the building inspectors, regularly or not? Thank you.

A gaf i ofyn, Weinidog, am ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu adeiladau hen a hanesyddol yng nghanol ein dinasoedd a'r cyffiniau? Yng Nghasnewydd, yn ardal Clarence Place, pan fyddwch chi'n teithio yno, Weinidog, rydych chi'n gweld yr hen adeiladau da, dros 100 oed efallai, ac ar eu pennau uchaf, ceir blociau mawr o gerrig yn hytrach na brics, a dylem ni ddysgu gwersi o bont Hafren, pan syrthiodd slaben fawr o rew, ac achosi rhai marwolaethau ar bont Hafren. Felly, gellid cael math tebyg o ddigwyddiad yng nghanol ein dinasoedd yn rhwydd os na fydd archwiliad o gyflwr yr adeiladau hyn gan lywodraeth leol yn rheolaidd, fel eu bod yn addas i'w diben—fel arall mae'r perygl iechyd a diogelwch y cyhoedd mewn perygl yn y mannau hyn. Hefyd, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, ar y cyd â'r awdurdodau lleol, i sicrhau bod adeiladau o'r fath yn cael eu cadw mewn cyflwr da er budd diogelwch y cyhoedd, a pha mor aml mae'r adeiladau hyn—boed nhw yn nwylo'r sector cyhoeddus neu breifat—yn cael eu harchwilio gan yr arolygwyr adeiladu, yn rheolaidd neu beidio? Diolch yn fawr.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm not sure what Mohammad Asghar is referring to. There must be a situation, perhaps, arising, in a town or city centre in his region. Clearly, this is the responsibility of the local authority and those landowners, but I would say that our commitment to town regeneration, and the funds that we've provided, not just through targeted match funding, but indeed through regeneration by the Minister for Communities and Tackling Poverty, indicates our commitment to support of those town centres.

Wel, nid wyf yn siŵr at beth mae Mohammad Asghar yn cyfeirio ato. Mae'n rhaid bod sefyllfa, efallai, yn codi, mewn canol tref neu ddinas yn ei ranbarth. Yn amlwg, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a'r perchnogion tir hynny yw hwn, ond byddwn yn dweud bod ein hymrwymiad i adfywio trefi, a'r arian rydym ni wedi ei ddarparu, nid yn unig drwy arian cyfatebol wedi'i dargedu, ond drwy adfywio gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn wir, yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi'r canol trefi hynny.

14:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've been made aware that, due to concerns about sustainability of staff numbers and safety, Cwm Taf Local Health Board will be transferring the out-of-hours service from Ysbyty Cwm Cynon to Prince Charles Hospital. Obviously, this will be of concern to my constituents. I would like to request a statement from the Minister for health on out-of-hours services, and in particular on the numbers using them across Wales. And I would also appreciate information on how we are ensuring that people make the right choice about accessing the appropriate source of medical assistance—out-of-hours, accident and emergency et cetera—and what assessment the Welsh Government has given to the effectiveness of current programmes signposting people in these cases.

Weinidog, fe'm hysbyswyd, o ganlyniad i bryderon am gynaliadwyedd niferoedd a diogelwch staff, y bydd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn trosglwyddo'r gwasanaeth y tu allan i oriau o Ysbyty Cwm Cynon i Ysbyty'r Tywysog Siarl. Yn amlwg, bydd hyn yn destun pryder i'm hetholwyr. Hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd ar wasanaethau y tu allan i oriau, ac yn benodol ar y niferoedd sy'n eu defnyddio ledled Cymru. A byddwn yn hefyd yn gwerthfawrogi gwybodaeth am sut rydym ni'n sicrhau bod pobl yn gwneud y dewis cywir o ran mynd i'r ffynhonnell briodol o gymorth meddygol—y tu allan i oriau, damweiniau ac achosion brys ac ati—a pha asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o effeithiolrwydd rhaglenni cyfredol o ran cyfeirio pobl yn yr achosion hyn.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Christine Chapman for that question. Of course, the delivery of out-of-hours services is the responsibility of Cwm Taf university health board. I think it's important to say that no decisions have been taken at this point about where these services are provided from, but there is ongoing engagement with the communities involved.

Diolchaf i Christine Chapman am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, cyfrifoldeb bwrdd iechyd prifysgol Cwm Taf yw'r ddarpariaeth o wasanaethau y tu allan i oriau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig dweud nad oes unrhyw benderfyniadau wedi eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch o ble y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu, ond ceir ymgysylltiad parhaus â'r cymunedau dan sylw.

14:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week's budget was an absolute disaster for the people of Blaenau Gwent. You will be aware that some of the poorest and most vulnerable families in my constituency are already losing £30 million a year, as a consequence of the UK Government's welfare reform programme. The issues raised last week over tax credits will only increase in-work poverty, which we're already seeing increasing, and will cause extraordinary hardship to people in Blaenau Gwent and elsewhere. I'd like to ask Welsh Government if it could publish its assessment of the impact of these budget changes to people in constituencies across Wales, and then table a debate on the assessment, for us to take a view on how we in Wales can respond to the poverty creation policies being pursued by the UK Government.

Weinidog, roedd cyllideb yr wythnos diwethaf yn drychineb llwyr i bobl Blaenau Gwent. Byddwch yn ymwybodol bod rhai o'r teuluoedd tlotaf a mwyaf agored i niwed yn fy etholaeth i eisoes yn colli £30 miliwn y flwyddyn, o ganlyniad i raglen diwygio lles Llywodraeth y DU. Bydd y materion a godwyd yr wythnos diwethaf o ran credydau treth yn gwneud dim ond cynyddu tlodi mewn gwaith, yr ydym ni eisoes yn ei weld yn cynyddu, a bydd yn achosi caledi eithriadol i bobl ym Mlaenau Gwent ac mewn mannau eraill. Hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru pe gallai gyhoeddi ei hasesiad o effaith y newidiadau cyllidebol hyn i bobl mewn etholaethau ledled Cymru, ac yna cyflwyno dadl ar yr asesiad, er mwyn i ni gael safbwynt ar sut y gallwn ni yng Nghymru ymateb i'r polisïau creu tlodi sy'n cael eu dilyn gan Lywodraeth y DU.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Alun Davies, I did issue a written statement last week, which I know you will have seen, expressing my concerns about the impact of this budget—they are I think well-rehearsed again this afternoon—and the particularly adverse negative impact on young people, and that, as Ann Jones has said, includes young working families as well as young people. As well as doing our own assessment, I think it would be worth while looking at the assessment of the Bevan Foundation, which of course is particularly serving communities like yours in Blaenau Gwent, which gives very clear concerns about the announcements last week, particularly in terms of the so-called national living wage, saying:

'Unfortunately, not everyone will enjoy the benefits of the national living wage.... Give away and take away'.

Wel, Alun Davies, cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf, y gwn y byddwch wedi ei weld, yn mynegi fy mhryderon am effaith y gyllideb hon—mae nhw wedi cael sylw mawr eto y prynhawn yma rwy'n credu—a'r effaith arbennig o andwyol ar bobl ifanc, ac mae hynny, fel y mae Ann Jones wedi dweud, yn cynnwys teuluoedd ifanc sy'n gweithio yn ogystal â phobl ifanc. Yn ogystal â gwneud ein hasesiad ein hunain, rwy'n meddwl y byddai'n werth chweil edrych ar asesiad Sefydliad Bevan, sydd wrth gwrs yn gwasanaethu cymunedau fel eich un chi ym Mlaenau Gwent yn benodol, sy'n mynegi pryderon eglur iawn am y cyhoeddiadau yr wythnos diwethaf, yn enwedig o ran y cyflog byw cenedlaethol tybiedig, gan ddweud:

Yn anffodus, ni fydd pawb yn mwynhau manteision y cyflog byw cenedlaethol....Rhoi i ffwrdd a chymryd i ffwrdd.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:29

## 3. Datganiad: Cyhoeddi Adroddiad Flynn

## 3. Statement: Publication of the Flynn Report

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the publication of the Flynn report. First Minister.

Symudwn at eitem 3 nawr, sef datganiad gan y Prif Weinidog ar gyhoeddi adroddiad Flynn. Brif Weinidog.

14:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd. Today I published the Flynn report into events in privately run care homes in the south-east of Wales. It's a detailed and sombre account that is a difficult and challenging read. Llywydd, it's a report I personally commissioned 18 months ago when it became clear to me that our legal processes, and, indeed, many of those tasked with protection, could not answer some of the most important questions that a family can ask: 'Why were the residential services for my loved one so profoundly lacking in proper care and humanity?'

Diolch i chi, Lywydd. Heddiw cyhoeddais adroddiad Flynn ar ddigwyddiadau mewn cartrefi gofal preifat yn y de-ddwyrain. Mae'n gyfrif manwl a phrudd sy'n anodd a heriol i'w ddarllen. Lywydd, mae'n adroddiad a gomisiynais i yn bersonol 18 mis yn ôl pan ddaeth yn amlwg i mi na allai ein prosesau cyfreithiol, nac, yn wir, llawer o'r rhai sy'n gyfrifol am amddiffyn, ateb rhai o'r cwestiynau pwysicaf y gall teulu ofyn: 'Pam roedd y gwasanaethau preswyl i fy anwylyd mor hynod brin o ofal priodol a dyngarwch?'

So, in December 2013, I asked Dr Margaret Flynn, an eminent figure in social care, and the author of an official review into the care scandal at Winterbourne View in Bristol, to undertake an independent report into events over a decade ago in care homes in the south- east. Some of these events have already been the subject of a lengthy police inquiry— Operation Jasmine—but because of a variety of factors, I felt that there were still questions to be answered and that it was right to undertake a full and detailed review. I asked Dr Flynn to set out what happened, what had been done since, and, crucially, what we could still do to prevent such events happening again.

Felly, ym mis Rhagfyr 2013, gofynnais i Dr Margaret Flynn, ffigwr amlwg ym maes gofal cymdeithasol, ac awdur adolygiad swyddogol o'r sgandal gofal yn Winterbourne View ym Mryste, i gyflawni adroddiad annibynnol ar ddigwyddiadau dros ddegawd yn ôl mewn cartrefi gofal yn y de-ddwyrain. Mae rhai o'r digwyddiadau hyn eisoes wedi bod yn destun ymholiad heddlu hir—Operation Jasmine—ond oherwydd amrywiaeth o ffactorau, roeddwn i'n teimlo bod cwestiynau i'w hateb o hyd a'i bod yn iawn ymgymryd ag adolygiad llawn a manwl. Gofynnais i Dr Flynn nodi'r hyn a ddigwyddodd, beth oedd wedi ei wneud ers hynny, ac, yn hanfodol, yr hyn y gallem ni ei wneud o hyd i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto.

Dr Flynn's report sets out the events and failures that led to the neglect and abuse in several residential homes. But, for me, what this report is about, at its heart, is people—real people who deserved much, much better from those they trusted to care for them in their final years. There were many victims— over 100—who suffered unacceptably poor and often damaging care. These included Evelyn Jones, who would do shopping for her neighbour and loved to socialise; Pearl Cavell York, who had worked in a biscuit factory and was a member of the local ladies choir; Stanley Bradford, a former miner, who used to make dolls houses and castles for the children in the neighbourhood; and Megan Downs, who spent the second world war in the Women's Royal Air Force after volunteering when war broke out. I'm aware that, today, it is 11 years to the day since Megan passed away. I am, however, pleased that I can make this statement, with Megan's daughters, Loraine, Val, and Marilyn, along with other families, being here in the public gallery to listen.

Mae adroddiad Dr Flynn yn nodi'r digwyddiadau a'r methiannau a arweiniodd at yr esgeulustod a'r cam-drin mewn sawl cartref preswyl. Ond, i mi, mae'r adroddiad hwn, yn ei hanfod, yn ymwneud â phobl—pobl go iawn a oedd yn haeddu llawer, llawer gwell gan y rhai y gwnaethant ymddiried ynddyn nhw i ofalu amdanynt yn eu blynyddoedd olaf. Roedd llawer o ddioddefwyr—dros 100—a ddioddefodd gofal annerbyniol o wael a oedd yn aml yn niweidiol. Roedd y rhain yn cynnwys Evelyn Jones, a fyddai'n siopa ar ran ei chymydog ac a oedd wrth ei bodd yn cymdeithasu; Pearl Cavell York, a oedd wedi gweithio mewn ffatri fisgedi ac a oedd yn aelod o'r côr merched lleol; Stanley Bradford, cyn löwr, a oedd yn arfer gwneud tai doliau a chestyll i'r plant yn y gymdogaeth; a Megan Downs, a dreuliodd yr ail ryfel byd yn Awyrlu Brenhinol y Menywod ar ôl gwirfoddoli pan ddechreuodd y rhyfel. Rwy'n ymwybodol ei bod yn 11 mlynedd i'r diwrnod heddiw ers y bu Megan farw. Fodd bynnag, rwy'n falch fy mod i'n gallu gwneud y datganiad hwn, pan fo merched Megan, Loraine, Val, a Marilyn, ynghyd â theuluoedd eraill, yma yn yr oriel gyhoeddus i wrando.

Today is a day when our thoughts as a Government, as a National Assembly, and as a nation, are with the families of those who suffered so much in these events. I've met Loraine, Kelvyn and David, who I know can't be here today, and the other families as this review has gone on and I want to say something about them now. They are some of the bravest, most resilient people I've met. They have, despite many years of being frustrated in their search for the truth, continued to press for answers to their questions, and to argue for change. Indeed, it was at a meeting with Loraine and Kelvyn in 2013 that it became clear to me that an expert, independent examination was essential if families were going to get the answers they rightly deserved. That's why I asked Dr Flynn to undertake this review and why I have decided to publish it in full today without amendment or redaction.

Mae heddiw'n ddiwrnod pan fo'n meddyliau fel Llywodraeth, fel Cynulliad Cenedlaethol, ac fel cenedl, gyda theuluoedd y rhai a ddioddefodd cymaint yn y digwyddiadau hyn. Rwyf wedi cyfarfod Loraine, Kelvyn a David, yr wyf yn gwybod na allant fod yma heddiw, a'r teuluoedd eraill wrth i'r adolygiad hwn fynd rhagddo a hoffwn ddweud rhywbeth amdanyn nhw nawr. Maen nhw ymhlith y bobl ddewraf, fwyaf cydnerth yr wyf fi erioed wedi cyfarfod â nhw. Maen nhw, er gwaethaf blynyddoedd lawer o rwystredigaeth wrth chwilio am y gwir, wedi parhau i bwyso am atebion i'w cwestiynau, ac i ddadlau dros newid. Yn wir, mewn cyfarfod gyda Loraine a Kelvyn yn 2013 y daeth yn amlwg i mi fod archwiliad arbenigol, annibynnol yn hanfodol os oedd teuluoedd yn mynd i gael yr atebion yr oeddent yn eu haeddu. Dyna pam y gofynnais i Dr Flynn gyflawni'r adolygiad hwn a pham yr wyf wedi penderfynu ei gyhoeddi'n llawn heddiw heb ddiwygio nac ail-olygu.

Before I move on, I'd like to take this opportunity to thank Dr Margaret Flynn for the work she's undertaken in preparing the comprehensive report that's been published this morning to Members of the Assembly. I know, from meeting with her over the last 18 months, that it has not been easy. She has faced the challenge of gaining willing co-operation from a wide range of parties, some of which were less than co-operative. She has carried out that work with vigour and rigour. I know from my conversations with them that the families involved have full confidence in Dr Flynn, and I too thank her for the work she's done and the way she's done it. She never forgot that this is a report about real people with real families.

Cyn i mi symud ymlaen, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Dr Margaret Flynn am y gwaith y mae hi wedi ei wneud i baratoi'r adroddiad cynhwysfawr a gyhoeddwyd y bore yma i Aelodau'r Cynulliad. Gwn, o gwrdd â hi dros y 18 mis diwethaf, nad yw wedi bod yn rhwydd. Mae hi wedi wynebu'r her o sicrhau cydweithrediad parod gan amrywiaeth eang o bartïon, yr oedd rhai ohonynt yn llai na chydweithredol. Mae hi wedi gwneud y gwaith hwnnw gydag egni a manwl gywirdeb. Gwn o'm sgyrsiau gyda nhw fod gan y teuluoedd dan sylw hyder llwyr yn Dr Flynn, ac rwyf innau hefyd yn diolch iddi am y gwaith y mae hi wedi ei wneud a'r ffordd y mae hi wedi ei wneud. Ni anghofiodd erioed bod hwn yn adroddiad am bobl go iawn â theuluoedd go iawn.

Llywydd, the report is a compelling and upsetting read. It does not flinch from laying out the events that occurred. Dr Flynn has included photographs that are truly shocking and bring home the reality of what neglectful care looks like. It's a report that everyone involved with vulnerable people should read. It's a testament to inaction and inadequate controls over the care of vulnerable people and must never happen again. Indeed, things have changed, and, in many cases, have got better, but Dr Flynn's report is clear that there is more to be done.

Lywydd, mae'r adroddiad yn rymus i'w ddarllen ac yn achosi gofid mawr. Nid yw'n osgoi cyflwyno'r hyn a ddigwyddodd. Mae Dr Flynn wedi cynnwys ffotograffau sy'n wirioneddol syfrdanol ac yn pwysleisio gwirionedd sut mae gofal esgeulus yn edrych. Mae'n adroddiad y dylai pawb sy'n ymwneud â phobl agored i niwed ei ddarllen. Mae'n dyst i ddiffyg gweithredu a rheolaethau annigonol dros ofal pobl agored i niwed ac mae'n rhaid sicrhau na fydd hyn byth yn digwydd eto. Yn wir, mae pethau wedi newid, ac, mewn llawer o achosion, wedi gwella, ond mae adroddiad Dr Flynn yn ei gwneud yn eglur bod mwy i'w wneud.

I have asked Dr Flynn to lead a series of workshops around Wales this autumn with those involved in the care of older people, where she can talk personally through her findings and the lessons. In addition, I will return to the Assembly after the summer to set out in detail what we as a Government have already done, and what we intend to do in response to the points made by Dr Flynn, and, in particular, where we have influence over the recommendations she makes.

Rwyf wedi gofyn i Dr Flynn arwain cyfres o weithdai ledled Cymru yn ystod yr hydref hwn gyda'r rheini sy'n ymwneud â gofalu am bobl hŷn, lle y gall hi siarad yn bersonol drwy ei chanfyddiadau a'r gwersi. Hefyd, byddaf yn dychwelyd i'r Cynulliad ar ôl yr haf i nodi'n fanwl yr hyn yr ydym ni fel Llywodraeth wedi ei wneud eisoes, a'r hyn yr ydym ni'n bwriadu ei wneud mewn ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan Dr Flynn, ac, yn arbennig, lle mae gennym ddylanwad dros yr argymhellion mae hi'n eu gwneud.

But, Dr Flynn's report recognises that protecting and safeguarding those in care is not simply the responsibility of one body or one organisation. There are many organisations that Dr Flynn identifies in her report as contributors to a better and safer system. I don't, as First Minister, have direct or indirect oversight of many of them; indeed, eight out of the 12 recommendations are directed towards non-devolved areas or organisations, such as the police and the Crown Prosecution Service.

Ond, mae adroddiad Dr Flynn yn cydnabod nad cyfrifoldeb un corff neu un sefydliad yn unig yw amddiffyn a diogelu'r rhai sydd mewn gofal. Ceir llawer o sefydliadau y mae Dr Flynn yn nodi yn ei hadroddiad fel cyfranwyr i system well a mwy diogel. Nid oes gen i, fel Prif Weinidog, unrhyw oruchwyliaeth uniongyrchol nac anuniongyrchol o lawer ohonynt; yn wir, mae wyth o'r 12 argymhelliad wedi'u cyfeirio at feysydd neu sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli, fel yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

I have, because of this, today written to the Secretary of State for Wales, to request that he uses his offices to make sure that those organisations within the UK Government's remit respond meaningfully and speedily to those recommendations and conclusions. I will ask him to ensure that those organisations write to me as First Minister, to set out their intentions, following this detailed and important review, and I will, of course, share such letters with Members of the Assembly.

Rwyf i, oherwydd hyn, wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru heddiw, i ofyn iddo ddefnyddio ei swyddogaeth i wneud yn siŵr bod y sefydliadau hynny sy'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU yn ymateb yn ystyrlon ac yn gyflym i'r argymhellion a'r casgliadau hynny. Byddaf yn gofyn iddo sicrhau bod y sefydliadau hynny'n ysgrifennu ataf i fel Prif Weinidog, i nodi eu bwriadau, yn dilyn yr adolygiad manwl a phwysig hwn, a byddaf, wrth gwrs, yn rhannu llythyrau o'r fath gydag Aelodau'r Cynulliad.

Finally, I believe it's important to say something more. I don't want those considering entering residential care to believe this is what to expect. The events described by Dr Flynn were truly terrible, but I want to reaffirm that the vast majority of care for older people in Wales is 'good' or 'excellent'. The most recent annual review by the inspectorate showed that 86 per cent of adult care met requirements, and, of those that didn't, improvements were made in most cases. Our systems of oversight have improved over the 10 years since these events, and will be further strengthened through the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill, currently undergoing scrutiny. We also have, of course, more avenues and opportunities for concerns to be raised by families and carers, and the inspectorate itself has a powerful channel to raise concerns, which allows, if appropriate, anonymity.

Yn olaf, rwy'n credu ei bod yn bwysig dweud rhywbeth arall. Nid wyf eisiau i'r rhai sy'n ystyried mynd i ofal preswyl feddwl mai dyma sydd i'w ddisgwyl. Mae'r digwyddiadau a ddisgrifir gan Dr Flynn yn wirioneddol ofnadwy, ond hoffwn ail-bwysleisio bod mwyafrif llethol y gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn 'dda' neu'n 'rhagorol'. Dangosodd yr adolygiad blynyddol diweddaraf gan yr arolygiaeth fod 86 y cant o ofal i oedolion yn bodloni'r gofynion, ac, o'r rhai nad oeddent, y gwnaed gwelliannau yn y rhan fwyaf o achosion. Mae ein systemau goruchwylio wedi gwella dros y 10 mlynedd ers y digwyddiadau hyn, a byddant yn cael eu cryfhau ymhellach trwy Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), sy'n destun craffu ar hyn o bryd. Mae gennym hefyd, wrth gwrs, fwy o lwybrau a chyfleoedd i bryderon gael eu codi gan deuluoedd a gofalwyr, ac mae gan yr arolygiaeth ei hun sianel rymus i godi pryderon, sy'n caniatáu i bobl fod yn anhysbys, os yw hynny'n briodol.

The delivery of care is complex and difficult. When it fails, it can be truly terrible. This report is a powerful reminder of how we must continually monitor services, challenge practice, and, most importantly, listen to those closest to it. I'm pleased that, after 10 years, we are able to give the families here today some of the answers that they have sought. My hope now is that we can work together to avoid such events being repeated ever again.

Mae'r ddarpariaeth o ofal yn gymhleth ac yn anodd. Pan fydd yn methu, gall fod yn wirioneddol ofnadwy. Mae'r adroddiad hwn yn un grymus sy'n ein hatgoffa o sut y mae'n rhaid i ni fonitro gwasanaethau, herio arfer, ac, yn bwysicaf oll, gwrando ar y rhai sydd agosaf ato yn barhaus. Rwy'n falch, ar ôl 10 mlynedd, ein bod ni'n gallu rhoi rhai o'r atebion i'r teuluoedd yma heddiw y maen nhw wedi gofyn amdanynt. Fy ngobaith nawr yw y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i atal digwyddiadau o'r fath rhag cael eu hailadrodd fyth eto.

14:37

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister, for your statement this afternoon, and, in particular, the briefing that was arranged this morning with Dr Flynn to be able to understand the report in greater detail. It is a very considerable report, which warrants a lot of thought, and, in particular, a route-map about the action to be taken from it, and the conclusions that Dr Flynn has arrived at.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma, ac, yn benodol, y sesiwn friffio a drefnwyd y bore yma gyda Dr Flynn i allu deall yr adroddiad yn fanylach. Mae'n adroddiad sylweddol iawn, sy'n haeddu llawer o ystyriaeth, ac, yn benodol, trywydd ar gyfer y camau i'w cymryd ohono, a'r casgliadau y mae Dr Flynn wedi dod iddynt.

And you are quite right, First Minister, as the report is quite right, to put so much weight on the issue of families and individuals. This isn't about process—it is about process to a point, but, ultimately, this report has been put together because individuals were neglected, and severely neglected, over a considerable period of time, despite many warning signs flashing, and, ultimately, inaction, I would suggest, by organisations that should've known better.

Ac rydych chi yn llygad eich lle, Brif Weinidog, fel y mae'r adroddiad yn llygad ei le, i roi cymaint o bwyslais ar y mater o deuluoedd ac unigolion. Nid yw hyn yn ymwneud â phroses—mae'n ymwneud â phroses hyd at bwynt, ond, yn y pen draw, lluniwyd yr adroddiad hwn gan fod unigolion wedi cael eu hesgeuluso, a'u hesgeuluso'n ddifrifol, dros gyfnod sylweddol o amser, er gwaethaf llawer o arwyddion rhybudd yn fflachio, ac, yn y pen draw, diffyg gweithredu, byddwn yn awgrymu, gan sefydliadau a ddylai fod wedi gwybod yn well.

It is a tribute to the fortitude of the families, and the strength of the families, that they have engaged in the process to seek answers over the loss of loved ones, and the dignity with which they've conducted themselves is to be commended. And, hopefully, from this report, ultimately, they will get an element of satisfaction that their actions and their tenacity in fighting for this report will stop other families going through the trauma that they have had to go through.

Mae'n deyrnged i ddewrder y teuluoedd, a chryfder y teuluoedd, eu bod wedi cymryd rhan yn y broses i chwilio am atebion dros golli anwyliaid, ac mae'r urddas y maen nhw wedi ei ddangos i'w ganmol. A, gobeithio, o'r adroddiad hwn, yn y pen draw, y byddant yn cael elfen o foddhad o'r ffaith y bydd eu gweithredoedd a'u dycnwch wrth ymladd am yr adroddiad hwn yn atal teuluoedd eraill rhag mynd drwy'r trawma y maen nhw wedi gorfod mynd trwyddo.

If I could touch on some of the points that you raised in your statement, First Minister. The ability to get the regulator, the General Medical Council, and other organisations, in particular, to actually monitor and respond when things do get highlighted, and there are conflicts of interests at stake here, is a clear problem area that the report identifies, and, in the briefing session this morning, was evident in Dr Flynn's comments. I'd be grateful if you could highlight how you as a Government will be engaging with the professional bodies to try and make a stronger case, and a stronger regulatory environment, so that there cannot be these gaps for the proprietors of these homes to operate as they were able to operate over such a long period of time. I do also think that it is vital that the non-devolved agencies show a better understanding of the devolved settlement and, in particular, show greater co-operation when reports like this are commissioned.

Os caf i grybwyll rhai o'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich datganiad, Brif Weinidog. Mae'r gallu i gael y rheoleiddiwr, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a sefydliadau eraill, yn benodol, i fonitro ac ymateb pan fydd pethau'n cael eu hamlygu, ac mae gwrthdaro buddiannau yn y fantol yma, yn faes sy'n peri problemau eglur y mae'r adroddiad yn ei nodi, ac roedd yn amlwg yn sylwadau Dr Flynn yn y sesiwn briffio y bore yma. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi amlygu sut y byddwch chi fel Llywodraeth yn ymgysylltu â'r cyrff proffesiynol i geisio gwneud achos cryfach, ac amgylchedd rheoleiddio cryfach, fel na ellir cael y bylchau hyn i berchnogion y cartrefi hyn i weithredu fel roeddent yn gallu gweithredu dros gyfnod mor hir o amser. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn hanfodol bod yr asiantaethau sydd heb eu datganoli yn dangos gwell dealltwriaeth o'r setliad datganoli ac, yn benodol, yn dangos mwy o gydweithrediad pan fydd adroddiadau fel hyn yn cael eu comisiynu.

Again, I would be grateful to understand from the First Minister how he will be taking forward some of the concerns that Dr Flynn has highlighted, in particular over some of the organisations' unwillingness in the first instance, maybe, to engage fully in what is a report and a process that deserved complete and total commitment from those organisations, because they were so integral to that process. If, from these benches, we can assist in any shape or form—you closed your statement by saying you look across the Chamber for support in taking these recommendations forward—I can categorically assure you that we will be working with you 100 per cent to make sure that these types of examples are rooted out in the social care homes that we have here in Wales. I would work willingly with you on any aspect where you think that we might be able to benefit the families and people in the social care sector.

Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar i ddeall gan y Prif Weinidog sut y bydd yn bwrw ymlaen â rai o'r pryderon y mae Dr Flynn wedi eu hamlygu, yn enwedig o ran amharodrwydd rhai o'r sefydliadau, yn y lle cyntaf, efallai, i ymgysylltu'n llawn ag adroddiad a phroses sy'n haeddu ymrwymiad cyflawn a llwyr gan y sefydliadau hynny, gan eu bod mor hanfodol i'r broses honno. Os gallwn ni, o'r meinciau hyn, gynorthwyo mewn unrhyw ffordd o gwbl—fe wnaethoch gloi eich datganiad trwy ddweud eich bod yn edrych ar draws y Siambr i gael cymorth i fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn—gallaf eich sicrhau'n bendant y byddwn yn gweithio gyda chi 100 y cant i wneud yn siŵr bod y mathau hyn o enghreifftiau yn cael eu dileu o'r cartrefi gofal cymdeithasol sydd gennym ni yma yng Nghymru. Byddwn yn barod iawn i weithio gyda chi ar unrhyw agwedd lle'r ydych chi'n meddwl y gallem ni fod o fudd i'r teuluoedd a'r bobl yn y sector gofal cymdeithasol.

I'd also be keen to understand whether the First Minister believes that the Crown Prosecution Service, in particular, has a role to revisit some of the enquiries that they made. Obviously, in terms of the original prosecution, it is well understood why that was not taken forward, but certainly, from the report—and I've only very briefly read the report—and obviously from the briefing this morning, there are other areas that, in light of some of the evidence that has been put together, would warrant a fresh investigation, I would suggest. I would welcome the First Minister's thoughts on that and whether his Government will be referring any aspects that have come to light to the CPS for their view and whether they will undertake a new inquiry into those new revelations that have come forward.

Byddwn hefyd yn awyddus i ddeall a yw'r Prif Weinidog yn credu bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yn arbennig, swyddogaeth o ran ailystyried rhai o'r ymholiadau a wnaed ganddynt. Yn amlwg, o ran yr erlyniad gwreiddiol, deallir yn iawn pam na fwriwyd ymlaen â hynny, ond yn sicr, o'r adroddiad—a dim ond yn gyflym iawn yr wyf i wedi darllen yr adroddiad—ac yn amlwg o'r sesiwn briffio y bore yma, ceir meysydd eraill sydd, yng ngoleuni rhywfaint o'r dystiolaeth a gasglwyd, yn cyfiawnhau ymchwiliad newydd, byddwn yn awgrymu. Byddwn yn croesawu safbwyntiau'r Prif Weinidog ar hynny ac a fydd ei Lywodraeth yn cyfeirio unrhyw agweddau sydd wedi dod i'r amlwg i Wasanaeth Erlyn y Goron am ei safbwynt ac a fyddant yn cynnal ymchwiliad newydd i'r datgeliadau newydd hynny sydd wedi dod i'r amlwg.

Above all, First Minister, you do make the point that the majority of people in social care have a very positive experience. In particular, there are many dedicated workers in the field of social care looking after some of the most vulnerable in society, and that is to be applauded and promoted, because, sadly, one rotten apple has a real danger here of making the whole barrel bad. This example really does show, when a process goes wrong, how cataclysmically it does go wrong. The photographs in the report and the pictures of the individuals who have suffered are quite horrific to say the least. I commend the Government for commissioning this report and I commend Dr Flynn for the tenacity she's taken on the work. I would applaud the First Minister if he were able to meet with Dr Flynn again and ask her whether she needs to do any more work and actually unravel some more of the complex issues that are highlighted in this report, because there is a danger, sometimes, that reports tend to go on and on and they don't ever report. But from the briefing we had this morning, it certainly did come clear that there are some areas that Dr Flynn felt would warrant further consideration.

Yn anad dim, Brif Weinidog, rydych chi yn gwneud y pwynt bod mwyafrif y bobl mewn gofal cymdeithasol yn cael profiad cadarnhaol iawn. Yn benodol, ceir llawer o weithwyr ymroddedig ym maes gofal cymdeithasol sy'n gofalu am rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ac mae hynny i'w gymeradwyo a'i hyrwyddo, oherwydd, yn anffodus, ceir perygl gwirioneddol yma y bydd un afal pwdr yn llygru'r gasgen gyfan. Mae'r enghraifft hon wir yn dangos, pan fydd proses yn mynd o chwith, pa mor drychinebus y mae hynny'n digwydd. Mae'r ffotograffau yn yr adroddiad a'r lluniau o'r unigolion sydd wedi dioddef yn eithaf erchyll a dweud y lleiaf. Rwy'n cymeradwyo'r Llywodraeth am gomisiynu'r adroddiad hwn ac rwy'n cymeradwyo Dr Flynn ar y dycnwch y mae hi wedi ei ddangos wrth fynd i'r afael â'r gwaith. Byddwn yn canmol y Prif Weinidog pe byddai'n gallu cyfarfod â Dr Flynn eto a gofyn iddi a oes angen iddi wneud mwy o waith o gwbl a datrys rhagor o'r materion cymhleth sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn, oherwydd ceir perygl, weithiau, bod adroddiadau'n tueddu i fynd ymlaen ac ymlaen ac nad ydynt byth yn adrodd. Ond o'r sesiwn briffio a gawsom y bore yma, roedd yn sicr yn amlwg bod rhai meysydd y teimlai Dr Flynn y byddent yn haeddu ystyriaeth bellach.

14:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the leader of the opposition for his comments? When I commissioned this report, I was aware that there was a prosecution that was, in effect, in limbo and that, if we were to wait for a resolution of that particular issue, then nothing would happen. I wasn't prepared for that to happen. There are a number of points that he has raised with me. He raises rightly the issue of conflicts of interest, for example, where a GP is the owner of a care home and is also the care home residents' general practitioner. This is, to me, an unacceptable conflict of interest. There are ways in which that conflict can be mitigated, but he is right to say that the GMC must look at the way that it regulates GPs in terms of what is, to me, an obvious conflict. There is also the need for Government in the future to look at whether there exists within the Assembly the ability to pass laws that would ensure that that conflict of interest is removed. But in the first instance, that responsibility lies with the GMC.

A gaf i ddiolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau? Pan gomisiynais i'r adroddiad hwn, roeddwn i'n ymwybodol bod erlyniad a oedd, i bob pwrpas, yn nhir neb a phe byddem yn aros i'r mater penodol hwnnw gael ei ddatrys, yna ni fyddai unrhyw beth yn digwydd. Nid oeddwn yn fodlon i hynny ddigwydd. Ceir nifer o bwyntiau y mae wedi eu codi gyda mi. Mae'n codi, a hynny'n gywir, y mater o wrthdaro buddiannau, er enghraifft, lle mae meddyg teulu yn berchennog cartref gofal a hefyd yn feddyg teulu preswylwyr y cartref gofal. Mae hwnnw, i mi, yn wrthdaro buddiannau annerbyniol. Ceir ffyrdd y gellir lliniaru'r gwrthdaro hwnnw, ond mae'n iawn i ddweud bod yn rhaid i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ystyried y ffordd y mae'n rheoleiddio meddygon teulu o ran yr hyn sydd, i mi, yn wrthdaro amlwg. Mae angen hefyd i Lywodraeth yn y dyfodol ystyried a yw'r gallu'n bodoli yn y Cynulliad i basio deddfau a fyddai'n sicrhau bod y gwrthdaro buddiannau hwnnw'n cael ei ddileu. Ond yn y lle cyntaf, y Cyngor Meddygol Cyffredinol sy'n gyfrifol am hynny.

Of the non-devolved parties, this is the second occasion where there has been a review or inquiry. The Robbie Powell inquiry was another area where this happened, where co-operation from non-devolved bodies has not been what it might have been. In relation to Robbie Powell, there was no co-operation at all, or very little of it. In relation to Dr Flynn's review, well, she has said what she has said in her report in terms of what she felt was not a full range of co-operation from some bodies. It is hugely important that, despite the fact that we don't have the ability as an Assembly or as a Government to call to account non-devolved bodies, there is nevertheless an understanding and recognition by non-devolved bodies that they are de facto responsible for their actions to this National Assembly, even if in law they are not—or certainly not at this moment in time.

O blith y partïon sydd heb eu datganoli, dyma'r ail dro lle bu adolygiad neu ymchwiliad. Roedd ymchwiliad Robbie Powell yn faes arall lle digwyddodd hyn, lle nad oedd cydweithrediad gan gyrff heb eu datganoli cystal ag y gallai fod. O ran Robbie Powell, nid oedd unrhyw gydweithrediad o gwbl, neu ychydig iawn ohono. O ran adolygiad Dr Flynn, wel, mae hi wedi dweud yr hyn y mae hi wedi ei ddweud yn ei hadroddiad o ran yr hyn yr hyn y teimlai nad oedd yn ystod lawn o gydweithrediad gan rai cyrff. Mae'n hynod bwysig, er gwaethaf y ffaith nad yw'r gallu gennym fel Cynulliad na fel Llywodraeth i ddwyn cyrff sydd heb eu datganoli i gyfrif, bod dealltwriaeth a chydnabyddiaeth, serch hynny, gan gyrff sydd heb eu datganoli eu bod yn gyfrifol ar sail de facto am eu gweithredoedd i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, hyd yn oed os nad ydynt yn ôl y gyfraith—neu yn sicr nid ar hyn o bryd.

He talks about the need for further prosecutions. That's a matter ultimately, of course, for the police and then the Crown Prosecution Service, but I do note that Dr Flynn, in her report, recommends that an inquest be held. Now, it may be that the inquest would be the first part of that process and a decision taken after that in terms of prosecution. That is a matter for the CPS, not for Government, but it does seem to me that the recommendation for an inquest to be held should be taken forward without further delay.

Mae'n sôn am yr angen am ragor o erlyniadau. Mater yw hwnnw, yn y pen draw, wrth gwrs, i'r heddlu ac yna i Wasanaeth Erlyn y Goron, ond rwyf yn sylwi bod Dr Flynn, yn ei hadroddiad, yn argymell y dylid cynnal cwest. Nawr, efallai mai'r cwest fyddai'r rhan gyntaf o'r broses honno ac y byddai penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl hynny o ran erlyn. Mater i Wasanaeth Erlyn y Goron yw hwnnw, nid i Lywodraeth, ond mae'n ymddangos i mi y dylid bwrw ymlaen â'r argymhelliad y dylid cynnal cwest heb oedi pellach.

Finally, he asked me about Dr Flynn's further involvement. He will have heard me say in my statement that she will continue to be involved. She will continue to host events where she will give her view based upon the report to providers in the future, and we, of course, as a Government will continue to engage with her to make sure that she is content that the recommendations in her review are taken forward.

Yn olaf, gofynnodd i mi am gyfranogiad pellach Dr Flynn. Bydd wedi fy nghlywed i'n dweud yn fy natganiad y bydd yn parhau i gymryd rhan. Bydd yn parhau i gynnal digwyddiadau lle bydd yn rhoi ei barn yn seiliedig ar yr adroddiad i ddarparwyr yn y dyfodol, a byddwn ni, wrth gwrs, fel Llywodraeth, yn parhau i ymgysylltu â hi i wneud yn siŵr ei bod yn fodlon bod yr argymhellion yn ei hadolygiad yn cael eu cyflawni.

14:46

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'd like to put on record my thanks to Dr Flynn for this report and my gratitude to the families who were able to contribute to it. I'm sure that the report will be widely read. I want to also put on the record, Presiding Officer, that my great-uncle was a resident for several years in the Bryngwyn home in Newbridge named in this report, but his experience there has not been the subject of any investigation that I'm aware of.

Hoffwn roi ar goedd fy niolch i Dr Flynn am yr adroddiad hwn a fy niolch i'r teuluoedd a oedd yn gallu cyfrannu ato. Rwy'n siŵr y bydd yr adroddiad yn cael ei ddarllen yn eang. Hoffwn roi ar goedd hefyd, Lywydd, fod fy hen-ewythr yn breswylydd am nifer o flynyddoedd yng nghartref Bryngwyn yn Nhrecelyn a enwyd yn yr adroddiad hwn, ond nid yw ei brofiad ef yno wedi bod yn destun unrhyw ymchwiliad yr wyf i'n ymwybodol ohono.

Now, it's clear, First Minister, that commissioning this report was the right course of action, as we now have a way forward after all these years. It's clear that the failure to provide proper care and dignity with humanity has been known about or suspected for at least 20 years in the Gwent area. Now, I realise you'll be responding fully and in detail later in the year, but I'd be grateful if you'd tell us if your Government is aware of problems existing elsewhere in Wales, because I doubt that this is confined to Gwent. It seems to me that Dr Das's company had a near-monopoly in the Caerphilly area and was able then to hold the council to ransom due to a lack of alternatives for those needing care. That rendered, I think, that local authority impotent to act. So, are you in a position to know if similar circumstances exist now anywhere else? Obviously, contracting with a poor provider cannot be right.

Nawr, mae'n amlwg, Brif Weinidog, mai comisiynu'r adroddiad hwn oedd y peth iawn i'w wneud, gan fod gennym ni ffordd ymlaen erbyn hyn, ar ôl yr holl flynyddoedd. Mae'n amlwg bod pobl yn ardal Gwent wedi bod yn ymwybodol neu wedi amau'r methiant i ddarparu gofal priodol gydag urddas a dyngarwch ers o leiaf 20 mlynedd. Nawr, rwy'n sylweddoli y byddwch chi'n ymateb yn llawn ac yn fanwl yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ddweud wrthym a yw eich Llywodraeth yn ymwybodol o broblemau sy'n bodoli mewn mannau eraill yng Nghymru, oherwydd rwy'n amau nad yw hyn wedi'i gyfyngu i Went. Mae'n ymddangos i mi bod gan gwmni Dr Das fonopoli fwy neu lai yn ardal Caerffili ac roedd yn gallu dal y cyngor yn wystlon wedyn oherwydd diffyg dewisiadau eraill i'r rhai a oedd angen gofal. Rwy'n credu bod hynny wedi gwneud yr awdurdod lleol hwnnw yn ddiymadferth i weithredu. Felly, a ydych chi mewn sefyllfa i wybod a oes amgylchiadau tebyg yn bodoli mewn unrhyw le arall nawr? Yn amlwg, ni all mynd i gontract gyda darparwr gwael fod yn iawn.

Now, some of the warning signs that were mentioned by Andrew R.T. Davies were not acted upon, but attempts to whistleblow were unsuccessful. Of course, POVA, the protection of vulnerable adults system, failed on many, many occasions. So, will you, when you respond to all the recommendations, be including measures that mean that you cannot ignore these warning signs?

Nawr, ni weithredwyd ar rai o'r arwyddion rhybudd a gafodd eu crybwyll gan Andrew R.T. Davies, ond roedd ymdrechion i chwythu'r chwiban yn aflwyddiannus. Wrth gwrs, methodd POVA, y system amddiffyn oedolion agored i niwed, lawer, lawer gwaith. Felly, a fyddwch chi, pan fyddwch chi'n ymateb i'r holl argymhellion, yn cynnwys mesurau sy'n golygu na allwch chi anwybyddu'r arwyddion rhybudd hyn?

Now, in this case, as mentioned previously, there was reliance on the criminal investigations, and of course they have not delivered justice to the families. Is it your understanding then that criminal proceedings might still be brought, some time in the future? I'd also be grateful if you'd reflect on the fact that it's often the case that the untrained, poorly paid, under-resourced front-line staff are much more likely to be facing criminal proceedings than the managers, the directors and the owners, whose motivation is profit and greed. Justice cannot be served if it's just the front-line staff who are brought to book. Will you be discussing this report with perhaps the UK Government, if it emerges that changes to non-devolved legislation are needed in order that those managers, directors and owners and so on can just as easily be brought to book as front-line staff?

Nawr, yn yr achos hwn, fel y soniwyd eisoes, roedd dibyniaeth ar yr ymchwiliadau troseddol, ac nid ydynt wedi sicrhau cyfiawnder i'r teuluoedd, wrth gwrs. Ai eich dealltwriaeth chi felly yw y gellid cyflwyno achos troseddol o hyd, rywbryd yn y dyfodol? Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe byddech yn myfyrio ar y ffaith ei bod yn aml yn wir mai'r staff rheng flaen, sydd heb eu hyfforddi, sy'n cael eu talu'n wael, nad oes ganddynt ddigon o adnoddau sy'n llawer mwy tebygol o wynebu achosion troseddol na'r rheolwyr, y cyfarwyddwyr a'r perchnogion, sydd wedi'u cymell gan elw a thrachwant. Ni ellir sicrhau cyfiawnder os mai dim ond y staff rheng flaen sy'n cael eu cosbi. A fyddwch chi'n trafod yr adroddiad hwn gyda Llywodraeth y DU efallai, os daw i'r amlwg bod angen newidiadau i ddeddfwriaeth nad yw wedi'i datganoli fel y gellir dwyn y rheolwyr, y cyfarwyddwyr a'r perchnogion hynny ac yn y blaen i gyfrif yr un mor hawdd â staff rheng flaen?

Obviously, I'd be keen for the conflict of interest issue that's been outlined in the report to be addressed as quickly as possible, and I think a coroner's inquest should be encouraged, and I would urge you, if you're able to do so, to encourage that inquest.

Yn amlwg, byddwn yn awyddus i'r gwrthdaro buddiannau a amlinellir yn yr adroddiad gael sylw cyn gynted â phosibl, ac rwy'n credu y dylid ceisio cael cwest crwner, a byddwn yn eich annog, os gallwch chi wneud hynny, i geisio cael y cwest hwnnw.

Your programme for government couldn't possibly have envisaged this report, but will you prioritise the changes recommended so that there's no delay in safeguarding those who are unable to fend for themselves?

Nid yw'n bosib y gallai eich rhaglen lywodraethu fod wedi rhagweld yr adroddiad hwn, ond a wnewch chi flaenoriaethu'r newidiadau a argymhellir fel nad oes unrhyw oedi o ran diogelu'r rhai nad ydynt yn gallu ymladd drostynt eu hunain?

Just to finish, for the families who have loved ones in residential care, they are unlikely to see those pressure ulcers and they may not see injuries that are underneath clothing, so even though they are regularly visiting, they may not be aware of the true circumstances. I wonder whether you would consider producing information to help guide us in what to look for in care settings, and what should perhaps trigger a suspicion in us that something deeply wrong is going on. As I mentioned, my uncle was fit and well, he was not bedridden, and he was able to get about, but he rarely had his own clothes on and his teeth were often lost, and reading this report, I can see that theme re-emerging over and over again—of people perhaps being unclean and so on, which should, perhaps, looking back now, have made me wonder whether there was something wrong there. So, would you consider publishing a guide for families so that they can easily see what they ought to look for?

Dim ond i orffen, i'r teuluoedd sydd ag anwyliaid mewn gofal preswyl, maen nhw'n annhebygol o weld y briwiau pwyso hynny ac efallai na fyddant yn gweld anafiadau sydd o dan ddillad, felly er eu bod yn ymweld yn rheolaidd, efallai na fyddant yn ymwybodol o'r gwir amgylchiadau. Tybed a fyddech chi'n ystyried cynhyrchu gwybodaeth i helpu i'n llywio o ran yr hyn i chwilio amdano mewn lleoliadau gofal, a beth ddylai sbarduno amheuaeth ynom efallai bod rhywbeth sydd ymhell o fod yn iawn yn digwydd. Fel y soniais, roedd fy ewythr yn heini ac yn iach, nid oedd yn gaeth i'w wely, ac roedd yn gallu symud o gwmpas, ond anaml yr oedd ganddo ei ddillad ei hun ac roedd ei ddannedd yn cael eu colli'n aml, ac o ddarllen yr adroddiad hwn, gallaf weld y thema honno'n ailymddangos drosodd a throsodd—o bobl efallai nad ydynt yn lân ac yn y blaen, a ddylai, efallai, o edrych yn ôl nawr, fod wedi gwneud i mi feddwl pa un a oedd rhywbeth o'i le yno. Felly, a fyddech chi'n ystyried cyhoeddi canllaw i deuluoedd fel y gallant weld yn rhwydd beth y dylent fod yn chwilio amdano?

Just to concur with Andrew R. T. Davies, I promise you our support in sorting out this vitally important matter.

Dim ond i gyd-fynd ag Andrew R.T. Davies, rwy'n addo ein cefnogaeth i chi o ran datrys y mater hanfodol bwysig hwn.

14:51

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the Member for her comments? The difficulty, of course, that has emerged here is because of the criminal investigation and the stay, in effect, in the criminal proceedings, there's been an inordinate delay. Now, whenever there is a criminal investigation, that has to take primacy, I think we understand that, but it can also lead to an enormous delay, as we've seen here, particularly in the circumstances of one individual and the delay that that's caused.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau? Yr anhawster, wrth gwrs, sydd wedi dod i'r amlwg yma yw oherwydd yr ymchwiliad troseddol a'r oedi, i bob pwrpas, yn yr achos troseddol, bu oedi gormodol. Nawr, pryd bynnag y bydd ymchwiliad troseddol, mae'n rhaid i hwnnw gymryd uchafiaeth, rwy'n meddwl ein bod ni'n deall hynny, ond gall hefyd arwain at oedi enfawr, fel rydym ni wedi ei weld yma, yn enwedig o dan amgylchiadau un unigolyn a'r oedi y mae hynny wedi ei achosi.

It's important, of course, not to prejudice any future criminal trial, and I don't intend to do that this afternoon. I've never accepted the point that, by having this review, that would be the case, and I've never accepted the point that, by having this review, we would prejudice any proceedings that took place in terms of professional competence. I don't accept that prejudice works in those circumstances; it applies in terms of jury trials.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, peidio â rhagfarnu unrhyw achos llys yn y dyfodol, ac nid wyf yn bwriadu gwneud hynny y prynhawn yma. Nid wyf erioed wedi derbyn y pwynt, drwy gynnal yr adolygiad hwn, y byddai hynny'n digwydd, ac nid wyf erioed wedi derbyn y pwynt y byddem, drwy gynnal yr adolygiad hwn, yn rhagfarnu unrhyw achos a fyddai'n digwydd o ran cymhwysedd proffesiynol. Nid wyf yn derbyn bod rhagfarn yn gweithio dan yr amgylchiadau hynny; mae'n berthnasol o ran achosion rheithgor.

The Member is quite right to say that we must make sure that there is a fair level of liability on those who own homes, as well as those who work, as it were, on the front line in those homes. She is right to point out that it tends to be those who are, sometimes through no fault of their own, not properly trained and who work very hard who take the blame; whereas those who are running the home—perhaps it is not as transparent or as clear what their responsibility is.

Mae'r Aelod yn gwbl gywir i ddweud bod yn rhaid i ni wneud yn siŵr bod lefel deg o atebolrwydd ar y rhai sy'n berchen ar gartrefi, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio, fel petai, ar y rheng flaen yn y cartrefi hynny. Mae hi'n iawn i nodi mai'r rhai sydd, weithiau heb fod unrhyw fai arnyn nhw, nad ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n gweithio'n galed iawn sy'n tueddu i gael y bai; tra bod y rhai sy'n rhedeg y cartref—efallai nad yw mor dryloyw neu mor eglur beth yw eu cyfrifoldeb.

What we need to do as a Government is examine what might be done in terms of changing the law. Now, we run here against the devolution settlement and its vagaries. For example, if we were to look at changing the nature of care provision and changing the nature of liability within the care sector in Wales, would that be devolved or not? There's an argument to say that it is; there are others who will take an opposite view. That is something we have to consider over the next few weeks and months. It's important that the changes that are recommended are put into place as quickly as possible, and we're mindful of that, as the response is shaped in the autumn—and the further information I will provide to the Assembly at that time.

Yr hyn y mae angen i ni ei wneud fel Llywodraeth yw archwilio'r hyn y gellid ei wneud o ran newid y gyfraith. Nawr, rydym yn dod yn erbyn y setliad datganoli a'i fympwyon yma. Er enghraifft, pe byddem ni'n ystyried newid natur y ddarpariaeth ofal a newid natur atebolrwydd yn y sector gofal yng Nghymru, a fyddai hynny wedi'i ddatganoli ai peidio? Ceir dadl i ddweud ei fod; ceir eraill a fyddai o'r farn groes. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei ystyried yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Mae'n bwysig bod y newidiadau sy'n cael eu hargymell yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl, ac rydym yn ymwybodol o hynny, wrth i'r ymateb gael ei lunio yn yr hydref—a'r wybodaeth bellach y byddaf yn ei darparu i'r Cynulliad bryd hynny.

She asked about whistleblowing, an important point. The report, it's right to say, repeatedly cites the importance of whistleblowing, both in terms of the events at that time and in the preparation of the report. I think it's worth thanking those who've been brave and principled enough to tell the truth and expose failure, despite the risks. I know that the Minister has already indicated he will seek to require providers of social care to have whistleblowing policies in place in regulations that will flow from the regulation and inspection Bill.

Gofynnodd am chwythu'r chwiban, sy'n bwynt pwysig. Mae'r adroddiad, mae'n wir i ddweud, yn nodi pwysigrwydd chwythu'r chwiban dro ar ôl tro, a hynny o ran y digwyddiadau ar yr adeg honno ac wrth baratoi'r adroddiad. Rwy'n credu ei bod yn werth diolch i'r rhai sydd wedi bod yn ddigon dewr ac egwyddorol i ddweud y gwir a datgelu methiant, er gwaethaf y risgiau. Gwn fod y Gweinidog eisoes wedi dweud y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal cymdeithasol fod â pholisïau chwythu'r chwiban ar waith mewn rheoliadau a fydd yn deillio o'r Bil rheoleiddio ac arolygu.

She further asked about pressure ulcers. Standard guidance on the prevention of healthcare-acquired pressure damage has been in place for a number of years, as part of the 1000 Lives improvement programme. I think she asked a wider question than that, namely, are families in a position where they can recognise pressure ulcers? That is something I know that we will consider as part of a fuller response to the review.

Gofynnodd hefyd am friwiau pwyso. Mae canllawiau safonol ar atal niwed pwyso a gafwyd wrth dderbyn gofal iechyd wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd, yn rhan o raglen wella 1000 o Fywydau. Rwy'n credu ei bod wedi gofyn cwestiwn ehangach na hynny, sef a yw teuluoedd mewn sefyllfa lle y gallant adnabod briwiau pwyso? Mae hynny'n rhywbeth y gwn y byddwn yn ei ystyried yn rhan o ymateb llawnach i'r adolygiad.

14:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I think all of us recognise that the vast majority of people employed in the health and social care sector would be just as ashamed of this report today as each and every one of us is. I have to say that I was even more shocked hearing that the complaints originated in 1995, and it took some 10 years before the criminal investigation was undertaken. It's also heartbreaking to read the testimonies of the families, outlined in the report quite clearly. For an official report to have to have a cover, warning you of the photographs that are actually shown in the report, that's something I've certainly never seen before.

Brif Weinidog, rwy'n meddwl ein bod ni i gyd yn cydnabod y byddai gan fwyafrif llethol y bobl a gyflogir yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol gymaint o gywilydd o'r adroddiad hwn heddiw â phob un ohonom ni. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i wedi cael mwy o sioc fyth yn clywed bod y cwynion yn tarddu o 1995, a'i bod wedi cymryd tua 10 mlynedd cyn i'r ymchwiliad troseddol gael ei gynnal. Mae hefyd yn dorcalonnus darllen tystiolaeth y teuluoedd, a amlinellir yn yr adroddiad yn eithaf eglur. I adroddiad swyddogol fod â chlawr yn eich rhybuddio am y ffotograffau a ddangosir yn yr adroddiad, mae hynny'n rhywbeth nid wyf i wedi ei weld o'r blaen, yn sicr.

There can be little doubt that these residents had their human rights severely breached, and I wonder whether, in that situation, our own consideration of the regulation and inspection regime and your response will actually outline why we're not able to actually enshrine the UN Convention on the Rights of the Child and principles for older people within that regulation, because I think that we are facing here a situation, as we've done in other reports, where people's human rights are being breached.

Ni all fod fawr o amheuaeth yr aethpwyd yn groes i hawliau dynol y preswylwyr hyn yn ddifrifol, a tybed, yn y sefyllfa honno, a fydd ein hystyriaeth ein hunain o'r drefn reoleiddio ac arolygu a'ch ymateb chi yn amlinellu pam nad ydym ni'n gallu ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r egwyddorion ar gyfer pobl hŷn yn y rheoliad hwnnw, oherwydd rwy'n credu ein bod ni'n wynebu sefyllfa yma, fel rydym ni wedi ei wneud mewn adroddiadau eraill, lle aethpwyd yn groes i hawliau dynol pobl.

The report also clearly, in those 10 years, underlines the failure of an inspection regime, to all intents and purposes. I wonder whether your response in the autumn will actually further outline the Government's view on whether or not we need, at this stage, to have an independent inspector for health and social care.

Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'n eglur, yn ystod y 10 mlynedd hynny, methiant cyfundrefn arolygu, i bob pwrpas. Tybed a fydd eich ymateb yn yr hydref yn amlinellu ymhellach safbwynt y Llywodraeth ar ba un a oes angen i ni, ar hyn o bryd, gael arolygydd annibynnol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

I note from the report itself that Dr Flynn actually wrote to the Government on 19 December 2014, outlining recommendations that could be considered in legislation going forward. I accept that many of those have been taken up in subsequent legislation, but clearly, I think, one of the issues that I read is whether or not, within the regulation and inspection regime by now, there is a need for us to look again at making health boards and local authorities assume greater responsibility with regard to their commissioning arrangements. There are certainly issues within the Tawel Fan report, which talks about weak commissioning arrangements within my health board in the north. I think the point was made earlier with regard to the pressure that local authorities and health boards are under to actually commission beds in homes that they might not necessarily be wholly content to commission those placements. Do we actually need to look at the statutory framework in which that occurs? I think, in your response, it would be interesting to know how many homes in Wales are currently subject to enhanced monitoring processes through the Care and Social Services Inspectorate Wales, because of the types of concerns that were outlined in this report that went on for years and years, and where changes to registration conditions were tried but the curtain was never brought down on the individual homes.

Sylwaf o'r adroddiad ei hun bod Dr Flynn wedi ysgrifennu at y Llywodraeth ar 19 Rhagfyr 2014, yn amlinellu argymhellion y gellid eu hystyried mewn deddfwriaeth yn y dyfodol. Rwy'n derbyn bod llawer o'r rheini wedi cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth ddilynol, ond yn amlwg, rwy'n meddwl, un o'r materion a ddarllenais yw pa un a oes angen i ni nawr, yn y drefn reoleiddio ac arolygu erbyn hyn, edrych eto ar wneud i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gymryd mwy o gyfrifoldeb o ran eu trefniadau comisiynu. Ceir materion yn adroddiad Tawel Fan, yn sicr, sy'n sôn am drefniadau comisiynu gwan yn fy mwrdd iechyd i yn y gogledd. Rwy'n meddwl y gwnaed y pwynt yn gynharach o ran y pwysau sydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gomisiynu gwelyau mewn cartrefi na fyddent o reidrwydd yn gwbl fodlon i gomisiynu'r lleoliadau hynny. A oes angen i ni edrych ar y fframwaith statudol y mae hynny'n digwydd o'i fewn? Rwy'n credu, yn eich ymateb, y byddai'n ddiddorol cael gwybod faint o gartrefi yng Nghymru sy'n destun prosesau monitro estynedig drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd, oherwydd y mathau o bryderon a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn a aeth ymlaen am flynyddoedd lawer, a lle ceisiwyd gwneud newidiadau i amodau cofrestru ond ni chaewyd unrhyw gartrefi unigol.

The photos of the pressure ulcers are really shocking. I don't think any of us can imagine our parents or our grandparents actually being placed in such a situation. I wonder, in the weeks that you're going to have to consider your response, whether or not you think the public health Bill actually allows us an opportunity to include the pressure ulcers issue as a notifiable issue, which is obviously referred to in the report.

Mae'r lluniau o'r briwiau pwyso yn wirioneddol frawychus. Nid wyf yn credu y gall unrhyw un ohonom ni ddychmygu ein rhieni neu ein teidiau a neiniau yn cael eu rhoi mewn sefyllfa o'r fath. Tybed, yn yr wythnosau y bydd gennych chi i ystyried eich ymateb, a ydych chi'n meddwl bod y Bil iechyd y cyhoedd yn rhoi cyfle i ni gynnwys briwiau pwyso fel mater hysbysadwy, y cyfeirir ato yn yr adroddiad, yn amlwg.

Finally, there is reference in the report not only to a conflict of interest arising with regard to the GP's role in the whole situation, but also a conflict of interest arising where a partner of an owner can actually be involved within the health board and actually be involved in the adult protection processes within the health board. Will your response actually include changing the regulations as they appertain to health boards in Wales currently? On the palliative care arrangements, which clearly were not sufficiently robust in these circumstances, there's talk about pain management processes not being robust enough, and there's talk about the use of opiates within the home. Given the update that the health Minister recently provided on the 'Together for Health' plan, and the fact that we have now a palliative care plan at a national level, I've been unable at local level to see how local health boards are actually ensuring, as is envisaged in the national plan, that the nursing home staff actually receive education through a structured programme with regard to their processes on palliative care.

Yn olaf, ceir cyfeiriad yn yr adroddiad nid yn unig at wrthdaro buddiannau sy'n codi o ran swyddogaeth y meddyg teulu yn yr holl sefyllfa, ond hefyd at wrthdaro buddiannau sy'n codi lle gall partner perchennog fod yn rhan o'r bwrdd iechyd a bod yn rhan o'r prosesau amddiffyn oedolion yn y bwrdd iechyd. A fydd eich ymateb yn cynnwys newid y rheoliadau fel y maen nhw'n berthnasol i fyrddau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd? O ran y trefniadau gofal lliniarol, y mae'n amlwg nad oeddent yn ddigon cadarn dan yr amgylchiadau hyn, ceir sôn nad oedd prosesau rheoli poen yn ddigon cadarn, a cheir sôn am y defnydd o opiadau yn y cartref. O ystyried y diweddariad a roddodd y Gweinidog iechyd yn ddiweddar ar gynllun 'Law yn Llaw at Iechyd', a'r ffaith bod gennym ni gynllun gofal lliniarol ar lefel genedlaethol erbyn hyn, nid wyf wedi gallu gweld ar lefel leol sut mae byrddau iechyd lleol yn sicrhau, fel y rhagwelir yn y cynllun cenedlaethol, bod staff cartrefi nyrsio yn derbyn addysg trwy raglen strwythuredig o ran eu prosesau ar ofal lliniarol.

Finally, given the reference to—and I think you touched on this earlier—the fact that, in most cases, it's front-line staff who carry the can for a lot of these incidents, and the reference in the letter in December to the need to look again at the penalties that are imposed on registered care home owners, and the fact that many of the penalties depend on the capital that's actually introduced into the home at the time under the Companies Act, I wonder whether you've been able to have any initial discussions with the UK Government with regard to changes in UK legislation in that regard.

Yn olaf, o ystyried y cyfeiriad—ac rwy'n credu i chi grybwyll hyn yn gynharach—at y ffaith, yn y rhan fwyaf o achosion, mai staff rheng flaen sy'n cael y bai am lawer o'r digwyddiadau hyn, a'r cyfeiriad yn y llythyr ym mis Rhagfyr at yr angen i ni edrych eto ar y cosbau sy'n cael eu gorfodi ar berchnogion cartrefi gofal cofrestredig, a'r ffaith bod llawer o'r cosbau yn dibynnu ar y cyfalaf sy'n cael ei gyflwyno i'r cartref ar y pryd o dan y Ddeddf Cwmnïau, tybed a ydych chi wedi gallu cael unrhyw drafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth y DU ar newidiadau i ddeddfwriaeth y DU yn hynny o beth.

15:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There were a number of questions there from the Member. He's right to point out again the horrific nature of the photographs. I spent 10 years in the criminal law, and I saw a lot of things in that time, and I'm not easily shocked, but these clearly are very shocking photographs.

Roedd nifer o gwestiynau yn y fan yna gan yr Aelod. Mae e'n iawn i nodi eto natur erchyll y lluniau. Treuliais 10 mlynedd ym maes cyfraith droseddol, a gwelais lawer o bethau yn y cyfnod hwnnw, ac nid wyf yn cael sioc yn rhwydd, ond mae'r rhain yn amlwg yn lluniau brawychus iawn.

There are a number of points that he makes. First of all, I should answer the question that was put to me by Jocelyn Davies: are we aware of anywhere else where this is happening at this moment in time? The answer is 'no', we're not aware of that. We would expect, with the new systems in place, that this would not be repeated, but we can't be complacent, clearly, and that's why, of course, we have to take on board the recommendations of the report itself.

Mae'n gwneud nifer o bwyntiau. Yn gyntaf oll, dylwn ateb y cwestiwn a ofynnwyd i mi gan Jocelyn Davies: a ydym ni'n ymwybodol o unrhyw le arall lle mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd? Yr ateb yw 'nac ydym', nid ydym ni'n ymwybodol o hynny. Byddem yn disgwyl, gyda'r systemau newydd ar waith, na fyddai hyn yn cael ei ailadrodd, ond ni allwn fod yn hunanfodlon, yn amlwg, a dyna pam, wrth gwrs, mae'n rhaid i ni ystyried argymhellion yr adroddiad ei hun.

In terms of the independent inspectorate, the inspectorate is independent, but I think we recognise that we need to examine carefully whether that independence might be enhanced in the future. That is something that we're open to.

O ran yr arolygiaeth annibynnol, mae'r arolygiaeth yn annibynnol, ond rwy'n credu ein bod ni'n cydnabod bod angen i ni archwilio'n ofalus pa un a ellid cynyddu'r annibyniaeth honno yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth rydym ni'n agored iddo.

He is right to point out that Dr Flynn shared with the health Minister and me her emerging findings that she felt would have a bearing on the regulation and inspection Bill, because she was aware of the timing of it. Those particular emerging findings were shared so they could be looked at and incorporated within the Bill itself.

Mae'n iawn i nodi bod Dr Flynn wedi rhannu gyda'r Gweinidog iechyd a minnau ei chanfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg yr oedd yn teimlo y byddent yn cael effaith ar y Bil rheoleiddio ac arolygu, gan ei bod yn ymwybodol o'i amseriad. Rhannwyd y canfyddiadau penodol hynny a oedd yn dod i'r amlwg fel y gellid eu hystyried a'u cynnwys yn y Bil ei hun.

I come back to a point that I made earlier on: that 86 per cent of homes are satisfactory or better. Of those that are not, in the vast majority of cases, work is undertaken to ensure that care improves. He's right to point out the issue of the liabilities of those particularly who are company directors. Now, when we talk about company law, we immediately look at an area that is thought to be non-devolved. Company law, indeed, is non-devolved. But one of the things we have to consider is whether we would expect care homes in Wales to have a particular structure in order for them to be able to operate in the future. In those circumstances, of course, it doesn't touch on company law, but it does mean that we have a greater understanding of what we would want to see in terms of the administration of care homes. There is an issue that will need to be examined by other authorities as to whether the liabilities of other directors have been properly examined. That is a matter for them, and I say no more than that at this moment in time.

Dychwelaf at bwynt a wneuthum yn gynharach: bod 86 y cant o gartrefi yn foddhaol neu'n well na hynny. O'r rhai nad ydynt, yn y mwyafrif llethol o achosion, mae gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod gofal yn gwella. Mae e'n gywir i dynnu sylw at y mater o atebolrwydd y rhai sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau yn arbennig. Nawr, pan fyddwn ni'n sôn am gyfraith cwmnïau, rydym yn edrych yn syth ar faes y credir nad yw wedi'i ddatganoli. Nid yw cyfraith cwmnïau, yn wir, wedi'i datganoli. Ond un o'r pethau y mae'n rhaid i ni eu hystyried yw a pa un a fyddem ni'n disgwyl i gartrefi gofal yng Nghymru fod â strwythur penodol er mwyn iddynt allu gweithredu yn y dyfodol. O dan yr amgylchiadau hynny, wrth gwrs, nid yw'n cyffwrdd â chyfraith cwmnïau, ond mae'n golygu bod gennym well dealltwriaeth o'r hyn y byddem ni eisiau ei weld o ran gweinyddu cartrefi gofal. Mae problem y bydd angen i awdurdodau eraill ei harchwilio o ran a yw rhwymedigaethau cyfarwyddwyr eraill wedi cael eu harchwilio'n gywir. Mater iddyn nhw yw hwnnw, ac nid wyf am ddweud dim mwy na hynny ar hyn o bryd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:04.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:04.*

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that more or less deals with the issues that he has raised. He dealt with the issue of penalties that are imposed on care homes. Again, this is something that we need to consider in the future. He also, of course, dealt with the issue of the notifiability of pressure sores. That is something that, of course, as a Government, we will look at as part of any future legislation.

Rwy'n meddwl bod hynna fwy neu lai yn ymdrin â'r materion y mae wedi eu codi. Ymdriniodd â'r mater o gosbau a orfodir ar gartrefi gofal. Unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried yn y dyfodol. Ymdriniodd hefyd, wrth gwrs, â mater hysbysu am friwiau pwyso. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn, wrth gwrs, fel Llywodraeth, yn ei ystyried yn rhan o unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

15:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

15:04

# 4. Datganiad: Cyflwyno'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

# 4. Statement: Introduction of the Tax Collection and Management (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 4 is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the introduction of the Tax Collection and Management (Wales) Bill. I call Jane Hutt.

Mae eitem 4 yn ddatganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar gyflwyno Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru). Galwaf ar Jane Hutt.

15:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Dirprwy Lywydd, yesterday I laid the Tax Collection and Management (Wales) Bill together with the explanatory memorandum before the National Assembly for Wales. The purpose of the Bill is to establish the legal framework necessary for the future collection and management of devolved taxes in Wales, and in particular the Bill provides for the establishment of the Welsh revenue authority, the WRA, and confers powers and duties to enable it to collect and manage devolved taxes. Corresponding duties and rights are conferred on taxpayers, and much of the legislation will be familiar as the basic framework for a tax regime—for example, it requires taxpayers to keep records and it allows the WRA to make inquiries and assessments to identify and collect the amount of devolved tax due.

Dirprwy Lywydd, ddoe gosodais y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ynghyd â'r memorandwm esboniadol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  Diben y Bil yw sefydlu'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol, ac yn arbennig mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu awdurdod refeniw Cymru, ac yn rhoi pwerau a dyletswyddau i'w alluogi i gasglu a rheoli trethi datganoledig. Mae dyletswyddau a hawliau cyfatebol yn cael eu rhoi ar drethdalwyr, a bydd llawer o'r ddeddfwriaeth yn gyfarwydd fel fframwaith sylfaenol ar gyfer cyfundrefn drethu—er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr gadw cofnodion ac mae'n caniatáu i'r awdurdod wneud ymholiadau ac asesiadau i nodi a chasglu'r dreth ddatganoledig sy'n ddyledus.

The Bill also provides that Welsh Ministers may prescribe the bodies to whom the WRA may delegate its functions. In light of this, on 30 June, I provided this Assembly with a written statement informing all Members about the organisations that are part of my preferred way forward for the collection and management of Welsh taxes. My intention is to review any delegations after three to five years of operation.

Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi'r cyrff y gall yr awdurdod ddirprwyo ei swyddogaethau iddynt. Yng ngoleuni hyn, ar 30 Mehefin, rhoddais ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad hwn yn hysbysu'r holl Aelodau am y sefydliadau sy'n rhan o'r ffordd ymlaen rwy'n ei ffafrio ar gyfer casglu a rheoli trethi Cymru. Fy mwriad yw adolygu unrhyw ddirprwyaethau ar ôl tair i bum mlynedd o weithredu.

Finally, the Bill makes provision for the conferral on WRA of civil and criminal investigation and enforcement powers with appropriate safeguards. This includes powers allowing WRA to require information and to access and inspect premises. Alongside this, there are duties on taxpayers to pay penalties and interest in certain circumstances. Our primary policy objective in relation to this Bill is to provide a clear and strong framework in Wales that will support the efficient and effective collection and management of devolved Welsh taxes.

Yn olaf, mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhoi pwerau ymchwilio a gorfodi sifil a throseddol ar yr awdurdodo, gyda mesurau diogelwch priodol. Mae hyn yn cynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r awdurdod ofyn am wybodaeth ac i gael mynediad at safleoedd a'u harchwilio. Ochr yn ochr â hyn, mae dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog o dan rai amgylchiadau. Ein hamcan polisi sylfaenol mewn perthynas â'r Bil hwn yw darparu fframwaith clir a chryf yng Nghymru a fydd yn cefnogi proses effeithlon ac effeithiol o gasglu a rheoli trethi datganoledig Cymru.

But, the Bill also addresses three much wider ambitions. First, I am sure that the whole Assembly would agree that the introduction of this Bill is another significant chapter in the story of Welsh devolution. The Bill is the result of a considerable body of work by many people in the public and private sectors, as well as our social partners, and I've sought to achieve a reflection of views across this Chamber. At its core, it represents our collective commitment to a self-confident and more prosperous Wales. This will be the first devolved tax legislation that the Assembly has considered, and it will pave the way for the replacement of stamp duty land tax and landfill tax with new devolved Welsh taxes from April 2018.

Ond, mae'r Bil hefyd yn mynd i'r afael â thair uchelgais llawer ehangach. Yn gyntaf, rwy'n siŵr y byddai'r Cynulliad cyfan yn cytuno bod cyflwyno'r Bil hwn yn bennod bwysig arall yn hanes datganoli yng Nghymru. Mae'r Bil yn ganlyniad i lawer o waith gan lawer o bobl yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â'n partneriaid cymdeithasol, ac rwyf wedi ceisio sicrhau adlewyrchiad o safbwyntiau ar draws y Siambr hon. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli ein hymrwymiad ar y cyd i Gymru hunanhyderus a mwy llewyrchus. Hon fydd y ddeddfwriaeth treth ddatganoledig gyntaf y mae'r Cynulliad wedi'i hystyried, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer creu trethi datganoledig newydd i Gymru yn lle treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi o fis Ebrill 2018.

But, this is also an important time for the United Kingdom. To echo the First Minister's recent speech, fiscal reform is in the best interests of the UK. There are clear merits in different parts of our union being able to decide on the balance between levels of taxation and the level of resources for public services to respond to the needs and preferences of citizens.

Ond mae hwn hefyd yn amser pwysig i'r Deyrnas Unedig. I adleisio araith ddiweddar y Prif Weinidog, mae diwygio ariannol er budd pennaf y DU. Mae rhinweddau amlwg i'r gallu i wahanol rannau o'n hundeb benderfynu ar y cydbwysedd rhwng lefelau trethiant a lefel yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i anghenion a dewisiadau dinasyddion.

Secondly, our approach to this Bill, and the preparatory work on developing proposals for the devolved taxes, underlines the commitment of the Government to working with business to create a world-class economy, supported by a first-class system of public services. That is why, in developing the tax arrangements for Wales, I've pursued the following principles: fairness, simplicity, supporting jobs and growth, and stability and certainty. I believe that the Bill enshrines these principles.

Yn ail, mae ein hymagwedd tuag at y Bil hwn, a'r gwaith paratoi ar ddatblygu cynigion ar gyfer y trethi datganoledig, yn tanlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i weithio gyda busnesau i greu economi o'r radd flaenaf, a gefnogir gan system o wasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf. Dyna pam, wrth ddatblygu'r trefniadau trethu ar gyfer Cymru, yr wyf wedi mynd ar drywydd yr egwyddorion canlynol: tegwch, symlrwydd, cefnogi swyddi a thwf, a sefydlogrwydd a sicrwydd. Credaf fod y Bil yn diogelu'r egwyddorion hyn.

To guide us in developing our policy and setting standards for how a tax authority might operate, the Welsh Government has looked at the experience of Her Majesty's Revenue and Customs and Revenue Scotland, together with consideration of wider international best practice. We recognise that businesses and taxpayers in Wales deserve a system of taxation that is fundamentally simple and transparent. Such an approach will help minimise the burden on taxpayers and assist tax compliance. We also recognise the benefits of consistency. The Welsh Government has not diverged, and will not diverge, from the existing UK tax collection processes unless there is a good reason to do so.

Er mwyn ein cynnig arweiniad i ni wrth ddatblygu ein polisi a gosod safonau ar gyfer sut y gallai awdurdod treth weithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar brofiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Revenue Scotland, ynghyd ag ystyried arferion gorau rhyngwladol ehangach. Rydym yn cydnabod bod busnesau a threthdalwyr yng Nghymru yn haeddu system o drethiant sy'n sylfaenol syml a thryloyw. Bydd dull o'r fath yn helpu i leihau'r baich ar drethdalwyr ac yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth o ran treth. Rydym hefyd yn cydnabod manteision cysondeb. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymwahanu, ac ni fydd yn ymwahanu, o brosesau casglu treth bresennol y DU oni bai bod rheswm da dros wneud hynny.

Thirdly, and finally, the Bill protects our commitment to fairness that is central to this Welsh Government. Taxation must be fair, both to those who pay it and to the broader society that benefits from the services our taxes support, and that's why the Bill includes the requirement for the WRA to prepare a charter of standards and values, and for the WRA to consult on it before laying it before the Assembly. The Bill also provides for taxpayers to request internal reviews of certain WRA decisions and to appeal to the first-tier tribunal against such decisions.

Yn drydydd, ac yn olaf, mae'r Bil yn diogelu ein hymrwymiad i degwch sydd yn ganolog i Lywodraeth Cymru. Rhaid i drethiant fod yn deg, i'r rhai sy'n ei dalu ac i'r gymdeithas ehangach sy'n elwa ar y gwasanaethau y mae'r trethi yn eu cefnogi, a dyna pam mae'r Bil yn cynnwys y gofyniad i'r awdurdod baratoi siarter o safonau a gwerthoedd, ac i'r awdurdod ymgynghori arni cyn ei gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r Bil hefyd yn darparu i drethdalwyr allu gofyn am adolygiadau mewnol o benderfyniadau penodol yr awdurdod ac i apelio i'r tribiwnlys haen gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath.

The Tax Collection and Management (Wales) Bill is about looking to the future. It provides us with the essential infrastructure for our new devolved tax responsibilities. Importantly, for the first time in some 800 years, it enables Wales to take the first steps towards putting in place taxes that are more suited to Welsh circumstances and Welsh preferences. In this way, the Bill can make a real difference to people's lives, and I look forward to working with the Assembly on the provisions of the Bill during scrutiny over the coming months. I commend the Bill to the Chamber.

Mae'r Bil Rheoli a Chasglu Trethi (Cymru) yn edrych at y dyfodol. Mae'n rhoi seilwaith hanfodol i ni ar gyfer ein cyfrifoldebau treth datganoledig newydd. Yn bwysig, am y tro cyntaf mewn rhyw 800 mlynedd, mae'n galluogi Cymru i gymryd y camau cyntaf tuag at roi trethi ar waith sy'n fwy addas ar gyfer amgylchiadau Cymru a dewisiadau Cymru. Yn y ffordd hon, gall y Bil wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynulliad ar ddarpariaethau'r Bil yn ystod y broses graffu dros y misoedd nesaf. Cymeradwyaf y Bil i'r Siambr.

15:09

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement this afternoon? I think we would all agree that this is, clearly, an important step forward and an important chapter in the devolution process, as you said in your statement.

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma? Rwy'n credu y byddem ni i gyd yn cytuno bod hyn, yn amlwg, yn gam pwysig ymlaen ac yn bennod bwysig yn y broses ddatganoli, fel y dywedasoch yn eich datganiad.

We do know that, in 2018, a number of taxes are to be devolved to Wales, and now we have the bones of the very initial stage of the new framework before us today in the form of this draft Bill. I know we always say that it is important that we get these Bills right, but, in the case of this Bill, this is more true than ever. The new Welsh revenue authority that is proposed is going to have a number of responsibilities and it is absolutely vital that it carries the confidence not just of the Assembly, but of the people of Wales, too, Minister, otherwise we will be in a very dangerous place indeed.

Rydym yn gwybod, yn 2018, bod nifer o drethi yn cael eu datganoli i Gymru, ac yn awr mae gennym esgyrn cam cychwynnol iawn y fframwaith newydd ar ffurf y Bil drafft hwn. Rwy'n gwybod ein bod bob amser yn dweud ei bod yn bwysig ein bod yn cael y Biliau hyn yn iawn, ond, yn achos y Bil hwn, mae hyn yn fwy gwir nag erioed. Bydd gan yr awdurdod refeniw Cymru newydd arfaethedig nifer o gyfrifoldebau ac mae'n gwbl hanfodol ei fod yn hawlio hyder nid yn unig y Cynulliad, ond pobl Cymru, hefyd, Weinidog, fel arall byddwn mewn lle peryglus iawn yn wir.

Can I ask you firstly—and this must always be asked at the outset of the introduction of these Bills—do we actually need this Bill? Do we actually need a Welsh revenue authority? How closely have you listened to the consultation responses? I note that a number of organisations that did respond did question the need for the new authority in the way that you have proposed it. I'm sure you will agree that we don't want any unnecessary quangos, so how sure are you that we need a Welsh revenue authority? If the answer is, as I imagine it will be—I'd be amazed if it wasn't—'yes', that we do definitely need some form of agency, some form of body or some form of mechanism to do this job, then does this this Welsh revenue authority that you are proposing truly address the needs of taxpayers and businesses, first and foremost, and not simply provide a vehicle that is an off-the-shelf format, with the usual chair and members and all the trimmings, and is simply convenient to the Welsh Government?

A gaf i ofyn i chi yn gyntaf—ac mae'n rhaid gofyn hyn bob amser ar gychwyn y broses o gyflwyno'r Biliau hyn—a oes angen y Bil hwn mewn gwirionedd? A oes wir angen awdurdod refeniw Cymru arnom ni? Pa mor agos ydych chi wedi gwrando ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad? Nodaf fod nifer o sefydliadau a wnaeth ymateb yn cwestiynu'r angen am yr awdurdod newydd yn y ffordd yr ydych wedi ei gynnig. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno nad ydym am unrhyw gwangos diangen, felly pa mor sicr ydych chi fod angen awdurdod refeniw Cymru? Os mai'r ateb yw 'oes', fel yr wyf yn dychmygu—byddwn yn synnu pe bai fel arall—'oes', mae'n bendant angen rhyw fath o asiantaeth arnom, rhyw fath o gorff neu ryw fath o fecanwaith i wneud y gwaith hwn, yna a yw'r awdurdod refeniw Cymru yr ydych yn ei gynnig yn wir mynd i'r afael ag anghenion trethdalwyr a busnesau, yn gyntaf ac yn bennaf, ac nid dim ond yn gyfrwng sy'n fformat oddi ar y silff, gyda'r cadeirydd a'r aelodau arferol a'r holl drimins, ac sy'n gyfleus i Lywodraeth Cymru?

Can I ask you about the costs? I've asked you on a number of occasions, now, with varying, but generally limited success, how much the new Welsh revenue authority will cost. I don't expect on-the-nail costings at this stage, but the people of Wales are paying for this, so they have the right to expect to know how much it will cost them in the short and medium term. In the interest of transparency and openness, we need an idea of this. Have you considered alternative models that would have delivered similar outcomes but with better value for money?

A gaf i ofyn i chi am y costau? Rwyf wedi gofyn i chi ar nifer o achlysuron, yn awr, gyda lefelau amrywiol o lwyddiant, ond llwyddiant cyfyngedig yn gyffredinol, faint fydd yr awdurdod refeniw Cymru newydd yn ei gostio. Nid wyf yn disgwyl costiadau manwl gywir ar hyn o bryd, ond pobl Cymru sy'n talu am hyn, felly mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl gwybod faint y bydd yn ei gostio iddynt yn y tymor byr a chanolig. At ddibenion tryloywder a bod yn agored, mae angen syniad o hyn. A ydych chi wedi ystyried modelau eraill a fyddai wedi cyflwyno canlyniadau tebyg ond gyda gwell gwerth am arian?

Turning to the key issues of responsibility and accountability, I see from the draft legislation that the Welsh Government will be responsible for appointing the chair and the members of the new body. Clearly, it's a very important role for whoever gets that. Who do you intend that chair and the body to be responsible to? We know that other bodies are responsible, to varying extents, to the Assembly or to a committee of the Assembly, but, in this case, this is effectively an arm of Welsh Government—albeit a long, detached one—so it looks as though you intend to be the monitoring officer in the Welsh Government. Is this appropriate? Should there not be a wider scrutiny element?

Gan droi at y materion allweddol o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, rwy'n gweld o'r ddeddfwriaeth ddrafft y bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am benodi cadeirydd ac aelodau'r corff newydd. Yn amlwg, bydd gan yr unigolyn hwnnw rôl bwysig iawn. I bwy yr ydych chi'n bwriadu y bydd y cadeirydd a'r corff hwnnw'n atebol? Rydym yn gwybod bod cyrff eraill yn atebol, i raddau amrywiol, i'r Cynulliad neu i un o bwyllgorau'r Cynulliad, ond, yn yr achos hwn, mae'r awdurdod i bob pwrpas yn gangen o Lywodraeth Cymru—er yn un hir, ar wahân—felly mae'n edrych fel eich bod yn bwriadu bod y swyddog monitro yn Llywodraeth Cymru. A yw hyn yn briodol? Oni ddylid cael elfen graffu ehangach?

The Welsh Government is delegating its functions to the Welsh revenue authority. Who is the WRA going to be able to delegate to? I assume it will be able to bring in outside experience of tax collection. That is not set out in this Bill. Why not? I imagine it may be something to do with futureproofing, but that does leave question marks over certain aspects of these powers. So, we look for clarification on that.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dirprwyo ei swyddogaethau i awdurdod refeniw Cymru. I bwy fydd yr awdurdod yn gallu dirprwyo? Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd yn gallu dod â phrofiad o'r tu allan o gasglu treth. Nid yw hynny wedi'i nodi yn y Bil hwn. Pam ddim? Rwy'n tybio y gall fod yn rhywbeth i'w wneud â diogelu at y dyfodol, ond mae hynny'n gadael marciau cwestiwn dros rai agweddau ar y pwerau hyn. Felly, rydym yn chwilio am eglurhad ar hynny.

Finally, Minister, can I ask you about the issue of investigation and enforcement? Clearly, this is an area where long-standing UK agencies have considerable experience and where the Assembly doesn’t. How are you going to ensure that fine balance that involves giving the authority the necessary powers of enforcement without overstepping the mark and giving the new authority over-the-top powers, on the other hand? How are you going to ensure that that balance is maintained, because, if we get that wrong, then, in some circumstances, that could potentially, in the future, threaten civil liberties?

Yn olaf, Weinidog, a gaf i ofyn ichi am y mater o ymchwilio a gorfodi? Yn amlwg, mae hwn yn faes lle mae gan asiantaethau hirsefydlog y DU brofiad sylweddol a lle nad oes gan y Cynulliad. Sut ydych chi'n mynd i sicrhau’r cydbwysedd manwl hwnnw sy'n golygu rhoi’r pwerau gorfodi angenrheidiol i'r awdurdod heb fynd yn rhy bell a rhoi pwerau gormodol i’r awdurdod newydd, ar y llaw arall? Sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod y cydbwysedd yn cael ei gynnal, oherwydd, os ydym yn ei gael yn anghywir, yna, mewn rhai amgylchiadau, gallai fygwth rhyddid sifil yn y dyfodol?

Minister, as I said at the start of my questioning of you, this represents a major change in the way that Wales will finance itself in the future, and we cannot afford, literally, to get this wrong.

Weinidog, fel y dywedais ar ddechrau fy nghwestiynau, mae hyn yn newid mawr yn y ffordd y bydd Cymru yn ariannu ei hun yn y dyfodol, ac ni allwn fforddio, yn llythrennol, i gael hyn yn anghywir.

15:14

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I thank you, Nick Ramsay, very much for your opening remarks—for your positive remarks. We have discussed this on a number of occasions in order to ensure that we are moving forward together to make sure that this legislation provides a robust way forward for the principal purpose, of course, of this Bill, which is to establish the legal framework necessary for the future collection and management of devolved taxes in Wales. Of course, I think it is important that this takes us back to the journey that we’ve been on, which, of course, includes the all-important cross-party commission set up by the UK Government, and making sure that we also move forward in terms of implementing those recommendations, leading to, of course, the legislation that enables us to take this forward in terms of the Wales Bill.

Wel, Nick Ramsay, rwy’n diolch yn fawr iawn i chi am eich sylwadau agoriadol—am eich sylwadau cadarnhaol. Rydym wedi trafod hyn ar sawl achlysur er mwyn sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'n gilydd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cynnig ffordd gadarn ymlaen i brif bwrpas y Bil hwn, wrth gwrs, sef sefydlu'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth gwrs, rwy’n credu ei bod yn bwysig bod hyn yn mynd â ni yn ôl at y daith yr ydym wedi bod arni, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys y comisiwn trawsbleidiol hollbwysig a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU, a gwneud yn siŵr ein bod hefyd yn symud ymlaen o ran gweithredu’r argymhellion hynny, gan arwain, wrth gwrs, at y ddeddfwriaeth sy'n ein galluogi i fwrw ymlaen â hyn o ran Bil Cymru.

I think your point is important in terms of the purpose of this Bill. It is about ensuring that the Bill does establish a Welsh revenue authority whose main function will be the collection and management of devolved taxes, and to ensure that Welsh revenue authority has those appropriate powers and duty to identify and collect the appropriate amount of devolved tax due from taxpayers. Through the consultation—and you’ve looked at this carefully, I know, in terms of supporting business—many businesses have emphasised, for example, the need for taxes and administration arrangements to be consistent on either side of the Welsh border. So, our approach, as I’ve said, has been not to change the existing administrative processes unless there are efficiency, effectiveness or Welsh priority reasons to do this, and also to look for the opportunity for certainty and stability—again, an important principle in terms of our new Welsh taxes. So, we’ve used UK and Scottish tax legislation as a starting point throughout the UK because of cross-border businesses, and also to ensure that we learn from, for example, the Scottish experience in terms of establishing their devolved taxes to replace stamp duty land tax and landfill tax.

Rwy’n meddwl bod eich pwynt yn bwysig o ran diben y Bil hwn. Mae'n ymwneud â sicrhau bod y Bil yn sefydlu awdurdod refeniw Cymru, a fydd yn casglu ac yn rheoli trethi datganoledig, a sicrhau bod gan awdurdod refeniw Cymru'r pwerau priodol hynny a’r ddyletswydd i nodi a chasglu’r swm priodol o dreth ddatganoledig sy'n ddyledus gan drethdalwyr. Drwy'r ymgynghoriad—ac rydych wedi edrych ar hyn yn ofalus, rwy’n gwybod, o ran cefnogi busnesau—mae llawer busnes wedi pwysleisio, er enghraifft, yr angen i drethi a threfniadau gweinyddu fod yn gyson ar y ddwy ochr i’r ffin. Felly, ein hymagwedd ni, fel yr wyf wedi’i ddweud, yw peidio â newid y prosesau gweinyddol presennol yng Nghymru onid oes rhesymau yn ymwneud ag effeithlonrwydd, effeithiolrwydd neu flaenoriaethu dros wneud hynny, a hefyd i chwilio am y cyfle i gael sicrwydd a sefydlogrwydd—unwaith eto, egwyddor bwysig o ran ein trethi newydd yng Nghymru. Felly, rydym wedi defnyddio deddfwriaeth treth y DU a’r Alban fel man cychwyn ar hyd a lled y DU oherwydd busnesau trawsffiniol, a hefyd i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth, er enghraifft, brofiad yr Alban o sefydlu trethi datganoledig i gymryd lle treth dir y dreth stamp a’r dreth dirlenwi.

Of course, you have raised the questions with me about costs, the financial impact and affordability of the Bill, and you will note the regulatory impact assessment that I have also tabled, accompanying the Bill. As you know, in terms of costs, the UK Government hasn't been prepared to transfer the funding needed to cover this new area of work, so the additional cost of setting up and operating the collection and management arrangements for devolved taxes will fall to this Government. And I am committed, as I said, to providing as much robust cost information as possible to the National Assembly for Wales during the scrutiny process for the Tax Collection and Management (Wales) Bill. We can't at this stage produce a robust estimate of the costs of set-up or operations, but I'm confident, based on the evidence available, that the preferred way forward that I set out in my statement on 30 June is the most affordable option. But I will, of course, ahead of the Stage 1 debate in the autumn, be able to provide the Assembly with an update on work that we've undertaken to establish collection and management arrangements. This will include initial estimates of set-up and operating costs.

Wrth gwrs, rydych wedi codi'r cwestiynau gyda mi ynghylch costau, effaith ariannol a fforddiadwyedd y Bil, a byddwch yn nodi'r asesiad effaith rheoleiddiol yr wyf hefyd wedi'i gyflwyno, sy'n cyd-fynd â'r Bil. Fel y gwyddoch, o ran costau, nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn barod i drosglwyddo'r cyllid sydd ei angen i dalu am y maes gwaith newydd hwn, felly bydd yn rhaid i'r Llywodraeth hon dalu'r gost ychwanegol o sefydlu a gweithredu'r trefniadau casglu a rheoli ar gyfer trethi datganoledig. Ac rwyf wedi ymrwymo, fel y dywedais, i ddarparu cymaint o wybodaeth gadarn am gostau â phosibl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y broses o graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru). Ni allwn ar hyn o bryd lunio amcangyfrifiad cadarn o gostau sefydlu neu weithrediadau, ond hyderaf, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mai'r ffordd ymlaen a ffefrir a nodais yn fy natganiad ar 30 Mehefin yw'r dewis mwyaf fforddiadwy. Ond wrth gwrs, cyn y ddadl Cyfnod 1 yn yr hydref, byddaf yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yr ydym wedi ei wneud i sefydlu trefniadau casglu a rheoli i'r Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys amcangyfrifon cychwynnol o gostau sefydlu a gweithredu.

Important questions in terms of the Welsh revenue authority's relationship not only to Welsh Ministers but also to the National Assembly for Wales: I think, just in terms of, again, similarities with HMRC and looking at ways in which we're trying to be consistent and learning from existing practice, section 14 allows the Welsh Ministers to give directions of a general nature to the WRA, and that's consistent with the power that the Treasury has in relation to HMRC, although it's different to the situation in Scotland, where the Scottish Ministers aren't able to direct Revenue Scotland, but can give guidance. But, in terms of the Welsh revenue authority's relationship, devolved tax policy is clearly for the Welsh Ministers. The Welsh revenue authority will be responsible for the delivery in terms of tax administration. The relationship between Ministers and WRA will be founded on this distinction. But, in terms of the WRA's relationship with the Assembly, the WRA will be subject to scrutiny by the Assembly and, of course, the WRA is undertaking a function of Government but the Assembly will have full oversight of, for example, the funding through the Welsh Government budget process, and the WRA will also be identified separately in the budget for transparency reasons.

Cwestiynau pwysig o ran perthynas awdurdod refeniw Cymru nid yn unig â Gweinidogion Cymru, ond hefyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru: rwy'n meddwl, unwaith eto, o ran tebygrwydd i CThEM ac edrych ar ffyrdd yr ydym yn ceisio bod yn gyson a dysgu o arfer presennol, mae adran 14 yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau cyffredinol i awdurdod refeniw Cymru, ac mae hynny'n gyson â'r pŵer sydd gan y Trysorlys mewn perthynas â CThEM, er ei bod yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, lle nad yw Gweinidogion yr Alban yn gallu cyfarwyddo Revenue Scotland, ond gallant roi arweiniad. Ond, yn nhermau'r berthynas o ran awdurdod refeniw Cymru, mae polisi treth ddatganoledig yn amlwg ar gyfer Gweinidogion Cymru. Bydd awdurdod refeniw Cymru yn gyfrifol am ddarparu o ran gweinyddu treth. Bydd y berthynas rhwng Gweinidogion a'r awdurdod yn seiliedig ar y gwahaniaeth hwn. Ond, o ran perthynas yr awdurdod â'r Cynulliad, bydd yr awdurdod yn destun craffu gan y Cynulliad ac, wrth gwrs, mae'r awdurdod yn ymgymryd ag un o swyddogaethau'r Llywodraeth ond bydd y Cynulliad yn cael goruchwyliaeth lawn o'r cyllid, er enghraifft, drwy broses gyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae'r awdurdod hefyd yn cael ei nodi ar wahân yn y gyllideb am resymau tryloywder.

It is also important that we recruit through the usual Nolan principles in terms of the members to the Welsh revenue authority, and, indeed, the chair. You also raised an important point in terms of investigation and enforcement. In terms of Part 9, the powers available to WRA officers to undertake investigations into devolved tax offences will not be set out on the face of the Bill, but instead through regulations by the Welsh Ministers under a new provision that will be inserted into the Police and Criminal Evidence Act 1984. These regulations will be subject to the affirmative procedure, and they will provide Welsh Ministers with the power to specify the powers in the Police and Criminal Evidence Act—so, for example, those are powers of search, seizure and retention. I think, in terms of regulation of investigatory powers, it is important that we look to the ways in which we can plug into the existing Regulation of Investigatory Powers Act 2000. And, of course, in terms of enforcement as well, this will be key in terms of the responsibility in terms of the Welsh revenue authority. But we have been very mindful of and thank the Finance Committee for their contributions in terms of their investigations. I do think that the alternative disputes resolution system, of course, will be very much available to the WRA when it considers such an approach would be appropriate to help to settle a dispute swiftly for the taxpayer.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn recriwtio yn unol â'r egwyddorion Nolan arferol o ran yr aelodau i awdurdod refeniw Cymru, ac, yn wir, y cadeirydd. Rydych hefyd yn codi pwynt pwysig o ran ymchwilio a gorfodi. O ran Rhan 9, ni fydd y pwerau sydd ar gael i swyddogion yr awdurdod gynnal ymchwiliadau i droseddau treth ddatganoledig yn cael eu nodi ar wyneb y Bil, ond yn hytrach drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaeth newydd a fydd yn cael ei mewnosod yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddant yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r pwerau yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol—felly, er enghraifft, y pwerau hynny o chwilio, atafaelu a chadw. Rwy'n meddwl, o ran rheoleiddio pwerau ymchwilio, mae'n bwysig ein bod yn edrych am ffyrdd o gysylltu â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Ac, wrth gwrs, o ran gorfodi hefyd, bydd hyn yn allweddol o ran y cyfrifoldeb awdurdod refeniw Cymru. Ond rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o gyfraniadau'r Pwyllgor Cyllid o ran eu hymchwiliadau, ac yn diolch am y rhain. Rwy'n credu y bydd y system datrys anghydfodau amgen, wrth gwrs, ar gael i'r awdurdod pan fydd yn ystyried y byddai agwedd o'r fath yn briodol i helpu i ddatrys anghydfod yn gyflym i'r trethdalwr.

15:21

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am y datganiad. Ar yr olwg gyntaf, mae'r fframwaith deddfwriaethol fel petai mewn trefn, ac mae sefydlu awdurdod refeniw Cymreig yn synhwyrol, ac mae llawer o'r ddarpariaeth fel petai'n adleisio gweithrediadau Revenue Scotland, ac mae'n dda iawn gweld y Llywodraeth yn dysgu o'r arfer da ac yn dilyn yr hyn sydd wedi digwydd yno. Rydym ni'n edrych ymlaen at y broses graffu, wrth gwrs, er mwyn sicrhau bod y Bil mor gadarn ag y gall fod, ac at y ddeddfwriaeth ddilynol ar drethi datganoledig lle y bydd mwy o'r polisi yn cael ei osod allan.

Thank you for the statement. At first sight, the legislative framework seems to be in order, and the establishment of a Welsh revenue authority is a sensible move, and much of the provision seems to reflect Revenue Scotland's operations, and it's good to see the Government learning from good practice and following what has happened there. We look forward to scrutiny process, of course, in order to ensure that the Bill is as robust as possible, and to the ensuing legislation on the devolved taxes, where further policy details will be set out.

Rŵan, mae'r memorandwm esboniadol yn nodi, yn ddigon naturiol, fod casglu a rheoli trethi yn waith arbenigol, ac, mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Mawrth 2015, fe wnaeth y Gweinidog gadarnhau ei bod yn sefydlu swyddogaeth trysorlys yn ei hadran, ac y byddai'n ymgymryd ag ystod o waith gan gynnwys gweithredu'r awdurdod refeniw Cymreig, ond hefyd goruchwylio cyllid arloesol, buddsoddi er mwyn arbed a rhagfynegi economaidd. Rydym ni wedi croesawu hyn yn frwd. Felly, a wnaiff y Gweinidog sicrhau—neu sut bydd y Gweinidog yn sicrhau—fod gan yr awdurdod refeniw yr ystod briodol o arbenigedd ac y caiff hyn ei gysylltu â sefydlu swyddogaeth trysorlys y Llywodraeth?

Now, the explanatory memorandum notes, quite naturally, that the collection and management of tax is specialist work and, in a written statement in March 2015, the Minister confirmed that she is to establish a treasury function in her department, which will undertake a range of duties that include the implementation of the Welsh revenue authority, along with the management of innovative funding, invest to save and economic forecasting. We have welcomed this warmly. Therefore, will the Minister ensure—or how, rather, will the Minister ensure—that the revenue authority has the necessary range of expertise and that this is linked to the establishment of a Government treasury function?

Hefyd, mae mater arall o edrych ymlaen i'r dyfodol at ragor o ddatganoli trethi: a ydy'r Bil yma yn mynd i fod yn addas ar gyfer treth incwm os a phan gaiff hwnnw ei ddatganoli? Rwy'n cymryd bod y Gweinidog wedi ystyried y mater hwnnw, ac mi fyddwn i'n ddiolchgar am ei sylwadau hi ar hynny.

Another issue, in looking to the future and the further devolution of taxation, is whether this Bill going to be appropriate for income tax, if and when that is devolved. I assume that the Minister has considered this issue and I'd be grateful for her comments on that.

Ac yn olaf, erys mater ystadegau manwl ar gyllid cyhoeddus Cymru yn flaenoriaeth i Blaid Cymru. Fel y nodais i mewn cwestiwn diweddar i'r Gweinidog, Cymru ydy'r unig genedl ddatganoledig yn yr ynysoedd yma heb gyfres gynhwysfawr o ffigurau refeniw a gwariant. Fe gawsoch chi gyfarfod diweddar gyda Gweinidog cyfatebol Gogledd Iwerddon, ond mae'n debyg, yn ôl eich ateb, na wnaethoch chi drafod y mater yma gydag o. Nid ydy'r Bil yn darparu, wrth gwrs, ar gyfer cynhyrchu ystadegau o'r fath, ond mae llawer o'r drafodaeth polisi ynghylch y Bil yn crybwyll tryloywder, a nodwyd yr angen am ddarogan economaidd yn natganiad y Gweinidog ym mis Mawrth ar y swyddogaeth trysorlys. Felly, pan godais i'r materion hyn gyda'r Gweinidog, yr hyn a ddywedodd hi oedd fy nghyfeirio i at 'Economi Cymru: mewn rhifau', sef set o ddata sydd yn ddefnyddiol, ond nid am hynny roeddwn i'n chwilio, wrth gwrs, ac nid yw hynny, yn sicr, yn set o ystadegau cyllid cyhoeddus. Felly, ar hyn o bryd, mae Cymru yn wahanol iawn iawn i'r gwledydd datganoledig eraill. Felly, wrth iddi ddod â'r Bil yma ymlaen, a wnaiff y Gweinidog yn awr gytuno â ni a rhoi gyda'r Bil buddiol yma set o ystadegau cyllid cyhoeddus llawn ar gyfer Cymru? Diolch yn fawr.

Finally, the issue of detailed statistics on public funding in Wales remains a priority for Plaid Cymru. As I noted in a recent question to the Minister, Wales is the only devolved nation in these isles without a comprehensive series of revenue and expenditure figures. You had a recent meeting with your counterpart in Northern Ireland, but it would seem, according to your response, that you didn't discuss this issue with him. The Bill doesn't provide for the production of such statistics, but much of the policy discussion around the Bill refers to transparency, and the need for economic forecasting was noted in the Minister's statement of March on the treasury function. So, when I raised these issues with the Minister, her response was to refer me to 'Welsh Economy: in numbers', which is a useful data set , but that is not what I was seeking, of course, and it certainly isn't a set of public funding statistics. So, at present, Wales is very different to the other devolved nations. Therefore, in bringing this Bill forward, will the Minister now agree with us and provide alongside this beneficial Bill a full set of public funding statistics for Wales? Thank you very much.

15:24

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Thank you also, again, for your support and your commitment to robust scrutiny of this Bill. As I've said in answer to Nick Ramsay, I very much welcome the engagement we've had through the Finance Committee, and particularly with the scrutiny of the Finance Committee and the contribution from the inquiry by the Finance Committee, which has helped inform us in terms of the establishment of this Bill.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Diolch i chi hefyd, unwaith eto, am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad i graffu cadarn ar y Bil hwn. Fel yr wyf wedi'i ddweud wrth ateb Nick Ramsay, rwy'n croesawu'r ymgysylltiad yr ydym wedi'i gael drwy'r Pwyllgor Cyllid yn fawr iawn, ac yn enwedig gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid a chyfraniad ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, sydd wedi helpu i'n llywio ni wrth sefydlu'r Bil hwn.

Also, I think, on your points and questions relating to the relationship between the development of the specialist work and role of the Welsh treasury and how that will be provided, and, of course, linked through to the work of the Welsh revenue authority in terms of guiding Ministers in terms of developing tax policy, I recognise your points about the fact that we will then have to be guided in terms of the development of tax policy, also by robust forecasting, which, as you say, doesn't link to the record of economic statistics that we discussed most recently, but looks to the prospects in terms of the forecasting of tax in terms of the devolved taxes that are coming our way from April 2018, and recognise the importance of the expertise that has to be developed in the Welsh treasury to inform the Welsh Government and those who are going to be in the process of delivering those new taxes.

Hefyd, rwy'n meddwl, o ran eich pwyntiau a'ch cwestiynau yn ymwneud â'r berthynas rhwng datblygiad y gwaith arbenigol a swyddogaeth trysorlys Cymru a sut y bydd hynny'n cael ei ddarparu, ac, wrth gwrs, yn cael ei gysylltu â gwaith awdurdod refeniw Cymru o ran llywio Gweinidogion wrth ddatblygu polisi treth, rwy'n cydnabod eich pwyntiau am y ffaith y byddwn wedyn yn gorfod cael ein harwain wrth ddatblygu polisi treth. Yn ogystal, bydd rhagolygon cadarn, nad ydynt, fel y dywedwch, yn cysylltu â'r cofnod o ystadegau economaidd a drafodwyd gennym yn fwyaf diweddar, ond sy'n edrych ar y rhagolygon o ran darogan y dreth ddatganoledig sy'n dod atom o fis Ebrill 2018. Cydnabyddir hefyd bwysigrwydd yr arbenigedd sydd yn rhaid ei ddatblygu yn nhrysorlys Cymru er mwyn llywio Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n mynd i fod yn darparu'r trethi newydd hynny.

Of course, the Welsh revenue authority, through this tax collection and management Bill, is being set up for the purpose of collecting and managing just those taxes that are being devolved to us in Wales to replace the UK stamp duty land tax and UK landfill tax. HMRC in Scotland, of course, is going to be collecting in terms of any tax-varying powers that the Scottish Government use. So, this is for our first step in the journey of devolution to collect and manage our smaller taxes. I've already identified how I want to use current expertise in terms of the delegation and the ways in which the Welsh revenue authority will be using HMRC and the Welsh revenue authority for our new land transaction tax—and, indeed, the Welsh revenue authority and Natural Resources Wales in terms of our land transaction tax. I am meeting with the finance Ministers of Northern Ireland and Scotland in a couple of weeks' time, where I will also want to be discussing, particularly with John Swinney, the ways in which they are developing that expertise in terms of advice and guidance to Welsh Ministers. I think it's important just to look in terms of the process by which we're taking this forward in developing and delivering tax policy. In terms of the ways in which we want to ensure that we are guided by this in terms of the relationship between Welsh Ministers and the Welsh revenue authority, as I said in my answer to Nick Ramsay, the Welsh revenue authority will be accountable to Welsh Ministers for the delivery of the Welsh Government's tax policy. But the Welsh revenue authority will be operationally independent. Tax collection, of course, overall, is a function of Government.

Wrth gwrs, mae awdurdod refeniw Cymru, drwy'r Bil Casglu a Rheoli Trethi, yn cael ei sefydlu at y diben o gasglu a rheoli dim ond y trethi hynny sy'n cael eu datganoli i ni yng Nghymru yn lle treth dir y dreth stamp yn y DU a threth dirlenwi'r DU. Bydd Cyllid a Thollau EM yn yr Alban, wrth gwrs, yn casglu mewn cysylltiad ag unrhyw bwerau amrywio trethi y mae Llywodraeth yr Alban yn eu defnyddio. Felly, dyma'r cam cyntaf ar y daith ddatganoli i gasglu a rheoli ein trethi llai. Rwyf eisoes wedi nodi sut yr wyf am ddefnyddio arbenigedd presennol o ran y ddirprwyaeth a'r ffyrdd y bydd awdurdod refeniw Cymru yn defnyddio Cyllid a Thollau EM ac awdurdod refeniw Cymru ar gyfer ein treth trafodiadau tir newydd—ac, yn wir, awdurdod refeniw Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru o ran ein treth trafodiadau tir. Byddaf yn cyfarfod â Gweinidogion cyllid Gogledd Iwerddon a'r Alban mewn ychydig wythnosau, a byddaf hefyd eisiau trafod, yn arbennig â John Swinney, y ffyrdd y maent yn datblygu'r arbenigedd hwnnw o ran cyngor ac arweiniad i Weinidogion Cymru. Credaf ei bod yn bwysig dim ond i edrych er lles y broses y byddwn yn bwrw ymlaen â hi wrth ddatblygu a chyflwyno polisi treth. O ran y ffyrdd yr ydym eisiau sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan hyn mewn cysylltiad â'r berthynas rhwng Gweinidogion Cymru ac awdurdod refeniw Cymru, fel y dywedais yn fy ateb i Nick Ramsay, bydd awdurdod refeniw Cymru yn atebol i Weinidogion Cymru am gyflwyno polisi treth Llywodraeth Cymru. Ond bydd awdurdod refeniw Cymru yn gweithredu'n annibynnol. Mae casglu treth,yn gyffredinol, wrth gwrs, yn un o swyddogaethau'r Llywodraeth.

15:28

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the statement by the finance Minister, and the tax collection and management Bill. Obviously, following the devolution of some tax collection, it is inevitable that a Welsh revenue authority has to be established. I'm not quite sure what else could be done. The collection of taxes in Wales will cost money to the Welsh Government, but there'll be a saving to the Westminster Government in the taxes that they are not collecting. So, can the Minister explain why the Welsh Government isn't getting fully funded for it? If not fully funded for it, why is it not getting the difference between the cost that it is now costing the Westminster Government and what it will cost the Westminster Government, because the next saving should make its way to Wales?

Rwy'n croesawu'r datganiad gan y Gweinidog cyllid, a'r Bil casglu a rheoli trethi. Yn amlwg, yn dilyn datganoli rhywfaint o'r gwaith o gasglu trethi, mae'n anochel bod yn rhaid sefydlu awdurdod refeniw Cymru. Dydw i ddim yn hollol siŵr beth arall y gellid ei wneud. Bydd casglu trethi yng Nghymru yn costio arian i Lywodraeth Cymru, ond fe fydd arbediad i Lywodraeth San Steffan yn y trethi nad ydynt yn eu casglu. Felly, a all y Gweinidog esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu yn llawn ar gyfer y gwaith hwn? Os nad yw'n cael ei hariannu'n llawn ar ei gyfer, pam nad yw hi'n cael y gwahaniaeth rhwng y gost y mae bellach yn costio Llywodraeth San Steffan a beth fydd y gost i Lywodraeth San Steffan, oherwydd y dylai'r arbedion nesaf ddod i Gymru?

15:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Mike Hedges, I did, in response to an earlier question, say that I've made a number of representations in terms of the costs of the transfer to Wales and the need for a transfer of funding to cover this new area of work. I wasn't helped by the fact that the Scottish Government didn't call for that transfer in terms of the funding, although the Scottish Government may be in a better place than us in terms of the Barnett formula, of course, in terms of their funding prospects. So, it is an issue in terms of the additional cost of setting up and operating this collection and management arrangement. You know, we are saving money in terms of the UK Government and their arrangements with HMRC. That is why we have to be very clear about the robust costs information—and I know that this will be scrutinised very seriously indeed by the Finance Committee, and the National Assembly for Wales, through the Finance Committee, I'm sure—and that we have to produce robust estimates, because one of the concerns that have been raised, in terms of consultation, and particularly by, not only taxpayers, but by business, is that this should be for a purpose. These are powers for a purpose, in order to ensure that we can shape these taxes to suit Welsh needs and circumstances, in support of communities in particular, when we look at the opportunities for the new land transaction tax and land disposal tax, and, indeed, householders and business in land transaction tax.

Rwy'n meddwl, Mike Hedges, fe wnes i ddweud, mewn ymateb i gwestiwn cynharach, fy mod i wedi gwneud nifer o sylwadau o ran costau'r trosglwyddo i Gymru a'r angen am drosglwyddo cyllid i dalu am y maes newydd hwn o waith. Ni chefais fy helpu gan y ffaith na wnaeth Llywodraeth yr Alban alw am y trosglwyddiad hwnnw o ran y cyllid, er y gall Llywodraeth yr Alban fod mewn lle gwell na ni o ran fformiwla Barnett, wrth gwrs, mewn cysylltiad â'u rhagolygon cyllid. Felly, mae'n fater o'r gost ychwanegol o sefydlu a gweithredu'r trefniant casglu a rheoli. Wyddoch chi, rydym yn arbed arian i Lywodraeth y DU a'u trefniadau gyda CThEM. Dyna pam y mae'n rhaid i ni fod yn glir iawn am y wybodaeth costau gadarn—a gwn y bydd craffu difrifol iawn yn wir ar hyn gan y Pwyllgor Cyllid, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy'r Pwyllgor Cyllid, rwy'n siŵr—a bod yn rhaid i ni gynhyrchu amcangyfrifon cadarn, oherwydd mai un o'r pryderon sydd wedi'u codi wrth ymgynghori, ac yn enwedig gan fusnesau, nid yn unig trethdalwyr, yw y dylai hyn fod i bwrpas. Mae'r rhain yn bwerau i bwrpas, sef sicrhau y gallwn lunio'r trethi hyn i weddu i anghenion ac amgylchiadau Cymru, i gefnogi cymunedau yn arbennig, pan fyddwn yn edrych ar y cyfleoedd ar gyfer y dreth trafodiadau tir a gwaredu tir newydd, ac, yn wir, deiliaid tai a busnesau o ran y dreth trafodiadau tir.

15:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I welcome the statement and welcome this Bill, which I think is a historic step forward in terms of the powers and responsibilities of the Welsh Assembly and the Welsh Government? One of the first principles of taxation is that it shouldn't cost more to collect than you actually reap in the tax itself. Clearly, that isn't going to be the case, but, of course, given that the UK Government, as Mike Hedges already pointed out, is not going to be giving us the cost of administering these taxes, and that we are, effectively, offsetting the revenue from these taxes against a cut in our grant, it is possible, of course, that we may well end up having a loss in terms of how much money we end up with as a result of collecting these taxes ourselves. Can you, therefore, give us some indication of exactly what the total cost is going to be of this Welsh revenue authority, and how much extra it's going to cost us to collect those taxes?

Weinidog, a gaf i groesawu'r datganiad a chroesawu'r Bil hwn, sydd yn fy marn i yn gam hanesyddol ymlaen o ran pwerau a chyfrifoldebau Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru. Un o egwyddorion cyntaf trethiant yw na ddylai gostio mwy i'w gasglu nag yr ydych yn ei fedi yn y dreth ei hun. Yn amlwg, nid yw hynny'n mynd i fod yn wir, ond, wrth gwrs, o gofio nad yw Llywodraeth y DU, fel y mae Mike Hedges wedi'i nodi eisoes, yn mynd i roi cost gweinyddu'r trethi hyn inni, a'n bod, i bob pwrpas, yn gwrthbwyso'r refeniw o'r trethi hyn yn erbyn toriad yn ein grant, mae'n bosibl, wrth gwrs, y byddwn ar ein colled mewn gwirionedd o ran faint o arian yr ydym yn ei gael o ganlyniad i gasglu'r trethi hyn ein hunain. A allwch chi, felly, roi rhyw syniad inni beth yn union fydd cyfanswm cost awdurdod refeniw Cymru, a faint yn ychwanegol y mae'n mynd i'w gostio i ni gasglu'r trethi hynny?

You also referred during answers to the fact that the Welsh revenue authority would be answerable to the Assembly and would be scrutinised by the Assembly. Can you outline what the mechanisms are for that scrutiny to take place? As you know, when the Wales Audit Office was set up on its current basis, it was agreed that the Finance Committee would act as the scrutineer of that particular body. Are you envisaging any similar arrangement for the Welsh revenue authority, or do you have other scrutiny arrangements in mind?

Wrth ateb, roeddech hefyd yn cyfeirio at y ffaith y byddai awdurdod refeniw Cymru yn atebol i'r Cynulliad ac y byddai'r Cynulliad yn craffu arno. A allwch chi amlinellu pa fecanweithiau sydd ar waith ar gyfer cynnal y gwaith craffu hwnnw? Fel y gwyddoch, pan gafodd Swyddfa Archwilio Cymru ei sefydlu ar ei sail bresennol, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y corff penodol hwnnw. A ydych yn rhagweld unrhyw drefniant tebyg ar gyfer awdurdod refeniw Cymru, neu a oes gennych drefniadau craffu eraill mewn golwg?

Finally, Minister, you've already referred to these, but the Bill provides for Ministers to make regulations to specified powers in the Police and Criminal Evidence Act 1984 that may be used by the WRA when investigating tax offences. It also amends the Proceeds of Crime Act 2002, so that designated WRA staff can make applications under that particular legislation, and, of course, it also amends the Regulation of Investigatory Powers Act 2000 to provide Welsh Ministers with the power to designate the staff of the WRA by Order as being able to exercise specific RIPA powers. Can I ask you what process of oversight is being put in place to monitor the use of these powers, and what level of authority will be applied to ensure that those powers are properly scrutinised and allocated, and what specific role the Assembly will have in terms of scrutinising the use of those powers?

Yn olaf, Weinidog, rydych eisoes wedi cyfeirio at y rhain, ond mae'r Bil yn darparu i Weinidogion wneud rheoliadau mewn cysylltiad â phwerau a nodir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, y gall yr awdurdod eu defnyddio wrth ymchwilio i droseddau treth. Mae hefyd yn diwygio Deddf Elw Troseddau 2002, fel y gall staff dynodedig yr awdurdod wneud ceisiadau o dan y ddeddfwriaeth arbennig honno, ac, wrth gwrs, mae hefyd yn diwygio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi bod staff yr awdurdod drwy Orchymyn yn gallu arfer pwerau penodol Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. A gaf i ofyn i chi pa broses o oruchwyliaeth fydd yn cael ei rhoi ar waith i fonitro'r defnydd o'r pwerau hyn, a pha lefel o awdurdod fydd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y pwerau hynny yn cael eu harchwilio a'u dyrannu yn briodol, a pha rôl benodol fydd gan y Cynulliad o ran craffu ar y defnydd o'r pwerau hynny?

15:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Peter Black. And thank you for your acknowledgement that this is a point of historic opportunity, as you say, and indeed responsibility, in terms of how we manage this and develop this together, through the scrutiny of this important Bill. In terms of the Welsh revenue authority's relationship with the Assembly, the Assembly will have full oversight, as I've said, in terms of the funding of the Welsh revenue authority by the Welsh Government. The Welsh revenue authority will be identified separately in the budget, as I've said, and, of course, that includes annual accounts, an annual report, an annual tax statement, a corporate plan, and a charter of standards and values, which will be laid before the Assembly. The Bill doesn't specify how the Assembly should scrutinise the WRA, but those are arrangements for the Assembly to decide.

Diolch yn fawr iawn, Peter Black. A diolch i chi am eich cydnabyddiaeth bod hwn yn gyfle hanesyddol, fel y dywedwch, ac yn wir gyfrifoldeb, o ran sut yr ydym yn rheoli hyn ac yn ei ddatblygu gyda'n gilydd, drwy graffu ar y Bil pwysig hwn. O ran perthynas awdurdod refeniw Cymru â'r Cynulliad, bydd y Cynulliad yn ei oruchwylio'n llawn, fel yr wyf wedi'i ddweud, o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu awdurdod refeniw Cymru. Bydd awdurdod refeniw Cymru yn cael ei nodi ar wahân yn y gyllideb, fel yr wyf wedi'i ddweud, ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys cyfrifon blynyddol, adroddiad blynyddol, datganiad treth blynyddol, cynllun corfforaethol, a siarter o safonau a gwerthoedd, a fydd yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Nid yw'r Bil yn pennu sut y dylai'r Cynulliad graffu ar yr awdurdod, ond mae'r rheiny yn drefniadau i'r Cynulliad eu penderfynu.

I think it is important, in response to earlier questions, that we need to make sure that the provisions in this Bill are future-proofed and do provide flexibility to respond to future needs and opportunities. We may, for example, want to amend the number of members that are on the board to respond to greater responsibilities in the future. And we also need to ensure that that board model represents good practice in Wales, which will be non-executive directors being able to hold the executive to account.

Credaf ei bod yn bwysig, mewn ymateb i gwestiynau cynharach, i ni wneud yn siŵr bod y darpariaethau yn y Bil hwn wedi'u diogelu at y dyfodol ac yn darparu hyblygrwydd i ymateb i anghenion a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae'n bosibl y byddwn, er enghraifft, yn awyddus i newid nifer yr aelodau sydd ar y bwrdd er mwyn ymateb i fwy o gyfrifoldebau yn y dyfodol. Ac mae angen i ni hefyd sicrhau bod model y bwrdd yn cynrychioli arfer da yng Nghymru, sef bod cyfarwyddwyr anweithredol yn gallu dal y weithrediaeth i gyfrif.

You raise an important point as well, Peter, in relation to the cost, and the regulatory impact assessment. If you look at what I have already indicated in terms of costs, I've presented the costs of establishing and operating Revenue Scotland as a best estimate of the potential scale of costs. And as they will fall to the Welsh Government, we really have to be very careful in terms of scope and scale of the WRA functions, to make sure that we do have that staff and infrastructure requirement. But, implying costs, in terms of the benchmarking of Revenue Scotland, implies setting out costs of approximately £800,000 in 2016-17, £4.3 million to £4.4 million in 2017-18 and 2018-19, and ongoing costs of £2.9 million a year from 2019-20. That is our best estimate at this stage, but, clearly, I have said, in response to earlier questions, that I will bring this back in the autumn, in terms of greater clarity on these points.

Rydych yn codi pwynt pwysig hefyd, Peter, o ran y gost, a'r asesiad effaith rheoleiddiol. Os ydych yn edrych ar yr hyn yr wyf eisoes wedi'i nodi o ran costau, rwyf wedi cyflwyno costau sefydlu a gweithredu Revenue Scotland fel amcangyfrif gorau o raddfa bosibl y costau. A chan mai Llywodraeth Cymru fydd yn talu, mae gwir angen i ni fod yn ofalus iawn o ran cwmpas a maint swyddogaethau'r awdurdod, i sicrhau bod gennym y staff a'r seilwaith angenrheidiol. Ond, mae awgrymu costau, o ran meincnodi Revenue Scotland, yn awgrymu nodi costau o tua £800,000 yn 2016-17, £4.3 miliwn i £4.4 miliwn yn 2017-18 a 2018-19, a chostau parhaus o £2.9 miliwn y flwyddyn o 2019-20. Dyna ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd, ond yn amlwg, rwyf wedi dweud wrth ymateb i gwestiynau cynharach, byddaf yn dod yn ôl yma yn yr hydref, â mwy o eglurder ar y pwyntiau hyn.

I think the points about the opportunity for the Assembly to be very involved in a full consultation in relation to the PACE criminal powers—that's very consistent with the approach used by Her Majesty's Treasury to confer powers upon Her Majesty's Revenue and Customs officers. As I've said, we want to use the affirmative procedure, and make sure that the powers taken are more likely to be appropriate for the WRA, in relation to our devolved taxes.

Rwy'n meddwl bod y pwyntiau am y cyfle i'r Cynulliad fod yn ymwneud yn helaeth ag ymgynghoriad llawn mewn perthynas â phwerau troseddol PACE—bod hynny'n gyson iawn â'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i roi pwerau i swyddogion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Fel yr wyf wedi'i ddweud, rydym am ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol, a gwneud yn siŵr bod y pwerau a gymerir yn fwy tebygol o fod yn briodol ar gyfer yr awdurdod, mewn perthynas â'n trethi datganoledig.

15:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:37

## 5. Dadl ar y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2015-2016

## 5. Debate on the First Supplementary Budget 2015-2016

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 5, which is a debate on the first supplementary budget for 2015-16. I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion—Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef dadl ar y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig—Jane Hutt.

Cynnig NDM5798 Jane Hutt

Motion NDM5798 Jane Hutt

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2015.

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the First Supplementary Budget for the financial year 2015-16 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 23 June 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'm pleased to present the supplementary budget I laid on 23 June to the Assembly today. Although this supplementary budget is mainly administrative in nature, it does include a small number of key allocations from the reserves that have been agreed since the final budget was approved. Adjustments have also been made to the Wales departmental expenditure limit budget, to reflect the limited consequentials to our budgets, as a result of the UK Government's last autumn statement and the March 2015 budget.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyflwyno'r gyllideb atodol a osodais ar 23 Mehefin i'r Cynulliad heddiw. Er bod y gyllideb atodol hon yn weinyddol yn bennaf o ran ei natur, mae'n cynnwys nifer fach o ddyraniadau allweddol o'r cronfeydd wrth gefn y cytunwyd arnynt ers cymeradwyo'r gyllideb derfynol. Mae addasiadau hefyd wedi'u gwneud i gyllideb terfyn gwariant adrannol Cymru, i adlewyrchu'r symiau canlyniadol cyfyngedig i'n cyllidebau, o ganlyniad i ddatganiad yr hydref diwethaf Llywodraeth y DU a chyllideb Mawrth 2015.

In tabling this budget at this time, I'm continuing with our established practice—publishing two supplementary budgets, to a timetable, which allows scrutiny in this Assembly, and builds on our overall record of transparency around our budgetary processes. This first supplementary budget further demonstrates that our priorities remain focused on improving the delivery of our public services, investing in our health service, boosting economic growth and creating jobs, driving up educational standards and performance in our schools, and tackling poverty in all its forms.

Wrth gyflwyno'r gyllideb hon yn awr, rwy'n parhau â'n hymarfer sefydledig—sef cyhoeddi dwy gyllideb atodol, yn ôl amserlen, sy'n caniatáu craffu yn y Cynulliad hwn, ac sy'n adeiladu ar ein record gyffredinol o dryloywder ein prosesau cyllidebol. Mae'r gyllideb atodol gyntaf yn dangos ymhellach fod ein blaenoriaethau yn parhau i ganolbwyntio ar wella darpariaeth ein gwasanaethau cyhoeddus, gan fuddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd, hybu twf economaidd a chreu swyddi, codi safonau a pherfformiad addysgol yn ein hysgolion, a mynd i'r afael â thlodi yn ei holl ffurfiau.

This supplementary budget underlines this Government's continued commitment to the Welsh NHS. It provides a boost of £90 million for the health service in Wales, includes £30 million allocated to develop primary care services across Wales, and £20 million to the intermediate care fund. In line with our commitment to public services reform, the supplementary budget also details an allocation of £8.4 million to the education and skills portfolio, to contribute towards a number of initiatives, including support for Schools Challenge Cymru, the flexible skills programme, and apprenticeships. Following the full devolution of business rates policy, and boosting economic growth, the budget also includes a revenue allocation of £16.5 million to the economy, science and transport main expenditure group, to increase measures to support businesses with their non-domestic rates.

Mae'r gyllideb atodol hon yn tanlinellu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth hon i'r GIG yng Nghymru. Mae'n darparu hwb o £90 miliwn ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn cynnwys dyrannu £30 miliwn i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru, ac £20 miliwn i'r gronfa gofal canolraddol. Yn unol â'n hymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, mae'r gyllideb atodol hefyd yn rhoi manylion dyraniad o £8.4 miliwn i'r portffolio addysg a sgiliau, a fydd yn cyfrannu at nifer o fentrau, gan gynnwys cymorth ar gyfer Her Ysgolion Cymru, y rhaglen sgiliau hyblyg, a phrentisiaethau. Yn dilyn datganoli'r polisi ardrethi busnes yn llawn, a hybu twf economaidd, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys dyraniad refeniw o £16.5 miliwn i'r prif grwpiau gwariant yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, er mwyn cynyddu mesurau i gefnogi busnesau â'u trethi annomestig.

Other changes include adjustments to our resources and capital baselines, as a result of consequentials and transfers received since the final budget, as well as revised annually managed expenditure forecasts. This budget also reflects the transfer of expenditure supported by business rates from our DEL budget into annually managed expenditure, following the devolution of responsibility to Wales on 1 April.

Mae newidiadau eraill yn cynnwys addasiadau i'n hadnoddau a llinellau sylfaen cyfalaf, o ganlyniad i symiau canlyniadol a throsglwyddiadau a dderbyniwyd ers y gyllideb derfynol, yn ogystal â rhagolygon gwariant diwygiedig a reolir yn flynyddol. Mae'r gyllideb hon hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod gwariant a gefnogir gan ardrethi busnes yn cael ei drosglwyddo o'n cyllideb DEL i wariant a reolir yn flynyddol, yn dilyn datganoli cyfrifoldeb i Gymru ar 1 Ebrill.

Dirprwy Lywydd, since the publication of this supplementary budget, Members will be aware that the Chancellor's budget last week provided confirmation of the scale of the in-year cuts to our 2015-16 budgets. The £4 million positive consequential will do little to mitigate the £50 million reductions announced, without notice, by the Chancellor on 4 June. And, as you know, those cuts hit budgets for public health, further and higher education, transport, and communities. Now we have confirmation of the in-year cuts, and let me remind Members what we're talking about. What the UK Government has imposed on us is a £46 million budget reduction this year in-year.

Ddirprwy Lywydd, ers cyhoeddi'r gyllideb atodol hon, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cyllideb y Canghellor yr wythnos diwethaf wedi rhoi cadarnhad o faint y toriadau yn ystod y flwyddyn i'n cyllidebau ar gyfer 2015-16. Ni fydd y £4 miliwn o arian canlyniadol cadarnhaol yn gwneud fawr i liniaru'r gostyngiadau o £50 miliwn a gyhoeddwyd, heb rybudd, gan y Canghellor ar 4 Mehefin. Ac, fel y gwyddoch, mae'r toriadau hynny'n taro cyllidebau ar gyfer iechyd y cyhoedd, addysg bellach ac uwch, trafnidiaeth, a chymunedau. Nawr mae gennym gadarnhad o'r toriadau yn ystod y flwyddyn, a gadewch i mi atgoffa Aelodau o'r hyn yr ydym yn sôn amdano. Yr hyn y mae Llywodraeth y DU wedi ei osod arnom yw gostyngiad yn y gyllideb o £46 miliwn y flwyddyn hon, a hynny yn ystod y flwyddyn.

I had hoped to be here today giving you information of new investments, though small, in capital programmes and other projects, but this cut has put paid to that. What we hear from the UK Government is that the economy is on the right track—things are meant to be improving. How justifiable, then, is this in-year cut? It makes proper financial planning next to impossible, and added to the huge cuts we've already received it does put under threat the things we value but take for granted—concessionary bus fares, our free prescriptions, our support for infrastructure projects. These things are only deliverable if Wales gets a fair share.

Roeddwn wedi gobeithio bod yma heddiw yn rhoi gwybodaeth i chi am fuddsoddiadau newydd, er yn fach, mewn rhaglenni cyfalaf a phrosiectau eraill, ond mae'r toriad hwn wedi rhoi diwedd ar hynny. Yr hyn yr ydym yn ei glywed gan Lywodraeth y DU yw bod yr economi ar y trywydd iawn—mae pethau yn gwella yn ôl pob sôn. Sut y gellir cyfiawnhau, felly, y toriad hwn yn ystod y flwyddyn? Mae'n gwneud cynllunio ariannol priodol bron yn amhosibl, ac yn ychwanegol at y toriadau enfawr yr ydym eisoes wedi eu derbyn, mae'n bygwth y pethau yr ydym yn eu gwerthfawrogi ond yn eu cymryd yn ganiataol—tocynnau bws rhatach, ein presgripsiynau am ddim, ein cymorth ar gyfer prosiectau seilwaith. Nid yw'r pethau hyn yn gyraeddadwy oni chaiff Cymru'n gyfran deg.

But I am determined to protect our public services this year as much as I can against these needless cuts. After careful consideration and prudent management of our reserves, we will protect our key public services from the full impact of the UK Government policies by taking these cuts from reserves. The decision to reduce our reserves by this amount is not taken lightly. It reduces our ability to meet contingencies and limits opportunities to provide additional investment in the current financial year. However, against this, we have also had to consider what the impact would be if we were to defer some or all of the cuts to next year. It's already clear that the coming spending review will further reduce our budget in real terms. Therefore, carrying further reductions into the 2016-17 financial year would present an even greater challenge and worsen the impact of austerity on Welsh public services.

Ond rwy'n benderfynol o warchod ein gwasanaethau cyhoeddus eleni gymaint ag y gallaf yn erbyn y toriadau diangen hyn. Ar ôl ystyriaeth ofalus a rheolaeth ddoeth o'n cronfeydd wrth gefn, byddwn yn diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol rhag effaith lawn polisïau Llywodraeth y DU drwy gymryd y toriadau hyn o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r penderfyniad i dynnu'r swm hwn o'n cronfeydd wrth gefn wedi'i gymryd yn ysgafn. Mae'n lleihau ein gallu i ymateb i hapddigwyddiadau ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i wneud buddsoddiadau ychwanegol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, yn erbyn hyn, bu'n rhaid i ni hefyd ystyried beth fyddai'r effaith petaem yn gohirio rhai o'r toriadau hyn, neu'r cyfan, tan y flwyddyn nesaf. Mae'n amlwg eisoes y bydd yr adolygiad o wariant nesaf yn lleihau ein cyllideb ymhellach mewn termau real. Felly, byddai cario gostyngiadau pellach i mewn i'r flwyddyn ariannol 2016-17 yn cyflwyno her fwy fyth ac yn gwaethygu effaith y cyni ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Through this decision, we will protect the budget approved by this Assembly for 2015-16 and budgets in future years. This Government continues to do all we can to protect the people of Wales from these sweeping and unnecessary cuts imposed upon us.

Trwy'r penderfyniad hwn, byddwn yn amddiffyn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad hwn ar gyfer 2015-16 a chyllidebau yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i amddiffyn pobl Cymru rhag y toriadau ysgubol a diangen hyn a osodwyd arnom.

As is our usual practice, an explanatory note, providing a detailed description of all the changes, along with a detailed schedule of budget transfers, has been published alongside the budget motion, and I'm sure this has supported Members' scrutiny of this budget.

Fel sy'n arferol gennym, mae nodyn esboniadol, yn disgrifio'r holl newidiadau yn fanwl, ynghyd â rhestr fanwl o drosglwyddiadau cyllidebol, wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynnig cyllideb, ac rwy'n siŵr bod hyn wedi ategu gwaith craffu Aelodau ar y gyllideb hon.

15:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

15:42

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. The Finance Committee met on 1 July to scrutinise the first supplementary budget for 2015-16. I'd like to thank the Minister for attending our session and giving the committee the opportunity to look in depth at the allocations of funding laid out in the supplementary budget. The committee's report includes a number of recommendations, and I hope that the Government will take those into account both in delivering this supplementary budget and in the future.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid ar 1 Gorffennaf i graffu ar y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2015-16. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am fynychu ein sesiwn a rhoi cyfle i'r pwyllgor edrych yn fanwl ar y dyraniadau cyllid a nodir yn y gyllideb atodol. Mae adroddiad y pwyllgor yn cynnwys nifer o argymhellion, ac rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn cymryd hynny i ystyriaeth wrth gyflawni'r gyllideb atodol hon ac yn y dyfodol.

The committee is pleased to recognise that the Government has delivered, or is on track to deliver, 95 per cent of their programme for government. However, we are concerned that the rest of the programme may not be met, particularly in light of the £46 million cut, which will need to be applied this year. The committee will look again at the delivery of the programme for government when considering the second supplementary budget for 2015-16, which should show the impact of these cuts and of the autumn spending review.

Mae'r pwyllgor yn falch o gydnabod bod y Llywodraeth wedi cyflawni, neu ar y trywydd iawn i gyflawni, 95 y cant o'i rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, rydym yn pryderu na fydd gweddill y rhaglen yn cael ei bodloni, yn enwedig yn wyneb y toriad o £46 miliwn y bydd angen ei gymhwyso eleni. Bydd y pwyllgor yn edrych eto ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen lywodraethu wrth ystyried yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2015-16, a ddylai ddangos effaith y toriadau hyn ac effaith adolygiad o wariant yr hydref.

The committee was also pleased to see an additional £14.6 million of funding allocated to mental health services, but we are concerned that this additional funding has not been linked to targets. This is of particular importance for child and adolescent mental health services, which has received a disproportionately low level of funding in the past. Members would like to see clear targets set out, particularly in relation to referral-to-treatment times, to ensure that the increase in funding is benefitting those who need it most and to ensure that service provision is measurably improved. The committee welcomes the additional £8.4 million that has been allocated to the education and skills main expenditure group. However, there appears to be a shortfall in the funding allocated to Schools Challenge Cymru, and we are keen to see further details on how this shortfall will be funded.

Roedd y pwyllgor hefyd yn falch o weld £14.6 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i wasanaethau iechyd meddwl, ond rydym yn pryderu nad yw'r arian ychwanegol hwn wedi cael ei gysylltu â thargedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, sydd wedi derbyn lefel anghymesur o isel o gyllid yn y gorffennol. Byddai Aelodau yn hoffi gweld targedau clir wedi'u nodi, yn enwedig ar gyfer amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er mwyn sicrhau bod y cynnydd yn y cyllid o fudd i'r rhai sydd ei angen fwyaf ac i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei wella yn fesuradwy. Mae'r pwyllgor yn croesawu'r £8.4 miliwn ychwanegol sydd wedi ei ddyrannu i'r prif grŵp gwariant addysg a sgiliau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg yn y cyllid a ddyrennir i Her Ysgolion Cymru, ac rydym yn awyddus i weld rhagor o fanylion am sut y bydd y diffyg hwn yn cael ei ariannu.

Many of the other recommendations included in the committee's report relate to spending on health services. All of the committee's recent budget scrutiny reports have discussed the increase in the funding for health. As I have said previously, as a committee, we do not wish to comment on whether the health sector should be receiving an increase in funding, but we have concerns that this additional funding has still not been linked to outcomes, and we have not been presented with a clear idea as to how the health service will improve as a result. We recommend that the Government provide details on how this additional funding is being used to ensure that NHS finances become sustainable and what expectations the Government has of the financial performance of the NHS in 2015-16.

Mae nifer o'r argymhellion eraill sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y pwyllgor yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau iechyd. Mae pob un o adroddiadau craffu diweddar y pwyllgor wedi trafod y cynnydd yn y cyllid ar gyfer iechyd. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, nid ydym ni fel pwyllgor yn dymuno rhoi sylwadau ar pa un a ddylai'r sector iechyd dderbyn cynnydd yn y cyllid ai peidio, ond mae gennym bryderon bod y cyllid ychwanegol hwn yn parhau heb ei gysylltu â chanlyniadau, ac ni chyflwynwyd syniad clir inni o ran sut y bydd y gwasanaeth iechyd yn gwella o ganlyniad. Rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn darparu manylion ynglŷn â sut y mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod sefyllfa ariannol y GIG yn dod yn gynaliadwy a pha ddisgwyliadau sydd gan y Llywodraeth o berfformiad ariannol y GIG yng 2015-16.

On behalf of the committee, I'd like to say that we were grateful for the opportunity to consider this supplementary budget and we look forward to scrutiny of the second supplementary budget, which we hope will provide clarity on the impact of cuts contained in the UK budget. Thank you.

Ar ran y pwyllgor, hoffwn ddweud ein bod yn ddiolchgar am y cyfle i ystyried y gyllideb atodol ac rydym yn edrych ymlaen at graffu ar yr ail gyllideb atodol, a gobeithiwn y bydd yn darparu eglurder ar effaith y toriadau a gynhwysir yng nghyllideb y DU. Diolch yn fawr.

15:45

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased to contribute to this debate today and I was pleased to hear the Minister, in opening, recognise that the UK Government is getting the economy back on track. I was surprised, Minister, that you didn't seem to make the link with the UK Government taking those actions that then mean that here, of course, difficult decisions have to be made, certainly in the short term, Minister. But, you did recognise that the economy is getting back on track.

Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon heddiw ac roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog, wrth agor, yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn rhoi'r economi yn ôl ar y trywydd iawn. Roeddwn yn synnu, Weinidog, nad oedd yn ymddangos eich bod yn gwneud y cysylltiad â Llywodraeth y DU yn cymryd y camau hynny sydd wedyn yn golygu yn y fan hon, wrth gwrs, bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, yn sicr yn y tymor byr, Weinidog. Ond, fe wnaethoch gydnabod bod yr economi yn mynd yn ôl ar y trywydd iawn.

The Welsh Conservatives welcome the £70 million earmarked for the Welsh NHS that was announced in January. As the Minister knows, Welsh Conservatives have long been calling for additional funding for our health service. This £70 million does not, of course, make up for the hundreds of millions of pounds that have been cut from the health budget in Wales since 2011, but it is at least a step in the right direction.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'r £70 miliwn a glustnodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn galw ers amser am gyllid ychwanegol ar gyfer ein gwasanaeth iechyd. Nid yw'r £70 miliwn hwn, wrth gwrs, yn gwneud yn iawn am y cannoedd o filiynau o bunnoedd sydd wedi cael eu torri o'r gyllideb iechyd yng Nghymru ers 2011, ond o leiaf mae'n gam i'r cyfeiriad iawn.

During evidence to the Finance Committee, the Minister identified primary care developments and delivery plans as areas of increased spend and I'd hoped that the Minister could give us further details of these areas. I'd also like to hear from the Welsh Government why they still will not commit to the dedicated cancer treatment fund, which people in Wales are crying out for and which certainly fills my postbag, and I know the postbags of other Assembly Members.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, nododd y Gweinidog ddatblygiadau gofal a chynlluniau darparu sylfaenol fel meysydd o gynnydd mewn gwariant ac roeddwn yn gobeithio y gallai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am y meysydd hyn i ni. Hoffwn hefyd glywed gan Lywodraeth Cymru pam ei bod yn dal i beidio ag ymrwymo i'r gronfa triniaeth canser benodol, y mae pobl yng Nghymru yn crefu amdani ac sydd yn sicr yn llenwi fy mag post, a bagiau post Aelodau eraill y Cynulliad mi wn.

I'd also be interested to know if the Minister is still requiring performance improvement as a result of this additional money. We know the confusion that arose over this when the funding was initially announced. Given that three LHBs overspent in 2014-15 and only five of the 10 NHS organisations have approved three-year plans for the period 2015-16 onwards, we certainly need assurances that the local health boards are in a position to make the most effective use of this funding and that it will not simply become yet another bail-out, absorbed into the health board debts and providing no real change for patients.

Byddai gennyf ddiddordeb gwybod hefyd a yw'r Gweinidog yn dal i fynnu gwelliant mewn perfformiad o ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn. Rydym yn gwybod y dryswch a gododd dros hyn pan gyhoeddwyd yr arian yn y lle cyntaf. O ystyried bod tri BILl wedi gorwario yn 2014-15 a dim ond pump o'r 10 o sefydliadau GIG sydd â chynlluniau tair blynedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2015-16 ymlaen, does dim amheuaeth bod angen sicrwydd bod y byrddau iechyd lleol mewn sefyllfa i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyllid hwn ac na fydd yn ddim ond rhagor o arian i achub croen, yn cael ei amsugno i dalu dyledion byrddau iechyd heb gynnig unrhyw newid gwirioneddol i gleifion.

As the Finance Committee report points out, the Assembly will have dissolved ahead of the elections before the 2015-16 financial year, so we will need another update in time for that supplementary budget to make sure that this spend has been effective and we can adequately fulfil our scrutiny role.

Fel y mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn nodi, bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu o flaen yr etholiadau cyn y flwyddyn ariannol 2015-16, felly bydd angen diweddariad arall mewn pryd ar gyfer y gyllideb atodol i sicrhau y bu'r gwariant hwn yn effeithiol ac y gallwn gyflawni ein swyddogaeth graffu yn ddigonol.

In evidence to the Finance Committee, the Minister gave details of the transfer of £956 million from local government departmental revenue to annually managed expenditure—a consequence, as the Minister rightly said, of the full devolution of business rates. This is understandable. It is ironic that, as a result of the new system, Wales now has to bear the cost of even mirroring changes in UK business rate policy. But, it does at least allow for localism, so I suppose, 'every cloud…' as they say.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, rhoddodd y Gweinidog fanylion am y trosglwyddiad o £956 miliwn o refeniw adrannol llywodraeth leol i wariant a reolir yn flynyddol—canlyniad, fel y dywedodd y Gweinidog yn iawn, datganoli ardrethi busnes yn llawn. Mae hyn yn ddealladwy. Mae'n eironig bod yn rhaid i Gymru, o ganlyniad i'r system newydd, dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag adlewyrchu newidiadau mewn polisi ardrethi busnes y DU hyd yn oed. Ond, o leiaf mae'n caniatáu ar gyfer lleoliaeth, felly mae'n debyg, 'mae ymyl arian i bob cwmwl…' fel y maent yn ei ddweud.

The Finance Committee also called on the Welsh Government to improve the accuracy of its monitoring and forecasts. We do need to know that the Welsh Government is making progress in this area. In evidence to the Finance Committee and elsewhere, the Minister has said that business rates forecasts would be presented to the committee, but in the committee, you did tell us in an evidence session that the Welsh Government were considering ways to make the information more meaningful. Have you reached any conclusions yet on this, and are you in a position to tell the Chamber exactly how you intend to make that information more meaningful? It certainly is important that the Finance Committee does receive that information and that this Assembly is in the best position possible to scrutinise this budget, and indeed budgets in the future.

Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella cywirdeb ei gwaith monitro a'i rhagolygon. Mae angen i ni wybod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ac mewn mannau eraill, mae'r Gweinidog wedi dweud y byddai rhagolygon ardrethi busnes yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor, ond yn y pwyllgor, dywedasoch wrthym mewn sesiwn dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o wneud y wybodaeth yn fwy ystyrlon. A ydych chi wedi cyrraedd unrhyw gasgliadau eto ar hyn, ac a ydych chi mewn sefyllfa i ddweud wrth y Siambr sut yn union yr ydych yn bwriadu gwneud yr wybodaeth honno'n fwy ystyrlon? Yn sicr, mae'n bwysig bod y Pwyllgor Cyllid yn derbyn yr wybodaeth honno a bod y Cynulliad hwn yn y sefyllfa orau posibl i graffu ar y gyllideb hon, ac yn wir ar gyllidebau yn y dyfodol.

The devolution of business rates and the future devolution of other taxes in 2018 clearly does require a robust monitoring and forecasting framework, otherwise the Welsh Government will be susceptible to an unnecessary level of volatility, which could potentially throw any future spending plans into chaos.

Mae datganoli ardrethi busnes a datganoli trethi eraill yn 2018 yn amlwg yn mynnu fframwaith monitro a rhagweld cadarn, neu bydd Llywodraeth Cymru yn agored i lefel ddiangen o ansefydlogrwydd, a allai o bosibl achosi anhrefn o ran unrhyw gynlluniau gwario yn y dyfodol.

I was going to touch on the additional education allocations, but the Chair of the Finance Committee has already done that, so I won't go over that ground.

Yr oeddwn yn mynd i gyffwrdd ar y dyraniadau addysg ychwanegol, ond mae Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid eisoes wedi gwneud hynny, felly nid wyf yn bwriadu trafod y maes hwnnw.

In conclusion, Minister, we welcome this supplementary budget being brought to this Chamber, but I'm afraid we cannot support it. Whilst a number of the transfers are technical and necessary, Welsh Conservatives believe that the budget overall that this budget seeks to amend still fails to adequately reflect the priorities of the people of Wales, particularly in the area of the NHS. This budget is a missed opportunity, Minister, and, as I say, we will not be voting for it.

I gloi, Weinidog, rydym yn croesawu'r ffaith i'r gyllideb atodol hon gael ei dwyn i'r Siambr, ond rwy'n ofni na allwn ei chefnogi. Er bod nifer o'r trosglwyddiadau yn dechnegol ac yn angenrheidiol, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod y gyllideb gyffredinol y mae'r gyllideb hon yn ceisio ei diwygio yn dal i fethu ag adlewyrchu blaenoriaethau pobl Cymru yn ddigonol, yn enwedig ym maes y GIG. Mae'r gyllideb hon yn gyfle a gollwyd, Weinidog, ac, fel y dywedais, ni fyddwn yn pleidleisio drosti.

15:50

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, unlike Nick Ramsay, support this first supplementary budget. The first supplementary budget normally involves less movement of money than the second in the previous financial year. This is again the case this year. The Finance Committee has only made five recommendations, and three of them are on health.

Yr wyf i, yn wahanol i Nick Ramsay, yn cefnogi'r gyllideb atodol gyntaf. Mae'r gyllideb atodol gyntaf fel arfer yn golygu llai o symud arian na'r ail yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn wir eleni eto. Dim ond pum argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid, ac mae tri ohonynt ar iechyd.

In-year cuts make it difficult to manage budgets. We've seen a £50 million in-year reduction prior to last week's spending review, whose effect we await. Of course, if the provision of funding for Wales was against the published formula, then taking the figures from the red book, it should be easy to calculate the changes. Now, we have to wait for the Treasury to inform us of the consequential changes to the Welsh budget. I'm sure a more meaningful first supplementary budget could have been produced if the details of the funding changes were available before the supplementary budget was produced so they could have been taken into account before the Finance Committee considered it.

Mae'r toriadau yn ystod y flwyddyn yn ei gwneud yn anodd rheoli cyllidebau. Rydym wedi gweld gostyngiad o £50 miliwn yn ystod y flwyddyn cyn yr adolygiad o wariant yr wythnos diwethaf, ac yr ydym yn aros i weld yr effaith. Wrth gwrs, os oedd y cyllid ar gyfer Cymru wedi'i ddarparu yn erbyn y fformiwla a gyhoeddwyd, yna gan gymryd y ffigurau o'r llyfr coch, dylai fod yn hawdd cyfrifo'r newid. Nawr, mae'n rhaid i ni aros i'r Trysorlys roi gwybod i ni am y newidiadau canlyniadol i gyllideb Cymru. Rwy'n siŵr y gellid bod wedi cynhyrchu cyllideb atodol gyntaf fwy ystyrlon pe byddai manylion y newidiadau cyllido ar gael cyn i'r gyllideb atodol gael ei chynhyrchu fel y gellid bod wedi eu hystyried cyn i'r Pwyllgor Cyllid fynd ati i'w hystyried.

Of course, these changes help make the case against income tax devolution. I can see that if income tax were devolved, the Chancellor would be saying, 'If you do not want to make these cuts, then increase income tax; the choice is yours'. Looking at the NHS finances, as the committee report said, they will need to be put on a sustainable footing. We are in a situation with health where any additional expenditure is deemed to be good. No matter what it is used for, give health more money. How much you spend gets substantially more scrutiny than how it is spent and how efficiently it is spent. To take the most recent examples from the auditor general's report regarding orthopaedic services in the Aneurin Bevan health board on 29 June this year, I will directly quote from page 4 of the summary.

Wrth gwrs, mae'r newidiadau hyn yn helpu i wneud achos yn erbyn datganoli treth incwm. Gallaf weld pe bai treth incwm yn cael ei datganoli, byddai'r Canghellor yn dweud, 'Os nad ydych am wneud y toriadau hyn, yna cynyddwch dreth incwm; chi piau'r dewis'. O edrych ar gyllid y GIG, fel y dywedodd adroddiad y pwyllgor, bydd angen iddynt gael eu rhoi ar sylfaen gynaliadwy. Rydym mewn sefyllfa o ran iechyd lle bernir bod unrhyw wariant ychwanegol yn dda. Ni waeth ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio, rhowch fwy o arian i iechyd. Mae faint yr ydych yn ei wario yn cael llawer mwy o graffu nag sut y caiff ei wario a pha mor effeithlon y caiff ei wario. Gan gymryd yr enghreifftiau mwyaf diweddar gan adroddiad yr archwilydd cyffredinol o ran gwasanaethau orthopedig ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan ar 29 Mehefin eleni, dyfynnaf yn uniongyrchol o dudalen 4 y crynodeb.

'High demand and a range of inefficiencies are resulting in an inefficient orthopaedic service with some outcomes less positive than elsewhere in Wales:...day surgery rates, length of stay and use of theatre capacity all need to improve;... higher rates of elective orthopaedic mortality and a lower rate of improvement following knee replacement surgery.'

'Mae galw mawr a sawl agwedd aneffeithlon yn arwain at wasanaeth orthopedeg aneffeithlon, ac mae rhai canlyniadau yn llai cadarnhaol o gymharu â llefydd eraill yng Nghymru:... mae angen gwella cyfraddau llawdriniaethau dydd, hyd arhosiad a defnydd capasiti theatrau;... Mae cyfradd marwolaethau cleifion orthopedeg dewisol yn uwch, ac mae'r gyfradd gwella yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn is.'

Turning to the review of district nursing services in Cwm Taf University Health Board, pages 6 and 7:

Gan droi at yr adolygiad o wasanaethau nyrsio ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, tudalennau 6 a 7:

'A detailed workforce plan...to move services into the community is yet to be developed',

'Nid yw cynllun manwl ar gyfer gweithlu'r gwasanaeth... wedi cael ei ddatblygu eto',

'Demand for district nursing services needs to be better managed',

'Mae angen gwella'r rheolaeth ar y galw am wasanaethau nyrsio ardal',

and this is one of my favourites:

ac mae hwn yn un o'm ffefrynnau:

'there are no systems in place to collect, in a consistent way, information on the number and nature of referrals while referral criteria are out of date and not actively used'.

'Nid oes unrhyw systemau ar waith i gasglu gwybodaeth am nifer a natur atgyfeiriadau mewn modd cyson. Mae'r meini prawf atgyfeirio wedi dyddio, ac nid ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd'.

How much could be saved or reallocated if interventions that either did no good or actually did harm in the health service actually stopped? How much could be saved to be reallocated if every health board performed at the same level as the most efficient and effective? The cost of secondary care increases, and the relative expenditure on primary care decreases, every year. When people say they want more money for health, what they mean is more money for hospitals. It's always hospitals and pumping money in to hospital services. Is this the direction of travel that we want health's expenditure to go? Why should health boards be bothered to be efficient and effective when each health board knows they will get tens of millions of pounds each year to cover overspends? Of course—

Faint y gellid ei arbed neu ei ailddyrannu pe byddai ymyriadau sydd naill ai ddim yn gwneud unrhyw ddaioni neu mewn gwirionedd yn gwneud niwed yn y gwasanaeth iechyd yn cael eu hatal? Faint y gellid ei arbed i'w ailddyrannu pe bai pob bwrdd iechyd yn perfformio ar yr un lefel â'r bwrdd iechyd mwyaf effeithiol ac effeithlon? Mae cost gofal eilaidd yn cynyddu, ac mae'r gwariant cymharol ar ofal cychwynnol, yn gostwng bob blwyddyn. Pan fydd pobl yn dweud eu bod am gael mwy o arian ar gyfer iechyd, yr hyn y maent yn ei olygu yw mwy o arian ar gyfer ysbytai. Mae bob amser yn golygu ysbytai a phwmpio arian i mewn i wasanaethau ysbyty. Ai dyma'r cyfeiriad yr ydym am i wariant ar iechyd fynd iddo? Pam y dylai byrddau iechyd drafferthu i fod yn effeithlon ac yn effeithiol pan fydd pob bwrdd iechyd yn gwybod y byddant yn cael degau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn i dalu am orwariant? Wrth gwrs—

15:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

15:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly. Yes.

Yn sicr. Gwnaf.

15:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. Just for clarification, are you saying that you support the Welsh Government's cuts to the health budget?

Diolch i chi am ildio. Dim ond am eglurhad, a ydych yn dweud eich bod yn cefnogi toriadau Llywodraeth Cymru i'r gyllideb iechyd?

15:53 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What I'm saying is that the Welsh Government haven't made cuts to the health budget, and that's a matter of fact. The second thing, which is also a matter of fact, is that giving health money, if it's spent inefficiently and ineffectively, is of no good to anybody. I think that Nick Ramsay would say that if you employed somebody in the health service and gave them pound coins to pour down the drain, as long as that money was being spent in the health setting, that would be wonderful because there's more money going into health. What it's spent on appears to be immaterial.

Beth rwy'n ei ddweud yw nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud toriadau i'r gyllideb iechyd, ac mae hynny'n fater o ffaith. Yr ail beth, sydd hefyd yn fater o ffaith, yw nad yw rhoi arian i iechyd, os yw'n cael ei wario'n aneffeithlon ac yn aneffeithiol, o unrhyw les i neb. Credaf y byddai Nick Ramsay yn dweud pe byddech yn cyflogi rhywun yn y gwasanaeth iechyd a rhoi darnau punt iddynt eu harllwys i lawr y draen, ar yr amod bod yr arian yn cael ei wario yn y lleoliad iechyd, yna byddai hynny'n wych oherwydd bod mwy o arian yn mynd i mewn i iechyd. Ymddengys nad oes fawr o ots ar beth y caiff ei wario.

We need a more efficient health service. The amount of money we've got can then be spent effectively, but all they'll be saying is, 'Give them more money. Give them more money. Health desperately needs more money'. Health desperately needs to be run efficiently in terms of the health boards. There are serious problems. I just gave two examples of the last two—

Mae arnom angen gwasanaeth iechyd mwy effeithlon. Yna gall y swm o arian sydd gennym gael ei wario'n effeithiol, ond y cyfan y byddant yn ei ddweud yw, 'Rhowch fwy o arian iddynt. Rhowch fwy o arian iddynt. Mae dirfawr angen mwy o arian ar iechyd'. Mae angen dirfawr i iechyd gael ei redeg yn effeithlon o ran y byrddau iechyd. Ceir problemau difrifol. Fe roddais ddwy enghraifft o'r ddau adroddiad diwethaf—

15:53

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:53

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I just finish this sentence? The last two reports that came out by the auditor general. Certainly.

Alla i orffen y frawddeg hon? Y ddau adroddiad diwethaf a ddaeth allan gan yr archwilydd cyffredinol. Yn sicr.

15:54

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to the Member for taking an intervention. If you speak to many pharmacists—and we know from figures quoted—there is over £50 million wasted on unused prescriptions in terms of the free prescriptions that your Government imposes. What do you think your Government should be doing about that £50 million of waste money?

Diolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Os byddwch yn siarad â llawer o fferyllwyr—ac rydym yn gwybod o ffigurau a ddyfynnwyd—mae dros £50 miliwn yn cael ei wastraffu ar bresgripsiynau nas defnyddiwyd o ran y presgripsiynau am ddim y mae eich Llywodraeth yn eu gosod. Beth ydych chi'n meddwl y dylai eich Llywodraeth fod yn ei wneud am y gwastraff arian £50 miliwn hwnnw?

15:54

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Stopping people dying because they can't afford to get medicine. That's what I think our Government ought to be doing. Stopping parents, when they go to the doctor, having to decide which medicine to get. That's what I think we ought to be doing. If you lived in the type of community that I live in, you'd have seen people asking the pharmacist, 'Which is the most important of these medicines I've got in order to know which one to take?'. That's what the Government should be doing. Free prescriptions at the point of need are desperately needed, desperately important, and I believe it's proving that the Government is going in the right direction.

Atal pobl rhag marw oherwydd na allant fforddio i gael meddygaeth. Dyna beth yr wyf yn meddwl y dylai ein Llywodraeth fod yn ei wneud.  Atal rhieni, pan fyddant yn mynd at y meddyg, rhag gorfod penderfynu pa feddyginiaeth i'w gael. Dyna beth yr wyf yn meddwl y dylem fod yn ei wneud. Os ydych yn byw yn y math o gymuned yr wyf yn byw ynddi, byddech wedi gweld pobl yn gofyn i'r fferyllydd, 'Pa un yw'r pwysicaf o'r meddyginiaethau hyn sydd gen i er mwyn gwybod pa un i'w gymryd?'. Dyna beth y dylai'r Llywodraeth fod yn ei wneud. Mae angen dirfawr am bresgripsiynau am ddim yn y man lle mae angen, maent yn hynod bwysig, ac rwy'n credu ei fod yn profi bod y Llywodraeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

My last point is: according to a Nuffield Trust report on the four health systems in the United Kingdom, they show there's been a drop in in-patient admissions per HCHS service doctor and dentist from just under 140 to well under 100. The drop in efficiency is far greater than either in Scotland or the north-east of England. It's efficiency the health service needs. It's efficiency we need from the health boards, not just keeping giving them money, money, money.

Fy mhwynt olaf yw: yn ôl adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar y pedair system iechyd yn y Deyrnas Unedig, maent yn dangos y bu gostyngiad mewn derbyniadau cleifion mewnol fesul meddyg a deintydd gwasanaeth HCHS o ychydig o dan 140 i ymhell o dan 100. Mae'r gostyngiad mewn effeithlonrwydd yn llawer mwy nag yn yr Alban neu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Effeithlonrwydd sydd ei angen ar y gwasanaeth iechyd. Effeithlonrwydd sydd ei angen gan y byrddau iechyd, yn hytrach na dim ond dal i roi arian, arian, arian iddynt.

15:55 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy’n mynd i ategu nifer o sylwadau sydd wedi’u gwneud yn barod, achos mae’r rhagolwg cyllidebol yn parhau i gael ei lunio gan y galw am wasanaethau’r gwasanaeth iechyd. Mae’r craffu gan y pwyllgor yn adlewyrchu hynny. Rwy’n cefnogi llawer iawn o’r hyn yr oedd Mike Hedges yn ei ddweud gynnau. Un o’r prif bryderon a gododd Plaid Cymru gyda’r gyllideb bresennol yw: a yw’r arian ychwanegol sydd wedi mynd i’r gwasanaeth iechyd yn sicrhau gwelliant yn y gwasanaeth, ynteu ydy o ddim ond yn parhau popeth sydd wedi bod yn mynd o’r blaen? Mi ddywedodd Gweinidogion Llafur cyn hyn y byddai’r cyllid ychwanegol i’r gwasanaeth iechyd yn cwrdd â chanfyddiadau adroddiad Nuffield. Felly, y cwestiwn sylfaenol ydy: beth mae’r Llywodraeth yn ei ddisgwyl am yr arian ychwanegol? Dyna, rwy’n meddwl, y mae pob un ohonom ni yn gofyn amdano fo oherwydd, fel arall, mae’r gwasanaeth iechyd yn ymddangos fel pwll diwaelod. Er bod yna ddigon o bethau da yn digwydd o fewn y gwasanaeth iechyd, nid ydym fel petaem ni’n gweld y gwelliannau hynny y byddai rhywun yn eu disgwyl gyda’r arian ychwanegol.

I’m going to endorse a number of the comments that have been made already, because the financial forecast is still created by demand for national health services and the scrutiny by the committee reflects that. I do support a lot of what Mike Hedges said earlier. One of the main concerns that Plaid Cymru had with the current budget is: is the additional money that’s gone to the health service going to secure improvements in the service, or is it only going to continue with everything that’s gone previously? Previous Labour Ministers said that additional funding for the NHS would meet the findings of the Nuffield report. So, the basic question is: what does the Government expect for that additional money? That, I think, is what all of us are asking for here because, otherwise, the health service appears to be a bottomless pit. Even though there are many good things happening within the health service, it seems that we’re not seeing those improvements that we’d expect to see from those additional funds.

Pryder arall yw na fydd gan y Llywodraeth Lafur gynlluniau ar gyfer rheoli’r galw o fewn y gwasanaeth iechyd. Rydym wedi gweld arian ychwanegol ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae Plaid Cymru wedi cefnogi hynny, er enghraifft, trwy’r gronfa gofal canolraddol. Ond ni welsom ni ddim byd y tu hwnt i hynny, ac mae yna broblemau fel gordewdra sydd angen ymyriad sylweddol gan y Llywodraeth, ac mae yna enghreifftiau eraill, wrth gwrs, o newid ymddygiad er mwyn ceisio lleihau’r pwysau ar y gwasanaethau iechyd. A wnaiff y Gweinidog, felly, ymdrin â phryderon y pwyllgor ar wariant iechyd, a hefyd dweud a yw’r Llywodraeth Lafur yn gwneud unrhyw beth i reoli’r galw yn y dyfodol?

Another concern is that the Labour Government doesn’t have plans for managing demand within the health service. We’ve seen additional money for integrating health and social care, and Plaid Cymru has supported that, for example, through the intermediate care fund. But, we didn’t see anything beyond that, and there are problems such as obesity that need significant intervention by Government, and there are other examples of changes of behaviour in order to try and reduce the pressure on health services. Will the Minister, therefore, deal with the concerns of the committee regarding health expenditure, and also state whether the Labour Government is doing anything to manage future demand?

O ran ardrethi busnes, mae’r gyllideb ategol hefyd yn symud £956 miliwn o refeniw o ardrethi annomestig i wariant a reolir yn flynyddol er mwyn adlewyrchu datganoli. Beth ydy’r trefniadau ar gyfer rhagfynegi beth fydd yr incwm o ardrethi busnes yn y dyfodol, a phryd y gellir disgwyl ffigwr ar gyfer 2016-17? Diolch.

In terms of business rates, the supplementary budget is also moving £956 million of revenue from non-domestic rates to annually managed expenditure in order to reflect devolution. What are the arrangements for forecasting future income from business rates, and when can we expect a figure for 2016-17? Thank you very much.

15:57 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think, as Mike Hedges pointed out, a large number of the recommendations of the Finance Committee related to the health service, and I think that still remains the biggest concern in terms of the budget and this particular supplementary budget. It's not because, as Mike Hedges said, the money is not being spent efficiently and effectively—although I think there is evidence it isn't in many cases—but because, to us, in terms of scrutiny, that remains one line in the budget representing a huge proportion of the Assembly's overall expenditure, which remains very difficult to scrutinise because it is not transparent at all exactly how that money is being spent, and it's very difficult to actually get to the bottom of what the LHBs are doing with that money. If you look at the committee's report, it notes that three LHBs overspent in 2014-15; only five of the 10 NHS organisations had approved three-year plans for the 2015-16 financial year onwards, although two of the remaining LHBs were providing updated plans. That does give everybody cause for concern, I think, particularly about the ability of the various NHS organisations to manage and remain within their budgets in the current financial year. Of course, we are in a situation where, effectively, we are plugging overspends and funding gaps without really knowing how well that money's being spent, because the only person who has that detail at their disposal is the Minister, and of course the chief executive of the NHS in Wales.

Rwy'n meddwl, fel y nododd Mike Hedges, bod nifer fawr o argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd, a chredaf mai dyna'r pryder mwyaf o ran y gyllideb a'r gyllideb atodol benodol hon. Nid yw oherwydd nad yw'r arian, fel y dywedodd Mike Hedges, yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol—er fy mod yn credu bod tystiolaeth nad yw mewn llawer o achosion—ond oherwydd, i ni, o ran craffu, mae honno'n un llinell yn y gyllideb sy'n cynrychioli cyfran fawr o wariant cyffredinol y Cynulliad, sy'n parhau i fod yn anodd iawn i graffu arno am nad yw'n dryloyw o gwbl sut yn union y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac mae'n anodd iawn mewn gwirionedd i wybod beth y mae'r Byrddau Iechyd Lleol yn ei wneud â'r arian hwnnw. Os edrychwch ar adroddiad y pwyllgor, mae'n nodi bod tri BILl wedi gorwario yn 2014-15; dim ond pump o'r 10 o sefydliadau'r GIG oedd â chynlluniau tair blynedd wedi'u cymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 ymlaen, er bod dau o'r byrddau iechyd lleol eraill yn cyflwyno cynlluniau wedi'u diweddaru. Mae hynny'n peri pryder i bawb, rwy'n meddwl, yn enwedig am allu amrywiol sefydliadau'r GIG i reoli ac i aros o fewn eu cyllidebau yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Wrth gwrs, rydym mewn sefyllfa lle, i bob pwrpas, yr ydym yn llenwi bylchau ariannu a gorwariant heb wybod mewn gwirionedd pa mor dda y mae'r arian yn cael ei wario, oherwydd yr unig berson sydd â'r manylion hynny yw'r Gweinidog, ac, wrth gwrs, prif weithredwr y GIG yng Nghymru.

I think it's very important, therefore, that not only are the health service's finances put on a sustainable footing, as recommended in the report, but also that we have more details of the impacts of these additional allocations in terms of how the NHS is changing the way it manages its resources, making sure that it is able to keep within budget for future years, and also making sure that the money that it is being given is spent effectively. I think, as Mike Hedges said—and I agree with the points he was making—it is fine to throw money at the health service and say, 'This is a good thing', but the important thing is to make sure that money is being spent effectively and efficiently, it is delivering a health service that meets the needs of the people of Wales and delivers services that people want to see, and ensure that, in spending that money, we get a health service that is accountable, transparent and that is the most effective it possibly can be; I'm not convinced that we're anywhere near that point as yet. So, I think that there's a lot more work that needs to be done in terms of how we monitor and scrutinise this expenditure.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, felly, nid yn unig bod cyllid y gwasanaeth iechyd yn cael ei roi ar sylfaen gynaliadwy, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad, ond hefyd bod gennym fwy o fanylion am effeithiau'r dyraniadau ychwanegol hyn ar sut y mae'r GIG yn newid y ffordd y mae'n rheoli ei adnoddau, gan sicrhau ei fod yn gallu cadw o fewn y gyllideb ar gyfer y dyfodol, a hefyd gwneud yn siŵr y caiff yr arian y mae'n ei dderbyn ei wario'n effeithiol. Rwy'n meddwl, fel y dywedodd Mike Hedges—ac rwy'n cytuno â'r pwyntiau yr oedd yn eu gwneud—mae'n iawn i daflu arian at y gwasanaeth iechyd a dweud, 'Mae hyn yn beth da', ond y peth pwysig yw sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithiol ac yn effeithlon, ei fod yn darparu gwasanaeth iechyd sy'n diwallu anghenion pobl Cymru ac yn darparu gwasanaethau y mae pobl am eu gweld, a sicrhau, wrth wario'r arian hwnnw, ein bod yn cael gwasanaeth iechyd sy'n atebol, yn dryloyw ac sydd mor effeithiol ag y gall fod; dydw i ddim yn argyhoeddedig ein bod ni'n agos at gyrraedd y pwynt hwnnw eto. Felly, credaf fod llawer mwy o waith i'w wneud o ran sut yr ydym yn monitro ac yn craffu ar y gwariant hwn.

Although, obviously, more money has been allocated—we very much welcome the fact that more money has been given to the health service in this supplementary budget—there is still that concern that the health boards are not delivering the plans that are being required of them, that we're still having overspends, and that we still have increasing waiting times for a number of services within health, which people are finding more difficult to cope with. Of course, as an Assembly Member—I think every Assembly Member in this Chamber has people coming to us to ask us whether we can intervene to help them because they're being asked to wait longer than the times that have been specified.

Er, yn amlwg, mae mwy o arian wedi cael ei ddyrannu—rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod mwy o arian wedi cael ei roi i'r gwasanaeth iechyd yn y gyllideb atodol—mae'r pryder hwnnw o hyd nad yw'r byrddau iechyd yn cyflawni'r cynlluniau sy'n ofynnol iddynt, ein bod yn dal i weld gorwario, a'n bod amseroedd aros yn dal i yn rhy hir ar gyfer nifer o wasanaethau iechyd, ac mae pobl yn ei chael yn fwy anodd ymdopi â hyn. Wrth gwrs, fel Aelod Cynulliad—credaf fod pobl yn dod at bob Aelod Cynulliad yn y Siambr hon i ofyn i ni a ydym yn gallu ymyrryd i'w helpu oherwydd bod gofyn iddynt aros yn hwy na'r amseroedd sydd wedi'u pennu.

The other point I wanted to make in relation to this supplementary budget was in relation to mental health funding. I very much welcome the fact that extra money has been given to mental health. I think it's very important that this particular area is given the recognition that it deserves and that the Welsh Government is funded adequately, and I think that we've made a start in that money going into the health service with this particular budget.

Roedd y pwynt arall yr oeddwn am ei wneud mewn perthynas â'r gyllideb atodol mewn perthynas â chyllid iechyd meddwl. Croesawaf yn fawr y ffaith bod arian ychwanegol wedi ei roi i iechyd meddwl. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod y maes penodol hwn yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu a bod Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu'n ddigonol, ac rwy'n meddwl ein bod wedi dechrau arni wrth i'r arian hwnnw fynd i mewn i'r gwasanaeth iechyd gyda'r gyllideb benodol hon.

But there is a concern, of course, about how that money is being linked to targets, particularly in relation to referral-to-treatment times, and I think that we need to have some reassurance from the Minister that, if we are going to be putting all this extra money into mental health funding—£14.6 million—that there are proper targets being set and that those targets are being met by the health service. Particularly for children and young people, child and adolescent mental health services have been a concern for, I think, the entire time that this Assembly has been in existence, and we're still not convinced that they are delivering properly. So, I would hope that the Minister is able to give that assurance that firm targets are linked with those additional allocations to ensure that the money directly benefits those who need it the most, and that, as a result of that, the provision of services in the mental health field is going to be measurably improved. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Ond mae pryder, wrth gwrs, am y modd y mae'r arian hwnnw yn cael ei gysylltu â thargedau, yn enwedig o ran amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac rwy'n meddwl bod angen inni gael rhywfaint o sicrwydd gan y Gweinidog, os ydym yn mynd i fod yn rhoi'r holl arian ychwanegol hwn i mewn i gyllid iechyd meddwl—£14 .6 miliwn—bod targedau priodol yn cael eu gosod a bod y gwasanaeth iechyd yn cyrraedd y targedau hynny. Yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc, mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi bod yn bryder, rwy'n meddwl, ers i'r Cynulliad hwn gael ei sefydlu, ac nid ydym yn dal yn ffyddiog eu bod yn cael eu darparu'n iawn. Felly, byddwn yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi sicrwydd bod targedau pendant wedi'u cysylltu â'r dyraniadau ychwanegol hynny er mwyn sicrhau bod yr arian o fudd uniongyrchol i'r rhai sydd ei angen fwyaf, ac, yn sgil hynny, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn mynd i wella yn fesuradwy. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

16:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:02

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Thank you very much, Dirprwy Lywydd, and I do thank Members who've contributed to this debate. Specifically, I'd like to thank the Finance Committee for their work in scrutinising this budget and for the Chair's contribution this afternoon. I very much value the Assembly's role in scrutinising budget proposals and will also, clearly, further consider the recommendations in the committee's report, and will be responding accordingly.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n diolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Yn benodol, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith wrth graffu ar y gyllideb hon ac am gyfraniad y Cadeirydd y prynhawn yma. Rwy'n gwerthfawrogi gwaith y Cynulliad yn fawr o ran craffu ar gynigion y gyllideb a byddaf hefyd, yn amlwg, yn rhoi ystyried bellach i'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor, a byddaf yn ymateb yn briodol.

But I'd like to touch briefly on some of the issues within the report that have been raised this afternoon. The report by the committee did make a number of recommendations regarding the impact of allocations made in this budget to the Welsh NHS. As I said in my opening remarks, the budget provides a boost of £90 million for the health service in Wales, including £30 million allocated to develop primary care services across Wales; £10 million is also included to implement measures and delivery plans, including cancer, cardiac, diabetes, mental health, stroke care and respiratory health, and taking forward service reconfiguration, and £10 million to create a fund to accelerate the adoption of new technologies in the Welsh NHS, and, also, and this was mentioned in the debate, the intermediate care fund—£20 million to the fund—supporting those projects that are effective across community and acute environments, linking up hospital care and social care to strengthen resilience of the unscheduled care system, very much responding to the modernising and way forward in terms of a primary care-led service, touching on Mike Hedges's point.

Ond hoffwn gyfeirio'n fyr at rai o'r materion yn yr adroddiad a godwyd y prynhawn yma. Roedd adroddiad y pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion ynglŷn ag effaith y dyraniadau a wnaed yn y gyllideb hon ar y GIG yng Nghymru. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, mae'r gyllideb yn rhoi hwb o £90 miliwn i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, gan gynnwys £30 miliwn i ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru; mae £10 miliwn hefyd wedi'i gynnwys i weithredu mesurau a chynlluniau cyflawni, gan gynnwys canser, cardiaidd, diabetes, iechyd meddwl, gofal strôc ac iechyd anadlol, a bwrw ymlaen ag ad-drefnu gwasanaethau, a £10 miliwn i greu cronfa i gyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau newydd yn y GIG yng Nghymru, a, hefyd, a chafodd hyn ei grybwyll yn y ddadl, y gronfa gofal canolraddol—£20 miliwn i'r gronfa—yn cefnogi'r prosiectau hynny sy'n weithredol ar draws amgylcheddau acíwt a chymunedol, gan greu cysylltiad rhwng gofal ysbyty a gofal cymdeithasol er mwyn atgyfnerthu cadernid y system gofal heb ei drefnu, sydd i raddau helaeth iawn yn ymateb iawn i'r gwaith moderneiddio a'r ffordd ymlaen o ran gwasanaeth a arweinir gan ofal sylfaenol, gan gyffwrdd ar bwynt Mike Hedges.

Mental health services have featured this afternoon: £14.6 million will support mental health services, all of which will be directed at supporting the implementation of our mental health strategy, 'Together for Mental Health'. Also, just in terms of the questions and the points that Jocelyn Davies made—and Peter Black—about CAMHS, I think that funding for mental health, it's important to recognise again, including the child and adolescent mental health services, has been ring-fenced within the NHS since 2008. Following the recent announcement of the £7.65 million annual allocation, as well—and, of course, I have identified where that has been spent, and also that the CAMHS planning, in terms of health board responsibilities, is taken forward and clearly scrutinised.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael sylw y prynhawn yma: bydd £14.6 miliwn yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl, bydd y cyfan ohono'n cael ei gyfeirio at gefnogi rhoi ein strategaeth iechyd meddwl ar waith, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Hefyd, dim ond o ran y cwestiynau a'r pwyntiau a wnaeth Jocelyn Davies—a Peter Black—am CAMHS, rwy'n meddwl bod cyllid ar gyfer iechyd meddwl, mae'n bwysig cydnabod unwaith eto, gan gynnwys y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, wedi ei glustnodi o fewn y GIG ers 2008. Ers cyhoeddi'r dyraniad blynyddol yn ddiweddar hefyd, sef £7.65 miliwn—ac, wrth gwrs, rwyf wedi nodi lle mae hynny wedi cael ei wario, a hefyd bod y gwaith o gynllunio CAMHS, o ran cyfrifoldebau bwrdd iechyd, yn cael ei ddatblygu ac y bydd craffu clir arno.

I think it is important just to look at health and social services in terms of the funds and how we are delivering this. Its additional £20 million is very welcome. That's together with the additional resources that we announced as part of the 2015-16 budget. This means that NHS Wales has benefited from an extra £500 million over the last two years. Those resources do actually help to go further than the requirements identified in the Nuffield Trust report, mentioned again this afternoon, 'A decade of austerity in Wales?', published last June. This investment demonstrates the Welsh Government's continued commitment to the NHS in Wales. The Nuffield report confirmed the NHS will be affordable and sustainable in the long term—

Rwy'n credu ei bod yn bwysig dim ond i edrych ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o ran y cronfeydd a sut yr ydym yn darparu. Mae'r £20 miliwn ychwanegol i'w groesawu'n fawr. Mae hynny ynghyd â'r adnoddau ychwanegol a gyhoeddwyd gennym fel rhan o gyllideb 2015-16. Mae hyn yn golygu bod GIG Cymru wedi elwa o £500 miliwn yn ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r adnoddau hynny wir yn helpu i ragori ar y gofynion a nodwyd yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield, a grybwyllwyd unwaith eto'r prynhawn yma, 'Degawd o galedi yng Nghymru?', a gyhoeddwyd fis Mehefin diwethaf. Mae'r buddsoddiad hwn yn dangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru. Cadarnhaodd adroddiad Nuffield y bydd y GIG yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir—

16:06 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

16:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—in terms of a share of funding. Nick.

[Yn parhau.] —o ran cyfran o gyllid. Nick.

16:06

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, Minister. Yes, this new money is to be welcomed, but it doesn't fill the gap that was left by the amount of money taken out by your Welsh Government since 2011, does it? At the time that money was being taken out, patients were suffering a wait that they needn't have if you'd supported and defended the health budget in the same way that the budget in England was defended—in real terms, not in cash terms, like you did.

Diolch i chi am ildio, Weinidog. Ydy, mae'r arian newydd hwn i'w groesawu, ond nid yw'n llenwi'r bwlch a adawyd gan y swm o arian a gymerwyd gan eich Llywodraeth Cymru ers 2011, nag ydyw? Ar y pryd yr oedd yr arian hwnnw'n cael ei dynnu allan, roedd cleifion yn gorfod aros am amser hir a byddai modd osgoi hyn pe byddech wedi cefnogi ac amddiffyn y gyllideb iechyd yn yr un modd ag y cafodd y gyllideb yn Lloegr ei hamddiffyn—mewn termau real, nid mewn termau arian parod, fel y gwnaethoch chi.

16:06

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is extraordinary, I would say, that you have got the gall to say that this afternoon, when I have had to deal with a £50 million cut in our budget in-year this year. No comment on the way that we're having to manage that: because of the way we prudently managed our finances. No comment about—as the First Minister said—what that £50 million could do in terms of investment in our health service. In fact, also no comment, of course, on the fact that the way in which we have managed the health service means that we are spending at a higher level in Wales than in England, in terms of our spend on health and social care. In fact, spend per head on health and social services in Wales is 5 per cent higher than in England, and that's testament to the value that we put in terms of our health and social care investment.

Mae'n anhygoel, byddwn i'n dweud, bod gennych chi'r haerllugrwydd i ddweud hynny'r prynhawn yma, pan wyf wedi gorfod delio â thoriad o £50 miliwn yn ein cyllideb yn ystod y flwyddyn eleni. Dim sylw ar y ffordd yr ydym ni'n gorfod rheoli hynny: oherwydd y ffordd yr ydym yn rheoli ein cyllid yn ddarbodus. Dim sylw am—fel y dywedodd y Prif Weinidog—beth y gallai'r £50 miliwn ei wneud o ran buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd. Yn wir, dim sylw hefyd, wrth gwrs, am y ffaith bod y ffordd yr ydym wedi rheoli'r gwasanaeth iechyd yn golygu ein bod yn gwario ar lefel uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, o ran ein gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol. Yn wir, mae gwariant fesul pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru 5 y cant yn uwch nag yn Lloegr, ac mae hynny'n brawf o'r gwerth a roddwn ar ein buddsoddiad iechyd a gofal cymdeithasol.

I think the report from the Finance Committee did recognise the additional support we've provided to the Schools Challenge Cymru programme, and Jocelyn Davies mentioned this. This budget does provide an additional £3.5 million to support the programme, adding to funds available in the education and skills main expenditure group. This is part of an £8.4 million package, also allocating money towards flexible skills, the new deal, and also care sector apprenticeships. So, I think, in conclusion, Dirprwy Lywydd, the supplementary budget I move today does uphold my commitment as finance Minister on behalf of the Welsh Government to be open and accountable to the Assembly on the management of our 2015-16 budget.

Rwy'n meddwl bod yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod y cymorth ychwanegol yr ydym wedi ei ddarparu i raglen Her Ysgolion Cymru, a soniodd Jocelyn Davies am hyn. Mae'r gyllideb hon yn darparu £3.5 miliwn ychwanegol i gefnogi'r rhaglen, ar ben yr arian sydd ar gael yn y prif grŵp gwariant addysg a sgiliau. Mae hyn yn rhan o becyn £8.4 miliwn, sydd hefyd yn dyrannu arian tuag at sgiliau hyblyg, y fargen newydd, a phrentisiaethau'r sector gofal. Felly, rwy'n meddwl, i gloi, Ddirprwy Lywydd, bod y gyllideb atodol yr wyf yn ei chynnig heddiw yn cynnal fy ymrwymiad fel Gweinidog cyllid ar ran Llywodraeth Cymru i fod yn agored ac yn atebol i'r Cynulliad ar y gwaith o reoli ein cyllideb ar gyfer 2015-16.

Nick Ramsay does tend to get excited when I think his Government in Westminster is wrong-footed, and it has certainly been wrong-footed by the Chancellor's budget last week—not only depriving us of another £50 million, but not responding to my call to the Chancellor to invest in our infrastructure, which is what business said we should do, and to invest in our children and young people. It's not a politician who is reacting to the budget, it's the independent Institute for Fiscal Studies. Thirteen million UK families will lose £260 a year on average, because of tax and welfare changes. The Children's Commissioner for Wales warns the budget will plunge children into poverty. That is why our supplementary budget, which you are not supporting—clearly because you do not share our values—

Mae Nick Ramsay yn tueddu i gynhyrfu pan fyddaf yn meddwl fod ei Lywodraeth yn San Steffan wedi cael ei rhoi ar y droed anghywir, ac yn sicr mae wedi cael ei rhoi ar y droed anghywir gan gyllideb y Canghellor yr wythnos diwethaf—nid yn unig yn ein hamddifadu o £50 miliwn arall, ond heb ymateb i fy ngalwad i'r Canghellor fuddsoddi yn ein seilwaith, sef yr hyn y dywedodd busnes y dylem ei wneud, a buddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc. Nid gwleidydd sy'n ymateb i'r gyllideb, ond y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol annibynnol. Bydd un deg tri miliwn o deuluoedd yn y DU yn colli £260 y flwyddyn ar gyfartaledd, oherwydd newidiadau treth a lles. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn rhybuddio y bydd y gyllideb yn taflu plant i dlodi. Dyna pam mae ein cyllideb atodol, nad ydych yn ei chefnogi—yn amlwg am nad ydych yn rhannu ein gwerthoedd—

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You must finish now, Minister.

Mae'n rhaid i chi orffen yn awr, Weinidog.

16:09

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—of social justice, investing in health, education and boosting the economy. Those are our priorities as a Welsh Labour Government.

[Yn parhau.] —cyfiawnder cymdeithasol, buddsoddi mewn iechyd, addysg a hybu'r economi. Y rhain yw ein blaenoriaethau fel Llywodraeth Lafur Cymru.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Yr wyf yn gohirio pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:09

# 6. Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015

# 6. The Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 2015

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is the Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 2015. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 6 yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5813 Jane Hutt

Motion NDM5813 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2015.

Approves that the draft The Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 May 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:09

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I move the motion.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

Section 32 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 requires that the National Assembly make regulations that set out the duty on a local authority to determine whether or not an individual with needs identified through an assessment is eligible to have those needs met by that authority.

Mae adran 32 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud rheoliadau sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a yw unigolyn sydd ag anghenion a nodwyd drwy'r asesiad yn gymwys i gael yr anghenion hynny wedi'u diwallu gan yr awdurdod hwnnw.

Now, Dirprwy Lywydd, the regulations have been a long time in the making. The whole issue of eligibility was well rehearsed in the 2010 report of the Independent Commission on Social Services in Wales. When that report led to a social services Bill in the present Assembly, no issues were more extensively discussed and debated than the processes of assessment and eligibility. That focus has continued through the superaffirmative procedure.

Yn awr, Ddirprwy Lywydd, mae'r rheoliadau wedi bod ar y gweill ers amser maith. Cafodd holl fater cymhwyster ei drafod yn fanwl yn adroddiad 2010 y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Pan arweiniodd yr adroddiad hwnnw at Fil gwasanaethau cymdeithasol yn y Cynulliad presennol, ni chafodd unrhyw faterion eu trafod a'u dadlau yn fwy helaeth na phrosesau asesu a chymhwystra. Mae'r ffocws hwnnw wedi parhau drwy'r weithdrefn uwchgadarnhaol.

The regulations in front of Members today have been developed by a technical group set up for this purpose, and which drew around half of its membership from the voluntary sector. In accordance with the superaffirmative procedure, the draft regulations were thoroughly consulted on over the last winter.

Mae'r rheoliadau gerbron Aelodau heddiw wedi eu datblygu gan grŵp technegol a sefydlwyd at y diben hwn, a oedd yn tynnu tua hanner ei aelodaeth o'r sector gwirfoddol. Yn unol â'r weithdrefn uwchgadarnhaol, ymgynghorwyd yn drylwyr ar y rheoliadau drafft yn ystod y gaeaf diwethaf.

The approach to eligibility introduced through these regulations is very different from the current threshold-based approach. The process begins with an assessment and the Act creates new rights to assessment, both for users themselves and for carers. Where the assessment identifies a need, the local authority must consider what should be done to meet that need. Where the need can only be met with the support of the local authority, the eligibility regulations create a right for the person to receive care and support directly provided or arranged by the local authority itself.

Mae'r ymagwedd at gymhwystra a gyflwynwyd drwy’r rheoliadau hyn yn wahanol iawn i'r ymagwedd bresennol sy'n seiliedig ar y trothwy. Mae'r broses yn dechrau gydag asesiad ac mae’r Ddeddf yn creu hawliau newydd i asesu, ar gyfer defnyddwyr eu hunain ac ar gyfer gofalwyr. Pan fo’r asesiad yn nodi bod angen, mae’n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried beth y dylid ei wneud i ddiwallu'r angen hwnnw. Pan nad oes modd diwallu’r angen ond drwy gefnogaeth yr awdurdod lleol, mae'r rheoliadau cymhwystra yn creu hawl i’r person gael gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol neu a drefnir gan yr awdurdod lleol ei hun.

I have read of the anxiety that has been raised that the Act somehow requires users to demonstrate exhaustively that they have explored every other possible avenue of support before becoming eligible for local authority assistance. That is emphatically not the case under these regulations. The responsibility here lies with the assessor, not with the person being assessed. More importantly still, it requires the assessor to discharge that responsibility in dialogue and a discussion with the person who has a need, to agree a joint response. That is why it is a requirement that the local authority must also consider the contribution that the person her or himself, or preventative services, can provide to meeting the assessed need.

Rwyf wedi darllen am y pryder a godwyd fod y Ddeddf rywsut yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr ddangos yn drylwyr eu bod wedi archwilio pob dull posibl arall o gefnogaeth cyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth gan yr awdurdod lleol. Yn bendant, nid yw hynny'n wir o dan y rheoliadau hyn. Gan yr asesydd y mae’r cyfrifoldeb yn yr achos hwn, nid gan y sawl sy'n cael ei asesu. Yn bwysicach fyth, mae'n ofynnol i'r asesydd gyflawni’r cyfrifoldeb hwnnw mewn deialog a thrafodaeth â’r sawl sydd ag angen, i gytuno ar ymateb ar y cyd. Dyna pam ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol hefyd ystyried y cyfraniad y gall yr unigolyn person ei hun, neu wasanaethau ataliol, ei wneud wrth ddiwallu’r angen a aseswyd.

That is because this is an asset-based Act. It starts from the point that all individuals have strengths, that every person can be a contributor to, as well as a recipient of, services. It is an Act, moreover, which directly recognises and encourages the contribution made by the many other partners in the social welfare field, a contribution that in this case will be underpinned by £20 million-worth of Welsh Government investment over three years in projects that support implementation of the Act and sustainable social services. Because this is the case, the Act and its statutory instruments place a duty on the local authority to inform and provide advice and assistance to people to give them far greater voice and control.

Mae hynny oherwydd bod hon yn Ddeddf sy’n seiliedig ar asedau. Y man cychwyn yw bod gan bob unigolyn gryfderau, y gall pob person fod gyfrannu at, yn ogystal â derbyn, gwasanaethau. Mae'n Ddeddf, ar ben hynny, sy'n cydnabod yn uniongyrchol ac yn annog cyfraniad gan y llu o bartneriaid eraill yn y maes lles cymdeithasol, cyfraniad sydd yn yr achos hwn yn cael ei ategu gan fuddsoddiad gwerth £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru dros dair blynedd mewn prosiectau sy’n cefnogi gweithredu'r Ddeddf a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Oherwydd hyn, mae'r Ddeddf a'i hofferynnau statudol yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i hysbysu a darparu cyngor a chymorth i bobl er mwyn rhoi llawer mwy o lais a rheolaeth iddynt.

The consultation carried out on the draft regulations demonstrated support for the proposed change, and provided valuable comments on the detail within the draft regulations. As a result, changes have been made to them. There are several improvements to provide greater accuracy, but I’ll concentrate this afternoon on changes that have a material effect on the application of the regulations.

Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y rheoliadau drafft yn dangos cefnogaeth ar gyfer y newid arfaethedig, ac yn rhoi sylwadau gwerthfawr ar y manylion yn y rheoliadau drafft. O ganlyniad, gwnaed newidiadau iddynt. Mae nifer o welliannau sy’n cynnig mwy o gywirdeb, ond byddaf yn canolbwyntio'r prynhawn yma ar y newidiadau sy'n cael effaith sylweddol ar ddefnyddio’r rheoliadau.

As a result of consultation, the regulations now have a definition of self-care added to them. The ability to communicate has been added as a factor to which the determination of eligibility may relate. The regulations have been amended to reflect that in many cases children, and particularly older children, will have an independent ability to access services available in the community. The regulations now in front of the Assembly provide that, for the purposes of determining eligibility for care and support, a person will be regarded as unable to do something, even when they can do that thing but only with a greater level of difficulty than would normally be expected. That's a change that was particularly promoted by groups representing disabled people.

O ganlyniad i ymgynghori, mae'r rheoliadau bellach yn cynnwys diffiniad o hunanofal. Mae'r gallu i gyfathrebu wedi ei ychwanegu fel ffactor a all fod yn berthnasol i'r penderfyniad ar gymhwystra. Mae'r rheoliadau hyn wedi eu diwygio i adlewyrchu y bydd gan blant, a phlant hŷn yn arbennig, allu annibynnol i gael mynediad at wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned mewn llawer o achosion. Mae'r rheoliadau sydd yn awr gerbron y Cynulliad yn darparu, at ddibenion pennu cymhwystra am ofal a chymorth, y bydd unigolyn yn cael ei ystyried yn methu gwneud rhywbeth, hyd yn oed pan fyddant yn gallu gwneud y peth, ond dim ond gyda mwy o anhawster nag a ddisgwylid fel arfer. Dyna newid sy'n cael ei hyrwyddo'n arbennig gan grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl.

The regulations have been further amended to ensure that care provided by a carer is taken into account as a factor determining whether a person's need is eligible for the purposes of the regulations. It's now explicit in them that a need that is being met by a carer will become an eligible need if the carer is no longer able or no longer wishes to provide that care.

Mae'r rheoliadau hyn wedi eu diwygio ymhellach er mwyn sicrhau bod gofal a ddarperir gan ofalwr yn cael ei ystyried yn ffactor sy'n penderfynu a yw'r angen sydd gan unigolyn yn gymwys at ddibenion y rheoliadau. Mae'n awr yn eglur ynddynt y bydd angen sy'n cael ei ddiwallu gan ofalwr yn dod yn angen cymwys os nad yw'r gofalwr yn gallu darparu'r gofal hwnnw bellach, neu os nad yw'n dymuno gwneud hynny.

Dirprwy Lywydd, as part of the superaffirmative procedure, the Health and Social Care Committee has further consulted on the revised regulations. Inevitably, in an Act that provides for radical change, there are understandable concerns about its practical delivery. The committee has very helpfully set out ways in which these concerns can be addressed in the code of practice that will accompany the Act, and we will ensure that the codes are further strengthened to reflect the committee's recommendations. And because of its radical nature, the new framework for assessment, eligibility and care planning will be subject to careful monitoring and evaluation. Local authorities are planning this at local and regional levels, but we will also as a Welsh Government evaluate at a national level, guided by a steering group. As part of the evaluation, data will be collected to identify the number of assessments requested and carried out, the number of such assessments that lead to a care and support plan, the number of those care and support plans that lead to a service provided or secured by a local authority, the number of reassessments and reviews instigated by users, and the proportion of those assessments completed within agreed timescales. And the purpose of all that evaluation, Dirprwy Lywydd, is so that we are confident that we can identify whether the new system is meeting the aims of the Act, or whether there will be a requirement for further refinement.

Ddirprwy Lywydd, fel rhan o'r weithdrefn uwchgadarnhaol, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ymgynghori mwy ar y rheoliadau diwygiedig. Yn anochel, mewn Deddf sy'n darparu ar gyfer newid radical, mae pryderon dealladwy am ei chyflawni yn ymarferol. Yn ddefnyddiol iawn, mae'r pwyllgor wedi nodi sut y gall y pryderon hyn gael sylw yn y cod ymarfer a fydd yn cyd-fynd â'r Ddeddf, a byddwn yn sicrhau bod y codau yn cael eu cryfhau ymhellach i adlewyrchu argymhellion y pwyllgor. Ac oherwydd ei natur radical, bydd y fframwaith newydd ar gyfer asesu, cymhwystra a chynllunio gofal yn destun monitro a gwerthuso gofalus. Mae awdurdodau lleol yn cynllunio hyn ar lefelau lleol a rhanbarthol, ond byddwn ni fel Llywodraeth Cymru hefyd yn gwerthuso ar lefel genedlaethol, dan arweiniad grŵp llywio. Yn rhan o'r gwerthusiad, bydd data yn cael ei gasglu er mwyn nodi nifer yr asesiadau y gofynnwyd amdanynt ac a gynhaliwyd, nifer yr asesiadau o'r fath sy'n arwain at gynllun gofal a chymorth, nifer y cynlluniau gofal a chymorth sy'n arwain at wasanaeth a ddarperir neu a sicrhawyd gan awdurdod lleol, nifer yr ailasesiadau ac adolygiadau a gychwynnwyd gan ddefnyddwyr, a chyfran yr asesiadau hynny a gafodd eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. A phwrpas yr holl werthuso hynny, Dirprwy Lywydd, yw ein bod ni'n hyderus y gallwn nodi a yw'r system newydd yn bodloni amcanion y Ddeddf, neu a fydd gofyn ei mireinio ymhellach.

Dirprwy Lywydd, let me end, though, by being absolutely clear: as the use of the superaffirmative process implies, the care and support (eligibility) regulations lie at the heart of the 2014 Act. Those who are preparing very actively for its implementation in our statutory and voluntary services—its implementation on 6 April next year—they need the certainty that these regulations provide. I ask Members to follow the advice of the Health and Social Care Committee and those who gave evidence to it and ensure that these regulations reach the statute book this afternoon.

Ddirprwy Lywydd, gadewch i mi orffen, fodd bynnag, drwy fod yn hollol glir: fel y mae'r defnydd o'r broses uwchgadarnhaol yn awgrymu, mae'r rheoliadau gofal a chefnogaeth (cymhwystra) wrth galon Deddf 2014. Mae'r rhai sy'n paratoi yn weithredol iawn ar gyfer ei gweithredu yn ein gwasanaethau statudol a gwirfoddol—ei gweithredu ar 6 Ebrill flwyddyn nesaf—mae arnynt angen y sicrwydd y mae'r rheoliadau hyn yn eu darparu. Gofynnaf i'r Aelodau ddilyn cyngor y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r rhai a roddodd dystiolaeth iddo, a sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cyrraedd y llyfr statud y prynhawn yma.

16:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call the Chair of the Health and Social Services Committee, David Rees.

Ac rwy'n galw Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, David Rees.

16:17 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gen i gyfrannu at y ddadl heddiw ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It's a pleasure to contribute to today's debate on behalf of the Health and Social Care Committee.

Nid oedd gan y pwyllgor rôl graffu ffurfiol mewn perthynas â'r rheoliadau yma, ond credwn ei fod yn fater pwysig sydd angen ei ystyried yn ofalus. Fe ysgrifennom ni at y Gweinidog ar 7 Gorffennaf i gyfleu casgliadau ein gwaith. Rydym ni'n gobeithio bod y dystiolaeth a gafodd ei chasglu a'r casgliadau a ddaethom iddyn nhw wedi helpu Aelodau'r Cynulliad wrth baratoi ar gyfer y ddadl heddiw. Rŷm ni'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd yn ysgrifenedig neu ar lafar at ein proses o ystyried y rheoliadau yma.

The committee didn't have a formal scrutiny role in terms of these regulations, but we do believe that it's an important issue that needs to be considered carefully. We wrote to the Minister on 7 July to convey the conclusions of our work. We hope that the evidence gathered and the conclusions we came to will have helped Assembly Members in preparing for today's debate. We are grateful to everyone who contributed in written form or orally to our process of considering these regulations.

Access to appropriate social care that meets their personal needs is vital for many people—adults, children and carers—to allow them to achieve their wellbeing outcomes. Changing the eligibility criteria for accessing these services is an issue that deserves careful consideration, so we are pleased that these regulations are being made through this enhanced procedure, which has allowed us to dedicate time to doing just that.

Mae mynediad at ofal cymdeithasol priodol sy'n diwallu eu hanghenion personol yn hanfodol i lawer o bobl—oedolion, plant a gofalwyr—i'w galluogi i sicrhau eu canlyniadau lles. Mae newid y meini prawf cymhwystra ar gyfer mynediad at y gwasanaethau hyn yn fater sy'n haeddu ystyriaeth ofalus, felly rydym yn falch bod y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn well hon, sydd wedi ein galluogi i neilltuo amser i wneud hynny.

I believe it's important to highlight that during our evidence sessions, all witnesses indicated that in principle they supported the regulations. However, stakeholders also expressed some significant concerns to us, which I will briefly outline, and we believe that these concerns could be addressed by making changes to the accompanying code of practice. We note the intention of signposting people towards preventative services within the community, however this relies on the availability and appropriateness of such services. We have recommended that the code of practice should specify how a particular community service will be able to meet a person's need and wellbeing outcome. Should that service no longer be available or be unsuitable, that person should become eligible for formal care and support services.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig tynnu sylw yn ystod ein sesiynau tystiolaeth, bod pob tyst wedi nodi eu bod yn cefnogi'r rheoliadau mewn egwyddor. Fodd bynnag, mynegodd rhanddeiliaid hefyd rai pryderon sylweddol i ni, ac fe'u hamlinellaf yn fyr, ac rydym o'r farn y gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy wneud newidiadau i'r cod ymarfer cysylltiedig. Rydym yn nodi bwriad i gyfeirio pobl tuag at wasanaethau ataliol yn y gymuned, ond mae hyn yn dibynnu ar argaeledd a phriodoldeb gwasanaethau o'r fath. Rydym wedi argymell y dylai'r cod ymarfer nodi sut y bydd gwasanaeth cymunedol penodol yn gallu diwallu angen unigolyn a'i ganlyniad lles. Os na fydd y gwasanaeth hwnnw ar gael mwyach neu os nad yw'n addas, dylai'r person hwnnw ddod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ffurfiol.

The 'can and can only' test is another issue that stakeholders expressed concerns about, particularly regarding the potential for creating delays in receiving support should someone need to demonstrate that they had tried all other options before becoming eligible for services provided by a local authority. I hear what the Minister says, and I appreciate very much the comments he's made this afternoon in relation to that. We strongly believe that the code should be clear that this responsibility should be placed on the local authority rather than on the individual, as the Minister has again highlighted this afternoon—that the responsibility should be on the assessor.

Mae'r prawf 'gallu a gallu yn unig' yn fater arall y mynegodd rhanddeiliaid bryderon amdano, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer creu oedi yn y broses o dderbyn cefnogaeth pe byddai angen i unigolyn ddangos ei fod wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn arall cyn bod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan awdurdod lleol. Rwy'n clywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, ac rwy'n gwerthfawrogi yn fawr iawn y sylwadau y mae wedi'u gwneud y prynhawn yma ynglŷn â hynny. Credwn yn gryf y dylai'r cod nodi'n glir y dylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei roi ar yr awdurdod lleol yn hytrach nag ar yr unigolyn, fel y mae'r Gweinidog unwaith eto wedi amlygu'r prynhawn yma—dylai'r cyfrifoldeb hwnnw fod ar yr asesydd.

We would be very concerned if the introduction of these regulations resulted in increased pressure on unpaid carers to fulfil care needs in place of local authority-provided care. We want to ensure that a loophole that could potentially be there is closed. We've therefore recommended that the code should make it clear that there shouldn't be an over-reliance on voluntary caring arrangements and include a requirement for the willingness and ability of a carer to be recorded. We've also recommended that the 'can and can only' test should be interpreted in a way that meets the best interests of an individual and enables them to achieve their wellbeing outcomes.

Byddem yn bryderus iawn pe bai cyflwyno'r rheoliadau hyn yn arwain at fwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl i ddiwallu anghenion gofal yn lle bod yr awdurdod lleol yn darparu gofal. Rydym am sicrhau bod bwlch a allai fod yno yn cael ei gau. Felly, rydym wedi argymell y dylai'r cod nodi'n glir na ddylid cael gorddibyniaeth ar drefniadau gofal gwirfoddol ac y dylid cynnwys gofyniad i barodrwydd a gallu'r gofalwr gael ei gofnodi. Rydym wedi argymell hefyd y dylai'r prawf 'gallu a gallu yn unig' gael ei ddehongli mewn ffordd sy'n bodloni budd pennaf yr unigolyn ac yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau lles.

Independent advocacy services are key to ensuring that everyone—adults and children—understand their situation and what support is available to them, so it's vital that this assistance is available to everyone, whoever requires it. We believe that the code should be strengthened to reflect this. An individual's ability to seek redress should they feel that the support they receive doesn't meet their needs is an issue of great importance to us. We believe it's essential that people can be confident that there's a mechanism in place should they wish to request a reassessment. We have recommended that such a mechanism should be detailed in the code of practice and that, in requesting a reassessment, service users should not have to demonstrate that their circumstances have changed significantly.

Mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn allweddol i sicrhau bod pawb—yn oedolion ac yn blant—yn deall eu sefyllfa a pha gymorth sydd ar gael iddynt, felly mae'n hanfodol bod y cymorth hwn ar gael i bawb, pwy bynnag sydd ei angen. Rydym yn credu y dylai'r cod gael ei gryfhau i adlewyrchu hyn. Mae gallu unigolyn i geisio unioni cam os ydynt yn teimlo nad yw'r cymorth a gânt yn diwallu eu hanghenion yn fater o bwys mawr i ni. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol y gall pobl fod yn hyderus bod mecanwaith ar waith os ydynt yn dymuno gwneud cais am ailasesiad. Rydym wedi argymell y dylai mecanwaith o'r fath gael ei nodi'n fanwl yn y cod ymarfer ac, wrth ofyn am ailasesiad, na ddylai defnyddwyr gwasanaeth orfod dangos bod eu hamgylchiadau wedi newid yn sylweddol.

I am pleased that the Minister has committed to looking at strengthening the code of practice and that he will give further consideration to our comments on this important issue. In particular, I hope he looks at how the codes under Parts 10 and 4 will address those concerns and make the necessary changes we've recommended, which we believe are important to safeguard the services people need to meet their wellbeing needs.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo i edrych ar gryfhau'r cod ymarfer ac y bydd yn rhoi ystyriaeth bellach i'n sylwadau ar y mater pwysig hwn. Yn benodol, rwy'n gobeithio y bydd yn edrych ar sut y bydd y codau dan Rannau 10 a 4 yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol yr ydym wedi eu hargymell, yr ydym yn credu sy'n bwysig i ddiogelu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl i ddiwallu eu hanghenion lles.

As we've said in our letter to the Minister, these regulations will result in a big change to the way social care services are delivered, so monitoring their impact will be crucial. No-one should see a reduction in the level of support they receive as a consequence of the implementation, so we believe that the Welsh Government and local authorities should monitor their impact at an early stage. We will also be recommending in our legacy report that our successor committee in the fifth Assembly takes the opportunity to review the implementation at an appropriate time.

Fel yr ydym wedi'i ddweud yn ein llythyr at y Gweinidog, bydd y rheoliadau hyn yn arwain at newid mawr yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu, felly bydd monitro eu heffaith yn hanfodol. Ni ddylai unrhyw un weld gostyngiad yn lefel y gefnogaeth y maent yn ei derbyn o ganlyniad i weithredu'r rheoliadau, felly rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fonitro eu heffaith yn gynnar. Byddwn hefyd yn argymell yn ein hadroddiad etifeddiaeth bod ein pwyllgor olynol yn y pumed Cynulliad yn cymryd y cyfle i adolygu'r gweithrediad ar adeg briodol.

So, to conclude, I will re-emphasise that the evidence we received supported the regulations, but that the concerns can be addressed through modifying the code of practice. We ask the Minister to ensure that takes place.

Felly, i gloi, byddaf yn ail-bwysleisio bod y dystiolaeth a gawsom yn cefnogi'r rheoliadau, ond y gellir mynd i'r afael â'r pryderon drwy addasu'r cod ymarfer. Rydym yn gofyn i'r Gweinidog sicrhau bod hyn yn digwydd.

16:22

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservatives will not be opposing these regulations today. While we believe a national eligibility framework is long overdue, we have grave concerns about the way these regulations will be implemented. It is therefore our intention to abstain.

Ni fydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwrthwynebu'r rheoliadau hyn heddiw. Er ein bod yn credu ei bod yn hen bryd cael fframwaith cymhwystra cenedlaethol, mae gennym bryderon difrifol am y ffordd y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu. Felly ein bwriad yw ymatal.

I would like to put on record my thanks to the Minister for keeping opposition spokespeople updated on these regulations and his clear indication that he will improve the code of practice. However, we do not feel the code of practice provide the necessary clarity at present. Our biggest concern, and the concern of many organisations, surrounds the 'can and can only' test. When the Health and Social Care Committee was taking evidence on these regulations, many of the organisations raised concerns that the 'can and can only' test would lead to instances where a person would have to prove that they had exhausted all other avenues before the local authority would provide an assessment and care package. Other organisations highlighted the risk that the test would lead to unnecessary delays in accessing services. I welcome the Minister's assurances that the core assessment does not look at the level of support an individual has from family and friends. However, the code of practice is not clear enough and is still open to interpretation.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Gweinidog am roi'r newyddion diweddaraf i lefarwyr y gwrthbleidiau ar y rheoliadau hyn a'i awgrym clir y bydd yn gwella'r cod ymarfer. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod y cod ymarfer yn darparu'r eglurder angenrheidiol ar hyn o bryd. Mae ein pryder mwyaf, a phryder nifer o sefydliadau, yn ymwneud â'r prawf 'gallu a gallu yn unig'. Pan oedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn derbyn tystiolaeth ar y rheoliadau hyn, cododd llawer o'r sefydliadau bryderon y byddai'r prawf 'gallu a gallu yn unig' yn arwain at achosion lle byddai'n rhaid i unigolyn brofi ei fod wedi dihysbyddu pob ffordd arall cyn y byddai'r awdurdod lleol yn darparu pecyn asesu a gofal. Roedd sefydliadau eraill yn tynnu sylw at y risg y byddai'r prawf yn arwain at oedi diangen wrth gael mynediad at wasanaethau. Rwy'n croesawu sicrwydd y Gweinidog nad yw'r asesiad craidd yn edrych ar lefel y gefnogaeth a gaiff unigolyn gan deulu a ffrindiau. Fodd bynnag, nid yw'r cod ymarfer yn ddigon clir ac mae'n dal i fod yn agored i'w ddehongli.

With local authority budgets under pressure, we are gravely concerned that social services departments will use the 'can and can only' test to abdicate responsibility. The Wales Alliance for Citizen Directed Support states that there is a risk that, without clear guidance on the 'can and can only' test, eligibility could become a barrier in itself. They are also concerned that the requirement for individuals to exhaust all possible family and community-based options for support before becoming eligible for statutory services could widen the gaps that people can fall through.

Gyda chyllidebau awdurdodau lleol o dan bwysau, rydym yn pryderu'n ddifrifol y bydd adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn defnyddio'r prawf 'gallu a gallu yn unig' i ildio cyfrifoldeb. Mae Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion yn datgan bod risg y gallai cymhwystra heb arweiniad clir ar y prawf 'gallu a gallu yn unig', ddod yn rhwystr ynddo'i hun. Maent hefyd yn pryderu y gallai'r gofyniad i unigolion ddihysbyddu'r holl opsiynau posibl ar gyfer cefnogaeth gan y teulu a'r gymuned cyn bod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau statudol, ehangu'r bylchau y gallai pobl syrthio iddynt.

We also agree with Age Alliance Cymru that needs assessments should not include a consideration of the willingness or availability of a carer to provide care and support. Age Alliance Cymru, in evidence to the committee, stated that the 'can and can only' eligibility test contradicts this by stating that consideration of the availability of others who are willing to provide that care should be included.

Rydym hefyd yn cytuno â Chynghrair Henoed Cymru na ddylai asesiadau o anghenion gynnwys ystyriaeth o barodrwydd neu argaeledd gofalwr i ddarparu gofal a chymorth. Dywedodd Cynghrair Henoed Cymru, wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, fod y prawf cymhwystra 'gallu a gallu yn unig' yn gwrthddweud hyn drwy ddweud y dylid cynnwys ystyriaeth o argaeledd pobl eraill sy'n barod i ddarparu'r gofal hwnnw.

Minister, your original draft regulations stated that a local authority should disregard care given by a carer when assessing need and eligibility, and you have told us that this is still your intention even though this has been removed from the face of the regulations. We are deeply concerned that a carer should be placed under undue pressure and be denied the support they need to care adequately for a relative or a friend. Therefore, Minister, we ask you to rewrite the code of practice to ensure that your intentions cannot be misinterpreted. The guidance must be clear to local authorities that the 'can and can only' test is not a way to pass the buck and place undue pressure on families, carers and community support services.

Weinidog, nododd eich rheoliadau drafft gwreiddiol y dylai awdurdod lleol ddiystyru gofal a roddir gan ofalwr wrth asesu angen a chymhwystra, ac rydych wedi dweud wrthym fod hyn yn dal yn fwriad gennych er bod hyn wedi cael ei dynnu oddi ar wyneb y rheoliadau. Rydym yn bryderus iawn y gall gofalwr gael ei roi dan bwysau gormodol, ac na fydd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i ofalu'n ddigonol am berthynas neu ffrind. Felly, Weinidog, rydym yn gofyn i chi ailysgrifennu'r cod ymarfer i sicrhau na ellir camddehongli eich bwriadau. Mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn glir i awdurdodau lleol nad yw'r prawf 'gallu a gallu yn unig' yn ffordd o daflu'r baich a rhoi gormod o bwysau ar deuluoedd, gofalwyr a gwasanaethau cymorth cymunedol.

Our other major concern about these regulations is around the right of appeal. I welcome your assertion that individuals have the automatic right to review and reassessment. However, once more, the guidance is unclear. We can foresee situations in which individuals refused care by a local authority would have absolutely no redress because the same local authority is responsible for deciding whether a person requires a reassessment of whether their needs are being met. Minister, the Care Act 2014 in England gives individuals and their carers a right of appeal. It is unfortunate that people living in Wales do not have the same rights. The only avenue open to those who feel they are not getting the care and support they need is via a formal complaints procedure. I understand the point you make that having an appeals process and a complaints process would be confusing. However, when we have a situation where the same social services department can be both judge and jury, we must have processes in place to ensure there is provision for redress. Minister, I ask you to listen to the concerns of the third sector organisations, plus those of the wider public who have care needs or are caring for family and friends. There must be clear guidance to ensure that the aims we set out in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 are implemented.

Mae’r hawl i apelio hefyd yn peri pryder mawr i ni o ran y rheoliadau hyn. Rwy’n croesawu eich honiad bod gan unigolion yr hawl awtomatig i gael adolygiad ac ailasesiad. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn aneglur unwaith eto. Gallwn ragweld sefyllfaoedd lle na fyddai gan unigolion y gwrthodwyd gofal iddynt gan awdurdod lleol unrhyw gyfle i unioni cam o gwbl gan mai’r un awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen ailasesiad ar unigolyn o p'un a yw ei anghenion yn cael eu diwallu. Weinidog, mae Deddf Gofal 2014 yn Lloegr yn rhoi hawl i apelio i unigolion a'u gofalwyr. Mae'n anffodus nad oes gan bobl sy'n byw yng Nghymru yr un hawl. Yr unig lwybr sy’n agored i'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yw’r drefn gwyno ffurfiol. Rwy’n deall eich pwynt y byddai cael proses apelio a phroses gŵynion yn ddryslyd. Fodd bynnag, pan fydd gennym sefyllfa lle gallai’r un adran gwasanaethau cymdeithasol fod yn farnwr ac yn rheithgor, mae’n rhaid i ni gael prosesau ar waith i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer unioni cam. Weinidog, gofynnaf ichi wrando ar bryderon y mudiadau trydydd sector, yn ogystal â’r cyhoedd ehangach sydd ag anghenion gofal neu sy’n gofalu am deulu a ffrindiau. Mae’n rhaid cael canllawiau clir i sicrhau bod amcanion a nodwyd gennym yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu gweithredu.

And finally, Minister, I ask you to reconsider the need for an independent appeals process for both individuals and their carers, or, at the very least, clear unambiguous guidelines on the automatic right to review and reassessment and for carers to receive the same right.

Ac yn olaf, Weinidog, gofynnaf ichi ailystyried yr angen am broses apelio annibynnol ar gyfer unigolion a'u gofalwyr, neu, o leiaf, ganllawiau diamwys clir ar yr hawl awtomatig i gael adolygiad ac ailasesiad, ac i ofalwyr gael yr un hawl.

16:27

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to start by welcoming the fact that we’re having this debate and superaffirmative vote. This is something I and colleagues on the health committee argued very strongly for during the passage of the Bill, and it is to the credit of this Assembly as a scrutiny body and to the previous Deputy Minister, Gwenda Thomas, that we have this opportunity. Indeed, the detailed way this legislation has been examined at every stage of the process speaks volumes and gives the lie to the assumption that, somehow, we’re not up to the job when it comes to scrutiny here in Wales.

Rwyf am ddechrau drwy groesawu'r ffaith ein bod yn cael y ddadl hon a’r bleidlais uwchgadarnhaol. Mae hyn yn rhywbeth y gwnes i a chydweithwyr ar y pwyllgor iechyd ddadlau'n gryf iawn drosto yn ystod taith y Bil, ac mae'n glod i’r Cynulliad hwn fel corff craffu ac i'r Dirprwy Weinidog blaenorol, Gwenda Thomas, bod gennym ni’r cyfle hwn. Yn wir, mae’r ffordd fanwl y mae’r ddeddfwriaeth hon wedi cael ei harchwilio ar bob cam o'r broses yn dweud cyfrolau ac yn gwrthbrofi’r rhagdybiaeth nad ydym, rywsut, yn gallu gwneud y gwaith craffu yma yng Nghymru.

Unfortunately, due to my recent bereavement, I wasn’t able to attend the committee session where we took evidence from stakeholders on these regulations, but I’ve read the transcript carefully and, broadly speaking, I concur with the main points the committee set out in our letter to the Minister last week. For example, I agree with the evidence from the Wales Carers Alliance, cited directly in the letter, that, while a shift towards community preventative services may very well be a laudable aim, it means nothing if there isn’t the infrastructure of services in place that people can fall back on. I also share the concerns about the ‘can and can only’ test and the sense that the onus should not fall on the individual to somehow prove to the local authority that their needs cannot be met by whatever preventative services may or may not be available within their own particular community.

Yn anffodus, oherwydd fy mhrofedigaeth ddiweddar, nid oeddwn yn gallu dod i'r sesiwn pwyllgor lle y cawsom dystiolaeth gan randdeiliaid ar y rheoliadau hyn, ond rwyf wedi darllen y trawsgrifiad yn ofalus ac, yn fras, rwy’n cytuno â phrif bwyntiau'r pwyllgor a fynegwyd yn ein llythyr at y Gweinidog yr wythnos diwethaf. Er enghraifft, rwy’n cytuno â'r dystiolaeth gan Gynghrair Cynhalwyr Cymru, a ddyfynnwyd yn uniongyrchol yn y llythyr, yn nodi, er bod symud tuag at wasanaethau ataliol cymunedol yn nod canmoladwy yn wir, nid yw'n golygu dim os nad oes yna seilwaith o wasanaethau ar waith y gall pobl droi atynt. Rwyf hefyd yn rhannu'r pryderon am y prawf 'gallu a gallu yn unig’ a'r ymdeimlad na ddylai'r unigolyn fod yn gyfrifol am brofi rywsut i'r awdurdod lleol na ellir diwallu ei anghenion gan ba bynnag wasanaeth ataliol a all neu na all fod ar gael o fewn eu cymuned arbennig eu hunain.

I do welcome the assurances from the Minister on the 'can and can only' test and the fact that they were repeated today, but it is essential that there is absolute clarity given to local authorities via the code of practice on this point, or there is an obvious danger that we could see individuals either falling through the gap completely or facing long delays before they can access the support they need, particularly given the concerns that have been expressed around access to advocacy.

Rwyf yn croesawu'r sicrhad gan y Gweinidog ynglŷn â'r prawf 'gallu a dim ond gallu' a'r ffaith ei fod wedi'i ailadrodd heddiw, ond mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cael eglurder pendant drwy'r cod ymarfer ar y pwynt hwn, neu mae perygl amlwg y gallem weld unigolion naill ai'n disgyn drwy'r bwlch yn gyfan gwbl neu'n wynebu oedi hir cyn y gallant gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, yn enwedig o ystyried y pryderon a fynegwyd ynghylch mynediad at eiriolaeth.

But it's the points raised in relation to review and reassessment that particularly stand out to me, despite the clear commitment from the Minister back in June that an individual can request a review or reassessment at any time if they do not feel their current care package meets their needs. I concur with my colleagues that there needs to be absolute clarity from the highest level, both in terms of the process by which an individual can challenge eligibility decisions as well as the timescale by which they can expect to have their needs reassessed. I welcome the Minister's commitment to addressing this within the code of practice.

Ond y pwyntiau a godwyd ynglŷn ag adolygu ac ailasesu sydd yn tynnu fy sylw i'n arbennig, er gwaethaf yr ymrwymiad clir gan y Gweinidog ym mis Mehefin y caiff unigolyn wneud cais am adolygiad neu ailasesiad ar unrhyw adeg os nad yw'n teimlo bod ei becyn gofal presennol yn diwallu ei anghenion. Cytunaf gyda fy nghydweithwyr bod yn rhaid cael eglurder llwyr o'r lefel uchaf, o ran y broses i unigolyn allu herio penderfyniadau ynglŷn â chymhwystra a hefyd o ran yr amserlen erbyn pryd y gall ddisgwyl i'w anghenion gael eu hailasesu. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi sylw i hyn o fewn y cod ymarfer.

I've recently been involved with a number of cases where constituents have approached me because their care packages have been cut in response to changes to local eligibility criteria that the council has been forced to make due to cuts handed down from Westminster. The most worrying of which involved a severely disabled lady whose care package has recently been reduced from 30 hours of direct payments to just 10, at the same time wiping out her eligibility for ILF funding. She has had to fight vociferously every step of the way just to ensure her request for review and reassessment was handled properly by the local authority. So, it is crystal clear to me that we really have a lot of work to do before we get this right.

Rwyf wedi ymwneud yn ddiweddar â nifer o achosion lle mae etholwyr wedi cysylltu â mi am fod eu pecynnau gofal wedi cael eu torri mewn ymateb i newidiadau i feini prawf cymhwystra lleol y mae'r cyngor wedi gorfod eu gwneud oherwydd toriadau sydd wedi dod o San Steffan. Yr achos mwyaf pryderus oedd gwraig ag anabledd difrifol a'i phecyn gofal wedi'i leihau'n ddiweddar o 30 awr o daliadau uniongyrchol i ddim ond 10, gan ddileu ei chymhwystra am gyllid ILF ar yr un pryd. Mae hi wedi gorfod brwydro'n uchel ei chloch bob cam o'r ffordd, dim ond i sicrhau bod ei chais am adolygiad ac ailasesiad yn cael ei drin yn briodol gan yr awdurdod lleol. Felly, mae'n gwbl glir i mi bod gennym lawer iawn o waith i'w wneud i unioni hyn.

But, it's also brought another even more troubling point home to me, because at times it's felt like this legislation has existed in a vacuum, immune to the financial reality facing local authorities up and down Wales. Out there on the ground, and because of massive funding pressures handed down from the Tories in Westminster, councils like Torfaen are drastically cutting back the support for people like the constituent I mentioned, simply because they do not have the resources they need to continue providing them.

Ond, mae hefyd wedi tynnu fy sylw at bwynt mwy pryderus fyth, oherwydd ar adegau mae wedi teimlo fel bod y ddeddfwriaeth hon wedi bodoli mewn gwagle, yn ddiogel rhag y realiti ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru. Ar lawr gwlad, ac oherwydd pwysau enfawr ar gyllid wedi'i drosglwyddo gan y Torïaid yn San Steffan, mae cynghorau fel Torfaen yn cwtogi'n sylweddol ar gefnogaeth i bobl fel yr etholwr y soniais amdani, oherwydd y gwir yw nad oes ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i barhau i'w darparu.

While I see that this is a point that was made forcefully by a number of colleagues during scrutiny, at times over the past two years it's felt like the elephant in the room, despite me having raised the issue on numerous occasions in this Chamber, in committee and in private conversations with Ministers. Yes, I will be voting for these regulations, because, in the end, I do believe this is the right direction of travel for the future of social services in Wales if properly resourced, if effective preventative services truly are in place, and if there are clear procedures that local authorities must follow, to the letter, if an individual asks for a review or a reassessment. But, it would be disingenuous to pretend for one moment that, in this era of Tory-imposed austerity here in Wales, life for everyone who relies on adult social care is somehow going to magically get better these next few years as a result of this Act, when, in Torfaen and elsewhere, care packages are being cut back for people who really rely on them. As elected representatives, I think we all have a duty to be crystal clear about that. Thank you.

Er fy mod yn gweld bod hwn yn bwynt a wnaethpwyd yn egnïol gan nifer o fy nghydweithwyr yn ystod y broses graffu, ar adegau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae wedi teimlo fel pwnc sy'n cael ei osgoi, er fy mod wedi codi'r mater ar sawl achlysur yn y Siambr hon, mewn pwyllgorau ac mewn sgyrsiau preifat gyda Gweinidogion. Byddaf, mi fyddaf yn pleidleisio o blaid y rheoliadau hyn, oherwydd, yn y pen draw, rwy'n credu mai dyma'r cyfeiriad teithio cywir ar gyfer dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru os ceir adnoddau priodol, os bydd gwasanaethau ataliol effeithiol yn wirioneddol ar waith, ac os ceir gweithdrefnau eglur y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn i'r dim, os bydd unigolyn yn gofyn am adolygiad neu ailasesiad. Ond byddai'n anonest i gymryd arnom am eiliad, yn yr oes hon o gyni a achoswyd gan y Torïaid yma yng Nghymru, bod bywyd i bawb sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol i oedolion rywsut yn mynd i wella'n hudol yn yr ychydig flynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r Ddeddf hon, pan, yn Nhorfaen ac mewn mannau eraill, mae pecynnau gofal yn cael eu torri'n ôl ar gyfer pobl sydd wir yn dibynnu arnynt. Fel cynrychiolwyr etholedig, rwy'n meddwl bod gennym ni i gyd ddyletswydd i fod yn hollol glir ynglŷn â hynny. Diolch.

16:32

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will say at the outset that we are supporting the regulations, and I congratulate Lynne Neagle on the latter part of her speech; I agree with every single word you said.

Rwyf am ddweud ar y dechrau ein bod o blaid y rheoliadau, a llongyfarchaf Lynne Neagle am ran olaf ei haraith; rwy'n cytuno â phob un gair a ddywedwyd gennych.

The issue of eligibility criteria is extremely important in making sure that people in need of care and support can get access to the help that they require. I cannot overemphasise that point. Having heard from key stakeholders and people's representatives during the committee sections, there are, however, some questions that do need answering. For example, Minister, we need to know what exactly is meant by 'preventative services'; who will be responsible for providing them and what cost will there be, if any, to the service users and/or their carers?

Mae mater meini prawf cymhwystra yn eithriadol o bwysig o ran sicrhau y gall pobl sydd ag angen gofal a chymorth gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ni allaf orbwysleisio'r pwynt hwnnw. Ar ôl clywed gan randdeiliaid allweddol a chynrychiolwyr pobl yn ystod yr adrannau pwyllgor, mae angen ateb rhai cwestiynau er hynny. Er enghraifft, Weinidog, mae angen inni wybod beth yn union yw ystyr 'gwasanaethau ataliol'; pwy fydd yn gyfrifol am eu darparu a beth fydd y gost, os bydd un o gwbl, i'r defnyddwyr gwasanaeth a/neu eu gofalwyr?

My second question is a question I raised during the debates on amendments to the social services and wellbeing Bill: what happens if the person, whether eligible or not, is not happy with the decision made by the local authority? We've heard from the Minister that that person can ask for a re-assessment. On that matter, I fully support the committee's recommendation that an individual should have the right—and I would add, be made aware of the right—to challenge the eligibility decisions and be told clearly the timescale within which a reassessment should take place.

Mae fy ail gwestiwn yn gwestiwn a ofynnais yn ystod y dadleuon am welliannau i'r Bil gwasanaethau cymdeithasol a llesiant: beth sy'n digwydd os yw'r unigolyn, boed yn gymwys ai peidio, yn anhapus â phenderfyniad yr awdurdod lleol? Rydym wedi clywed gan y Gweinidog y caiff yr unigolyn ofyn am ailasesiad. Ar y mater hwnnw, rwy'n llwyr gefnogi argymhelliad y pwyllgor y dylai fod gan unigolyn yr hawl—a byddwn yn ychwanegu, y dylai gael gwybod am ei hawl—i herio'r penderfyniadau cymhwystra a chael gwybod yn glir o fewn pa amserlen y dylai ailasesiad gael ei gynnal.

Also, Dirprwy Lywydd, I'm not totally convinced that these new criteria will prove to be any more of a national framework than the current system. Will they really remove any inconsistencies across local authorities, and how will they assess people's needs and how best to meet them? But, we are where we are and I have to support them. If these new criteria do away with local authorities waiting until an individual reaches a critical level before they provide the service, then they will indeed, of course, be helping to reduce costs and also helping to keep people in the community. On this last point, we need to be reassured that there will be enough preventative services in the community to cope with the demand for services.

Hefyd, Ddirprwy Lywydd, dydw i ddim yn hollol argyhoeddedig y bydd y meini prawf newydd yn ddim mwy o fframwaith cenedlaethol na'r system bresennol. A fyddant wir yn cael gwared ar unrhyw anghysondebau ar draws awdurdodau lleol, a sut y byddant yn asesu anghenion pobl a'r ffordd orau o'u diwallu? Ond, dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi ac mae'n rhaid imi eu cefnogi. Os bydd y meini prawf newydd hyn yn cael gwared ar y sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn aros i unigolyn gyrraedd lefel gritigol cyn iddynt ddarparu'r gwasanaeth, byddant yn wir, wrth gwrs, yn helpu i leihau costau a hefyd yn helpu i gadw pobl yn y gymuned. Ar y pwynt olaf hwn, mae angen inni gael sicrwydd y bydd digon o wasanaethau ataliol yn y gymuned i ymdopi â'r galw am wasanaethau.

Finally, Dirprwy Lywydd, I want to endorse the point made in committee on behalf of the directors of social services in Wales that the Welsh Government and local authorities—and I think you did answer this, Minister, but I've written it, so here it is—closely monitor the implementation of these regulations to make sure that the needs of the individuals are indeed being met.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, hoffwn ategu'r pwynt a wnaethpwyd yn y pwyllgor ar ran cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol—ac rwy'n meddwl eich bod wedi ateb hyn, Weinidog, ond rwyf wedi ei ysgrifennu, felly dyma fe—yn monitro gweithredu'r rheoliadau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau bod anghenion yr unigolion yn cael eu diwallu mewn gwirionedd.

16:35

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is with pleasure that I rise to support the regulations now before us. It was a privilege to steward the process of social services reform from the first Green Paper, 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action', through to the final passing of the Social Services and Well-being (Wales) Act.

Mae'n bleser gennyf godi ar fy nhraed i gefnogi'r rheoliadau sydd nawr ger ein bron. Roedd yn fraint cael stiwardio'r broses o ddiwygio gwasanaethau cymdeithasol o'r Papur Gwyrdd cyntaf, 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', hyd at basio'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y pen draw.

As we near the date of that Act's final implementation, I am glad to see each new jigsaw piece of subordinate legislation falling into place—many, as I promised you at the time, through the superaffirmative procedure. The regulations concerning eligibility are arguably one of the most important pieces in this jigsaw that is now nearing completion. The principal reason is in the title of that Green Paper: our social services must be sustainable, and the way that we make them sustainable is to centre service provision on the citizen. That is what these regulations achieve. This new model is about creating a rights-based approach to eligibility. It will ensure that people have a right to a core assessment of their needs before consideration of what help is available. And importantly, in the event of a breakdown of any support arrangements, the original core assessment must be immediately reapplied.

Wrth inni agosáu at ddyddiad gweithredu terfynol y Ddeddf honno, rwy'n falch o weld pob darn jig-so newydd o is-ddeddfwriaeth yn dod i'w le—llawer ohonynt, fel yr addewais ichi ar y pryd, drwy'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Gellir dadlau mai'r rheoliadau sy'n ymwneud â chymhwystra yw un o'r darnau pwysicaf yn y jig-so sydd bellach bron wedi ei gwblhau. Mae'r prif reswm yn nheitl y Papur Gwyrdd: mae'n rhaid i'n gwasanaethau cymdeithasol fod yn gynaliadwy, a'r ffordd yr ydym yn eu gwneud yn gynaliadwy yw drwy ganolbwyntio darpariaeth gwasanaethau ar y dinesydd. Dyna beth mae'r rheoliadau hyn yn ei gyflawni. Mae'r model newydd hwn yn creu ymagwedd at gymhwystra sy'n seiliedig ar hawliau. Bydd yn sicrhau bod gan bobl hawl i gael asesiad craidd o'u hanghenion cyn ystyried pa gymorth sydd ar gael. Ac yn bwysig, pe byddai unrhyw drefniadau cymorth yn methu, byddai'n rhaid ailddefnyddio'r asesiad craidd gwreiddiol ar unwaith.

There will be a right, at minimum, as the Minister has said, to information and advice that must be provided free of charge. For the first time, carers will have the same rights to assessment and support to meet their needs as adults and children. These regulations will mean that service users' and carers' voices are heard and listened to throughout this process. I am confident that the eligibility criteria can be applied consistently to adults, children and carers. I am confident that the new system will ensure that people and families get the right support in the right place at the right time. Fundamentally, I am confident this is a more open and bespoke approach that will allow local authorities to help more people and not less.

Bydd hawl, o leiaf, fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, i gael gwybodaeth a chyngor y mae'n rhaid eu darparu am ddim. Am y tro cyntaf, bydd gan ofalwyr yr un hawliau i gael asesiadau a chymorth i ddiwallu eu hanghenion ag oedolion a phlant. Bydd y rheoliadau hyn yn golygu bod llais defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael ei glywed ac yn cael gwrandawiad drwy gydol y broses hon. Rwy'n hyderus y gellir defnyddio'r meini prawf cymhwystra yn gyson ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr. Rwy'n hyderus y bydd y system newydd yn sicrhau bod pobl a theuluoedd yn cael y cymorth cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Yn y bôn, rwy'n hyderus bod hwn yn ddull mwy agored a phwrpasol a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol helpu mwy o bobl ac nid llai.

The central logic of the new system we are building is sensitivity to context. It is then, I feel, rather ironic that certain critical voices have extracted one sentence from one document, not even the regulations before us today, and read this in isolation. The criticism of the 'can and can only' test conflates two distinct stages in a far wider process. One part of the eligibility process is to assess if care and support interventions can address the needs, risks or barriers that stand between an individual and their wellbeing. This is only following the assessment of core needs. It is only once these stages are complete that a decision will be made as to whether the individual's wellbeing outcomes cannot sufficiently be met through care and support co-ordinated by themselves, their family, carer or others, but can only be met through a care plan co-produced—and that's very important—with service users and, where appropriate, carers. As I say, this is about writing into the heart of the system an understanding of context of the real situation in which real people live. The person in need of care and support is not an isolated input into a bureaucratic machine; they are our mothers, fathers, our neighbours, and friends, our siblings and children. They are human beings embedded in complex networks of familial and community ties. The role of the state itself is not to extract them from this social context, but to bend itself to support them within it. That, Llywydd, is precisely what these regulations will do.

Mae rhesymeg ganolog y system newydd yr ydym yn ei hadeiladu'n sensitif i gyd-destun. Mae felly, rwy'n teimlo, yn eithaf eironig bod rhai lleisiau beirniadol wedi tynnu un frawddeg o un ddogfen, nid hyd yn oed y rheoliadau sydd ger ein bron heddiw, ac wedi ei darllen ar ei phen ei hun. Mae'r feirniadaeth o'r prawf 'gallu a dim ond gallu' yn cyfuno dau gam ar wahân mewn proses lawer ehangach. Un rhan o'r broses cymhwystra yw asesu a all ymyraethau gofal a chymorth ymdrin â'r anghenion, y risgiau neu'r rhwystrau sy'n sefyll rhwng unigolyn a'i les. Dim ond ar ôl yr asesiad o anghenion craidd y bydd hyn yn digwydd. Dim ond ar ôl i'r camau hyn gael eu cymryd y gwneir penderfyniad ynghylch a yw'n amhosibl diwallu canlyniadau lles yr unigolyn yn ddigonol drwy gyfrwng gofal a chymorth wedi'i gydlynu ganddynt hwy eu hunain, eu teulu, gofalwr neu rywun arall, ond bod angen cynllun gofal wedi'i gynhyrchu ar y cyd—ac mae hynny'n bwysig iawn—gyda defnyddwyr gwasanaethau a, lle bo'n briodol, gofalwyr. Fel y dywedais, mae hyn yn fater o sicrhau dealltwriaeth yng ngwraidd y system o gyd-destun y sefyllfa wirioneddol y mae pobl go iawn yn byw ynddi. Mae'r unigolion ag angen gofal a chymorth yn fwy na mewnbwn unigol i mewn i beiriant biwrocrataidd; maent yn famau, yn dadau, yn gymdogion, ac yn ffrindiau inni, maent yn frodyr a chwiorydd a phlant inni. Maent yn fodau dynol sy'n perthyn i rwydweithiau cymhleth o gysylltiadau teuluol a chymunedol. Nid gwaith y wladwriaeth ei hun yw eu tynnu o'r cyd-destun cymdeithasol hwn, ond ei phlygu ei hun i'w cefnogi oddi mewn iddo. Dyna, Lywydd, yn union yr hyn y bydd y rheoliadau hyn yn ei wneud.

16:39 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As other speakers have already mentioned, these regulations are absolutely key to the future of what social care will look like in Wales for the years to come. As has already been stated, they set out the tests to be applied to adults, children and carers in establishing whether or not an individual who has a need identified is then entitled to have those needs met by a local authority. That is: will they receive a care and support plan to access and manage the ways to meet their care and support needs?

Fel y mae siaradwyr eraill eisoes wedi'i ddweud, mae'r rheoliadau hyn yn gwbl allweddol i ddyfodol sut y bydd gofal cymdeithasol yn edrych yng Nghymru am y blynyddoedd i ddod. Fel y dywedwyd eisoes, maent yn nodi'r profion a gaiff eu defnyddio ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr i ganfod a oes gan unigolyn sydd ag angen wedi'i nodi hawl wedyn i gael yr anghenion hynny wedi'u diwallu gan awdurdod lleol. Hynny yw: a fyddant yn cael cynllun gofal a chymorth i gael a rheoli'r ffyrdd o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth?

For those who do not satisfy the test, they will be signposted to preventative and wellbeing services in their community, and, as the Government's own document states, encouraged to build on their own strengths and those of their networks to meet their needs. The Government's rhetoric around these regulations is all about early intervention and prevention, without the need for formal planning. Of course, that is very seductive, and of course we should be promoting independence, of course we should be promoting early intervention. That is the right thing to do, and there is much in that approach that I would agree with. But I believe that can be achieved, Deputy Presiding Officer, in a way that does not deliver what I regard as the sting in the tail of these regulations, that you will only be deemed eligible if your needs can and can only be met by the local authority.

Bydd pobl nad ydynt yn bodloni'r prawf yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ataliol a gwasanaethau lles yn eu cymuned, ac, fel y mae dogfen y Llywodraeth ei hun yn ei ddatgan, yn cael eu hannog i adeiladu ar eu cryfderau eu hunain a chryfderau eu rhwydweithiau i ddiwallu eu hanghenion. Mae rhethreg y Llywodraeth ynglŷn â'r rheoliadau hyn i gyd yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar ac atal, heb yr angen am gynllunio ffurfiol. Wrth gwrs, mae hynny'n ddeniadol iawn, ac wrth gwrs y dylem fod yn hybu annibyniaeth, wrth gwrs y dylem fod yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar. Dyna'r peth iawn i'w wneud, ac mae llawer yn y dulliau hynny y byddwn yn cytuno ag ef. Ond credaf y gellir ei gyflawni, Ddirprwy Lywydd, mewn ffordd nad yw'n darparu'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn bigiad yng nghynffon y rheoliadau hyn, sef na chewch eich ystyried yn gymwys oni bai mai dim ond yr awdurdod lleol sy'n gallu diwallu eich anghenion.

So, let us be clear and upfront about what this means. It will reduce the number of our constituents who have the safety net of a formal care and support service plan. I believe that these are real concerns about 'can and can only'. They're not just my concerns; they're concerns of a number of voluntary organisations the length and breadth of Wales. The Wales Alliance for Citizen Directed Support, Age Cymru, the Alzheimer's Society, and those campaigning for those living with learning disabilities who want to live independently of their families are just some of the organisations that have expressed these concerns, as well as leading academics in the field such as Cardiff University's Luke Clements. Let us be absolutely clear that, in an age of cash-strapped social services departments so eloquently described by Lynne Neagle, I believe that they will only be too tempted, only too pleased, to be absolved of an eligible client. Indeed, already, as we speak today, some councils—and Lynne Neagle again referred to it—are currently re-assessing and reducing packages of care, in line, they say, with the direction of travel of national legislation.

Felly, gadewch inni fod yn glir ac yn agored am beth mae hyn yn ei olygu. Bydd yn lleihau nifer ein hetholwyr sydd â rhwyd ddiogelwch ar ffurf cynllun gwasanaeth ffurfiol gofal a chymorth. Rwy'n credu bod y rhain yn bryderon gwirioneddol am 'gallu a dim ond gallu'. Nid dim ond fy mhryderon i yw'r rhain; mae nifer o sefydliadau gwirfoddol ar hyd a lled Cymru'n eu rhannu. Mae Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer, a'r bobl hynny sy'n ymgyrchu dros bobl sy'n byw gydag anableddau dysgu a hoffai fyw'n annibynnol ar eu teuluoedd yn rhai o'r sefydliadau sydd wedi mynegi'r pryderon hyn, yn ogystal ag academyddion blaenllaw yn y maes megis Luke Clements o Brifysgol Caerdydd. Gadewch inni fod yn gwbl glir, mewn oes pan fo adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn brin o arian, fel y disgrifiwyd mor huawdl gan Lynne Neagle, fy mod yn credu y cânt eu temtio'n ormodol, ac y byddant ond yn rhy falch, o gael eu rhyddhau oddi wrth gleient cymwys. Yn wir, eisoes, wrth inni siarad heddiw, mae rhai cynghorau—a chyfeiriodd Lynne Neagle eto at hyn—wrthi'n ailasesu ac yn lleihau pecynnau gofal, yn unol, meddai nhw, â chyfeiriad teithio deddfwriaeth genedlaethol.

With regard to carers, we know that carers consistently overestimate what they can do for their relatives and loved ones. These aren't people who are grasping at services. They overestimate what they can do. Despite the reassurances of the Minister, whose intentions I absolutely accept—and I certainly accept the intentions of the former Deputy Minister—they will not be in that room when that assessment is carried out. What confidence can we have that that desire by carers to do everything and more for the ones they love will not be misinterpreted by local authority social services workers who want to be able to not go through a formal assessment?

O ran gofalwyr, rydym yn gwybod bod gofalwyr yn gyson yn goramcangyfrif yr hyn y gallant ei wneud dros eu perthnasau a'u hanwyliaid. Nid pobl sy'n manteisio ar wasanaethau yw'r rhain. Maent yn goramcangyfrif yr hyn y gallant hwy ei wneud. Er gwaethaf sicrwydd y Gweinidog, ac rwy'n derbyn ei fwriadau'n llwyr—ac rwy'n sicr yn derbyn bwriadau'r cyn Ddirprwy Weinidog—ni fyddant yn yr ystafell pan gaiff yr asesiad hwnnw ei wneud. Sut y gallwn ni fod yn hyderus na chaiff yr awydd hwnnw gan ofalwyr i wneud popeth a mwy dros y rhai y maent yn eu caru ei gamddehongli gan weithwyr gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a hoffai gael peidio â chynnal asesiad ffurfiol?

Of course, they will then be signposted on to preventative services, and there are many excellent such services across Wales. But let's be honest: we're asking them to do more at a time when they themselves have never been so vulnerable. Only yesterday I was hearing about the difficulties maintaining meals on wheels services in Crickhowell and the fact that Powys County Council is going to close all of their day centre facilities.

Wrth gwrs, byddant wedyn yn cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau ataliol, ac mae llawer o wasanaethau rhagorol o'r fath ledled Cymru. Ond gadewch inni fod yn onest: rydym yn gofyn iddynt wneud mwy ar adeg pan nad ydynt hwy eu hunain erioed wedi bod mor agored i niwed. Ddoe ddiwethaf roeddwn yn clywed am yr anawsterau i gynnal gwasanaethau pryd ar glud yng Nghrucywel a'r ffaith bod Cyngor Sir Powys yn mynd i gau ei holl gyfleusterau canolfan ddydd.

The Minister says these processes will be done in conjunction with an individual, but as we've heard, that individual will have no right of appeal. They will be able to ask for a reassessment, but let's face it, that reassessment will only be carried out if they can demonstrate a material change in their circumstances. The Government acknowledges in their own documentation that there is a massive risk to this process in terms of training and development of staff, and once again we're being asked to kick the issue down the lane by saying that all these problems will be resolved by the code of practice. Well, when I was raising these concerns during the passing of the primary legislation, I was told they were all going to be resolved by these regulations, and now they will be resolved by a code of practice later down the line. Maybe they will, maybe they won't, but that's not a risk I'm willing to take on behalf of my constituents.

Mae'r Gweinidog yn dweud y gwneir y prosesau hyn wneud ar y cyd ag unigolyn, ond fel yr ydym wedi'i glywed, ni fydd gan yr unigolyn hwnnw hawl i apelio. Caiff ofyn am ailasesiad, ond gadewch inni wynebu'r peth, ni fydd yr ailasesu hwnnw'n digwydd oni bai ei fod yn gallu dangos newid perthnasol i'w amgylchiadau. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yn eu dogfennau eu hunain bod yna risg enfawr i'r broses hon o ran hyfforddi a datblygu staff, ac unwaith eto gofynnir inni osgoi'r mater am y tro drwy ddweud y caiff yr holl broblemau hyn eu datrys gan y cod ymarfer. Wel, pan oeddwn i'n codi'r pryderon hyn ar adeg pasio'r ddeddfwriaeth sylfaenol, dywedwyd wrthyf eu y byddai'r rheoliadau hyn yn eu datrys i gyd, ond nawr byddant yn cael eu datrys gan god ymarfer yn nes ymlaen. Efallai y byddant, efallai na fyddant, ond nid yw hwnnw'n risg yr wyf yn fodlon ei dderbyn ar ran fy etholwyr.

16:45 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Most of the points I intended to make have already been made, and the Minister has covered some of those points in his opening remarks, but just to reiterate the concerns that have been expressed to me by constituents, one of the major ones is that they thought the regulations would make it more difficult to access direct payments, and I think the Minister has addressed this. I also received concerns about the 'can and can only' test, and I understand that the assessment will be carried out by a trained professional, and that the Minister has said in his opening remarks that the responsibility lies with the assessor in dialogue with the person who has a need.

Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau yr oeddwn yn bwriadu eu gwneud wedi'u gwneud eisoes, ac mae'r Gweinidog wedi rhoi sylw i rai o'r pwyntiau hynny yn ei sylwadau agoriadol, ond dim ond i ailadrodd y pryderon yr wyf wedi'u clywed gan etholwyr, un o'r prif rai yw eu bod wedi meddwl y byddai'r rheoliadau'n ei gwneud hi'n fwy anodd i gael gafael ar daliadau uniongyrchol, ac rwy'n meddwl bod y Gweinidog wedi rhoi sylw i hyn. Cefais hefyd bryderon ynghylch y prawf 'gallu a dim ond gallu', ac rwyf ar ddeall y caiff yr asesiad ei wneud gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig, a bod y Gweinidog wedi dweud yn ei sylwadau agoriadol mai cyfrifoldeb yr asesydd fydd hynny mewn deialog gyda'r person sydd ag angen.

Concern has been expressed to me by one particular carer who said, 'At what point would the carer be part of the dialogue as well?'—when would they be involved in the actual debate?

Mynegodd un gofalwr penodol bryder wrthyf gan ddweud, 'Ar ba bwynt y byddai'r gofalwr yn rhan o'r ddeialog hefyd?'—pryd y byddai'n cymryd rhan yn y ddadl ei hun?

The final point that I wanted to reiterate was this concern about, if the individual or the carer does not agree with the decision, what means there actually are there to challenge the decision, and whether a right of appeal may be the simplest way to go about that. Thank you.

Y pwynt olaf yr oeddwn am ei ailadrodd oedd y pryder hwn, os nad yw'r unigolyn neu'r gofalwr yn cytuno â'r penderfyniad, ynglŷn â pha fodd sy'n bodoli mewn gwirionedd i herio'r penderfyniad, ac ai hawl i apelio fyddai'r ffordd symlaf o gyflawni hynny. Diolch.

16:46 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The eligibility criteria in these regulations contain, as we've heard, the so-called 'can and can only' test. The sector's reading of this is still that a person will have had to prove that they've tried all that is available, and prove that this has failed to meet their needs, before a person meets the eligibility criteria. So, someone, for example, on the autistic spectrum, with so-called low-level needs, such as help with washing, could be excluded, even though they have needs.

Mae'r meini prawf cymhwystra yn y rheoliadau hyn yn cynnwys, fel yr ydym wedi'i glywed, y prawf 'gallu a dim ond gallu' fel y'i gelwir. Dealltwriaeth y sector o hyn o hyd yw y bydd unigolyn wedi gorfod profi ei fod wedi rhoi cynnig ar bopeth sydd ar gael, a phrofi bod hyn wedi methu â chyflawni ei anghenion, cyn i unigolyn fodloni'r meini prawf cymhwyster. Felly, gallai rhywun, er enghraifft, ar y sbectrwm awtistig, gyda'r hyn a elwir yn anghenion lefel isel, megis help i ymolchi, gael ei eithrio, er bod ganddo anghenion.

The Social Care and Wellbeing Alliance Wales support the establishment of all-Wales eligibility criteria and hope that this will help ensure parity of provision regardless of where people live. They also note that the 'can and can only' test

Mae Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Lles Cymru o blaid sefydlu meini prawf cymhwyster ar gyfer Cymru gyfan ac yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i sicrhau cydraddoldeb darpariaeth waeth ble mae pobl yn byw. Maent hefyd yn nodi am y prawf 'gallu a dim ond gallu'

'will not apply when the need derives from abuse and neglect or the risk of abuse and neglect.'

ni fydd yn berthnasol pan fydd yr angen yn deillio o gam-drin ac esgeulustod neu'r risg o gam-drin ac esgeulustod.

They are, however, concerned that the 'can and can only' test is

Maent, fodd bynnag, yn pryderu bod y prawf 'gallu a dim ond gallu'

'difficult to understand and has the potential to exclude people who have low-level need such as help getting dressed, getting washed or preparing food',

yn anodd ei ddeall ac mae ganddo'r potensial i eithrio pobl ag angen lefel isel, megis help i wisgo, ymolchi neu baratoi bwyd'

defined as moderate needs under the old system. They're also concerned that the 'can and can only' test:

a ddiffiniwyd fel anghenion cymedrol dan yr hen system. Maent hefyd yn pryderu bod y prawf 'gallu a dim ond gallu':

'suggests that "need" will be based on what services are available not on the person's needs. The test must meet the person's needs and well-being outcomes. A community service that is only relevant in part will not meet specific needs in the way a more personalised care and support plan would.'

yn awgrymu y bydd "angen" yn cael ei seilio ar ba wasanaethau sydd ar gael yn hytrach nag ar anghenion yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r prawf ddiwallu anghenion a chanlyniadau lles yr unigolyn. Ni fydd gwasanaeth cymunedol sydd ddim ond yn rhannol berthnasol yn diwallu anghenion penodol fel y byddai cynllun gofal a chymorth mwy personol.

Age Cymru are concerned that the restrictive nature of the 'can and can only' test creates potential for its application to become a barrier to accessing personalised services. The Wales Alliance for Citizen Directed Support are concerned that the requirements for individuals to exhaust possible family and community-based options for support before becoming eligible for statutory services could widen the gaps that people can fall through.

Mae Age Cymru yn pryderu bod natur gaeth y prawf 'gallu a dim ond gallu' yn creu posibilrwydd y gallai defnyddio'r prawf rwystro mynediad at wasanaethau personol. Mae Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion yn pryderu y gallai'r gofynion i unigolion ddihysbyddu'r opsiynau posibl am gymorth gan deulu a'r gymuned cyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau statudol ehangu'r bylchau y gall pobl syrthio drwyddynt.

The Motor Neurone Disease Association said that the 'can and can only' test could

Dywedodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor y gallai'r prawf 'gallu a dim ond gallu'

'leave people at risk of receiving low quality or inadequate support for a significant period before the local authority is able or willing to step in.'

adael pobl mewn perygl o gael cymorth annigonol neu o safon isel am gyfnod sylweddol cyn i'r awdurdod lleol allu camu i mewn neu fod yn fodlon i wneud hynny.

People with motor neurone disease

Mae pobl â chlefyd niwronau motor:

'will often have specialist and complex needs, requiring a particular level of expertise that may not be available in community services. However, they may have to show that they have exhausted the capacity of local, more generalist services, to meet their needs before they can access the appropriate services. This creates a serious risk that people with a rapidly progressive condition could face unnecessary delays in accessing services.'

yn aml yn wynebu anghenion cymhleth ac arbenigol, sy'n mynnu lefel benodol o arbenigedd nad yw o reidrwydd ar gael mewn gwasanaethau cymunedol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid iddynt ddangos eu bod wedi dihysbyddu gallu gwasanaethau lleol, mwy cyffredinol, i ddiwallu eu hanghenion cyn i'r gwasanaethau priodol fod ar gael iddynt. Mae hyn yn creu risg difrifol y gallai pobl sydd â chyflwr sy'n gwaethygu'n gyflym wynebu oedi diangen cyn i wasanaethau fod ar gael iddynt.

The Wales Carers Alliance raised concerns that it was unclear whose responsibility it will be to demonstrate that a person's assessed needs can or cannot be met with the assistance of services in the community. The disability reference group cited an example of a young adult with learning disabilities who may benefit from living independently of their family, but a local authority could use a 'can and can only' test to determine that that young person should remain living at home.

Mynegodd Cynghrair Gofalwyr Cymru bryderon nad oedd yn glir pwy fydd yn gyfrifol am ddangos y gellir neu na ellir diwallu anghenion unigolyn a aseswyd gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned. Soniodd y grŵp cyfeirio anabledd am enghraifft o oedolyn ifanc ag anableddau dysgu a allai elwa o fyw'n annibynnol ar ei deulu, ond gallai awdurdod lleol ddefnyddio'r prawf 'gallu a dim ond gallu' i benderfynu y dylai'r person ifanc hwnnw barhau i fyw gartref.

The Royal National Institute of Blind People Cymru states that the 'can and can only' test suggests that need will be based on which services are available, not on the person's needs, whereas:

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru'n datgan bod y prawf 'gallu a dim ond gallu' yn awgrymu y bydd angen wedi'i seilio ar ba wasanaethau sydd ar gael, nid ar anghenion yr unigolyn, ac:

'A community service that is only relevant in part will not meet specific needs in the way a more personalised care and support plan would.'

Ni fydd gwasanaeth cymunedol sydd ddim ond yn rhannol berthnasol yn diwallu anghenion penodol fel y byddai cynllun gofal a chymorth mwy personol yn ei wneud.

This, they say, leaves individuals at risk of receiving low-quality or inadequate support or potentially facing long delays to access support, because they first have to demonstrate they've exhausted all possible support available in the community. As they say, the responsibility for demonstrating an individual's needs and wellbeing outcomes can be met through community services should therefore be placed on the local authority, not the individual.

Mae hyn, meddai nhw, yn gadael unigolion mewn perygl o gael cymorth annigonol neu o safon isel neu o bosibl wynebu oedi hir cyn cael cymorth, gan fod yn rhaid iddynt ddangos yn gyntaf eu bod wedi rhoi cynnig ar bob cymorth posibl sydd ar gael yn y gymuned. Fel maen nhw'n dweud, felly, dylai'r cyfrifoldeb am ddangos y gellir diwallu anghenion a chanlyniadau lles unigolyn drwy wasanaethau cymunedol gael ei osod ar yr awdurdod lleol, nid ar yr unigolyn.

When making decisions about a person's needs, it's therefore vital that the local authority interprets the 'can and can only' criteria in a way that meets the best interests of that individual and enables them to achieve their own wellbeing outcomes, putting the needs of the individual at the centre of the assessment and care-planning process, applying the principles of person-centred and citizen-directed support and of co-production, enabling, reabling, building stronger communities and better lives, and delivering maximum value for the public pound.

Wrth wneud penderfyniadau am anghenion unigolyn, felly, mae'n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn dehongli'r meini prawf 'gallu a dim ond gallu' mewn ffordd sy'n diwallu lles pennaf yr unigolyn hwnnw ac yn ei alluogi i gyflawni ei ganlyniadau lles ei hun, gan sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn ganolog i'r broses asesu a chynllunio gofal, defnyddio egwyddorion cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i gyfeirio gan y dinesydd ac y ceir cyd-gynhyrchu, galluogi, ailalluogi, adeiladu cymunedau cryfach a bywydau gwell, a darparu'r gwerth gorau posibl am y bunt gyhoeddus.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply to the debate.

A'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:51 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I begin by thanking those political parties in the Assembly this afternoon that have indicated that they will not seek to derail the social services Act at this point in its implementation? This is, as Gwenda Thomas said, one of the most important pieces in the jigsaw that is the 2014 social services Act that will come in front of this Assembly—an Act that will produce more help for more people, not less help for fewer people, an Act that regards people as equal partners in the business of identifying and organising their care.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddechrau drwy ddiolch i'r pleidiau gwleidyddol sydd yn y Cynulliad y prynhawn yma ac sydd wedi nodi na fyddant yn ceisio direilio'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol ar yr adeg hon yn y broses o'i rhoi ar waith? Mae hyn, fel y dywedodd Gwenda Thomas, yn un o'r darnau pwysicaf yn jig-so Deddf gwasanaethau cymdeithasol 2014 a fydd yn dod gerbron y Cynulliad hwn—Deddf a fydd yn cynhyrchu mwy o gymorth i fwy o bobl, nid llai o gymorth i lai o bobl, Deddf sy'n ystyried pobl fel partneriaid cyfartal yn y busnes o ddewis a threfnu eu gofal.

Dirprwy Lywydd, I'll try and address five or six specific points that Members have raised in the debate. Let me begin with the 'can and can only' test, a test that, as Gwenda Thomas pointed out to Members, is not in the regulations. It's one sentence in one document that accompanies the regulations. I've done my very best this afternoon to be clear with Members that the burden of responsibility in relation to the 'can and can only' test falls on the person carrying out the assessment, not the person for whom that assessment is being carried out. When Mark Isherwood identifies the concerns that have been raised about it, I recognise those concerns, but let's be clear: people are raising their anxieties about it. They are not saying that this is what will inevitably follow from the 'can and can only' test, only what would happen if it was wrongly applied. We will use the code of practice in the way that David Rees suggested to make sure that that will not take place.

Ddirprwy Lywydd, mi geisiaf roi sylw i bump neu chwech o bwyntiau penodol y mae Aelodau wedi'u codi yn y ddadl. Gadewch imi ddechrau gyda'r prawf 'gallu a dim ond gallu', prawf, fel y nododd Gwenda Thomas i Aelodau, nad yw yn y rheoliadau. Un frawddeg ydyw mewn un ddogfen sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau. Rwyf wedi gwneud fy ngorau glas y prynhawn yma i'w gwneud yn glir i Aelodau bod baich y cyfrifoldeb o ran y prawf 'gallu a dim ond gallu' yn perthyn i'r unigolyn sy'n cynnal yr asesiad, nid yr unigolyn y mae'r asesiad yn cael ei gynnal ar ei gyfer. Pan fo Mark Isherwood yn nodi'r pryderon a godwyd am y peth, rwy'n cydnabod y pryderon hynny, ond gadewch inni fod yn glir: mae pobl yn mynegi eu pryderon am y peth. Nid ydynt yn dweud y bydd hyn yn anochel yn dilyn y prawf 'gallu a dim ond gallu', dim ond y gallai ddigwydd pe byddai'n cael ei gamddefnyddio. Byddwn yn defnyddio'r cod ymarfer yn y modd a awgrymodd David Rees i wneud yn siŵr na fydd hynny'n digwydd.

We've heard concerns about carers here this afternoon, and yet this is an Act that provides new rights for carers and which carries the rights of carers further than any other Act has done—of this Assembly or in any other part of the United Kingdom. New rights for the first time—

Rydym wedi clywed pryderon am ofalwyr yma y prynhawn yma, ond er hynny, mae hon yn Ddeddf sy'n rhoi hawliau newydd i ofalwyr ac sy'n mynd â hawliau gofalwyr ymhellach nag y mae unrhyw Ddeddf arall wedi'i wneud—yn y Cynulliad hwn nac mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Hawliau newydd am y tro cyntaf—

16:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you agree with me—If I understood Kirsty Williams rightly earlier on, when she said carers would not be in the room—that the Act gives carers a right to be involved in the assessment, to be in the room for the assessment, provided the service user doesn't object, and that that is the position with regard to carers being involved?

A ydych chi'n cytuno â mi—os gwnes i ddeall Kirsty Williams yn iawn yn gynharach, pan ddywedodd na fyddai gofalwyr yn yr ystafell—bod y Ddeddf yn rhoi hawl i ofalwyr fod yn rhan o'r asesiad, i fod yn yr ystafell am yr asesiad, ar yr amod nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gwrthwynebu, ac mai dyna'r sefyllfa o ran cynnwys gofalwyr?

16:53 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is exactly the position with the assessment regulations—regulations, may I remind Members, which have already been passed.

Dyna'r union sefyllfa gyda'r rheoliadau asesu—rheoliadau, os caf fi atgoffa'r Aelodau, sydd eisoes wedi eu pasio.

16:53 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I clarify, for all concerned, that I didn't say that the carers wouldn't be in the room? I'm concerned, Minister, that you and Gwenda Thomas are not going to be in the room to ensure that your interpretation of how this will work in reality will be reflected on the ground. That's my concern.

A gaf i egluro, i bawb dan sylw, na wnes i ddweud na fyddai'r gofalwyr yn yr ystafell? Rwy'n pryderu, Weinidog, na fyddwch chi a Gwenda Thomas yn yr ystafell i sicrhau bod eich dehongliad chi o sut y bydd hyn yn gweithio mewn gwirionedd yn cael ei adlewyrchu ar lawr gwlad. Dyna fy mhryder.

16:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have difficulties with the leader of the Liberal Democrats' position on this whole matter. In one breath, she tells us that, for her, the test of the success of our social services system will be if we could devise it in a way that would propel as many people as possible, and as fast as possible, into the arms of Powys's social services department, and then, in another breath, she tells us that the anxiety about the system is that you couldn't trust those people to interpret the regulations in the way that this Assembly would require them to be interpreted. I don't share her anxiety on that. There's been an enormous set of goodwill towards this Act and these regulations in the social services sector. They understand what we are trying to achieve here, and I believe that they are genuinely committed to doing so—in terms of carers and of people who provide and use services, too.

Mae safbwynt arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar yr holl fater hwn yn peri anawsterau imi. Ar un anadl, mae hi'n dweud wrthym mai'r prawf o lwyddiant ein system gwasanaethau cymdeithasol, iddi hi, fyddai ein bod yn gallu ei lunio mewn modd a fyddai'n gyrru cynifer o bobl â phosibl, ac mor gyflym â phosibl, i freichiau adran gwasanaethau cymdeithasol Powys, ac yna, ar anadl arall, mae hi'n dweud wrthym mai'r pryder am y system yw na allech ymddiried yn y bobl hynny i ddehongli'r rheoliadau fel y byddai'n ofynnol gan y Cynulliad hwn iddynt gael eu dehongli. Nid wyf yn rhannu ei phryder ynglŷn â hynny. Mae llawer iawn o ewyllys da wedi bod tuag at y Ddeddf hon a'r rheoliadau hyn yn y sector gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn deall yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yma, ac rwy'n credu eu bod yn wirioneddol ymroddedig i wneud hynny—o ran gofalwyr ac o ran pobl sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau, hefyd.

We've been asked a lot this afternoon about an appeals process. Dirprwy Lywydd, I think I need to be clear that it is not for me as Minister to try and create through the back door, as it were, through secondary legislation, a proposition that was put in front of this Assembly twice in the primary legislative procedure and rejected twice by this Assembly. This Assembly had in Stages 2 and 3 an amendment that would have created an independent appeals procedure, and on both occasions the Assembly voted against that amendment and in favour of an amendment, which we have now put at the heart of the process, which allows people an automatic right to reassessment—not a reassessment because they have to prove that they need one, but a reassessment when they say that they believe that that is needed. That's why we will have a monitoring system, which I outlined, which will very specifically record how many reassessments are asked for by users, how many of those lead to a change in a care package, and how many are completed within time.

Rydym wedi cael llawer o gwestiynau y prynhawn yma am broses apelio. Ddirprwy Lywydd, rwy'n meddwl bod angen imi fod yn glir nad fy lle i fel Gweinidog yw ceisio creu cynnig drwy'r drws cefn, fel petai, drwy is-ddeddfwriaeth, a gafodd ei roi gerbron y Cynulliad hwn ddwywaith yn y drefn deddfwriaeth sylfaenol ac a wrthodwyd ddwywaith gan y Cynulliad hwn. Roedd gan y Cynulliad hwn yng Nghyfnodau 2 a 3 welliant a fyddai wedi creu gweithdrefn apelio annibynnol, ac ar y ddau achlysur pleidleisiodd y Cynulliad yn erbyn y gwelliant hwnnw ac o blaid gwelliant, yr ydym nawr wedi ei roi wrth wraidd y broses, sy'n caniatáu hawl awtomatig i bobl i gael ailasesiad—nid ailasesiad oherwydd bod rhaid iddynt brofi bod angen un arnynt, ond ailasesiad pan fyddant yn dweud eu bod yn credu mai dyna sydd ei angen. Dyna pam y bydd gennym system fonitro, fel yr amlinellais, a fydd yn cofnodi'n benodol iawn faint o ailasesiadau y bydd defnyddwyr yn gofyn amdanynt, faint o'r rheini fydd yn arwain at newid pecyn gofal, a faint sy'n cael eu cwblhau mewn pryd.

Let me directly deal with Julie Morgan's point about direct payments. This Act liberalises direct payments. It provides for direct payments to be used in more circumstances for more people, for more purposes and by employing a wider range of people than ever before. There's nothing in these regulations that gets in the way of that.

Gadewch imi ymdrin yn uniongyrchol â phwynt Julie Morgan am daliadau uniongyrchol. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi rhyddid o ran taliadau uniongyrchol. Mae'n darparu ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol mewn mwy o amgylchiadau ar gyfer mwy o bobl, at fwy o ddibenion a drwy ddefnyddio ystod ehangach o bobl nag erioed o'r blaen. Does dim byd yn y rheoliadau hyn sy'n rhwystro hynny.

Let me end by just assuring Lindsay Whittle that the national assessment and eligibility tool is designed to do exactly what he asked for—to make sure that we have a common set of procedures and principles so that decisions that are made in one part of Wales are directly comparable to decisions made elsewhere, while always being rooted in the needs of the individual in the particular social circumstances that Gwenda Thomas highlighted in her contribution.

Gadewch imi ddiweddu drwy sicrhau Lindsay Whittle bod y teclyn asesu a chymhwystra cenedlaethol wedi'i gynllunio i wneud yn union yr hyn y gofynnodd amdano—sicrhau bod gennym gyfres gyffredin o weithdrefnau ac egwyddorion fel bod penderfyniadau a wneir mewn un rhan o Gymru'n gallu cael eu cymharu'n uniongyrchol â phenderfyniadau a wneir mewn mannau eraill, a'u bod bob amser wedi'u gwreiddio yn anghenion yr unigolyn dan yr amgylchiadau cymdeithasol penodol a nododd Gwenda Thomas yn ei chyfraniad.

Dirprwy Lywydd, I ask Members very seriously to support these regulations this afternoon.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n gofyn o ddifrif i'r Aelodau gefnogi'r rheoliadau hyn y prynhawn yma.

16:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Rwy'n gohirio pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:57.*

*Sandy Mewies took the Chair at 16:57.*

16:57

# 7. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

# 7. Debate on the General Principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Item 7 is the debate on the general principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 7 yw'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5814 Mark Drakeford

Motion NDM5814 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:57

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Gadeirydd. Rwy'n symud y cynnig.

Thank you very much, Chair. I move the motion.

Rwy’n falch o agor y ddadl hon am egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rwy’n ddiolchgar i David Rees, David Melding a Jocelyn Davies a’u pwyllgorau am eu ffordd adeiladol o fynd ati i graffu ar y Bil hwn yng Nghyfnod 1. Hoffwn hefyd gydnabod cyfraniad pwysig y llu o bobl a chyrff sydd wedi helpu ystyriaeth y pwyllgorau drwy eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.

I’m pleased to open this debate on the general principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I am grateful to David Rees, David Melding and Jocelyn Davies and their committees for the constructive approach they took to the scrutiny of this Bill at Stage 1. I would also like to acknowledge the important contribution of the range of people and bodies who have assisted with the committees’ consideration through their oral and written evidence.

Rwy’n credu bod y broses graffu wedi dangos cefnogaeth i’r Bil, sy’n creu system effeithiol o reoleiddio ac arolygu, system sy’n canolbwyntio ar welliant a chanlyniadau i bobl. Mae cyfle heddiw i wella arno a’i gryfhau ymhellach. Bydd y Bil yn ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fe fydd yn diweddaru’r ffordd rydym yn rheoleiddio’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu ym maes gofal cymdeithasol. Yn ogystal, bydd y Bil yn meithrin ein gallu i addasu i newidiadau yn y sector yn y dyfodol, ac ymateb yn effeithiol i enghreifftiau o arferion gorau sy’n dod i’r amlwg.

I believe that the scrutiny process has demonstrated support for the Bill, which creates an effective regulatory and inspection system, a system that concentrates on improvement and outcomes for people. There is an opportunity today to improve it and to strengthen it further. The Bill will endorse the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. It will update the way we regulate the services provided in the area of social care. In addition, the Bill will develop our ability to adapt to changes in the sector in the future, and to respond effectively to examples of best practice that emerge.

Chair, while I firmly believe that there are very many examples of excellent practice in the sector, we have been reminded earlier this afternoon by the First Minister’s statement and the publication of Dr Flynn’s report about what happens when there is failure in the delivery of care to elderly and vulnerable people. It’s natural, therefore, that one of the first questions about this Bill will be, ‘How does it respond to the Flynn report?’ and I want to say a few words about that shortly.

Gadeirydd, er fy mod yn credu'n gryf bod llawer iawn o enghreifftiau o arfer rhagorol yn y sector, mae datganiad y Prif Weinidog yn gynharach y prynhawn yma a chyhoeddi adroddiad Dr Flynn wedi ein hatgoffa beth sy'n digwydd pan fo methiant wrth ddarparu gofal i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed. Mae'n naturiol, felly, mai un o'r cwestiynau cyntaf am y Bil hwn fydd, 'Sut mae'n ymateb i adroddiad Flynn?' ac rwyf am ddweud ychydig eiriau am hynny cyn bo hir.

Let me begin by saying, however, that this is not a Bill shaped around a presumption of failure. It is a Bill that seeks to tackle poor practice and to tackle it more quickly, but it also seeks to turn the satisfactory into the good and the good into the excellent. It is very much about how we bring about improvement in our social care services, raising the bar as well as responding swiftly, clearly and effectively when things go wrong.

Gadewch imi ddechrau drwy ddweud, fodd bynnag, nad yw’r Bil hwn wedi’i lunio o amgylch rhagdybiaeth o fethiant. Mae'n Fil sy'n ceisio ymdrin ag arfer gwael ac ymdrin ag ef yn gyflymach, ond mae hefyd yn ceisio troi arfer boddhaol yn arfer da ac arfer da yn arfer rhagorol. Mae'n ymwneud yn bennaf â sut yr ydym yn sicrhau gwelliant yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan godi’r bar yn ogystal ag ymateb yn gyflym, yn glir ac yn effeithiol pan aiff pethau o chwith.

The fundamental test of this Bill is how it protects the vulnerable and how it safeguards those receiving care and support. That is why it must help to provide answers to the questions that the Flynn report has raised. I’ve met Dr Flynn on a number of occasions over the past 18 months. I know she has also worked with officials throughout her review and so her emerging thoughts have regularly and consistently informed the development of this Bill. She wrote to the First Minister and me outlining her views in December last year—a letter that was shared with the Health and Social Care Committee during their scrutiny. She has also commented directly and supportively on the Bill in the executive summary of her report, and that extract reflects that from the very outset, there were three clear lessons that Dr Flynn regarded as essential issues arising from Operation Jasmine—issues that are pertinent to this Bill.

Y prawf sylfaenol ar gyfer y Bil hwn yw sut y mae'n amddiffyn pobl agored i niwed a sut y mae'n diogelu'r bobl hynny sy'n cael gofal a chymorth. Dyna pam mae'n rhaid iddo helpu i roi atebion i'r cwestiynau a godwyd gan adroddiad Flynn. Rwyf wedi cwrdd â Dr Flynn ar sawl achlysur dros y 18 mis diwethaf. Rwy'n gwybod ei bod hithau wedi gweithio gyda swyddogion drwy gydol ei hadolygiad ac felly mae ei meddyliau newydd wedi llywio datblygiad y Bil hwn yn rheolaidd ac yn gyson. Ysgrifennodd hi at y Prif Weinidog a minnau i amlinellu ei barn fis Rhagfyr diwethaf—llythyr a gafodd ei rannu â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei broses graffu. Mae hi hefyd wedi gwneud sylwadau cefnogol ac uniongyrchol am y Bil yng nghrynodeb gweithredol ei hadroddiad, ac mae’r dyfyniad hwnnw’n adlewyrchu’r ffaith, o'r cychwyn cyntaf, bod tair gwers glir yr oedd Dr Flynn o’r farn eu bod yn faterion hanfodol yn deillio o Operation Jasmine—materion sy'n berthnasol i’r Bil hwn.

Firstly, her report demonstrates, page after page, that it was virtually impossible to hold those who profited from care to account. In her report she says:

Yn gyntaf, mae ei hadroddiad yn dangos, dudalen ar ôl tudalen, ei bod hi bron yn amhosibl dwyn i gyfrif y rhai a fu’n gwneud elw o ofal. Yn ei hadroddiad meddai:

‘Businesses need be made accountable for their trading practices. Directors should be subject to the same rules and accountability framework as other sectors.’

Mae angen gwneud busnesau’n atebol am eu harferion masnachu. Dylai cyfarwyddwyr fod yn ddarostyngedig i’r un rheolau a fframwaith atebolrwydd â sectorau eraill.

This was a point raised in the First Minister’s statement by Jocelyn Davies and by others. A major priority for this Bill has therefore been to shift accountability within our legislative system, so that those who own and gain from providing services are held properly accountable for them. This Bill achieves that with the requirement to have in place a responsible individual and through the duties that will now be placed on responsible individuals in law. This is new, Chair, and this is powerful, I believe. It will mean the directors of companies can no longer claim that they were unaware of the events going on in their name and can no longer offload their responsibilities onto the shoulders of people who happen to have been employed at the spot and at the time.

Roedd hwn yn bwynt a godwyd yn natganiad y Prif Weinidog gan Jocelyn Davies ac eraill. Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Bil hwn, felly, oedd symud atebolrwydd o fewn ein system ddeddfwriaethol, fel bod y rhai sy'n berchen ar wasanaethau ac yn elwa ar eu darparu yn briodol o atebol amdanynt. Mae'r Bil hwn yn cyflawni hynny drwy'r gofyniad i gael unigolyn cyfrifol wedi’i benodi a thrwy'r dyletswyddau a roddir bellach ar unigolion cyfrifol gan y gyfraith. Mae hyn yn newydd, Gadeirydd, ac mae hyn yn rymus, yn fy marn i. Bydd yn golygu na fydd cyfarwyddwyr cwmnïau bellach yn gallu honni nad oeddent yn ymwybodol o'r pethau sy'n digwydd yn eu henw ac na fyddant mwyach yn gallu dadlwytho eu cyfrifoldebau ar ysgwyddau pobl sy’n digwydd bod wedi’u cyflogi yn y fan a'r lle ac ar y pryd.

Secondly, Dr Flynn was clear that our legislative system must allow action by regulators to go beyond a single setting or service, so that failed providers can be removed from the register in their entirety. Providers will no longer be able to move resources from one home to another, to shore up a failing service in order to escape the regulatory gaze. The Bill provides the flexibility for the regulator to take enforcement action against either individual services or across an organisation as a whole, and I think that answers one of the fundamental points that the Flynn report highlights.

Yn ail, roedd Dr Flynn yn glir bod yn rhaid i'n system ddeddfwriaethol ganiatáu i reoleiddwyr gymryd camau y tu hwnt i un lleoliad neu wasanaeth, fel y gellir tynnu darparwyr sydd wedi methu oddi ar y gofrestr yn llwyr. Ni fydd y darparwyr mwyach yn gallu symud adnoddau o un cartref i un arall, i gynnal gwasanaeth sy’n methu er mwyn dianc rhag prosesau rheoleiddio. Mae'r Bil yn darparu hyblygrwydd i’r rheoleiddiwr i gymryd camau gorfodi naill ai yn erbyn gwasanaethau unigol neu ar draws sefydliad yn ei gyfanrwydd, ac rwy’n meddwl bod hynny’n ateb un o'r pwyntiau sylfaenol y mae adroddiad Flynn yn tynnu sylw atynt.

Thirdly, the report emphasises the importance of openness and transparency. The fact that families of victims did not know what was happening or what had happened to their loved ones simply cannot be right. This Bill will place in statute the access by users and families to information about the services and care that they or their loved ones receive. It places a requirement on all providers to produce and publish an annual return, setting out the bad alongside the good. That, together with the power to introduce ratings and the emphasis on outcomes, will mean a system driven not by service providers, but by those in need of care and support themselves.

Yn drydydd, mae'r adroddiad yn pwysleisio pa mor bwysig yw bod yn agored ac yn dryloyw. Yn syml, ni all fod yn iawn nad oedd teuluoedd dioddefwyr yn gwybod beth oedd yn digwydd neu beth oedd wedi digwydd i'w hanwyliaid. Bydd y Bil hwn yn gosod mewn statud yr hawl i ddefnyddwyr a theuluoedd gael gwybodaeth am y gwasanaethau a'r gofal y maent hwy neu eu hanwyliaid yn eu derbyn. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod pob darparwr yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflen flynyddol, gan nodi'r gwael ochr yn ochr â'r da. Bydd hynny, ynghyd â'r pŵer i gyflwyno sgoriau a'r pwyslais ar ganlyniadau, yn golygu system wedi’i sbarduno nid gan ddarparwyr gwasanaethau, ond gan y rhai ag angen gofal a chymorth eu hunain.

There are other legislative issues that Dr Flynn has raised and we are keen to reflect on them. I’m confident from my conversations with her that this Bill does tackle some of the weaknesses in the system that her report sets out. Her endorsement of much of what we are doing in this Bill, I think, can give us confidence that lessons are being learned, and that those lessons are being translated into legislative action.

Mae Dr Flynn wedi codi materion deddfwriaethol eraill ac rydym yn awyddus i fyfyrio arnynt. Rwy'n hyderus o fy sgyrsiau gyda hi bod y Bil hwn yn ymdrin â rhai o'r gwendidau yn y system y mae ei hadroddiad yn eu nodi. Mae ei chymeradwyaeth i lawer o'r hyn yr ydym yn ei wneud yn y Bil hwn, rwy’n meddwl, yn gallu rhoi hyder inni bod gwersi'n cael eu dysgu, a bod y gwersi hynny'n cael eu rhoi ar waith yn ddeddfwriaethol.

Chair, the National Assembly has taken a very thorough approach to the scrutiny of this Bill during Stage 1, as can be seen in the detailed analysis contained in the committee reports. I will reply formally to those reports, but I'm able to confirm today that we are likely to be able to respond positively to well over 30 of the 46 Health and Social Care Committee recommendations, and we'll bring forward a number of Stage 2 amendments, including a power for service regulators to interview carers in private during an inspection with their consent, as a result of the committee's report. I will also bring forward Stage 2 amendments in relation, for example, to public engagement, consultation, and in relation to commissioning—an issue that Aled Roberts raised during the earlier debate—where we will place a duty on the regulator to include commissioning in its annual review of each local authority's performance. In bringing forward those amendments at Stage 2, Chair, I believe that this is an area where Stage 1 scrutiny by the health committee will have materially assisted in strengthening the Bill.

Gadeirydd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn drylwyr iawn wrth graffu ar y Bil hwn yn ystod Cyfnod 1, fel y gwelir yn y dadansoddiad manwl a geir yn adroddiadau'r pwyllgor. Byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiadau hynny, ond rwy'n gallu cadarnhau heddiw ein bod yn debygol o allu ymateb yn gadarnhaol i lawer mwy na 30 o'r 46 o argymhellion gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a byddwn yn cyflwyno nifer o welliannau yng Nghyfnod 2, gan gynnwys pŵer i reoleiddwyr gwasanaeth i gyfweld â gofalwyr yn breifat yn ystod arolygiad gyda'u caniatâd, o ganlyniad i adroddiad y pwyllgor. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliannau Cyfnod 2 ynglŷn ag, er enghraifft, ymgysylltu â'r cyhoedd, ymgynghori, ac ynglŷn â chomisiynu—mater a gododd Aled Roberts yn ystod y ddadl yn gynharach—lle y byddwn yn rhoi dyletswydd ar y rheoleiddiwr i gynnwys comisiynu yn ei adolygiad blynyddol o berfformiad pob awdurdod lleol. Wrth gyflwyno'r gwelliannau hynny yng Nghyfnod 2, Gadeirydd, credaf fod hwn yn faes lle y bydd craffu Cyfnod 1 gan y pwyllgor iechyd wedi bod o gymorth sylweddol i gryfhau'r Bil.

There are also a number of recommendations by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, to which a positive response will be made, including those relating to the use of the superaffirmative procedure. I'm happy to confirm that it will be our intention to follow the procedure set out in section 33 of the 2014 Act for a number of substantive recommendations made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, including those relating to ratings, offences and penalty notices. I have also noted the committee's views in other areas and am mindful to consider an amendment to apply the affirmative procedure to regulations made under section 135(2), which deal with the disclosure of the undertakings, and an amendment to set out on the face of the Bill some of the standard information to be included in annual returns to be submitted by providers.

Ceir nifer o argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd, a rhoddir ymateb cadarnhaol i'r rheini, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol. Rwy'n falch o gadarnhau mai ein bwriad fydd dilyn y drefn a nodir yn adran 33 o Ddeddf 2014 ar gyfer nifer o argymhellion sylweddol a wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sgoriau, troseddau a hysbysiadau cosb. Rwyf hefyd wedi nodi barn y pwyllgor mewn meysydd eraill ac rwy'n fodlon ystyried gwelliant i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 135(2), sy'n ymdrin â datgelu'r ymrwymiadau, a gwelliant i osod ar wyneb y Bil rhywfaint o'r wybodaeth safonol i'w chynnwys mewn ffurflenni blynyddol i'w cyflwyno gan ddarparwyr.

Chair, today's debate marks another important milestone in the journey of the scrutiny of this Bill. I believe that the reports we have seen so far have been of significant assistance in making sure that the Bill can be the best Bill that we can make it, and I look forward to hearing Members' contributions to that process this afternoon.

Gadeirydd, mae dadl heddiw'n nodi carreg filltir bwysig arall ar daith y broses o graffu ar y Bil hwn. Credaf fod yr adroddiadau yr ydym wedi'u gweld hyd yn hyn wedi bod o gymorth sylweddol o ran gwneud yn siŵr y gall y Bil hwn fod y Bil gorau y gallwn ei wneud, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau'r Aelodau at y broses honno y prynhawn yma.

17:07 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

17:07 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd. Mae'n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rôl y pwyllgor oedd ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnyn nhw. Cafodd ein hadroddiad ei osod gerbron y Cynulliad ar 3 Gorffennaf. Rydym ni'n gobeithio bod y dystiolaeth a gafodd ei chasglu a'r casgliadau a ddaethom iddyn nhw wedi helpu Aelodau'r Cynulliad wrth baratoi ar gyfer dadl heddiw. Rydym ni wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r dystiolaeth a ddaeth i law, a diolch i bawb a gyfrannodd yn ysgrifenedig neu ar lafar at ein proses graffu Cyfnod 1. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r tîm clercio a'r Gwasanaeth Ymchwil am y gwaith i gefnogi'r pwyllgor.

Thank you, Chair. I'm pleased to be able to contribute to today's debate on behalf of the Health and Social Care Committee. The committee's role was to consider and report on the general principles of the Bill. Our report was laid before the Assembly on 3 July. We hope the evidence we gathered and the conclusions we drew have helped Assembly Members when preparing for today's debate. We've given detailed consideration to the evidence received, and we'd like to thank all those who contributed in writing or orally to our Stage 1 scrutiny process. I'd also like to put on record my thanks to the clerking team and the Research Service in terms of their support for the committee.

As a committee, we unanimously support the general principles of the Bill and its aim of improving the quality of care and support available to people in Wales. We welcome its intention to revise and simplify the legal framework for the regulation and inspection of social care services and the social care workforce. Our report makes a total of 46 recommendations and I'm grateful to the Minister for indicating that he's minded to accept the majority of those recommendations. I would also like to place on record my thanks to the Minister for the constructive and collaborative way that he has approached working with the committee. I look forward to this continuing during the further scrutiny of the Bill, should its principles be agreed by the Assembly today. I appreciate there will not be time during today's debate for the Minister to speak to all of our recommendations—he's clearly pointed that out. I hope, however, that he will be in a position to provide a detailed written response to our report by the end of the summer recess.

Fel pwyllgor, rydym yn unfrydol o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil a'i nod o wella ansawdd y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Rydym yn croesawu ei fwriad i ddiwygio a symleiddio'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae ein hadroddiad yn gwneud cyfanswm o 46 o argymhellion ac rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am nodi ei fod yn bwriadu derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion hynny. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Gweinidog am ei ymagwedd adeiladol a chydweithredol tuag at weithio gyda'r pwyllgor. Edrychaf ymlaen at weld hyn yn parhau yn ystod craffu pellach ar y Bil, pe byddai'r Cynulliad yn cytuno ar ei egwyddorion heddiw. Rwy'n deall na fydd amser yn ystod y ddadl heddiw i'r Gweinidog siarad am bob un o'n hargymhellion —mae ef wedi nodi hynny'n glir. Rwy'n gobeithio, fodd bynnag, y bydd mewn sefyllfa i roi ymateb ysgrifenedig manwl i'n hadroddiad erbyn diwedd toriad yr haf.

Many people in Wales, including some of the most vulnerable in our communities, rely on social care services and the people who deliver them. It is therefore vital that these services are provided compassionately, to the highest standard and in ways that respect people's dignity, wellbeing and preferred outcomes. Sadly, we have all seen and heard examples of people being let down by poor care. The distressing details that the Justice for Jasmine campaign group shared with the committee about the experiences of their relatives make that only too clear. Only this afternoon, as the Minister has pointed out, we have heard from the First Minister that the report from Dr Margaret Flynn into these cases has been published, and it makes sobering reading. This Bill is an opportunity to learn lessons from such experiences and protect others from facing similar experiences in future.

Mae llawer o bobl yng Nghymru, gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, yn dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol a'r bobl sy'n eu darparu. Felly, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn modd trugarog, i'r safon uchaf ac mewn ffyrdd sy'n parchu urddas, lles a hoff ganlyniadau pobl. Yn anffodus, rydym i gyd wedi gweld a chlywed am enghreifftiau o bobl yn cael eu siomi gan ofal gwael. Mae'r manylion gofidus a rannodd grŵp yr ymgyrch Cyfiawnder i Jasmine gyda'r pwyllgor am brofiadau eu perthnasau yn gwneud hynny'n ddigon clir. Mor ddiweddar â'r prynhawn yma, fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi, rydym wedi clywed gan y Prif Weinidog bod yr adroddiad gan Dr Margaret Flynn ynglŷn â'r achosion hyn wedi ei gyhoeddi, ac mae ei ddarllen yn gwneud i rywun feddwl yn ddifrifol. Mae'r Bil hwn yn gyfle i ddysgu gwersi o brofiadau o'r fath ac amddiffyn pobl eraill rhag wynebu profiadau tebyg yn y dyfodol.

Our recommendation 2 calls on the Minister to set out his responses to Dr Flynn's recommendations. He's actually discussed some of those aspects this afternoon. But where her recommendations are relevant to the Bill, we have asked that he sets out either how the recommendations are already reflected in the Bill or where he will bring forward amendments to address those upon his reflection as he's indicated.

Mae ein hargymhelliad 2 yn galw ar y Gweinidog i nodi ei ymatebion i argymhellion Dr Flynn. Mae wedi trafod rhai o'r agweddau hynny y prynhawn yma, a dweud y gwir. Ond lle mae ei hargymhellion yn berthnasol i'r Bil, rydym wedi gofyn iddo nodi naill ai sut y mae'r Bil eisoes yn adlewyrchu'r argymhellion, neu lle bydd yn cyflwyno gwelliannau i roi sylw iddynt ar ôl eu hystyried fel y mae wedi'i nodi.

The Bill was described to us by the Minister as a companion to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. Our recommendations seek to strengthen the regulatory and inspection framework set out by the Bill, make sure that it truly is a companion to the 2014 Act, and ensure that it supports the development of a robust and sustainable social care sector in which the people of Wales can have confidence.

Cafodd y Mesur ei ddisgrifio i ni gan y Gweinidog fel cydymaith i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ein hargymhellion yn ceisio cryfhau'r fframwaith rheoleiddio ac arolygu a bennwyd gan y Bil, gwneud yn siŵr ei fod wir yn gydymaith i Ddeddf 2014, a sicrhau ei fod yn cefnogi datblygu sector gofal cymdeithasol cadarn a chynaliadwy y gall pobl Cymru fod â ffydd ynddo.

One of our key recommendations, recommendation 38, relates to the regulation of the social care workforce. During our scrutiny, the Minister did inform us that, while the Bill will provide him with regulation-making powers to extend the requirements for who is to register with Social Care Wales, he did not intend to extend registration on the face of the Bill beyond those who are already required to register with the Care Council for Wales. We acknowledge the Minister's view that regulation is not, in and of itself, a guarantee of care standards. And we appreciate that there is a cost associated with the extension of registration. However, we must also take account of the impact on individuals and the personal cost to them of receiving poor care. We are therefore firmly of the view that domiciliary care workers who provide intimate personal care to vulnerable people in their own homes without supervision should be required to register. We also take the view that adults' residential care workers should be required to register, to ensure that there is parity of protection for adults in residential care with that for children.

Mae un o'n hargymhellion allweddol, argymhelliad 38, yn ymwneud â rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Yn ystod ein gwaith craffu, dywedodd y Gweinidog wrthym, er y bydd y Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau iddo i ymestyn y gofynion ar gyfer pwy sy'n gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, nad oedd yn bwriadu ymestyn cofrestru ar wyneb y Bil y tu hwnt i'r rhai hynny sydd eisoes yn gorfod cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru. Rydym yn cydnabod barn y Gweinidog nad yw rheoleiddio, ynddo'i hun, yn rhoi sicrwydd o safonau gofal. Ac rydym yn gwerthfawrogi bod cost yn gysylltiedig ag ymestyn cofrestru. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd ystyried yr effaith ar unigolion a'r gost bersonol iddynt o gael gofal gwael. Felly, rydym yn bendant o'r farn y dylai fod yn ofynnol i weithwyr gofal cartref gofrestru os ydynt yn darparu gofal personol i bobl agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain heb oruchwyliaeth. Rydym hefyd o'r farn y dylai fod yn ofynnol bod gweithwyr gofal preswyl i oedolion yn cofrestru, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran diogelwch i oedolion mewn gofal preswyl â'r diogelwch ar gyfer plant.

It is very likely that the public actually believes that such workers are regulated, particularly because of the use of the broad and generic term 'social care worker' to describe those subject to regulation by Social Care Wales. I hope that the Minister has reconsidered the views that he put forward in his evidence to the committee and that he will therefore bring forward amendments at Stage 2 to extend the registration to domiciliary care workers and adults' residential care workers.

Mae'n debygol iawn bod y cyhoedd mewn gwirionedd yn credu bod gweithwyr o'r fath yn cael eu rheoleiddio, yn enwedig oherwydd bod y term cyffredinol a generig 'gweithiwr gofal cymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pobl sy'n destun rheoleiddio gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Rwy'n gobeithio bod y Gweinidog wedi ailystyried y farn a gyflwynodd yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor ac y bydd felly'n cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ymestyn cofrestru i gynnwys gweithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion.

Another strong theme in the evidence that we heard relates to the regulation of local authority and local health board commissioning of social care services. The regulation and inspection of social care services is, without doubt, vital. However, we believe that improving the standard of local authority and local health board commissioning is also key to the improvement of social care services. And I am pleased that the Minister has been able to accept this recommendation, and that he intends to bring forward amendments to place an explicit duty on CSSIW in relation to local authority commissioning functions. As a committee, we look forward to considering those amendments in due course.

Mae thema gref arall yn y dystiolaeth a glywsom yn ymwneud â rheoleiddio comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, heb os, yn hanfodol. Fodd bynnag, credwn fod gwella safon comisiynu awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol hefyd yn allweddol i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi gallu derbyn yr argymhelliad hwn, a'i fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ddyletswydd benodol ar AGGCC o ran swyddogaethau comisiynu awdurdodau lleol. Fel pwyllgor, edrychwn ymlaen at ystyried y gwelliannau hynny maes o law.

There is much in the Bill that we, as a committee, welcome and which should serve to provide a more accountable, more transparent and more stable social care sector here in Wales. For example, there is the identification of senior responsible individuals who will be personally accountable for the standard of regulated services, particularly at director level, and the new duties for local authorities and the service regulator to oversee and shape the social care market. However, there is more that needs to be done to strengthen the Bill. We must make sure that the regulatory inspection regime in Wales is robust and that it provides a sound basis for a well regulated social care sector in which high-quality services are delivered by a properly trained, qualified and regulated social care workforce. In the event of the Assembly agreeing the general principles, we look forward to scrutinising the Bill further at Stage 2.

Mae llawer yn y Bil yr ydym ni, fel pwyllgor, yn ei groesawu ac a ddylai ddarparu sector gofal cymdeithasol mwy atebol, mwy tryloyw a mwy sefydlog yma yng Nghymru. Er enghraifft, nodi'r unigolion cyfrifol uwch a fydd yn bersonol atebol am safon gwasanaethau rheoledig, yn enwedig ar lefel cyfarwyddwyr, a'r dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol a'r rheoleiddiwr gwasanaethau i oruchwylio a llunio'r farchnad gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i gryfhau'r Bil. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod y drefn arolygu rheoleiddiol yng Nghymru yn gadarn a'i bod yn darparu sail gadarn ar gyfer sector gofal cymdeithasol wedi'i reoleiddio'n dda lle caiff gwasanaethau o safon uchel eu darparu gan weithlu gofal cymdeithasol cymwysedig sydd wedi'i hyfforddi a'i reoleiddio'n briodol. Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, rydym yn edrych ymlaen at graffu ar y Bil ymhellach yng Nghyfnod 2.

17:13 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

17:13 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. I'm very pleased to contribute to this debate as the Chair of the Finance Committee. The committee is responsible for considering the wider financial implications of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill as it makes its way through the legislative process.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n falch iawn o gael cyfrannu at y ddadl hon fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Y pwyllgor sy'n gyfrifol am ystyried goblygiadau ariannol ehangach y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) wrth iddo fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol.

We held an evidence session on 13 May that focused on the methodology used to calculate the costs and the benefits in the regulatory impact assessment and the accuracy of the costs that were presented. I'd like to thank the Minister for attending that session to give evidence and for writing to the committee beforehand to give us prior notice of changes made to the costs in the impact assessment.

Cawsom sesiwn dystiolaeth ar 13 Mai a oedd yn canolbwyntio ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r costau a'r buddiannau yn yr asesiad o effaith rheoleiddiol a chywirdeb y costau a gyflwynwyd. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ddod i'r sesiwn honno i roi tystiolaeth ac am ysgrifennu at y pwyllgor ymlaen llaw i roi rhybudd ymlaen llaw inni o newidiadau a wnaethpwyd i'r costau yn yr asesiad o effaith.

The committee was pleased to hear that the Minister is in continual discussions with the Care and Social Services Inspectorate Wales and the Care Council for Wales, and has committed to keeping the impact assessment under review. It was reassuring to hear that the Minister will update the financial implications of the Bill to take account of issues identified by stakeholders as the scrutiny process continues.

Roedd y pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog yn cael trafodaethau parhaus gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gofal Cymru, a'i fod wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r asesiad o effaith. Roedd yn galonogol clywed y bydd y Gweinidog yn diweddaru goblygiadau ariannol y Bil i ystyried materion a nodwyd gan randdeiliaid wrth i'r broses graffu barhau.

The committee considered evidence from the Auditor General for Wales, which he gave to the Health and Social Care Committee, regarding the appropriateness of the five-year time period over which costs in the Bill were analysed. In response to this concern, the Minister told us that five years was a reasonable time frame and the committee agreed with the Minister, and believed that this time period gives reasonable certainty. To extend the analysis beyond five years could make the costs too unreliable to rely on.

Ystyriodd y pwyllgor dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a roddodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â phriodoldeb y cyfnod o bum mlynedd ar gyfer dadansoddi costau'r Bil. Wrth ymateb i'r pryder hwn, dywedodd y Gweinidog wrthym fod pum mlynedd yn amserlen resymol a chytunodd y pwyllgor gyda'r Gweinidog, gan gredu bod y cyfnod hwn yn rhoi sicrwydd rhesymol. Gallai ymestyn y dadansoddiad y tu hwnt i bum mlynedd wneud y costau'n rhy annibynadwy i ddibynnu arnynt.

Members raised concerns that transitional costs for Care and Social Services Inspectorate Wales may rise. They had particular concerns about costs relating to the move to a service model of registration, the provision of training and information across the whole sector and changes to IT. The Minister confirmed that if these transitional costs do rise, he has a budget line available from the social services and wellbeing Act to cover them. As a committee, we feel that this is reasonable due to the connection between these two pieces of legislation.

Mynegodd yr Aelodau bryderon y gallai costau trosiannol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru godi. Roeddent yn pryderu'n benodol ynghylch costau'n ymwneud â symud at fodel cofrestru gwasanaeth, darparu hyfforddiant a gwybodaeth ar draws y sector cyfan a newidiadau i TG. Cadarnhaodd y Gweinidog, pe byddai'r costau trosiannol hyn yn codi, bod llinell gyllideb ar gael iddo gan y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant i dalu amdanynt. Fel pwyllgor, rydym yn teimlo bod hyn yn rhesymol oherwydd y cysylltiad rhwng y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth.

One of the areas of concern for committee were the two provisions within the Bill that give Welsh Ministers the power to make subordinate legislation on the protection of title and prohibition Orders. These provisions have not been costed. During our evidence session, the Minister told us that while the Bill provides an opportunity to include subordinate legislation provisions, he didn't currently intend to use them, although they could be used in the future.

Un o'r meysydd a oedd yn peri pryder i'r pwyllgor oedd y ddwy ddarpariaeth yn y Bil sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ar ddiogelu Gorchmynion teitl a gwahardd. Nid yw'r darpariaethau hyn wedi eu costio. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Gweinidog wrthym, er bod y Bil yn rhoi cyfle i gynnwys darpariaethau is-ddeddfwriaeth, nad oedd yn bwriadu eu defnyddio ar hyn o bryd, er y gellid eu defnyddio yn y dyfodol.

Whilst we appreciate that legislation needs to be futureproofed, Members firmly believe that all costs in relation to legislation should be accounted for, whether the intention is to use them or not, and we would urge the Minister, and indeed the Welsh Government, to ensure that all provisions included in Bills are properly costed.

Er ein bod yn gwerthfawrogi bod angen diogelu deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol, mae Aelodau’n credu'n gryf y dylid rhoi cyfrif am bob cost sy’n gysylltiedig â deddfwriaeth, pa un a oes bwriad i’w defnyddio ai peidio, a byddem yn annog y Gweinidog, ac yn wir Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod pob darpariaeth a gynhwysir mewn Biliau wedi’i chostio'n briodol.

In conclusion, the committee believes the overall cost to be reasonable and we hope our considerations will be helpful to the Assembly in its continuing scrutiny of this Bill.

I gloi, mae'r pwyllgor yn credu bod y gost gyffredinol yn rhesymol ac rydym yn gobeithio y bydd ein hystyriaethau o gymorth i'r Cynulliad yn ei waith craffu parhaus ar y Bil hwn.

17:16 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee—David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol—David Melding.

17:16 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. We reported on this Bill on 3 July and the Minister briefed me on the recommendations he was minded to accept last week. I welcome this open and collaborative approach, and indeed I thank him also for his courtesy. It has allowed us to focus on this debate in what is a wide-ranging and important Bill.

Diolch, Gadeirydd. Fe wnaethon ni adrodd ar y Bil hwn ar 3 Gorffennaf ac fe wnaeth y Gweinidog fy mriffio ar yr argymhellion yr oedd yn bwriadu eu derbyn yr wythnos diwethaf. Rwy’n croesawu’r ymagwedd agored a chydweithredol hon, ac yn wir rwyf hefyd yn diolch iddo am ei gwrteisi. Mae wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar y ddadl hon yn y Bil eang a phwysig hwn.

It is pleasing to see that 10 of the committee’s 14 recommendations have been, in some form, accepted. In particular, I welcome the clarification provided, including the Minister’s letter to the committee today, on recommendation 1 regarding the analysis undertaken to ensure the Bill is compatible with the European convention on human rights. I thought that letter was very helpful indeed and largely reassuring. Obviously, it can be further scrutinised in the legislative process, but I do thank him for that.

Mae'n braf gweld bod 10 o 14 o argymhellion y pwyllgor wedi cael eu derbyn i ryw raddau. Yn benodol, rwy’n croesawu'r eglurhad a roddwyd, gan gynnwys llythyr y Gweinidog at y pwyllgor heddiw, am argymhelliad 1 ynghylch y dadansoddiad a wnaethpwyd i sicrhau bod y Bil yn gydnaws â'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol. Roeddwn i'n meddwl bod y llythyr yn ddefnyddiol iawn yn wir ac yn galonogol ar y cyfan. Yn amlwg, gellir craffu ymhellach arno yn y broses ddeddfwriaethol, ond rwy’n diolch iddo am hynny.

It’s also pleasing to see that all four recommendations advocating the use of a superaffirmative procedure to make regulations have been accepted.

Mae hefyd yn braf gweld bod pob un o'r pedwar argymhelliad o blaid defnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol i wneud rheoliadau wedi eu derbyn.

I would now like to say a few words on some of the recommendations that have not been accepted. Can I turn to recommendation 5? This relates to section 19(6) of the Bill, which provides the Welsh Ministers with the power to specify circumstances in which they may designate a responsible individual, despite the individual not satisfying the requirements under sections 19(2) and 19(4). I can understand the logic for this, as I’m sure the subject committee could, but we recommended that some of these circumstances should be identified on the face of the Bill, with the power to add further circumstances being retained through regulations subject to the negative procedure. I’ve noted the Minister’s comments on this and, again, it’s a matter that can be further explored during Stage 2 proceedings, but it would help, I think, if some of these circumstances were on the face of the Bill. Otherwise, it does seem, to some extent, to go against the actual focus of the Bill, though for reasons that occasionally could be demanded by particular circumstances.

Hoffwn yn awr ddweud ychydig eiriau am rai o'r argymhellion nad ydynt wedi eu derbyn. A gaf i droi at argymhelliad 5? Mae hwn yn ymwneud ag adran 19(6) y Bil, sy'n rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru i bennu amgylchiadau lle gallant ddynodi unigolyn cyfrifol, hyd yn oed os nad yw’r unigolyn yn bodloni'r gofynion o dan adrannau 19(2) a 19(4). Gallaf ddeall y rhesymeg am hyn, fel yr wyf yn siŵr y gallai'r pwyllgor pwnc, ond gwnaethom argymell y dylid nodi rhai o'r amgylchiadau hyn ar wyneb y Bil, gan gadw’r pŵer i ychwanegu amgylchiadau pellach drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Rwyf wedi nodi sylwadau'r Gweinidog am hyn ac, unwaith eto, mae'n fater y gellir ei archwilio ymhellach yn ystod trafodion Cyfnod 2, ond byddai o gymorth, rwy’n meddwl, pe byddai rhai o'r amgylchiadau hyn ar wyneb y Bil. Fel arall, mae'n ymddangos, i ryw raddau, ei fod yn mynd yn erbyn pwyslais gwirioneddol y Bil, er bod hynny am resymau y gellid bod eu hangen o bryd i'w gilydd gan amgylchiadau penodol.

Recommendation 11 concerns section 110 of the Bill. Subsection (5) enables the Welsh Ministers to amend the bodies listed in subsection (4) of the Bill that maintain a relevant register. The Minister has acknowledged that these regulations amend primary legislation, but the Minister believes that the powers are so very narrowly conceived that any changes to subsection (4) would simply be of a factual nature. I have no doubt that that is his intention, however, the powers are drafted very widely and could permit changes that are more radical in nature.

Mae argymhelliad 11 yn ymwneud ag adran 110 y Bil. Mae isadran (5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyrff a restrir yn isadran (4) y Bil sy'n cadw cofrestr berthnasol. Mae'r Gweinidog wedi cydnabod bod y rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, ond mae'r Gweinidog yn credu bod y pwerau wedi'u llunio mor gul fel mai dim ond ffeithiol fyddai unrhyw newidiadau i isadran (4). Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth mai dyna yw ei fwriad, ond mae'r pwerau wedi eu drafftio'n eang iawn a gallen nhw ganiatáu newidiadau sy'n fwy sylfaenol eu natur.

As our report emphasises—and I do so now again—it is important to consider how powers could be used by a different Minister in the future, not just how they are intended to be used at the time a Bill is introduced. It remains an important point of principle that any regulations that amend primary legislation, however minor they are perceived to be by Ministers, must be subject, at the very least, to the affirmative procedure. Indeed, this is a principle that the Welsh Government has adopted in some of its Bills. To amend an Act that has been through a four-stage scrutiny procedure in the Assembly by means of a statutory instrument subject to the negative procedure is, in our view, not acceptable. I therefore urge the Minister to reconsider his decision on recommendation 11, and to apply the affirmative procedure to regulations made in accordance with section 110(5) of the Bill. Thank you, Chair.

Fel y mae ein hadroddiad yn ei bwysleisio—ac rwy'n gwneud hynny nawr unwaith eto—mae'n bwysig ystyried sut y gallai Gweinidog gwahanol ddefnyddio pwerau yn y dyfodol, nid dim ond sut yr ydym yn bwriadu eu defnyddio ar adeg cyflwyno Bil. Mae'n dal i fod yn bwynt pwysig o egwyddor bod yn rhaid i unrhyw reoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, waeth pa mor fân y maent yn ymddangos i Weinidogion, fod yn ddarostyngedig, o leiaf, i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn wir, mae hon yn egwyddor y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu yn rhai o'i Biliau. Yn ein barn ni, nid yw'n dderbyniol i ddiwygio Deddf sydd wedi bod drwy weithdrefn graffu pedwar cyfnod yn y Cynulliad drwy gyfrwng offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Felly, rwy'n annog y Gweinidog i ailystyried ei benderfyniad ar argymhelliad 11, ac i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wnaethpwyd yn unol ag adran 110(5) y Bil. Diolch, Gadeirydd.

17:21

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm very pleased to contribute to this debate, above all because it's so good to see a Welsh Labour health Minister grasping the nettle of regulation and inspection of social care in Wales. Countless examples spring to mind that show why this legislation is needed: the landmark report into residential care, published by the older people's commissioner; the allegations facing domiciliary care providers avoiding paying their staff the minimum wage; the truly shocking abuse and neglect at care homes across south Wales, investigated under Operation Jasmine and laid bare in Margaret Flynn's report, published today—a report that I really welcome; or the national crisis sparked by the sudden collapse of Southern Cross and other private sector providers that we've seen cut and run from their responsibilities since then.

Rwy'n falch iawn o gyfrannu at y ddadl hon, yn anad dim am ei bod mor braf gweld un o Weinidogion iechyd Llafur Cymru mynd i'r afael â phwnc anodd rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae enghreifftiau dirifedi yn dod i'r meddwl sy'n dangos pam mae angen y ddeddfwriaeth hon: yr adroddiad pwysig ar ofal preswyl, a gyhoeddwyd gan y comisiynydd pobl hŷn; yr honiadau sy'n wynebu darparwyr gofal cartref sy'n osgoi talu'r isafswm cyflog i'w staff; y cam-drin a'r esgeulustod gwirioneddol frawychus mewn cartrefi gofal ledled y de, sy'n destun ymchwiliad Ymgyrch Jasmine ac a ddatgelwyd yn adroddiad Margaret Flynn, a gyhoeddwyd heddiw—adroddiad yr wyf yn ei groesawu'n fawr; neu'r argyfwng cenedlaethol a sbardunwyd gan gwymp sydyn Southern Cross a darparwyr eraill yn y sector preifat yr ydym wedi eu gweld yn ei baglu hi oddi wrth eu cyfrifoldebau ers hynny.

Let's face it, the root-and-branch reshaping of our whole approach to this sector is long overdue, and I applaud the health Minister for taking on this arduous but absolutely vital task. Clearly, though, by its very nature, this Bill is wide ranging. Indeed, that's reflected in the fact that the health committee's report makes 46 recommendations. It's impossible to cover everything within five minutes, so I just want to pick out a few areas. Perhaps foremost for me is this question around recommendation 38 of the committee's report, which calls for the registration of domiciliary and residential care workers to be included on the face of the Bill.

Y gwir amdani yw ei bod yn hen bryd inni ail-lunio'r sector hwn yn llwyr, a chymeradwyaf y Gweinidog iechyd am dderbyn y dasg lafurus ond cwbl hanfodol hon. Yn amlwg, fodd bynnag, yn ei hanfod, mae'r Bil hwn yn eang ei gwmpas. Yn wir, mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ffaith bod adroddiad y pwyllgor iechyd yn gwneud 46 o argymhellion. Mae'n amhosibl sôn am bopeth mewn pum munud, felly hoffwn ddewis ambell i faes. Efallai mai'r pwysicaf i mi yw'r mater ynglŷn ag argymhelliad 38 adroddiad y pwyllgor, sy'n galw am gynnwys cofrestru gweithwyr gofal cartref a gofal preswyl ar wyneb y Bil.

I've listened to the Minister's arguments carefully in terms of the financial implications that mandatory registration is not, in itself, a panacea when it comes to driving up standards, and that the door would remain open for doing this in the future, using the powers set out in section 78 of the Bill, but I really feel that the time is now right to put these professionals who, after all, do such an important job, providing care for some of our most vulnerable citizens, on the same footing as the nurses, the children's residential care workers and the social workers for whom mandatory registration has for so long been a given. Not only would registration linked to a common code of practice and mandatory training help boost skill levels and professionalise the sector, but I believe it would do a power of good for the general esteem and morale of the workforce themselves who, let's face it, have been under the spotlight over many years and deserve this opportunity for professional development and parity with their peers in other key areas of social care delivery. As the committee report says, while this may have financial implications, that must be balanced against the huge potential benefits in terms of protecting vulnerable adults from harm or neglect, and a huge boost in terms of public confidence that only a registered and regulated workforce can provide.

Rwyf wedi gwrando'n astud ar ddadleuon y Gweinidog ynglŷn â'r goblygiadau ariannol nad yw cofrestru gorfodol, ynddo'i hun, yn ateb pob problem o ran codi safonau, ac y byddai'r drws yn dal i fod ar agor i wneud hyn yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r pwerau a nodir yn adran 78 y Bil, ond rwyf wir yn teimlo mai dyma'r amser iawn i roi'r gweithwyr proffesiynol hyn sydd, wedi'r cyfan, yn gwneud gwaith mor bwysig, yn darparu gofal i rai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, ar yr un telerau â'r nyrsys, y gweithwyr gofal preswyl i blant a'r gweithwyr cymdeithasol sydd wedi gorfod cofrestru ers cyhyd. Nid yn unig y byddai cysylltu cofrestru â chod ymarfer cyffredin a hyfforddiant gorfodol yn helpu i roi hwb i lefelau sgiliau ac yn proffesiynoli'r sector, ond rwy'n credu y byddai hefyd yn gwneud byd o les i barch ac ysbryd cyffredinol y gweithlu eu hunain sydd, gadewch inni wynebu'r peth, wedi bod o dan y chwyddwydr ers blynyddoedd lawer ac yn haeddu'r cyfle hwn am ddatblygiad proffesiynol a chydraddoldeb gyda'u cymheiriaid mewn meysydd allweddol eraill o ran darparu gofal cymdeithasol. Fel y dywed adroddiad y pwyllgor, er y gall hyn fod â goblygiadau ariannol, mae'n rhaid cydbwyso hynny yn erbyn y manteision enfawr posibl o ran amddiffyn oedolion agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hesgeuluso, a'r hwb enfawr i hyder y cyhoedd y byddai gweithlu cofrestredig wedi'i reoleiddio yn ei ddarparu.

Although I obviously haven't had a chance to fully digest Margaret Flynn's report, it is very apparent that there is a direct synergy between her key recommendations around staffing in residential care and these calls for mandatory registration. I hope that the Minister will give that due consideration as this Bill continues on its legislative journey.

Er nad wyf yn amlwg wedi cael cyfle i ystyried adroddiad Margaret Flynn yn llawn, mae'n amlwg iawn bod yna synergedd uniongyrchol rhwng ei hargymhellion allweddol ynglŷn â staff gofal preswyl a'r galwadau hyn am gofrestru gorfodol. Rwy'n gobeithio y gwnaiff y Gweinidog roi ystyriaeth ddyledus i hynny wrth i'r Bil hwn barhau ar ei daith ddeddfwriaethol.

It's my memory of the shocking situation exposed more than a decade ago at the Beeches care home in Blaenavon, operated by Dr Das, that underlines for me just how important the fitness-to-own test could be in improving standards in residential care. The tribunal report that was published at that time was one of the most upsetting documents I've ever had to read in my time as an Assembly Member. I really welcome the fact that the Minister is seeking to finally tackle this issue head on, particularly as he's made it clear that he intends to go much further than simply looking at an individual's financial viability.

Fy nghof i o'r sefyllfa syfrdanol a ddatgelwyd dros ddegawd yn ôl yn y cartref gofal Beeches ym Mlaenafon, a weithredwyd gan Dr Das, sy'n tanlinellu i mi pa mor bwysig y gallai'r prawf ffitrwydd i fod yn berchennog fod i wella safonau mewn gofal preswyl. Roedd yr adroddiad tribiwnlys a gyhoeddwyd ar y pryd yn un o'r dogfennau a achosodd y mwyaf o ofid o'r rhai yr wyf erioed wedi gorfod eu darllen yn fy amser fel Aelod Cynulliad. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod y Gweinidog yn ceisio ymdrin yn gadarn â'r mater hwn o'r diwedd, yn enwedig gan ei fod wedi ei gwneud yn glir ei fod yn bwriadu mynd yn llawer pellach na dim ond edrych ar sefyllfa ariannol unigolyn.

I do, though, also agree with the committee's view that consideration must be given to how these provisions would work in relation to UK-wide or multinational organisations operating in the sector, as I've seen first-hand in relation to St Dunstan's care home in my constituency, and the extent to which these companies can very badly let down the people they're meant to care for.

Fodd bynnag, rwy'n cytuno hefyd â barn y pwyllgor bod yn rhaid ystyried sut y byddai'r darpariaethau hyn yn gweithio ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu ledled y DU neu'n rhyngwladol yn y sector, fel yr wyf wedi'i weld yn uniongyrchol yng nghartref gofal St Dunstan yn fy etholaeth i, ac i ba raddau y gall y cwmnïau hyn beri siom ddifrifol i'r bobl y maent yn fod i ofalu amdanynt.

Finally, while I've already said that I'm very supportive of what the Minister is seeking to achieve through this legislation, I would urge him to consider looking again at the use of lay assessors on the face of the Bill, so that they are central to the new regulation and inspection regime we're seeking to establish here in Wales. I respect what the Minister has said in terms of not wanting to tie the hands of the regulator when it comes to their approach to public involvement, but on balance I agree with our committee's conclusion, backed by the older people's commissioner, that there is a wealth of evidence that suggests extending the use of lay inspectors could be hugely beneficial, and that they should be integral to the new approach to regulation and inspection that this legislation seeks to establish. Thank you.

Yn olaf, er fy mod eisoes wedi dweud fy mod yn gefnogol iawn o'r hyn y mae'r Gweinidog yn ceisio ei gyflawni drwy'r ddeddfwriaeth hon, byddwn yn ei annog i ystyried edrych eto ar ddefnyddio aseswyr lleyg ar wyneb y Bil, fel eu bod yn ganolog i'r drefn reoleiddio ac arolygu newydd yr ydym yn ceisio'i sefydlu yma yng Nghymru. Rwy'n parchu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, nad yw eisiau clymu dwylo'r rheoleiddiwr o ran ei ddull o gynnwys y cyhoedd, ond ar y cyfan rwy'n cytuno â chasgliad ein pwyllgor, a gefnogir gan y comisiynydd pobl hŷn, sef bod cyfoeth o dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai defnyddio mwy ar arolygwyr lleyg fod yn hynod fuddiol, ac y dylent fod yn rhan annatod o'r dulliau rheoleiddio ac arolygu newydd y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ceisio eu sefydlu. Diolch.

17:25

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservatives support the general principles of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill and will therefore be supporting the motion before us today. We do have some concerns, however, and will seek to strengthen the Bill during its progress through the Health and Social Care Committee.

Mae Ceidwadwyr Cymru o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac felly byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw. Mae gennym rai pryderon, fodd bynnag, a byddwn yn ceisio cryfhau'r Bil ar ei hynt drwy'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

For the vast majority of people the care and support they receive from social services is excellent, but we have seen examples of truly shocking poor care that has let down some of the most vulnerable in our society. We welcome the Welsh Government's commitment to learn the lessons of Mid Staffs, Winterbourne and Southern Cross, as well as the lessons from Operation Jasmine, which looked at abuse and neglect at care homes in south Wales. I would like to thank Margaret Flynn for her report today and look forward to working with the Minister in implementing her recommendations. This Bill must ensure that such appalling levels of abuse and neglect can never happen again.

I'r mwyafrif helaeth o bobl, mae'r gofal a'r cymorth a gânt gan y gwasanaethau cymdeithasol yn rhagorol, ond rydym wedi gweld enghreifftiau o ofal gwirioneddol syfrdanol o wael sydd wedi siomi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddysgu gwersi o Ganol Swydd Stafford, Winterbourne a Southern Cross, yn ogystal â gwersi o Operation Jasmine, a oedd yn edrych ar gam-drin ac esgeulustod mewn cartrefi gofal yn y de. Hoffwn ddiolch i Margaret Flynn am ei hadroddiad heddiw ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Gweinidog i roi ei hargymhellion ar waith. Mae'n rhaid i'r Bil hwn sicrhau na all cam-drin ac esgeulustod mor ofnadwy ddigwydd byth eto.

The intentions behind the bill are to transform the social services sector to ensure users and carers have greater control over the services they receive. This is an aim we all support and Welsh Conservatives will seek to strengthen the voice of service users and their carers throughout the passage of this Bill. One of our biggest concerns, and that of the majority of stakeholders, is the lack of a section on commissioning within the Bill. Age Alliance Wales and others have pointed to the trend for local authorities and local health boards to commission services in place of providing them themselves. There is a clear need for a new regulation and inspection regime to take account of commissioning. Many witnesses to the committee stated that there are too many examples of commissioning on the basis of cost rather than the quality of the care provided.

Y bwriad y tu ôl i'r bil yw gweddnewid y sector gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod gan ddefnyddwyr a gofalwyr fwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Mae hwn yn nod yr ydym i gyd yn ei gefnogi, a bydd Ceidwadwyr Cymru'n ceisio cryfhau llais defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr drwy gydol taith y Bil hwn. Un o'n pryderon mwyaf ni, a'r mwyafrif o randdeiliaid, yw nad oes adran ar gomisiynu o fewn y Bil. Mae Cynghrair Henoed Cymru ac eraill wedi tynnu sylw at y duedd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gomisiynu gwasanaethau yn hytrach na'u darparu eu hunain. Mae'n amlwg bod angen i drefn newydd o reoleiddio ac arolygu ystyried comisiynu. Dywedodd llawer o dystion y pwyllgor fod gormod o enghreifftiau o gomisiynu'n seiliedig ar gost yn hytrach nag ansawdd y gofal a ddarperir.

If we are to achieve the intentions of this Bill, we must ensure that commissioning is not influenced by the need to cut costs. We therefore hope that the Minister accepts the Health and Social Care Committee's recommendation that CSSIW has a duty to review commissioning against quality-of-life outcomes. Welsh Conservatives would also like to see greater emphasis on joint commissioning between local authorities and local health boards. We welcome the committee's recommendation that the Minister amend the Bill to place a duty on local authorities and local health boards to work collaboratively with each other in the preparation of market stability reports. We need to encourage closer working between the NHS and social services.

Os ydym am gyflawni bwriadau'r Bil hwn, mae'n rhaid inni sicrhau nad yw'r angen i dorri costau'n dylanwadu ar gomisiynu. Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod gan AGGCC ddyletswydd i adolygu comisiynu yn erbyn canlyniadau ansawdd bywyd. Byddai Ceidwadwyr Cymru hefyd yn hoffi gweld mwy o bwyslais ar gomisiynu ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Rydym yn croesawu argymhelliad y pwyllgor bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i'w gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gydweithio â'i gilydd wrth baratoi adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad. Mae angen inni annog cydweithio agosach rhwng y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol.

We also welcome the recommendation that market stability reports should include consideration of the role of the third sector and social enterprises in service provision. Welsh Conservatives would like to see a greater role for the third sector, co-operatives and social enterprises in the delivery of care. The public sector cannot be the only provider of public services.

Rydym hefyd yn croesawu'r argymhelliad y dylai adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad gynnwys ystyried gwaith y trydydd sector a mentrau cymdeithasol yn y broses o ddarparu gwasanaethau. Byddai Ceidwadwyr Cymru'n hoffi gweld mwy o gyfraniad gan y trydydd sector, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gofal. Ni all y sector cyhoeddus fod yr unig un sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Another area of concern is the lack of redress contained within the Bill. As I mentioned earlier when responding to the care and support eligibility regulations, the Care Act 2014 in England gives service users and carers a right of appeal. Welsh Conservatives support the concerns of stakeholders that there needs to be a robust method of redress within the Bill. There must be processes in place to allow individuals to challenge decisions over their assessment, their care or the support they receive. There also needs to be a right for carers to challenge the support they receive. We do not accept that the process should be via the local authority complaints procedure. There needs to be a truly independent avenue open for people and their carers to challenge decisions made about them and their care.

Maes arall sy'n peri pryder yw'r diffyg gwneud iawn a geir yn y Bil. Fel y soniais yn gynharach wrth ymateb i'r rheoliadau cymhwystra gofal a chymorth, mae Deddf Gofal 2014 yn Lloegr yn rhoi hawl i apelio i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae Ceidwadwyr Cymru'n cefnogi pryderon rhanddeiliaid bod angen dull cadarn o wneud iawn yn y Bil. Mae'n rhaid bod prosesau ar waith i ganiatáu i unigolion herio penderfyniadau ynglŷn â'u hasesiad, eu gofal neu'r cymorth a gânt. Mae hefyd angen hawl i ofalwyr i herio'r cymorth a gânt. Nid ydym yn derbyn y dylai'r broses fod drwy gyfrwng trefn gwyno'r awdurdod lleol. Mae angen agor llwybr gwirioneddol annibynnol i bobl a'u gofalwyr i herio penderfyniadau a wneir amdanyn nhw a'u gofal.

In summary, there is much about this Bill that we support. Welsh Conservatives will work with you in order to strengthen the legislation to ensure we have a robust regulation and inspection regime that puts high-quality care and the rights of the individual above all else.Thank you.

I grynhoi, rydym yn cefnogi llawer o'r Bil hwn. Bydd Ceidwadwyr Cymru'n gweithio gyda chi i gryfhau'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gennym drefn rheoleiddio ac arolygu gadarn lle mae gofal o safon uchel a hawliau'r unigolyn yn bwysicach na dim byd arall. Diolch.

17:30

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I say, first of all this afternoon, I very much welcome the way in which the Minister introduced this Bill and the debate this afternoon? I very much welcome the way in which he referred to the Flynn report and the way in which that had influenced and guided his thinking in introducing the Bill in front of us. Clearly, he has the advantage of having been able to spend more time studying that report than others here, so I think all of us will wish to take some time to read through that report and think through some of the implications of what has been written in it before we reach our own conclusions.

A gaf ddweud, yn gyntaf oll y prynhawn yma, fy mod yn croesawu'n fawr y ffordd y cyflwynodd y Gweinidog y Bil hwn a'r ddadl y prynhawn yma? Croesawaf yn fawr iawn y ffordd y cyfeiriodd at adroddiad Flynn a'r ffordd yr oedd hwnnw wedi dylanwadu ar ei feddyliau a'u harwain o ran cyflwyno'r Bil o'n blaenau. Yn amlwg, mae ganddo'r fantais o fod wedi gallu treulio mwy o amser yn astudio'r adroddiad hwnnw nag eraill yma, felly rwy'n meddwl yr hoffai pob un ohonom gymryd rhywfaint o amser i ddarllen drwy'r adroddiad a meddwl am rai o oblygiadau'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ynddo cyn inni ddod i'n casgliadau ein hunain.

But we have seen, and I think it's extraordinarily disturbing to have seen, both the history of Operation Jasmine, the Flynn report, and, also, the older person's commissioner's report, 'A Place to Call Home?', published last year. Taken together, they do build a very compelling picture of failures of care in many places and all too often. If this Bill is to succeed, then it must address both of those reports and it must address the failures in the current regulatory regime that have allowed such things to happen.

Ond rydym wedi gweld, ac rwy'n meddwl ei bod yn hynod o annymunol ein bod wedi gweld, hanes Operation Jasmine, adroddiad Flynn, a, hefyd, adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, 'Lle i'w Alw'n Gartref?', yn cael eu cyhoeddi y llynedd. Gyda'i gilydd, maent yn creu darlun grymus iawn o fethiannau gofal mewn llawer o leoedd, a hynny'n rhy aml o lawer. Os yw'r Bil hwn yn mynd i lwyddo, mae'n rhaid iddo ymdrin â'r ddau adroddiad hynny, ac mae'n rhaid iddo ymdrin â'r methiannau yn y drefn reoleiddio bresennol sydd wedi caniatáu i bethau felly ddigwydd.

I hope that this will do so. I hope that the Minister will approach this scrutiny process in the positive way he has done so up until now, because if there is a common thread that I've seen running through both Flynn and 'A Place to Call Home?', it is a lack of common humanity in dealing with people's fundamental human needs. That is not an easy thing to write into legislation, and I think one of the most fundamental and important parts of the committee's report was that which focused on a rights-based approach for care and the nature of care, and, also, the definition of what care is.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn gwneud hynny. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ymdrin â'r broses graffu hon yn y ffordd gadarnhaol y mae wedi ei wneud hyd yma, oherwydd os wyf wedi gweld llinyn cyffredin yn rhedeg drwy Flynn a 'Lle i'w Alw'n Gartref?', hwnnw yw diffyg dyngarwch cyffredin wrth ymdrin ag anghenion dynol sylfaenol pobl. Nid yw hynny'n beth hawdd i'w ysgrifennu mewn deddfwriaeth, ac rwy'n meddwl mai un o'r rhannau mwyaf sylfaenol a phwysig o adroddiad y pwyllgor oedd y rhan a oedd yn canolbwyntio ar ddulliau gofal a natur gofal sy'n seiliedig ar hawliau, a, hefyd, y diffiniad o beth yw gofal.

Too often, we define care in terms of a task-based orientation, whereby people are 'toileted'—that's an appalling thing to say—or people are 'provided for'—are fed. But what we do not do, and what we have failed to do, is to determine and define care in terms of a human being with human needs. We need to find a way of doing that, and then we need to ensure that regulation delivers that—doesn't deliver it most of the time in most places, but delivers it all of the time everywhere—and that we have the structures in place to recognise where that is not delivered and then to be able to do something about it. We must not allow it to continue for weeks and for months and for years, turning a blind eye to significant failures, pretending it isn't happening and pretending it's on somebody else's watch, but fundamentally not addressing those failures.

Yn rhy aml, rydym yn diffinio gofal yn seiliedig ar dasgau, lle mae pobl yn cael eu 'toiledu'—dyna beth ofnadwy i'w ddweud—neu'n sôn am 'ddarparu ar gyfer' pobl—eu bwydo. Ond yr hyn nad ydym yn ei wneud, a'r hyn yr ydym wedi methu â'i wneud, yw pennu a diffinio gofal yn nhermau bod dynol sydd ag anghenion dynol. Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o wneud hynny, ac yna mae angen inni sicrhau bod rheoleiddio'n cyflawni hynny—nid ei gyflawni y rhan fwyaf o'r amser yn y rhan fwyaf o leoedd, ond yn ei gyflawni bob amser ym mhobman—a bod y strwythurau ar waith gennym i gydnabod lle nad yw hynny'n cael ei gyflawni, ac yna i allu gwneud rhywbeth yn ei gylch. Mae'n rhaid inni beidio â gadael i hyn barhau am wythnosau ac am fisoedd ac am flynyddoedd, gan anwybyddu methiannau sylweddol, esgus nad yw'n digwydd ac esgus mai rhywun arall sy'n gyfrifol amdano, ond yn sylfaenol peidio ag ymdrin â'r methiannau hynny.

So, we do need, fundamentally, the rights-based approach to ensure that people do have the right to excellence of care. We need care defined in a way that meets their needs as humans, and not simply the needs of those providing the care. Then, we need a culture of regulation that actually ensures that those things happen.

Felly, mae arnom angen, yn y bôn, yr ymagwedd seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan bobl hawl i gael gofal rhagorol. Mae angen inni ddiffinio gofal mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion fel pobl, ac nid dim ond anghenion y bobl sy'n darparu'r gofal. Yna, mae arnom angen diwylliant o reoleiddio sydd yn sicrhau mewn gwirionedd bod y pethau hynny'n digwydd.

Sitting through and taking part in the scrutiny process, I found myself and I felt myself coming to the conclusion that one of the most fundamental failures that we have in Wales is not simply the structures and framework of regulation, but the culture of regulation. I found myself thinking that regulation was too easy and too cosy, that we wanted to co-operate and to collaborate so much that we weren't prepared to say 'stop' and we weren't prepared to make the hard calls. That is a culture of regulation that needs to change and must change.

Wrth eistedd drwy'r broses graffu a chymryd rhan ynddi, canfûm fy hun a theimlo fy hun yn dod i'r casgliad mai un o'r methiannau mwyaf sylfaenol sydd gennym yng Nghymru yw nid dim ond strwythurau a fframwaith rheoleiddio, ond diwylliant rheoleiddio. Canfûm fy hun yn meddwl bod rheoleiddio'n rhy hawdd ac yn rhy glyd, ein bod mor awyddus i gydweithredu a chydweithio fel nad oeddem yn barod i ddweud 'arhoswch' ac nad oeddem yn barod i wneud y penderfyniadau anodd. Mae hwnnw'n ddiwylliant o reoleiddio y mae angen ei newid ac sy'n gorfod newid.

So, yes, we need structures, new regulations and new frameworks, but we need a culture that recognises failure and is prepared to do something about it. That culture is something, I hope, that this Bill will help deliver.

Felly, oes, mae arnom ni angen strwythurau, rheoliadau newydd a fframweithiau newydd, ond mae arnom ni angen diwylliant sy'n cydnabod methiant ac yn barod i wneud rhywbeth amdano. Mae’r diwylliant hwnnw’n rhywbeth, rwy’n gobeithio, y bydd y Bil hwn yn helpu i’w gyflawni.

Finally, let me say this. The Welsh Government clearly needs to both understand and manage the market of care provision in a more proactive and intelligent way. I welcome initiatives such as the appointment and identification of a responsible person, although I recognise some of the weaknesses that have been outlined this afternoon. I also understand the demands of market analysis and market stability reports. Again, none of these analyses and none of these reports really matters unless the Government and regulators are prepared to act on the consequences of the information and analysis that the system delivers. It is the action that must be hardwired into this new system of regulation that I believe will be the true test of whether it succeeds or fails.

Yn olaf, gadewch imi ddweud hyn. Mae’n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru ddeall a rheoli’r farchnad darparu gofal mewn ffordd fwy rhagweithiol a deallus. Rwy’n croesawu mentrau fel penodi ac enwi person cyfrifol, er fy mod yn ymwybodol o rai o'r gwendidau sydd wedi eu hamlinellu y prynhawn yma. Rwyf hefyd yn deall gofynion dadansoddi’r farchnad ac adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad. Unwaith eto, nid yw'r un o'r dadansoddiadau hyn na’r un o'r adroddiadau hyn wir yn gwneud gwahaniaeth oni bai bod y Llywodraeth a rheoleiddwyr yn barod i weithredu ar ganlyniadau’r wybodaeth a'r dadansoddiadau y mae’r system yn eu darparu. Y camau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y system newydd hon o reoleiddio, yn fy marn i, fydd y gwir brawf o’i llwyddiant neu ei methiant.

17:35

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Speaking in last November’s Welsh Conservative debate on older people and residential care, I detailed some shocking examples of failings in the care system in north Wales. A daughter, whose father was left without pain control and crying out in pain, asked how did the Care and Social Services Inspectorate Wales, CSSIW, not see these things during their inspections, which she said were not patient focused? She told me that when they’d raised concerns with the protection of vulnerable adults team, POVA, and CSSIW, it took over two months for CSSIW to inspect—two months of residents possibly suffering further pain and neglect. She added that CSSIW are supposed to publish their reports online for the public to view, but 2012-13 reports were not put up until she rang and wrote to the inspectors, and the February 2014 report was only put online after CSSIW were contacted by ITV Wales. As she said, ‘What did they have to hide?’

Diolch. Wrth siarad yn nadl Ceidwadwyr Cymru fis Tachwedd diwethaf am bobl hŷn a gofal preswyl, fe wnes i roi manylion am rai enghreifftiau syfrdanol o fethiannau yn y system gofal yn y gogledd. Roedd merch, â’i thad wedi’i adael heb reolaeth poen ac yn gweiddi mewn poen, yn gofyn sut nad oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AGGCC, yn gweld y pethau hyn yn ystod eu harolygiadau, ac yn dweud nad oedd yr arolygiadau’n canolbwyntio ar gleifion. Dywedodd wrthyf, ar ôl iddynt godi pryderon gyda’r tîm amddiffyn oedolion agored i niwed, POVA, ac AGGCC, ei bod wedi cymryd dros ddau fis i AGGCC arolygu—dau fis o breswylwyr o bosibl yn dioddef mwy o boen ac esgeulustod. Ychwanegodd fod AGGCC i fod i gyhoeddi eu hadroddiadau ar-lein i’r cyhoedd eu gweld, ond na chafodd adroddiadau 2012-13 eu cyhoeddi tan iddi ffonio ac ysgrifennu at yr arolygwyr, ac ni chafodd adroddiad Chwefror 2014 ei roi ar-lein tan i ITV Cymru gysylltu ag AGGCC. Fel y dywedodd hi, 'Beth oedd ganddyn nhw i’w guddio?'

Findings by the CSSIW’s reports on this care home included failure by the registered person to make any suitable arrangements or measures to prevent people at the service being harmed or suffering abuse, or being placed at risk of harm or abuse, or to ensure that people working in the home were fit to do so. My constituent’s advocate added that dreadful things that were witnessed have still not been heard in the way they should’ve been, and actions that should’ve been taken immediately were not. The culture continues regardless of statements to the contrary.

Roedd canfyddiadau o adroddiadau AGGCC ar y cartref gofal hwn yn cynnwys methiant gan y person cofrestredig i wneud unrhyw drefniadau neu gymryd camau addas i atal pobl yn y gwasanaeth rhag cael niwed neu ddioddef cam-drin, neu gael eu rhoi mewn perygl o niwed neu gam-drin, ac i sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y cartref yn addas i wneud hynny. Ychwanegodd eiriolwr fy etholwr eu bod wedi gweld pethau erchyll nad oeddent wedi cael gwrandawiad priodol, ac nad oedd camau gweithredu wedi’u cymryd er y dylid bod wedi eu cymryd ar unwaith. Mae'r diwylliant yn parhau er gwaethaf datganiadau i'r gwrthwyneb.

Adult protection strategy meeting minutes for another resident recorded that she had hurt her arm and an ambulance had taken her to the hospital. However, the subsequent minutes recorded that she had passed away and that, when admitted to hospital, she actually had a urine infection, a chest infection and blood sugar levels off the scale. The constituent’s daughter there asked why, despite annual CSSIW inspections and social services and health reviews, it had taken a family member to raise their concerns before anything was done.

Roedd cofnodion cyfarfodydd strategaeth amddiffyn oedolion ar gyfer preswylydd arall yn nodi ei bod wedi brifo ei braich a bod ambiwlans wedi mynd â hi i'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd y cofnodion dilynol yn nodi ei bod wedi marw, ac, ar adeg ei derbyn i'r ysbyty, bod ganddi mewn gwirionedd haint troeth, haint ar y frest a lefelau siwgr gwaed oddi ar y raddfa. Gofynnodd merch yr etholwr yn y fan honno pam, er gwaethaf arolygiadau blynyddol AGGCC ac adolygiadau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, bod aelod o'r teulu wedi gorfod mynegi pryderon cyn i rywbeth gael ei wneud.

The independent sector, voluntary and private, provides the great majority of care in Wales. Care Forum Wales have said that:

'Radical reform of the planning and delivery of services is long overdue and we need to create a culture where the independent sector works in true partnership with public sector bodies.'

It added that:

'If we have that shift, we can achieve a great deal but if we don't I'm afraid we're going to fall short and this would be deeply disappointing for those requiring services.'

It's therefore concerning that the explanatory memorandum to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill details a continued hierarchical system, in denial of the mutual benefits that real co-production can bring. Because private and voluntary providers play a crucial role in social care, co-designing and co-delivering with them is about seeing everyone as equal partners in local services, not enabling the market to determine priorities. Co-producing public services with users and communities goes beyond models of service-user consultation to better delivery of health, social services and other services to an ageing population, to people facing illness and disability, to the economically inactive, and to those living in social isolation. As Co-production Wales says, the key issue is the genuinely transformative nature of co-production—not just a nice add-on but a new way of operating for Welsh Government as well as for public services, professionals and citizens themselves, sharing responsibility together.

In welcoming the Minister's announcement of new law to strengthen the regulation of inspection of social care, the chair of Care Forum Wales warned it won't work unless there is a fundamental change of culture to ensure everybody involved is working together in collaboration. He added that people in Wales are not working in partnership in the way that the Joseph Rowntree Foundation has shown in other parts of the UK makes a real difference in terms of efficiency of resources and quality of service delivery through relationship-centred care. As he concluded, if we don't fundamentally change the way we do business, if we don't fundamentally change the way we work collaboratively, and if we don't fundamentally value providers and their workforce and just hit them when it goes wrong, then, quite frankly, this will not make the progress and provide the framework that the Minister wants it to.

Y sector annibynnol, gwirfoddol a phreifat sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gofal yng Nghymru. Mae Fforwm Gofal Cymru wedi dweud:

Mae'n hen bryd cael diwygiad sylfaenol o'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau ac mae angen inni greu diwylliant lle mae'r sector annibynnol yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol gyda chyrff y sector cyhoeddus.'

Ychwanegodd:

Os cawn ni'r newid hwnnw, gallwn ni gyflawni llawer iawn, ond os na chawn ni, mae gen i ofn na fyddwn yn cyrraedd y nod a byddai hyn yn siomedig iawn i'r bobl hynny sydd ag angen gwasanaethau.'

Felly, mae'n destun pryder bod memorandwm esboniadol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi manylion system hierarchaidd barhaus, sy'n gwadu'r manteision y gall cyd-gynhyrchu gwirioneddol eu creu i'r ddwy ochr. Oherwydd bod darparwyr preifat a gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol ym maes gofal cymdeithasol, mae cyd-gynllunio a chyd-gyflwyno gyda hwy'n fater o weld pawb fel partneriaid cyfartal mewn gwasanaethau lleol, nid galluogi'r farchnad i bennu blaenoriaethau. Mae cyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus gyda defnyddwyr a chymunedau'n mynd y tu hwnt i fodelau o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu gwell gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac eraill i boblogaeth sy'n heneiddio, i bobl sy'n wynebu salwch ac anabledd, i bobl economaidd anweithgar, ac i bobl sy'n byw mewn arwahanrwydd cymdeithasol. Fel y dywed Cyd-gynhyrchu Cymru, y mater allweddol yw natur wirioneddol weddnewidiol cyd-gynhyrchu—nid dim ond ychwanegiad hwylus, ond ffordd newydd o weithredu i Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag i wasanaethau cyhoeddus, gweithwyr proffesiynol a dinasyddion eu hunain, gan rannu cyfrifoldeb gyda'n gilydd.

Wrth groesawu cyhoeddiad y Gweinidog o ddeddf newydd i gryfhau rheoleiddio arolygu gofal cymdeithasol, rhybuddiodd cadeirydd Fforwm Gofal Cymru na wnaiff hyn weithio heb newid diwylliant sylfaenol i sicrhau bod pawb dan sylw'n cydweithio gyda'i gilydd. Ychwanegodd nad yw pobl yng Nghymru'n gweithio mewn partneriaeth yn y ffordd y mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi dangos mewn rhannau eraill o'r DU ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran effeithlonrwydd adnoddau ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir â gofal sy'n canolbwyntio ar y berthynas. Fel y nododd yn ei gasgliad, os na wnawn ni newid yn sylfaenol y ffordd yr ydym yn cynnal busnes, os na wnawn newid yn sylfaenol y ffordd yr ydym yn gweithio ar y cyd, ac os na wnawn werthfawrogi darparwyr a'u gweithlu'n sylfaenol a dim ond eu taro pan aiff pethau o chwith, yna, a dweud y gwir, ni wnaiff hyn y cynnydd na darparu'r fframwaith yr hoffai'r Gweinidog iddo ei wneud.

17:40

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In general, I'm fully supporting the ambitions and principles of the Bill in helping to avoid vulnerable people being let down by the very services that should be protecting and supporting them. The committee's come up with 46 recommendations, as we've heard. This seems to suggest we're not happy with the Bill, but, in my opinion, that's not the case. The committee supports the principles of the Bill and what it's setting out to achieve: a stronger regulation and inspection of social care services, with an emphasis on a high-quality workforce to deliver high-quality care.

Yn gyffredinol, rwy'n llwyr gefnogi uchelgeisiau ac egwyddorion y Bil o ran helpu i osgoi sefyllfaoedd lle caiff pobl agored i niwed eu siomi gan yr union wasanaethau a ddylai eu gwarchod a'u cefnogi. Mae'r pwyllgor wedi llunio 46 o argymhellion, fel yr ydym wedi'i glywed. Ymddengys bod hyn yn awgrymu nad ydym yn hapus â'r Bil, ond, yn fy marn i, nid yw hynny'n wir. Mae'r pwyllgor yn cefnogi egwyddorion y Bil a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni: rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn modd cryfach, gyda phwyslais ar weithlu o safon uchel i ddarparu gofal o safon uchel.

On the issue of a high-quality workforce, the Bill does make specific reference to proper training and professional development for social workers and social care workers. Perhaps the Bill could also include, under regulations, a duty on employers to ensure that trained staff are employed on secure contracts and not, for example, offered posts on the basis of zero-hour contracts.

O ran gweithlu o safon uchel, mae'r Bil yn cyfeirio'n benodol at hyfforddiant a datblygiad proffesiynol priodol i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Efallai y gallai'r Bil hefyd gynnwys, o dan reoliadau, dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n cael eu cyflogi ar gontractau diogel ac nid, er enghraifft, yn cael cynnig swyddi ar gontractau dim oriau.

I want to draw the Senedd's attention to one or two of what I consider to be the key recommendations from the committee. The first is a requirement for service providers to have appropriate whistleblowing policies and procedures in place. It's absolutely essential that social care workers, for example, are given not just permission but encouragement to bring to the attention of a provider—whether it be a local authority, the private or third sector—what they in all honesty consider to be unprofessional and harmful practices. If this had been the case, then who knows? Some of the scandals in care homes that have been brought to light in this very Chamber today maybe could have been avoided.

Hoffwn dynnu sylw'r Senedd at un neu ddau o'r argymhellion gan y pwyllgor yr wyf yn eu hystyried yn allweddol. Y cyntaf yw gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau fod â pholisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban. Mae'n gwbl hanfodol bod gweithwyr gofal cymdeithasol, er enghraifft, yn cael nid dim ond caniatâd, ond anogaeth i dynnu sylw darparwr—boed yn awdurdod lleol, yn y sector preifat neu'r trydydd sector—at arferion y maent yn gwbl onest yn eu hystyried yn amhroffesiynol ac yn niweidiol. Pe byddai hyn wedi digwydd, pwy a ŵyr? Efallai y gellid bod wedi osgoi rhai o'r sgandalau mewn cartrefi gofal sydd wedi cael sylw yn yr union Siambr hon heddiw.

The second recommendation I want to highlight is a requirement for advocacy services to register with the Care and Social Services Inspectorate Wales. The importance of advocacy services was an issue that we in Plaid Cymru strongly argued for to be included in the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and I'm pleased to say it was indeed included.

Yr ail argymhelliad yr hoffwn dynnu sylw ato yw gofyniad i wasanaethau eirioli gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Roedd pwysigrwydd gwasanaethau eirioli'n fater y buom ni ym Mhlaid Cymru'n dadlau'n gryf o blaid ei gynnwys yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac rwy'n falch o ddweud ei fod yn wir wedi'i gynnwys.

The other recommendation that I want to strongly support refers to preventative services. I would argue that these should definitely be required to register with the key inspectorate body, the CSSI Wales. We know the Minister strongly supports the need to prevent people entering hospital or having to receive major treatment when they could be supported and cared for in the community. So, I suggest that the recommendation should not just ask the Minister to consider this step as an option, but that he should make it a requirement. I would add that reablement services should also need to register.

Mae'r argymhelliad arall yr hoffwn ei gefnogi'n gryf yn cyfeirio at wasanaethau ataliol. Byddwn yn dadlau y dylai fod yn bendant yn ofynnol i'r rhain gofrestru gyda'r corff arolygiaeth allweddol, sef AGGC Cymru. Rydym yn gwybod bod y Gweinidog yn cefnogi'n gryf yr angen i atal pobl rhag mynd i'r ysbyty neu orfod cael triniaeth fawr pan ellid eu cefnogi a gofalu amdanynt yn y gymuned. Felly, rwy'n awgrymu y dylai'r argymhelliad wneud mwy na gofyn i'r Gweinidog ystyried y cam hwn fel opsiwn; ond y dylai ei wneud yn ofyniad. Byddwn yn ychwanegu y dylai fod yn rhaid i wasanaethau ailalluogi gofrestru hefyd.

I’m particularly pleased that the Minister has stated that lay assessors will play a key role in assessing and inspecting services. Other submissions the committee have received relate to the impression that the Bill focuses on physical needs at the expense of the need for emotional care and support. The question of whether there will be adequate finances to implement the more stringent regulations and inspections, and perhaps even more important, the right of individuals to appeal against the decisions made by a local authority, is something that we in Plaid Cymru campaigned to be included in the Social Services and Well-being Act (Wales) 2014.

Rwy'n arbennig o falch bod y Gweinidog wedi datgan y bydd aseswyr lleyg yn chwarae rhan allweddol wrth asesu ac arolygu gwasanaethau. Mae’r pwyllgor wedi cael cyflwyniadau eraill yn ymwneud â'r argraff bod y Bil yn canolbwyntio ar anghenion corfforol ar draul yr angen am ofal a chymorth emosiynol. Mae'r cwestiwn a fydd cyllid digonol i roi’r rheoliadau a’r arolygiadau mwyaf llym ar waith, ac efallai’n bwysicach fyth, hawl unigolion i apelio yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol, yn rhywbeth y buom ni ym Mhlaid Cymru’n ymgyrchu i’w gynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

There are, of course, a number of important issues that will need to be resolved, possibly through some amendments, Minister, such as what form the rating system will take, the charging of fees to be registered, the sanctions to be applied for breaches of regulation and, above all, for health and social care organisations to work much more closely together—in our view, through perhaps a truly integrated health and social care organisation.

Wrth gwrs, bydd angen datrys nifer o faterion pwysig, o bosibl drwy gyfrwng rhai gwelliannau, Weinidog, fel beth fydd ffurf y system sgoriau, codi ffioedd am gofrestru, y cosbau a roddir am dorri rheoliadau ac, yn anad dim, i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n llawer agosach—yn ein barn ni, efallai drwy gyfrwng sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol gwirioneddol integredig.

So, finally, we can offer general support for the principles of the Bill, which aims to be implemented by April 2016, when shortly afterwards—and I use the word ‘we’—may we be back to monitor its progress. Thank you.

Felly, yn olaf, gallwn gynnig cefnogaeth gyffredinol i egwyddorion y Bil, sydd â'r nod o fod ar waith erbyn mis Ebrill 2016; yn fuan wedyn—a defnyddiaf y gair 'ni'—efallai y byddwn ni’n dychwelyd i fonitro ei gynnydd. Diolch.

17:44

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I begin by thanking the Minister for his opening statement, but also thanking the Chair of the Health and Social Care Committee for his leadership in scrutinising the Bill to date?

A gaf i ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad agoriadol, ond diolch hefyd i Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ei arweiniad wrth graffu ar y Bil hyd yn hyn?

As has been said by previous speakers, we will be supporting the principle of the Bill, i.e. to improve the system of regulation and inspection we have in social care, to raise standards, and make it fit for purpose. But I believe that there are a number of recommendations that have been brought forward by the committee that we would be looking to see included in the Bill at a later stage. The first of which is recommendation 4, and that is

Fel y dywedodd siaradwyr blaenorol, byddwn yn cefnogi egwyddor y Bil, sef gwella'r system o reoleiddio ac arolygu sydd gennym ym maes gofal cymdeithasol, i godi safonau, ac i’w gwneud yn addas i’w diben. Ond rwy'n credu bod y pwyllgor wedi cyflwyno nifer o argymhellion y byddem yn gobeithio eu gweld wedi’u cynnwys yn y Bil yn ddiweddarach. Y cyntaf o'r rhain yw argymhelliad 4, sef:

‘that the Minister for Health and Social Services brings forward amendments to require all those who exercise functions under the Bill to have due regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child, the United Nations Convention on the Rights of Disabled People, and the United Nations Principles for Older Persons.’

bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol bod pawb sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.'

As mentioned earlier by Alun Davies in his contribution, I think it’s absolutely important we have from the outset this overarching principle of a rights-based approach, and rights-based care. And I think that that message would be greatly enhanced if the Minister was to bring forward amendments in that regard.

Fel y soniodd Alun Davies yn ei gyfraniad yn gynharach, rwy’n credu ei bod yn holl bwysig bod gennym o'r cychwyn cyntaf yr egwyddor drosfwaol hon o ddull sy'n seiliedig ar hawliau, a gofal sy’n seiliedig ar hawliau. Ac rwy’n meddwl y byddai’r neges yn llawer gwell pe byddai'r Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yn hynny o beth.

If I could then turn to recommendation 9, and that relates, once again, to the comments that have been made by previous speakers with regard to lay inspectors. Now, like Lynne Neagle, I hear what the Minister says about not wanting to tie the hands of the regulator with regard to the use of lay inspectors, but the Minister is happy to tie the hands of the regulator in lots of other regards in this legislation. The issue is, if we see value in lay inspectors—and I personally see huge amounts of value in lay inspectors—then we should say so quite clearly that it is our expectation as legislators that that is included in the regime. As I said, we're willing to dictate in other aspects—why are we not willing to dictate with regard to the inclusion of lay inspectors? We either think they're a good thing or we don't, and if we do we should legislate to make it happen.

Os caf wedyn droi at argymhelliad 9, ac mae hwnnw'n ymwneud, unwaith eto, â'r sylwadau y mae siaradwyr blaenorol wedi'u gwneud ynglŷn ag arolygwyr lleyg. Nawr, fel Lynne Neagle, rwy'n clywed yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud am beidio â bod ag eisiau clymu dwylo'r rheoleiddiwr o ran defnyddio arolygwyr lleyg, ond mae'r Gweinidog yn hapus i glymu dwylo'r rheoleiddiwr mewn llawer o ffyrdd eraill yn y ddeddfwriaeth hon. Y pwynt yw, os ydym yn gweld gwerth i arolygwyr lleyg—ac rwyf fi'n bersonol yn gweld llawer iawn o werth mewn arolygwyr lleyg—dylem ddweud hynny'n eithaf clir mai ein disgwyliad fel deddfwyr yw bod hynny wedi'i gynnwys yn y gyfundrefn. Fel y dywedais, rydym yn barod i orchymyn mewn agweddau eraill—pam nad ydym ni'n barod i orchymyn ynglŷn â chynnwys arolygwyr lleyg? Naill ai rydym ni'n meddwl eu bod yn beth da neu nid ydym, ac os ydym, dylen ni ddeddfu i wneud i hynny ddigwydd.

If I could then turn to the issue of recommendation 38, and that is the requirement for the registration with Social Care Wales to include domiciliary care workers and adult residential care workers, I too believe that this is absolutely essential if we're to drive up quality, and if we are to change the dialogue around how we value these workers and this service in our community. The domiciliary care workers I meet want to do more, they're anxious to get better training—they see huge value in what they already do, but they also see the opportunities to do even more for the people whose homes they work in. They need a system around them that will support them to do that and actually will help create the step change in the industry about what we value and to look to employers to up rates of pay, up rates of training and to really potentially expand the work that these individuals can do.

Pe caf wedyn droi at argymhelliad 38, sef y gofyniad i weithwyr gofal cartref a gweithwyr gofal preswyl i oedolion gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rwyf finnau'n credu bod hyn yn gwbl hanfodol os ydym am wella ansawdd, ac os ydym am newid y ddeialog ynghylch sut yr ydym yn gwerthfawrogi'r gweithwyr hyn a'r gwasanaeth hwn yn ein cymuned. Mae'r gweithwyr gofal cartref yr wyf yn cwrdd â hwy eisiau gwneud mwy, maent yn awyddus i gael gwell hyfforddiant—maent yn gweld gwerth enfawr yn yr hyn y maent yn ei wneud eisoes, ond maent hefyd yn gweld y cyfleoedd i wneud mwy fyth i'r bobl y maent yn gweithio yn eu cartrefi. Mae angen system o'u hamgylch a fydd yn eu cynorthwyo i wneud hynny ac mewn gwirionedd yn helpu i greu'r newid sylweddol yn y diwydiant o ran yr hyn yr ydym yn ei werthfawrogi ac yn annog cyflogwyr i godi cyfraddau cyflog, i godi cyfraddau hyfforddiant ac yn wir o bosibl i ehangu'r gwaith y gall yr unigolion hyn ei wneud.

But the most important thing for me is the issue of recommendation 28 and the issue around commissioning, which has exercised me greatly. We are prepared to inspect the outcomes of commissioning but not the process of commissioning itself, and I was heartened to hear what the Minister said, that he's willing to look at this again. If local authorities get commissioning wrong, services will be wrong. We cannot expect services to be fantastic if the basic premise on which they've been commissioned has been fundamentally flawed. Therefore, we should require inspection of commissioning processes within local authorities. But recommendation 28 also refers to the health service, and the health service representatives that gave evidence to the committee recognised themselves that this is an aspect of their work that they are not questioned on, they're not quizzed on, and yet they are responsible for commissioning a huge number of beds within the residential care settings for people in Wales, and yet this is one aspect of their work that nobody ever asks them about.

Ond y peth pwysicaf i mi yw argymhelliad 28 a'r mater ynghylch comisiynu, sydd wedi fy mhoeni'n fawr. Rydym yn barod i archwilio canlyniadau comisiynu ond nid y broses gomisiynu ei hun, ac roedd yn galonogol imi glywed yr hyn a ddywedodd y Gweinidog, ei fod yn fodlon edrych ar hyn eto. Os bydd awdurdodau lleol yn comisiynu yn y modd anghywir, bydd gwasanaethau'n anghywir. Ni allwn ddisgwyl i wasanaethau fod yn wych os ydynt wedi'u comisiynu ar sail sylfaenol wallus. Felly, dylen ni ei gwneud yn ofynnol i brosesau comisiynu gael eu harolygu o fewn awdurdodau lleol. Ond mae argymhelliad 28 hefyd yn cyfeirio at y gwasanaeth iechyd, ac roedd cynrychiolwyr y gwasanaeth iechyd a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor yn cydnabod eu hunain bod hon yn agwedd ar eu gwaith nad ydynt yn cael eu holi amdani, nad ydynt yn cael eu profi arni, ac eto maent yn gyfrifol am gomisiynu nifer fawr o welyau o fewn y lleoliadau gofal preswyl ar gyfer pobl yng Nghymru, ac eto mae hon yn un agwedd ar eu gwaith nad oes neb byth yn gofyn iddynt amdani.

The Flynn report today makes some very clear recommendations about both health services and local authorities working together on commissioning to create a step change in the quality of services that are available. Whilst I note that the Minister said he was willing to look at that with regard to local authorities, I'm concerned about health services also. My other concern is that there is nothing currently to stop a local authority commissioner today handing out a multimillion pound contract and then working for that company by the end of the week. I have seen it happen with disastrous effect, and I believe we should use this opportunity to legislate to ensure that doesn't happen. The Minister couldn't do it, the Ministers in London couldn't do it. There is a cooling off period that is required because of those conflicts of interest, and, if it's good enough for those sectors, I believe it's good enough for this sector too.

Mae adroddiad Flynn heddiw'n gwneud rhai argymhellion clir iawn ynghylch gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol yn cydweithio ar gomisiynu i greu newid sylweddol i ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael. Er fy mod yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn barod i edrych ar hynny o safbwynt awdurdodau lleol, rwy'n pryderu am wasanaethau iechyd hefyd. Fy mhryder arall yw nad oes unrhyw beth ar hyn o bryd i atal comisiynydd awdurdod lleol heddiw rhag rhoi contract gwerth miliynau o bunnoedd ac yna bod yn gweithio i'r cwmni hwnnw erbyn diwedd yr wythnos. Rwyf wedi gweld hyn yn digwydd gydag effaith drychinebus, ac rwy'n credu y dylem ddefnyddio'r cyfle hwn i ddeddfu i sicrhau nad yw hynny'n digwydd. Ni allai'r Gweinidog wneud hynny, ni allai'r Gweinidogion yn Llundain wneud hynny. Mae angen cyfnod ar gyfer ailfeddwl oherwydd y gwrthdaro buddiannau hyn, ac, os yw'n ddigon da i'r sectorau hynny, rwy'n credu ei fod yn ddigon da i'r sector hwn hefyd.

17:50 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

17:50 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Chair, and thanks to everyone who has taken part in what I think has been a very interesting and fruitful debate.

Diolch, Gadeirydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon; rwy'n meddwl ei bod wedi bod yn ddiddorol a ffrwythlon iawn.

It's entirely a matter of chance rather than design, but, in this final week of the Assembly before the summer break, we have ended up talking both about the Flynn report and Stage 1 of the regulation and inspection Bill, but I think having them on the same day has thrown this Bill into very sharp relief and demonstrated its importance in a way that, maybe, we otherwise would not have done.

Mater o lwc llwyr ydyw yn hytrach na bwriad, ond, yn wythnos olaf y Cynulliad cyn toriad yr haf, rydym wedi dod i siarad am adroddiad Flynn a Chyfnod 1 y Bil rheoleiddio ac arolygu, ond rwy'n meddwl bod eu cael ar yr un diwrnod wedi amlygu'r Bil hwn yn glir iawn ac wedi dangos ei bwysigrwydd mewn ffordd na fyddem, efallai, wedi'i wneud fel arall.

I thought Alun Davies got to the heart of a lot of what the Bill is about when he asked, 'How is it possible to regulate to create humanity?' And the answer is, of course, that you can't. Regulation, by itself, cannot do that and regulation is a series of balancing acts between a focus on those task-based things, which are very important to people—how many years ago in this Assembly did people debate the need to make sure that a door was wide enough to allow a wheelchair user to get through? Without some attention to those things, you can't get a culture of care. But how do you balance that with a focus on outcomes for people and what matters for people for their own welfare? How do you balance a need for proper collaboration between players in the field for improvement without that collaboration turning into collusion? How do you make sure that you've got the analysis you need without having paralysis of analysis that stops you from taking action on the basis of it? I think the Bill attempts to balance those and a series of other things in order to create the culture that Alun talked about.

Roeddwn yn meddwl bod Alun Davies wedi mynd at wraidd llawer o'r hyn y mae'r Bil yn ymwneud ag ef wrth ofyn, 'Sut y mae'n bosibl rheoleiddio i greu dyngarwch?' A'r ateb yw, wrth gwrs, nad yw'n bosibl. All rheoleiddio, ei hun, ddim gwneud hynny ac mae rheoleiddio'n gyfres o agweddau cydbwyso rhwng pwyslais ar y pethau hynny sy'n seiliedig ar dasgau, sy'n bwysig iawn i bobl—faint o flynyddoedd yn ôl yn y Cynulliad hwn yr oedd pobl yn trafod yr angen i wneud yn siŵr bod y drws yn ddigon llydan i ganiatáu i ddefnyddiwr cadair olwyn fynd drwyddo? Heb rywfaint o sylw i'r pethau hynny, allwch chi ddim cael diwylliant gofal. Ond sut yr ydych chi'n cydbwyso hynny gyda phwyslais ar ganlyniadau i bobl a'r hyn sy'n bwysig i bobl er eu lles eu hunain? Sut yr ydych chi'n cydbwyso angen am gydweithio priodol rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn y maes i wella heb i'r cydweithio hwnnw droi'n gydgynllwynio? Sut yr ydych chi'n gwneud yn siŵr eich bod wedi cael y dadansoddiad sydd ei angen arnoch heb gael parlys dadansoddi sy'n eich atal rhag cymryd camau yn seiliedig arno? Rwy'n meddwl bod y Bil yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rheini a chyfres o bethau eraill er mwyn creu'r diwylliant roedd Alun yn sôn amdano.

He said something as well about making sure that we have people regulated where we need them to be regulated, but, as he and others here will know, in Winterbourne View, which was Margaret Flynn's first major report, there were people there who were regulated, and all the staff in Tawel Fan were regulated. Regulating the profession, by itself, does not guarantee the outcomes that we are looking for, but I've heard what people have said, of course, this afternoon.

Dywedodd rywbeth hefyd ynglŷn â sicrhau ein bod yn rheoleiddio pobl yn lle mae angen eu rheoleiddio nhw, ond, fel y bydd ef ac eraill yma'n ei wybod, yn Winterbourne View, sef adroddiad mawr cyntaf Margaret Flynn, roedd pobl yno a oedd yn cael eu rheoleiddio, ac roedd holl staff Tawel Fan yn cael eu rheoleiddio. Nid yw rheoleiddio'r proffesiwn, ynddo'i hun, yn gwarantu'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, ond rwyf wedi clywed beth mae pobl wedi'i ddweud, wrth gwrs, y prynhawn yma.

He mentioned as well, as have others, the business of lay assessors, and I do intend to bring forward an amendment at Stage 2 on the business of public involvement in the assessment process, which I think is just slightly different to what, sometimes, people mean by 'lay assessors'. I am not attracted to the idea of creating a cadre of professional lay people. I am in favour of making sure that the inspection process always has, involved at the heart of it, members of the public who see with fresh eyes things that other people have stopped seeing because they are there every day, and day in, day out. So, greater public involvement in the assessment process, quite certainly, I want to do more on that.

Soniodd hefyd, fel y gwnaeth eraill, am y busnes o aseswyr lleyg, ac rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 ynglŷn â'r busnes o gynnwys y cyhoedd yn y broses asesu, ac rwy'n meddwl bod hynny ychydig bach yn wahanol i'r hyn, weithiau, y mae pobl yn ei olygu wrth 'aseswyr lleyg'. Nid yw'r syniad o greu cnewyllyn o bobl leyg broffesiynol yn apelio ataf. Rwyf o blaid sicrhau bod y broses arolygu bob amser yn ymwneud yn gryf ag aelodau o'r cyhoedd sy'n gweld gyda llygaid ffres yr hyn nad yw pobl eraill yn ei weld mwyach oherwydd eu bod yno bob dydd, ddydd ar ôl dydd. Felly, mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yn y broses asesu, yn gwbl bendant, hoffwn wneud mwy ar hynny.

Can I very briefly turn to the three chairs of committees who've spoken in the debate and thank them, once again, for the work that they have done in helping to improve the Bill already? I can give David Rees an assurance that all those recommendations that the health committee have made asking for further information and written responses, we will accept all of those recommendations. We will set out a detailed written response to all the recommendations and we will certainly set out how we see the Bill responding to the recommendations of the Flynn review.

A gaf fi droi'n fyr iawn at y tri chadeirydd pwyllgor sydd wedi siarad yn y ddadl a diolch iddynt, unwaith eto, am y gwaith y maent eisoes wedi'i wneud i helpu i wella'r Bil? Gallaf sicrhau David Rees bod yr holl argymhellion y mae'r pwyllgor iechyd wedi'u gwneud sy'n gofyn am fwy o wybodaeth ac ymatebion ysgrifenedig, byddwn yn derbyn pob un o'r argymhellion hynny. Byddwn yn rhoi ymateb ysgrifenedig manwl i'r holl argymhellion a byddwn yn bendant yn nodi sut yr ydym yn gweld y Bil yn ymateb i argymhellion adolygiad Flynn.

I was grateful for what Jocelyn Davies said about the Finance Committee's view that a five-year horizon is a sensible horizon against which to try and set out costs and benefits. Other people here may not be as close to the detail of the Bill as her committee became. Protection of title and prohibition orders are included in the Bill because the Law Commission very firmly recommended to us that we ought to take this opportunity to include them; we have no policy intention to use those powers, but we do include, within the Bill, a commitment that, if we ever did, it would have to be through regulations made under the affirmative procedure when a regulatory impact assessment would be part of what we would provide.

Rwy'n ddiolchgar am yr hyn a ddywedodd Jocelyn Davies am farn y Pwyllgor Cyllid fod gorwel pum mlynedd yn orwel synhwyrol i geisio amlinellu costau a buddiannau yn ei erbyn. Efallai na fydd pobl eraill yma mor agos at fanylion y Bil ag y daeth ei phwyllgor hi. Mae gorchmynion diogelu teitl a gwahardd wedi'u cynnwys yn y Bil gan fod Comisiwn y Gyfraith wedi argymell yn gadarn iawn inni y dylem gymryd y cyfle hwn i'w cynnwys; nid oes gennym unrhyw fwriad polisi i ddefnyddio'r pwerau hynny, ond rydym yn cynnwys, yn y Bil, ymrwymiad, pe byddem unrhyw bryd yn gwneud hynny, y byddai'n rhaid i hynny fod drwy reoliadau wedi'u gwneud dan y weithdrefn gadarnhaol lle byddai asesiad o effaith rheoleiddiol yn rhan o'r hyn y byddem yn ei ddarparu.

Can I thank David Melding for what he said on the information that's been provided on the first recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee report? I know the recommendation asks that I should set that out in the debate this afternoon, but I felt the pressure of time meant it was better to set it out in a letter, which I provided to the committee. And, of course, as David Melding said, there will be further exploration of any outstanding recommendations as the Bill proceeds. Lindsay Whittle and others set out, I thought very usefully for the debate, a long list of other things that this Bill includes and that are important. Professional development is the responsibility of Social Care Wales, as we will create it—a responsibility that extends to all social care workers, registered or not. And there will be more to say, as the Bill proceeds, on zero hours, on whistleblowing, and on advocacy and reablement.

Hoffwn ddiolch i David Melding am yr hyn a ddywedodd am y wybodaeth sydd wedi ei darparu am argymhelliad cyntaf adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rwy'n gwybod bod yr argymhelliad yn gofyn imi nodi hynny yn y ddadl y prynhawn yma, ond roeddwn yn teimlo bod pwysau amser yn golygu ei bod yn well ei roi mewn llythyr, ac rwyf wedi rhoi hwnnw i'r pwyllgor. Ac, wrth gwrs, fel y dywedodd David Melding, caiff unrhyw argymhellion eraill eu harchwilio ymhellach wrth i'r Bil fynd rhagddo. Nododd Lindsay Whittle ac eraill, yn ddefnyddiol iawn i'r ddadl yn fy marn i, restr faith o bethau eraill y mae'r Bil hwn yn eu cynnwys ac sy'n bwysig. Mae datblygiad proffesiynol yn gyfrifoldeb i Ofal Cymdeithasol Cymru, fel y byddwn yn ei greu—cyfrifoldeb sy'n ymestyn i bob gweithiwr gofal cymdeithasol, pa un a yw wedi'i gofrestru ai peidio. A bydd mwy i'w ddweud, wrth i'r Bil fynd rhagddo, am gontractau dim oriau, am chwythu'r chwiban, ac am eiriolaeth ac ail-alluogi.

Let me just return, to close, to the point that Kirsty Williams raised at the very end, which Altaf Hussain raised earlier. I have followed very carefully the evidence that the health committee has taken on commissioning. As I said in my opening speech, I think it's one of the places where its Stage 1 scrutiny will make a real difference to the Bill. I'm persuaded by lots of the things that the committee has heard about the need to strengthen the Bill in that regard. If it receives the go-ahead by the Assembly today, I look forward to being able to bring forward amendments at Stage 2 to strengthen the Bill in the way that the committee has suggested.

Gadewch imi ddychwelyd, i gau, at y pwynt olaf un a gododd Kirsty Williams, ac a gododd Altaf Hussain yn gynharach. Rwyf wedi dilyn yn ofalus iawn y dystiolaeth y mae'r pwyllgor iechyd wedi'i chael am gomisiynu. Fel y dywedais yn fy araith agoriadol, rwy'n meddwl mai dyna un o'r mannau lle y bydd y craffu Cyfnod 1 yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r Bil. Rwyf wedi fy narbwyllo gan lawer o'r pethau y mae'r pwyllgor wedi'u clywed ynglŷn â'r angen i gryfhau'r Bil yn hynny o beth. Os caiff y golau gwyrdd gan y Cynulliad heddiw, edrychaf ymlaen at allu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r Bil yn y ffordd y mae'r pwyllgor wedi'i awgrymu.

17:56

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:56.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:56.*

17:56

# 8. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

# 8. Debate on the Financial Resolution of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 8, which is a debate on the financial resolution of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I call the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Symudwn yn awr at eitem 8, sef dadl am y penderfyniad ariannol am y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5815 Jane Hutt

Motion NDM5815 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:56 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

17:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The proposal then is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig felly yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The next item is voting time.

Yr eitem nesaf yw amser pleidleisio.

17:57

## 9. Cyfnod Pleidleisio

## 9. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish the bell to be rung? There are not. So, we are voting on the debate on the first supplementary budget. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There were no votes against. There were 16 abstentions. Therefore, the motion is agreed.

Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes. Felly, rydym yn pleidleisio ar y ddadl am y gyllideb atodol gyntaf. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Gwnaeth 16 ymatal. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 0, Ymatal 16.*

*Motion agreed: For 34, Against 0, Abstain 16.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5798

Result of the vote on motion NDM5798

17:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Care and Support (Eligibility) (Wales) Regulations 2015. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against five. There were 11 abstentions. Therefore, the regulations are approved.

Pleidleisiwn yn awr ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd pump yn erbyn. Gwnaeth 11 ymatal. Felly, mae'r rheoliadau wedi'u cymeradwyo.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 5, Ymatal 11.*

*Motion agreed: For 34, Against 5, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5813

Result of the vote on motion NDM5813

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business. Thank you.

Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:58.*

*The meeting ended at 17:58.*